



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 20 Hydref 2009  
Tuesday, 20 October 2009**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |    |  |
|----|--|
| 3  | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister  |
| 34 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement  |
| 38 | Datganiad am Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed<br>Statement on Safeguarding Children and Vulnerable Adults  |
| 51 | Datganiad Deddfwriaethol am Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010<br>Legislative Statement on the Proposed National Assembly for Wales (Legislative<br>Competence) (Education) Order 2010 |
| 67 | Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch<br>(Cymru)<br>Legislative Statement on the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure  |
| 76 | Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau<br>(Cymru) 2009<br>Motion to Approve the Pre-release Access to Official Statistics (Wales) Order 2009  |
| 79 | Y Gyllideb Atodol<br>The Supplementary Budget  |
| 86 | Cartrefi mewn Parciau<br>Park Homes  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)2326(FM), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)2326(FM), has been withdrawn.

#### **A New Prison in North Wales**

**Q2 Brynle Williams:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's support for a new prison in north Wales? OAQ(3)2320(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The Minister for Social Justice and Local Government, Brian Gibbons, has written to the UK Minister for prisons, Maria Eagle, seeking an early meeting to discuss the withdrawal of plans for the Griffiths Crossing site at Caernarfon and the plans to identify quickly an alternative site for an additional prison in Wales—north Wales in particular—which everyone agrees is needed.

**Brynle Williams:** A prison is badly needed, not just for offenders but also for the jobs that would be created. Given the major job losses that we are currently seeing in Wales, it is important that we get a 100 per cent commitment from you that this will go ahead in north Wales. We are haemorrhaging jobs at an alarming rate in north Wales, so I would hope that you would give us your full commitment.

**The First Minister:** It is, indeed, sad that a dispute over disclosure of the remediation costs of the Griffiths Crossing site at Caernarfon led to the Ministry of Justice withdrawing its decision, although the decision was subject to all those conditions on disclosure and so forth being met. Where does the Ministry of Justice go now? It has a shortlist, which includes sites in north and

#### **Carchar Newydd yn y Gogledd**

**C2 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer carchar newydd yng ngogledd Cymru? OAQ(3)2320(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Brian Gibbons, wedi ysgrifennu at Weinidog y DU dros Garchardai, Maria Eagle, i geisio trefnu cyfarfod yn fuan i drafod y ffaith bod y cynlluniau ar gyfer safle Griffiths Crossing yng Nghaernarfon wedi'u tynnu'n ôl, yn ogystal â'r cynlluniau i fynd ati'n ddiymdroi i ddod o hyd i safle arall ar gyfer carchar ychwanegol yng Nghymru—gogledd Cymru'n benodol—carchar y mae ei angen ym marn pawb.

**Brynle Williams:** Ceir dirfawr angen am garchar, nid yn unig ar gyfer troseddswyr, ond i greu swyddi. Gan fod nifer helaeth o swyddi'n cael eu colli ar hyn o bryd yng Nghymru, mae'n bwysig inni gael gwybod eich bod wedi ymrwymo 100 y cant i weld hyn yn mynd rhagddo yn y gogledd. Mae swyddi'n diflannu ar raddfa ddifrifol yn y gogledd, felly byddwn yn gobeithio y byddech yn rhoi eich ymrwymiad llwyr inni.

**Y Prif Weinidog:** Yn wir, mae'n drist bod dadl ynghylch datgelu'r costau adfer yng nghyswllt safle Griffiths Crossing yng Nghaernarfon wedi gwneud i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder dynnu ei phenderfyniad yn ôl, er bod y penderfyniad yn amodol ar fodloni'r holl amodau hynny ynghylch datgelu ac yn y blaen. Ble'r aiff y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awr? Mae ganddi restr fer, sy'n cynnwys

south Wales. The site that it is looking for now is larger than was previously the case, as it is looking to build a 1,500-place prison rather than an 800-place prison. That may restrict the choice of sites, but we hope that this issue can be brought to an early conclusion. We are assisting the Ministry of Justice by providing advice on sites, although it is its decision in the end.

**Janet Ryder:** We must consider the effect on prisoners' families when prisoners are located way out of their home areas, particularly those from north Wales and women in the penal service. You have talked about a 1,500-place prison, but can you give any indication as to whether the Ministry of Justice is now considering a Titan-style prison? In addition, what timescale is now being applied to this issue? When will we know what decision has been made? Families are suffering and they, along with those in prison, are being made to pay the price.

**The First Minister:** Good rehabilitation practice would involve families being able to visit prisoners, as that assists them in re-adapting to civilian, normal life on the outside when their sentence is over. If they cannot do that, the situation is much more stark when they leave prison. The fact that there is no prison in north Wales means that north Wales must be at the top of the list of priorities. The issue of women prisoners is different, because there is no women's prison anywhere in Wales. Whether a female wing should be included in any new prison, based on the model used in Peterborough, is a matter for the Ministry of Justice. I will check up on that and write to you. The Ministry of Justice is now proposing a much larger prison than the one that was planned for Griffiths Crossing, Caernarfon, but it is not a Titan prison. Titan prisons are designed to hold 2,500 prisoners, and the Ministry of Justice is now talking of a 1,500-place prison—that is twice as big as before, but not four times as big.

safleoedd yn y gogledd a'r de. Mae'r safle y mae'n chwilio amdano yn awr yn fwy na'r safleoedd blaenorol, gan ei bod yn bwriadu adeiladu carchar i ddal 1,500 yn hytrach nag 800. Efallai y bydd hynny'n cyfyngu'r dewis o safleoedd, ond gobeithiwn y gellir cau pen y mwdwl ar y mater hwn yn fuan. Yr ydym yn cynorthwyo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy roi cyngor ar safleoedd, er mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn penderfynu yn y pen draw.

**Janet Ryder:** Rhaid inni ystyried yr effaith ar deuluoedd carcharorion pan gaiff carcharorion eu hanfon yn bell o'u cartrefi, yn enwedig y rhai o'r gogledd a menywod sydd yn y gwasanaeth carchardai. Yr ydych wedi sôn am garchar sy'n dal 1,500, ond a allwch roi unrhyw syniad inni a yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awr yn ystyried carchar Titan? Yn ogystal, beth yw'r amserlen ar gyfer y mater hwn yn awr? Pryd y byddwn yn gwybod beth a benderfynwyd? Mae teuluoedd yn dioddef ac maent hwy, yn ogystal â'r rhai sydd yn y carchar, yn cael eu gorfodi i dalu'r pris.

**Y Prif Weinidog:** Byddai arferion adsefydlu da yn cynnwys teuluoedd yn gallu ymweld â charcharorion, gan fod hynny'n eu cynorthwyo i ailymaddasu i fywyd bob dydd fel dinasyddion pan gânt eu rhyddhau wedi i'w dedfryd ddod i ben. Oni allant wneud hynny, mae'r sefyllfa'n fwy llwm o lawer pan fyddant yn gadael y carchar. Mae'r ffaith nad oes carchar yn y gogledd yn golygu bod yn rhaid i'r gogledd fod ar frig y rhestr flaenoriaethau. Mae mater carcharorion sy'n fenywod yn wahanol, gan nad oes carchar i fenywod yn unman yng Nghymru. Mater i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw penderfynu a ddylid cael adain ar gyfer menywod mewn unrhyw garchar newydd, yn seiliedig ar y model a ddefnyddir yn Peterborough. Holaf ynghylch hynny ac ysgrifennaf atoch. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awr yn bwriadu cael carchar mwy o lawer na'r un a fwriadwyd ar gyfer Griffiths Crossing, Caernarfon, ond nid yw'n garchar Titan. Mae carchardai Titan wedi'u cynllunio i ddal 2,500 o garcharorion, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sôn yn awr am garchar sydd â 1,500 o leoedd—mae hynny'n gymaint ddwywaith ag o'r blaen, ond nid yn gymaint bedair gwaith.

**Lesley Griffiths:** First Minister, the Communities and Culture Committee is currently conducting an inquiry into the youth justice system. While custody for children and young people should be a last resort, I believe that it is undesirable for Welsh children and young people to be in custody in England, mainly for the reason that Janet Ryder referred to, which is that it is proven that maintaining contact with their family while in custody significantly reduces the risk of reoffending. Will you make representations to the Ministry of Justice to emphasise the need for further places in the secure estate for young people in Wales?

**The First Minister:** Another definition of good rehabilitation is low reoffending rates. I am referring to people who have returned to normal life on the outside, found a job, settled down and do not want to repeat their prison experience—they have gone straight. That is the idea. Contact with family during the period of incarceration is essential to that. We are all agreed on that point. It is particularly applicable to people in the 16 to 19 age group, who would attend a young offenders institution. There is no such provision in north Wales, so girls or young men have to go to prisons, such as Risley, over the border. Trying to stop that happening in order to steer people back to a normal life and back on the straight and narrow must be the basis of a sensible strategy.

#### Higher Education Institutions

**Q3 The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for higher education institutions in Wales? OAQ(3)2329(FM)

**C7 Nerys Evans:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllido addysg uwch yng Nghymru? OAQ(3)2330(FM)

**The First Minister:** We are making a series of strategic investments in higher education. We have invested £23.5 million in the £40 million-plus Aberystwyth University Institute of Biological, Environmental and Rural

**Lesley Griffiths:** Brif Weinidog, mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wrthi'n cynnal ymchwiliad i'r system cyfiawnder ieuenctid ar hyn o bryd. Er mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid cadw plant a phobl ifanc dan glo, nid wyf yn meddwl y dylai plant a phobl ifanc o Gymru fod dan glo yn Lloegr, yn bennaf am y rheswm y cyfeiriodd Janet Ryder ato, sef bod tystiolaeth yn dangos bod cyswllt â'u teuluoedd tra maent dan glo yn lleihau'n fawr y perygl y byddant yn aildroseddu. A gyflwynwch sylwadau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i bwysleisio'r angen am ragor o leoedd yn yr ystâd ddiogeledd i bobl ifanc yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae lefelau aildroseddu isel yn ddiffiniad arall o adsefydlu da. Cyfeirio yr wyf at bobl sydd wedi ailafael mewn bywyd arferol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, wedi dod o hyd i swydd ac wedi setlo, ac nid ydynt am ail-fyw'r profiad o fod yn y carchar—pobl sydd yn ôl ar y llwybr cul. Dyna'r syniad. Mae cyswllt â'r teulu yn ystod y cyfnod dan glo yn hanfodol ar gyfer hynny. Mae pawb ohonom yn gytûn ar hynny. Mae'n arbennig o berthnasol i'r rhai sydd yn y grŵp oedran 16 i 19, a fyddai'n mynd i sefydliad troseddwr ifanc. Nid oes darpariaeth o'r fath yn y gogledd, felly mae'n rhaid i ferched neu ddynion ifanc fynd i garchardai, megis Risley, dros y ffin. Rhaid i strategaeth synhwyrol fod yn seiliedig ar geisio atal hynny rhag digwydd er mwyn llywio pobl yn ôl at fywyd cyffredin ac ar y llwybr cul.

#### Sefydliadau Addysg Uwch

**C3 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru? OAQ(3)2329(FM)

**Q7 Nerys Evans:** Will the First Minister make a statement on funding for higher education in Wales? OAQ(3)2330(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cyfres o fuddsoddiadau strategol ym maes addysg uwch. Yr ydym wedi buddsoddi £23.5 miliwn yn Sefydliad y Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig ym

Sciences. We announced £15 million for the £37 million Leonardo Da Vinci project in Bangor. A month or so ago, £29 million was announced for phase 2 of the Institute of Life Science in Swansea. All of these are creating a new culture within the higher education sector, in which spin-offs and spin-outs and the impact on the economy form part of the strategy.

**Nick Bourne:** I thank the First Minister for that response. I want to probe the annual university investment funding and the gap between Wales and England. He will know that, historically, there has been a gap. Indeed, in the second Assembly, we had frequent budget meetings to discuss how the gap could be bridged. It was then running at £22 million and, according to the most recently published figures, which were the figures for 2006-07, it is now running at £66 million. What is the Welsh Assembly Government doing to bridge this widening gap?

**The First Minister:** You are asking about investment funding, and I have given you three examples, but I could have given you many more. This is happening on a scale that the Welsh university sector has not seen before. Prior to the last 10 years, the sector did not see £20 million, £30 million, £40 million or £50 million invested in the ideas that are there to change the culture of Welsh universities so that they are not just teachers of higher education, but provide a real stimulus to the economy. It is true that the reliance of Welsh universities on the public purse via their annual core grant funding from the Higher Education Funding Council for Wales is greater, by a factor of 3 per cent, than that of English universities on their funding from the Higher Education Funding Council for England. We could solve this problem by getting Welsh universities to gain more research council income through raising their game, especially those older universities that should be doing much more to get this funding. This is one of the reasons for our trying to stimulate them to change their culture.

**Nick Bourne:** The First Minister is honest enough to admit that there is a funding gap; I

Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n werth £40 miliwn a mwy. Cyhoeddassom £15 miliwn ar gyfer prosiect Leonardo Da Vinci ym Mangor sy'n werth £37 miliwn. Tua mis yn ôl, cyhoeddwyd £29 miliwn ar gyfer cam 2 Athrofa Gwyddor Bywyd Abertawe. Mae'r rhain oll yn creu diwylliant newydd yn y sector addysg uwch, lle y mae'r hyn a allai ddeillio o hynny a datblygu yn sgîl hynny a'r effaith ar yr economi yn rhan o'r strategaeth.

**Nick Bourne:** Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Mae arnaf eisiau holi am y cyllid buddsoddi blynyddol ar gyfer prifysgolion ac am y bwlch rhwng Cymru a Lloegr. Bydd yn gwybod bod bwlch wedi bod, yn hanesyddol. Yn wir, yn yr ail Gynulliad, caem gyfarfodydd rheolaidd am y gyllideb i drafod sut y gellid lleihau'r bwlch. Yr oedd y bwlch bryd hynny'n £22 miliwn ac, yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd, sef y ffigurau ar gyfer 2006-07, mae bellach yn £66 miliwn. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau'r bwlch hwn sy'n tyfu?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn holi am gyllid buddsoddi, ac yr wyf wedi rhoi tair enghraifft ichi, ond byddwn wedi gallu rhoi mwy o lawer. Mae hyn yn digwydd ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen gan sector prifysgolion Cymru. Cyn y 10 mlynedd diwethaf, ni welodd y sector £20 miliwn, £30 miliwn, £40 miliwn na £50 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn syniadau i newid diwylliant prifysgolion Cymru er mwyn iddynt fod yn fwy na dim ond darparwyr addysg uwch, ond hefyd yn hwb gwirioneddol i'r economi. Mae'n wir bod dibyniaeth prifysgolion Cymru ar y pwrs cyhoeddus, drwy'r arian grant craidd a gânt yn flynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 3 y cant yn fwy na dibyniaeth prifysgolion Lloegr ar gyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Gallem ddatrys y broblem hon drwy annog prifysgolion Cymru i ennill mwy o incwm gan y cyngor ymchwil drwy wella'u perfformiad, yn enwedig y prifysgolion hŷn hynny a ddylai fod yn gwneud mwy o lawer i gael y cyllid hwn. Mae hyn yn un o'r rhesymau pam yr ydym yn ceisio'u hysgogi i newid eu diwylliant.

**Nick Bourne:** Mae'r Prif Weinidog yn ddigon gonest i gyfaddef bod bwlch cyllido;

think that he acknowledges that fact. However, the HEFCW research shows that there is a funding gap not just between Wales and England, which is considerable, but that there is an almost 50 per cent gap in relation to Scottish students. The amount spent per Welsh student is £5,450, while the amount spent per Scottish student is £8,040. I appreciate what the First Minister said about research income, but that position will not change overnight. There is a funding gap that is increasing year on year. It has been referred to by the Welsh Affairs Committee, which states that if we are not careful, higher education institutions in Wales will become unable to compete effectively with institutions elsewhere in the United Kingdom and in other European Union nations, and that this would limit the contribution to growing the economy in Wales. That is the concern. We are seeing a downward spiral and nothing that is happening at the moment will arrest that. What is the First Minister doing about this very real problem?

**The First Minister:** I agree with the sentiments, but you draw a conclusion that is the opposite of mine. You ask what we can do to help institutions to compete and, while that is absolutely the right question to ask, the answer is the answer that I gave earlier: we are helping them to compete by setting up world-class establishments that have real clout.

1.40 p.m.

That is why there is that £40 million centre in Aberystwyth. Aberystwyth has never had £40 million of investment in anything before. It is likewise in Swansea with the Institute of Life Science mark 1 receiving £50 million, and now the second one getting £29 million. Swansea has never had investment like that before. It is the same with the Low Carbon Research Institute, which spans all the Welsh universities, although its centre is in Cardiff. That is receiving £34 million, £15 million of which we are providing. That is to help them to compete and to draw in world-class staff. New staff are now being appointed: the man from Imperial College London has come down to head up the Low Carbon Research Institute. We never used to get professors from Cambridge, Imperial or Oxford coming

credaf ei fod yn cydnabod y ffaith honno. Fodd bynnag, dengys ymchwil CCAUC fod bwlech cyllido nid yn unig rhwng Cymru a Lloegr, sy'n sylweddol, ond bod bwlech o bron 50 y cant yng nghyswllt myfyrwyr yr Alban. Gwerir £5,450 ar bob myfyriwr o Gymru, ond gwerir £8,040 y pen ar fyfyrwyr yr Alban. Yr wyf yn deall yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am incwm ymchwil, ond ni ellir newid y sefyllfa honno dros nos. Ceir bwlech cyllido sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cyfeirio ato, gan ddweud na fydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gallu cystadlu'n effeithiol â sefydliadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yng nghenedloedd eraill yr Undeb Ewropeaidd oni fyddwn yn ofalus, ac y byddai hyn yn cyfyngu eu cyfraniad at beri i'r economi dyfu yng Nghymru. Dyna'r pryder. Mae pethau'n gwaethygu ac nid oes dim yn digwydd ar hyn o bryd i rwystro hynny. Beth y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud ynghylch y broblem ddwys hon?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedwch ond down i gasgliadau cwbl wahanol. Yr ydych yn holi beth y gallwn ei wneud i gynorthwyo sefydliadau i gystadlu, ac er bod y cwestiwn hwnnw'n sicr yn gywir, yr un yw'r ateb â hwnnw a roddais yn gynharach: yr ydym yn eu cynorthwyo i gystadlu drwy sefydlu sefydliadau o'r radd flaenaf sy'n ddylanwadol iawn.

Dyna pam y mae'r ganolfan honno yn Aberystwyth sy'n werth £40 miliwn. Nid yw Aberystwyth erioed wedi cael gwerth £40 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer dim o'r blaen. Mae'r un peth yn wir am Abertawe. Cafodd yr Athrofa Gwyddor Bywyd gyntaf £50 miliwn, ac yn awr mae'r ail yn cael £29 miliwn. Nid yw Abertawe erioed wedi gweld buddsoddiad tebyg o'r blaen. Mae'r un peth yn wir am y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, sy'n cwmpasu holl brifysgolion Cymru er mai yng Nghaerdydd y mae ei ganolfan. Mae hwnnw'n cael £34 miliwn, ac mae £15 miliwn o hwnnw'n dod gennym ni. Diben hynny yw eu cynorthwyo i gystadlu ac i ddenu staff sydd ymhlith y gorau yn y byd. Mae staff newydd yn cael eu penodi'n awr: mae'r gŵr o Goleg Imperial Llundain bellach

to work in the Welsh higher education sector, but now we are. It is wonderful news that Professor Pearson from Imperial is to head up the Low Carbon Research Institute. That is so that we are competitive with EU, English or Scottish universities. You have the right question, but I am saying that we are providing the answer.

**Nick Bourne:** I am grateful for the compliment on the question. However, there is a funding disparity, and the Welsh Affairs Committee has referred to it. You have only to look at this year's higher education budget to see that, with its 5 per cent cut for efficiency savings. There is a funding disparity. You have only to visit universities in England to see the massive difference in investment between them and universities in Wales. I am not saying that there is no investment in Wales; I am pointing to a funding gap. You are not addressing that. You are talking in absolute terms, rather than comparative terms. In a competitive field, you have to see what is happening in England, Scotland and elsewhere in the European Union. That is the problem in a competitive arena. What are you doing to address that very real problem?

**The First Minister:** Although you did not ask what we are doing to adjust the budget, you mentioned what we are spending on students in the second iteration of your question. We have said that there will be a readjustment between what is spent on students and what is spent on higher education institutions. Removing the non-means-tested element of the student finance system, or, to put it at its worst, the so-called 'middle-class bung', and shifting that to be spent on higher education institutions is exactly the purpose: getting that money from the students who you could argue do not need it and moving it into the institutions. That will amount to about £31 million by 2015, I believe. Therefore, we are doing exactly what you are suggesting on the core funding gap,

yn bennaeth y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel. Nid oeddem yn arfer llwyddo i gael athrawon o'r Coleg Imperial, o Gaergrawnt nac o Rydychen i ddod i weithio yn sector addysg uwch Cymru, ond yr ydym yn llwyddo i wneud hynny'n awr. Mae'n newyddion rhagorol fod yr Athro Pearson o'r Coleg Imperial am fod yn bennaeth ar y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel. Mae hynny er mwyn inni allu cystadlu â phrifysgolion yn yr Undeb Ewropeaidd, Lloegr a'r Alban. Mae'r cwestiwn yn gywir gennyh, ond dweud yr wyf ein bod yn darparu'r ateb.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am y ganmoliaeth am y cwestiwn. Fodd bynnag, ceir gwahaniaeth yn lefel y cyllid, ac mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cyfeirio ato. Fe welch hynny o edrych ar gyllideb addysg uwch y flwyddyn hon, gyda'i thoriad o 5 y cant ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Ceir gwahaniaeth yn lefel y cyllid. O ymweld â phrifysgolion yn Lloegr fe welch y gwahaniaeth aruthrol rhwng y buddsoddiad y maent hwy'n ei gael a'r buddsoddiad ym mhrifysgolion Cymru. Nid dweud yr wyf nad oes dim buddsoddiad yng Nghymru; tynnu sylw yr wyf at fwelch cyllido. Nid ydych yn rhoi sylw i hynny. Yr ydych yn siarad mewn termau absoliwt, yn hytrach nag mewn termau cymharol. Mewn maes cystadleuol, rhaid ichi weld beth sy'n digwydd yn Lloegr, yn yr Alban ac mewn lleoedd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd. Dyna'r broblem mewn maes cystadleuol. Beth yr ydych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem ddwys honno?

**Y Prif Weinidog:** Er na wnaethoch ofyn beth yr ydym yn ei wneud i addasu'r gyllideb, soniasoch am yr hyn yr ydym yn ei wario ar fyfyrwyr yr eildro ichi adrodd eich cwestiwn. Yr ydym wedi dweud y byddwn yn ail-addasu'r hyn sy'n cael ei wario ar fyfyrwyr a'r hyn sy'n cael ei wario ar sefydliadau addysg uwch. Yr union ddiben yw cael gwared ar yr elfen nad yw'n gysylltiedig â phrawf modd yn y system cyllid myfyrwyr, neu'r 'cil-dwrn i'r dosbarth canol' fel y'i gelwir, a symud hwnnw er mwyn ei wario ar sefydliadau addysg uwch: mynd â'r arian hwnnw oddi ar y myfyrwyr hynny y gallech ddadlau nad oes arnynt ei angen a'i symud i'r sefydliadau. Bydd hynny tua £31 miliwn erbyn 2015, fe gredaf. Felly, yr ydym yn gwneud yn union fel yr ydych yn awgrymu i



as well as making the strategic investment.

fynd i'r afael â'r bwlch cyllido craidd, ac yn gwneud y buddsoddiad strategol hefyd.

**Nerys Evans:** Yn dilyn cwestiwn Nick Bourne, hoffwn ddweud bod y cwtogiad o 5 y cant yng nghyllideb addysg uwch yn siomedig. Fodd bynnag, hoffwn eich holi am ymrwymadau penodol Llywodraeth Cymru yn y sector addysg uwch, sef y cynllun bwrsari cenedlaethol a'r coleg ffederal. Disgwyliwn fwy o fanylion gan y Gweinidog y mis nesaf am y ddau brosiect hyn, ond a allwch gadarnhau bod digon o gyllid ar gael i'w gwireddu yn sgîl y newidiadau yn y system ffioedd atodol? Gan nad yw'r arian wedi'i wario eto, a allwch chi gadarnhau na fyddant yn gweld cwtogiad fel mae'r sector wedi'i weld yn y gyllideb?

**Nerys Evans:** Following on from Nick Bourne's question, I would like to express my disappointment at the 5 per cent cut in the higher education budget. However, I would like to ask you about the Welsh Government's specific commitments to the higher education sector, namely the national bursary and the *coleg ffederal*. We await further details from the Minister next month on both these projects, but can you confirm that sufficient funding is available to realise them in light of the changes to the top-up fees system? As that money has not yet been spent, can you confirm that they will not face a cut in their budgets similar to that faced by the sector?

**Y Prif Weinidog:** O ran y gofyniad am 5 y cant o arbedion effeithlonrwydd, rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus chwarae ei rôl yn yr ymgyrch i gynyddu eu harbedion effeithlonrwydd. Hyderwn y gall prifysgolion gyrraedd y nod o gynyddu eu harbedion effeithlonrwydd 5 y cant drwy gydweithredu.

**The First Minister:** On the requirement for efficiency savings of 5 per cent, every part of the public sector must play a role in the campaign to increase efficiency savings. We are confident that universities will be able to reach the target of increasing their efficiency savings by 5 per cent through collaboration.

O ran y coleg ffederal, y mwyaf o arian y gallwn ei arbed ar gostau cyffredinol drwy wella effeithlonrwydd, y mwyaf fydd ar gael i amddiffyn rheng flaen ein gwasanaethau addysgol, megis addysgu ac ymchwil. Ni ddylai 5 y cant o arbedion effeithlonrwydd gael unrhyw effaith ar brosiect y coleg ffederal. Mae hwnnw'n un o'n hymrwymadau yn 'Cymru'n Un', a byddwn yn bwrw ymlaen yn sgîl adroddiad y cyn is-ganghellor, yr Athro Robin Williams.

On the *coleg ffederal*, the more money we can save on overheads by improving efficiency, the more money that will be available to safeguard our front-line education services, such as teaching and research. Efficiency savings of 5 per cent should not have any impact on the *coleg ffederal* project. That is one of our 'One Wales' commitments, and we will go ahead with that based on the report of the former vice-chancellor, Professor Robin Williams.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, can you explain how the 5 per cent efficiency cuts expected of higher and further education will honour your commitment to Welsh students to invest in higher education institutions? Do you acknowledge that, for every £1 that this Government spends on HE, it gets a return in the wider economy of £5 on its investment? How will these efficiency savings help you to get back on track with the employment figures in Wales?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, a allwch esbonio sut y bydd y toriadau effeithlonrwydd o 5 y cant a ddisgwyllir gan addysg uwch ac addysg bellach yn cyflawni eich ymrwymiad i fyfyrwyr o Gymru i fuddsoddi mewn sefydliadau addysg uwch? A gydnabyddwch fod pob £1 y mae'r Llywodraeth hon yn ei wario ar addysg uwch yn esgor ar £5 yn yr economi ehangach yn sgîl ei buddsoddiad? Sut y bydd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn eich helpu i fynd yn ôl ar y trywydd cywir yng nghyswllt y ffigurau diweithdra yng Nghymru?

**The First Minister:** We have every confidence that we are not asking anything unreasonable of the Welsh higher or further education funding councils in raising their efficiency levels. That means reducing their back office expenditure by 5 per cent relative to their total budget and concentrating on the front line. We have given them a clear strategy. The pre-1992 universities need to concentrate on raising their game and attracting more Masters, PhD and post-doctoral students and not search for increases in undergraduate numbers. It is the post-1992 institutions that should be concentrating on that. The more traditional universities need to raise their game in relation to competition across the world to attract research council and private sector income, as well as European research funds. That is the clear strategy—traditional universities should not go chasing undergraduate numbers.

**Kirsty Williams:** I asked how the cuts would impact upon your plans for redressing the unemployment figures in Wales. Surely, First Minister, you must be as disappointed as anyone in the country about the figures that were released last week. In the last quarter, unemployment in Wales reached 130,000. It has gone up by a staggering 24,000 in the last quarter—that figure is equivalent to half the population of Merthyr Tydfil. The last time the figures were this bad was in the 1990s under the Tories. That is a loss of 285 jobs a day or 2,000 jobs a week, with a total of 45,000 job losses in the past year. I will ask you again: how does your budget, which will cut funding for FE and HE institutions, help to address those problems?

**The First Minister:** I did not want to repeat what I said in an earlier answer to Nick Bourne, but perhaps I will. Strategic investment that increases the way in which universities contribute to the economy is what we are doing. We are steering universities in the direction of this culture change. That is why we are creating world-class institutions like the Institute for

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwbl ffyddiog nad ydym yn afresymol pan ofynnwn i gynghorau cyllido addysg uwch neu addysg bellach Cymru wella'u heffeithlonrwydd. Mae hynny'n golygu lleihau 5% ar eu gwariant cefn swyddfa o'i gymharu â chyfanswm eu cyllideb a chanolbwyntio ar y rheng flaen. Yr ydym wedi rhoi strategaeth glir iddynt. Mae angen i'r prifysgolion cyn-1992 ganolbwyntio ar wella'u perfformiad a denu mwy o fyfyrwyr cyrsiau Meistr, PhD ac ôl-ddoethurol a pheidio â chwilio am gynnydd yn nifer y myfyrwyr israddedig. Y sefydliadau ôl-1992 a ddylai fod yn canolbwyntio ar hynny. Mae angen i'r prifysgolion mwy traddodiadol wella'u perfformiad yng nghyswllt y gystadleuaeth ledled y byd i ddenu incwm gan gynghorau ymchwil a'r sector preifat, yn ogystal â chyllid ymchwil Ewropeaidd. Dyna'r strategaeth glir—ni ddylai prifysgolion traddodiadol chwilio am fwy o fyfyrwyr israddedig.

**Kirsty Williams:** Gofynnais sut y byddai'r toriadau'n effeithio ar eich cynlluniau ar gyfer unioni'r ffigurau diweithdra yng Nghymru. Yn ddi-os, Brif Weinidog, rhaid eich bod mor siomedig ag unrhyw un yn y wlad ynglŷn â'r ffigurau a ryddhawyd yr wythnos diwethaf. Yn y chwarter olaf, yr oedd 130,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru. Yn syfrdanol, mae hynny'n gynnydd o 24,000 yn y chwarter olaf—mae'r ffigur hwnnw gyfwerth â hanner poblogaeth Merthyr Tudful. Y tro diwethaf yr oedd y ffigurau cynddrwg â hyn oedd yn yr 1990au o dan y Torïaid. Mae hynny'n golygu bod 285 o swyddi'n cael eu colli bob dydd, neu 2,000 bob wythnos, a chyfanswm o 45,000 o swyddi'n cael eu colli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnaf ichi eto: sut y mae eich cyllideb, a fydd yn torri cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, yn helpu i roi sylw i'r problemau hynny?

**Y Prif Weinidog:** Nid oeddwn am ailadrodd yr hyn a ddywedais mewn ateb cynharach i Nick Bourne, ond efallai y gwnaf hynny. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yw rhoi buddsoddiad strategol sy'n cynyddu'r ffordd y mae prifysgolion yn cyfrannu at yr economi. Yr ydym yn llywio prifysgolion i gyfeiriad y newid diwylliant hwn. Dyna pam yr ydym yn creu sefydliadau sydd gyda'r gorau yn y byd

Biological, Environmental and Rural Sciences in Aberystwyth. All of its laboratories have been completely reconstructed with an investment of between £40 million and £50 million—we are putting in £23.5 million. The overall investment in the Institute of Life Science mark 1 and mark 2 and the Centre for NanoHealth in Swansea is around £90 million over the space of six or seven years. Swansea University has never seen investment like that in its entire eight years' existence. The same applies to the Low Carbon Research Institute. We are trying to shift the universities to ensure that they punch their weight in the economy in a way in which they have not previously done.

**Kirsty Williams:** Having made this investment in these universities, one would expect it to attract businesses to the areas concerned to provide jobs for Welsh people. I am sure that you would agree that those jobs should be high-skilled jobs. Yet, we saw from research published yesterday that in our poorest communities in Wales, we have made no progress in the number of people who are leaving education with adequate levels of skills. Someone from Ogmere is twice as likely to leave school without any qualifications as someone who lives in the Vale of Glamorgan. Unless we do something about our skill levels there will be no Welsh workers available to take advantage of jobs that might be created out of HE. Will you explain what your Government will do to assist people without skills?

**The First Minister:** I do not think much of brain-dead research that implies that if you live in a certain area, and you name that area, you are going to be of low skill. That would never pass muster to get a research-assessment-exercise bonus point for your university. I deprecate that kind of tenth-rate research. We have major investment programmes, such as the foundation phase to prevent the fallout of people who get discouraged at an early stage, between three and seven years of age. As I have said repeatedly, we will see the benefit of that in 15 years' time with increasing participation

megis Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth. Mae ei holl labordai wedi cael eu hailadeiladu'n llwyr gyda buddsoddiad gwerth rhwng £40 miliwn a £50 miliwn—yr ydym ni'n cyfrannu £23.5 miliwn. Mae'r buddsoddiad cyfan yn y ddwy Athrofa Gwyddor Bywyd ac yn y Ganolfan NanoIechyd yn Abertawe yn werth tua £90 miliwn dros gyfnod o chwech neu saith mlynedd. Nid yw Prifysgol Abertawe erioed wedi cael buddsoddiad o'r fath yn yr wyth mlynedd ers ei sefydlu. Mae'r un peth yn wir am y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel. Yr ydym yn ceisio newid pwyslais y prifysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn ôl y disgwyl yn yr economi mewn ffordd nad ydynt wedi gwneud o'r blaen.

**Kirsty Williams:** Ar ôl y buddsoddiad hwn yn y prifysgolion hyn, byddai rhywun yn disgwyl i hynny ddenu busnesau i'r ardaloedd dan sylw i ddarparu swyddi i bobl Cymru. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno y dylai'r swyddi hynny fod yn rhai sgiliau uwch. Ond eto, gwelsom yn ôl yr ymchwil a gyhoeddwyd ddoe nad ydym wedi gwneud dim cynnydd yng nghymunedau tlotaf Cymru o ran nifer y bobl sy'n gadael byd addysg â digon o sgiliau. Mae rhywun o Ogwr ddwywaith mor debygol o adael yr ysgol heb ddim cymwysterau â rhywun sy'n byw ym Mro Morgannwg. Oni wnawn rywbeth ynghylch ein lefelau sgiliau, ni fydd dim gweithwyr o Gymru ar gael i fanteisio ar y swyddi a fydd efallai'n cael eu creu yn sgîl addysg uwch. A wnewch esbonio'r hyn a wnaiff eich Llywodraeth i roi cymorth i bobl heb sgiliau?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennyf lawer o feddwl o ymchwil nad yw'n da i ddim sy'n awgrymu os ydych yn byw mewn ardal benodol, ac yn enwi'r ardal honno, y bydd gennych sgiliau isel. Ni fyddai hynny byth yn ennill pwynt bonws mewn ymarferiad asesu ymchwil i'ch prifysgol. Nid wyf yn cymeradwyo'r math hwnnw o ymchwil safon isel. Mae gennym raglenni buddsoddi sylweddol, megis y cyfnod sylfaen i atal problemau am fod pobl yn digalonni yn gynnar, rhwng tair a saith mlwydd oed. Fel yr wyf wedi dweud droeon, byddwn yn gweld mantais hynny ymhen 15 mlynedd gyda

rates and increasing numbers staying on at school. Likewise, we have individual investments, such as that announced this morning in the University of the Heads of the Valleys Institute, which could be a £100 million or £120 million project. We have invested £35 million in this world-class learning centre at Ebbw Vale on the site of the former Ebbw Vale tinplate works and steelworks.

**Jeff Cuthbert:** Today is Wear it Pink Day, and I was one of a number of Assembly Members at Cardiff University yesterday to witness the opening of the cancer research centre jointly with Cancer Research UK. At the event, the chief executive of Cancer Research UK praised the financial contribution of the Welsh Assembly Government to make this world-class facility a reality. Do you agree with me that this is a very good example of the Welsh Assembly Government working with higher education to generate and develop such research facilities?

1.50 p.m.

**The First Minister:** Yes, I do agree. We cannot do it on our own on the back of public funding from the Assembly Government, and Cancer Research UK also expects a contribution from the public sector. If you can create a partnership between Cancer Research UK, a leading university and the Assembly Government, then you can be motoring towards having a world-class centre of cancer research, which Wales deserves and where Wales will be making a contribution to solving the problems of cancer.

Cancer research has transformed the treatment of cancer. It used to be regarded that once you had the big 'C', you had months or whatever to live, but now you can be still here 25 years later, and contributing, as a cancer patient, to the quality of your own care. That is something that cancer patients could not do previously because they were not around for long enough to contribute as intelligent patients. Cancer treatment has been transformed, but it is still a long battle to conquer cancer, and I am pleased that

chynnydd mewn cyfraddau cyfranogi a chynnydd yn y niferoedd sy'n aros yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae gennym fuddsoddiadau unigol, megis yr hyn a gyhoeddwyd y bore yma yn Sefydliad Prifysgol Blaenau'r Cymoedd, a allai fod yn brosiect gwerth £100 miliwn neu £120 miliwn. Yr ydym wedi buddsoddi £35 miliwn yn y ganolfan ddysgu hon, sydd gyda'r gorau yn y byd, yng Nglynebwy ar safle hen waith tunplat a gwaith dur Glynebwy.

**Jeff Cuthbert:** Mae heddiw yn Ddiwrnod Gwisgo Pinc, ac yr oeddwn yn un o nifer o Aelodau'r Cynulliad a oedd ym Mhrifysgol Caerdydd ddoe i weld agor y ganolfan ymchwil cancer ar y cyd â Cancer Research UK. Yn y digwyddiad, canmolodd prif weithredwr Cancer Research UK gyfraniad ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu'r cyfleuster hwn, sydd gyda'r gorau yn y byd. A gytunwch â mi fod hon yn enghraifft dda iawn o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag addysg uwch i gynhyrchu a datblygu cyfleusterau ymchwil o'r fath?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain gyda chyllid cyhoeddus gan Lywodraeth y Cynulliad, ac mae Cancer Research UK hefyd yn disgwyl cyfraniad gan y sector cyhoeddus. Os gallwch greu partneriaeth rhwng Cancer Research UK, prifysgol flaenllaw a Llywodraeth y Cynulliad, yna gallwch symud at gael canolfan ymchwil cancer sydd gyda'r gorau yn y byd, y mae Cymru'n ei haeddu a lle y bydd Cymru'n gwneud cyfraniad at ddatrys problemau cancer.

Mae ymchwil cancer wedi trawsnewid y ffordd y caiff cancer ei drin. Yn y gorffennol, arferai pobl feddwl mai misoedd, neu rywbeth felly, a oedd ganddynt ar ôl i fyw os oedd cancer arnynt, ond erbyn hyn gallwch fod yn fyw 25 mlynedd yn ddiweddarach, a chyfrannu, fel claf â chanser arno, at ansawdd eich gofal eich hun. Ni allai cleifion cancer wneud hynny o'r blaen oherwydd nid oeddent yn byw'n ddigon hir i gyfrannu fel cleifion deallus. Mae'r ffordd y mae cancer yn cael ei drin wedi'i thrawsnewid, ond mae

Wales is punching its weight.

trechu canser yn dal yn frwydr hir, ac yr wyf yn falch bod Cymru'n cyflawni yn ôl y disgwyl.

**Paul Davies:** Fel y dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau eisoes, ac fel y dywedodd Nerys Evans heddiw, mae'r cynllun bwrsariaeth cenedlaethol yn ganolog i strategaeth eich Llywodraeth i gynyddu'r niferoedd sy'n mynd i addysg uwch. O ran y £31 miliwn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei fuddsoddi yn y sector addysg uwch dros y blynyddoedd nesaf, a all y Prif Weinidog gadarnhau faint o'r cyllid hwn fydd yn cael ei wario ar y cynllun bwrsariaeth cenedlaethol?

**Paul Davies:** As the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has previously said, and as Nerys Evans has said today, the national bursary scheme is central to your Government's strategy to increase the numbers going on to higher education. In relation to the £31 million that the Government intends to invest in the higher education sector over the next few years, can the First Minister confirm how much of this budget will be spent on the national bursary scheme?

**Y Prif Weinidog:** Gan fod y cwestiwn yn un manwl, fe fyddai'n well i mi ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ysgrifennu atoch. Y peth pwysig yw bod y Cynulliad wedi gwneud y penderfyniad yn strategol i gefnogi'r newid o safbwynt ariannu myfyrwyr. Yn hytrach na'u hariannu ar lefel benodol, byddai'n bosibl trosglwyddo peth o'r arian hwnnw, pan nad oes cymaint o'i eisiau ar y myfyrwyr, i'r sector ei hun, a hynny er mwyn cau'r bwlch y soniwyd amdano gan Nick Bourne yn gynharach. Mae hwn yn benderfyniad pwysig, ac mae'r sector addysg uwch, yn sgîl yr adolygiad a gadeiriwyd gan is-ganghellor Prifysgol Bangor, Merfyn Jones, wedi gwneud gwaith arbennig o dda. Yr ydym yn dilyn argymhellion yr adolygiad.

**The First Minister:** As that is a detailed question, I will ask the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to write to you. What is important is that the Assembly has made the strategic decision to support the change in funding students. Instead of funding them at a certain level, it will be possible to transfer some of that money, when there is not so much demand for it among the students, to the sector itself, in order to close the gap that Nick Bourne referred to earlier. That is an important decision, and the higher education sector, following the review chaired by the vice-chancellor of Bangor University, Merfyn Jones, has done exceptional work. We have followed the recommendations of the review.

**Gareth Jones:** Brif Weinidog, yn gynharach heddiw a'r wythnos diwethaf, cyfeiriasoch at y newid pwyslais sydd wedi digwydd ac at y ffaith ein bod bellach yn annog buddsoddiad mewn cynhyrchu lefel uwch ac yn yr economi wybodaeth sy'n cael ei harwain gan ymchwil a datblygu, a hynny yn lle ceisio cystadlu gyda'r economïau cynhyrchu newydd a'u cyflogau isel. Un agwedd ar hyn yw annog prifysgolion i newid eu diwylliant, drwy roi iddynt arian yn gyfnewid am rywbeth. A gytunwch mewn egwyddor ag un o gasgliadau adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyfraniad addysg uwch i'r economi, sef fod arnom angen gweld prifysgolion Cymru yn dod yn ddewis cyntaf i raddedigion o wledydd tramor, yn ogystal ag o Gymru a gweddill Prydain, er mwyn i gymaint â phosibl o raddedigion aros yng

**Gareth Jones:** First Minister, earlier today and last week, you referred to a change in emphasis and to the fact that we are now seeking to encourage investment in high-end manufacturing and in the research-and-development-led knowledge economy, rather than trying to compete with the new low-wage manufacturing economies. One aspect of this is to encourage universities to change their culture, by giving them something-for-something funding. Do you agree in principle with one of the conclusions of the recent report by the Enterprise and Learning Committee on the contribution of higher education to the economy, which is that we should see Welsh universities become a first-choice destination for graduates from overseas, as well as from Wales and the rest of the UK, so that as many graduates as

Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd busnes a gyrfaeodd yma? I'r perwyl hwn, a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad edrych ar ymarferoldeb mentrau arian cyfatebol newydd, mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch, sy'n anelu at annog busnesau a allai ddatblygu ar gyfer graddedigion yn sgîl eu haddysg?

**Y Prif Weinidog:** Mae enghraifft o hynny ar drothwy eich drws chi, fel yr Aelod dros etholaeth Conwy, sef canolfan Da Vinci ym Mhrifysgol Bangor. Cyhoeddodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, 10 prosiect y bore yma sydd i dderbyn arian oddi wrth y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, ac mae £15 miliwn wedi'i glustnodi i'r ganolfan newydd honno. Pwrpas y ganolfan newydd yw hyrwyddo arloesi ymhlith myfyrwyr y celfyddydau a'r gwyddorau, er mwyn creu mwy o fusnesau a chyfleoedd gan a thros fyfyrwyr yng nghylch Bangor.

#### Health and Social Services

**Q4 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on the effect that the draft budget will have on the health and social services portfolio? OAQ(3)2322(FM)

**The First Minister:** It is an increase of £2.6 million in revenue, or £146 million, on the 2009-10 figure. On top of that, I should mention the strategic capital investment fund allocations, which Andrew Davies announced this morning. This includes two capital schemes involving £8 million of funding towards the £59 million children's hospital scheme in Cardiff, and another £8 million for the £22 million new accident and emergency facilities at Prince Charles Hospital in Merthyr.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. Despite the fact that there has been a good increase in the budget for health and social services, you will be aware that there are financial issues around the funding of the ambulance service in Wales. In the past, I have raised with you the issue of the debt that the service inherited, and asked whether you were willing to write that off.

possible stay in Wales to take up business and careers opportunities here? To that end, will the Assembly Government look at the viability of new match-funded initiatives, in partnership with higher education institutions, aimed at encouraging postgraduate business spin-offs?

**The First Minister:** There is an example of that on your doorstep, as the Member for Conwy, which is the Da Vinci centre at Bangor University. Andrew Davies, the Minister for Finance and Public Service Delivery, announced this morning 10 projects that will receive money from the strategic capital investment fund, and £15 million has been allocated for that new centre. The purpose of the new centre is to promote innovation among students in the arts and sciences so that we can create more businesses and opportunities by and for students in the Bangor area.

#### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**C4 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y gyllideb ddrafft ar y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(3)2322(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n gynydd o £2.6 miliwn mewn refeniw, neu £146 miliwn, o'i gymharu â ffigur 2009-10. Ar ben hynny, dylwn sôn am ddyraniadau'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol a gyhoeddwyd gan Andrew Davies y bore yma. Mae hyn yn cynnwys dau gynllun cyfalaf sy'n cynnwys £8 miliwn o gyllid at gynllun yr ysbyty plant gwerth £59 miliwn yng Nghaerdydd, a £8 miliwn arall ar gyfer y cyfleusterau damweiniau ac achosion brys newydd gwerth £22 miliwn yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Er gwaethaf bod cynnydd da wedi bod yn y gyllideb ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, byddwch yn ymwybodol bod problemau ariannol yng nghyswllt cyllido'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. Yn y gorffennol, yr wyf wedi sôn wrthy ch am y ddyled a etifeddodd y gwasanaeth, ac wedi gofyn a oeddech yn

However, I understand that an independent efficiency review of the ambulance service has been undertaken, and is currently being considered by Ministers. I wonder whether that report made any recommendations with regard to the funding of the ambulance service. If so, is it the Government's intention to ensure that the implementation of the recommendation is fully funded, as was the agreement, as I understand it, when the review was commissioned?

**The First Minister:** You are piling hypothesis upon hypothesis there, I am afraid, in a way that I cannot possibly compete with. I will ask Edwina Hart to respond to you on those issues. You will be aware that there is a big question mark over debt relief, and, as with Gareth Jones's question about a something-for-something strategy, there are obviously certain circumstances in which it is proper to write off debts—especially after mergers, or where you do not really see any realistic prospect of a large inherited debt being paid off. We have taken action to make debt relief available in certain areas of the health service following the recent mergers. The Welsh Ambulance Service NHS Trust has not been directly affected by merger, although it has a serious inherited debt-relief issue. However, the question is at what stage an improvement in performance by the Welsh Ambulance Service NHS Trust would be sufficient to earn the right to debt relief. That is a matter for the judgment of the Minister for Health and Social Services and her senior officials.

**Christine Chapman:** This week, I am due to meet the chief executive and chair of the new local health board to discuss priorities for the Cwm Taf area. I am confident that the new LHB will prioritise the delivery of first-class care across the communities that it will cover. The allocation in the draft budget of an extra £50 million to support structural changes in the health service is very welcome, and I also welcome the news about the accident and emergency allocation for Prince Charles Hospital. In the past, there have been issues about the number of

fodlon ei dileu. Fodd bynnag, yr wyf yn cael ar ddeall bod adolygiad effeithlonrwydd annibynnol o'r gwasanaeth ambiwlans wedi'i gynnal, a bod Gweinidogion wrthi'n ei ystyried. Tybed a oedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys unrhyw argymhellion ynghylch cyllido'r gwasanaeth ambiwlans? Os oedd, a yw'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu'n llawn ar gyfer rhoi'r argymhelliad ar waith, fel y cytunwyd pan gomisiynwyd yr adolygiad, yn ôl a ddeallaf?

**Y Prif Weinidog:** Mae arnaf ofn eich bod yn pentyrru damcaniaethau, a hynny mewn ffordd nad yw'n bosibl i mi gystadlu â hi. Gofynnaf i Edwina Hart eich ateb ynghylch y materion hynny. Byddwch yn ymwybodol bod marc cwestiwn mawr ynghylch rhyddhad rhag dyledion, ac, fel yn achos cwestiwn Gareth Jones ynghylch strategaeth rhoi arian yn gyfnewid am rywbeth, yn amlwg bydd dileu dyledion yn briodol dan rai amgylchiadau—yn enwedig ar ôl uno gwasanaethau, neu lle nad ydych yn gweld gwir obaith y caiff dyled fawr a etifeddwyd ei had-dalu. Yr ydym wedi gweithredu i sicrhau bod rhyddhad rhag dyledion ar gael mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth iechyd ar ôl yr uno'n ddiweddar. Nid yw'r uno wedi effeithio'n uniongyrchol ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru, er ei bod wedi etifeddu problem ddifrifol o ran rhyddhad rhag dyledion. Fodd bynnag, y cwestiwn yw pryd y byddai gwelliant ym mherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn ddigon i ennill yr hawl i gael rhyddhad rhag dyledion. Mater i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i huwch swyddogion ei ystyried yw hynny.

**Christine Chapman:** Yr wythnos hon, byddaf yn cwrdd â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd lleol newydd i drafod blaenoriaethau ar gyfer ardal Cwm Taf. Yr wyf yn ffyddiog y bydd y bwrdd iechyd lleol newydd yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gofal o'r radd flaenaf ledled y cymunedau y bydd yn eu gwasanaethu. Croesewir y £50 miliwn ychwanegol a ddyrennir yn y gyllideb ddrafft i gefnogi newidiadau strwythurol yn y gwasanaeth iechyd yn fawr, ac yr wyf hefyd yn croesawu'r newyddion ynglŷn â'r dyraniad ar

community nurses available, and this was particularly the case with regard to the inconsistent availability of Parkinson's disease nurses across Wales. You will know that I have campaigned for a number of years to have such a nurse based in Rhondda Cynon Taf. Will you therefore join me in welcoming the news that funding has finally been agreed for a Parkinson's disease nurse for Cwm Taf local health board? Do you agree that patients across the Cynon valley and the wider health board area will benefit enormously from this indispensable service?

**The First Minister:** I am delighted to hear that, because it is another brick in the wall of bringing health services in the Valleys up to the best modern standards. The same is true of the new £70 million hospital—you can see the tower cranes from almost any location in the Cynon valley. It is a long time since I have seen tower cranes in the Cynon valley, and I am pleased to see that the new hospital is under way. Likewise, although it is not in the Cynon valley, the £22 million for new accident and emergency facilities in Merthyr is welcome.

Those are the big schemes, but the smaller, individual schemes, such as the provision of a Parkinson's nurse available in the Valleys, are also part of the delivery of services at ground level. This all shows that the idea that second-class services are somehow good enough for the Valleys is gone, and it will never come back.

**Jonathan Morgan:** In answer to Peter Black, you said that debt relief was offered this year with regard to the restructuring of the NHS. You will be aware that debt relief is offered every single year when an NHS body is unable to break even, and that there is a legal requirement for NHS bodies to do so. Every year, the Minister for health and her predecessors have offered tens of millions of pounds to NHS bodies to ensure that they break even. That practice can lead to some NHS bodies simply being less careful with

gyfer damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Yn y gorffennol, cafwyd problemau yn ymwneud â nifer y nyrsys cymunedol a oedd ar gael, ac yr oedd hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt y ffaith bod anghysondeb o ran y nyrsys clefyd Parkinson's a oedd ar gael ledled Cymru. Gwyddoch fy mod wedi ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd i sicrhau bod nyrs o'r fath yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf. Felly, a ymunwch â mi i groesawu'r newyddion bod cytuno wedi bod ynghylch cyllid, o'r diwedd, i gael nyrs clefyd Parkinson's ar gyfer bwrdd iechyd lleol Cwm Taf? A gytunwch y bydd cleifion ledled Cwm Cynon ac ardal ehangach y bwrdd iechyd yn cael budd enfawr o'r gwasanaeth hollbwysig hwn?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wrth fy modd o glywed hynny, oherwydd y mae'n gyfraniad arall at sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn y Cymoedd yn cyrraedd y safonau modern gorau. Mae'r un peth yn wir am yr ysbyty newydd gwerth £70 miliwn—gallwch weld y craeniau uchel o unrhyw fan yng Nghwm Cynon bron. Nid wyf wedi gweld craeniau uchel yng Nghwm Cynon ers tro byd, ac yr wyf yn falch o weld bod yr ysbyty newydd wedi dechrau cael ei adeiladu. Yn yr un modd, er nad yw hyn yng Nghwm Cynon, croesewir y £22 miliwn ar gyfer cyfleusterau damweiniau ac achosion brys newydd ym Merthyr.

Mae'r rheini'n gynlluniau mawr, ond mae'r cynlluniau unigol, llai, megis darparu nyrs clefyd Parkinson's i fod ar gael yn y Cymoedd, hefyd yn rhan o ddarparu gwasanaethau ar lawr gwlad. Mae hyn i gyd yn dangos bod y syniad bod gwasanaethau eilradd rywsut yn ddigon da i'r Cymoedd wedi diflannu, ac ni fydd byth yn dychwelyd.

**Jonathan Morgan:** Wrth ateb Peter Black, dywedasoeh fod rhyddhad rhag dyledion wedi cael ei gynnig eleni yng nghyswllt ailstrwythuro'r GIG. Byddwch yn ymwybodol bod rhyddhad rhag dyledion yn cael ei gynnig bob blwyddyn pan na fydd un o gyrff y GIG yn gallu clirio'i gostau, a'i bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff y GIG wneud hynny. Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog dros iechyd a'i rhagflaenwyr wedi cynnig degau o filiynau o bunnau i gyrff y GIG i sicrhau eu bod yn clirio'u costau. Gall



public money than others. One of the concerns that I have is whether the Assembly Government, at some point, will review this practice of bailing out NHS bodies that have not, for whatever reason, been able to manage their finances better. Will the Government commit to reviewing that practice? In light of what you said in answer to Peter Black's question, can you give me a figure for the total amount of debt relief that has been offered this year?

2.00 p.m.

**The First Minister:** Perhaps you and Peter Black ought to get together, Jonathan. Peter Black is accusing me of not being generous enough with debt relief, and you are saying that we are being too generous. Perhaps if you had a cup of tea with him outside, you could sort it out and ask one composite question, because this is a bit of a lose-lose situation instead of a win-win situation. It is a difficult issue because, over the years, the Treasury has had some obscure rules about when it can write sums off from our budget so that we do not have to meet the cost from our budget. It always produces this jealousy factor from those authorities where the chair or the finance director and chief executive have a really strong grip and have reformed the finances to get rid of a debt, because they see that the local authority or health board next door has not but gets its debt written off. The ones who have reformed wonder why they bothered.

It is a genuine difficulty of a behaviour change. That is why I was emphasising this something-for-something philosophy that we try to inculcate, whether it is with regard to funding for the higher education sector or whatever. We will fund you if you change the culture so that you can produce more jobs from, for example, the higher education sector. It is true for the ambulance trust, which is on an improving curve. There are questions about whether it is sufficient to say 'Okay, you have earned the right', whether, if there are inherited debts, they should be written off because they are like a millstone

yr arfer hwnnw olygu bod rhai o gyrff y GIG yn llai gofalus ag arian cyhoeddus nag eraill. Un o'r pryderon sydd gennyf yw a fydd Llywodraeth y Cynulliad, rywbyrd, yn adolygu'r arfer hwn o achub cyrff y GIG nad ydynt wedi gallu rheoli eu harian yn well, am ba reswm bynnag y bo hynny. A fydd y Llywodraeth yn ymrwymo i adolygu'r arfer hwnnw? Yng ngoleuni'r hyn a ddywedasocho wrth ateb cwestiwn Peter Black, a allwch roi ffigur imi ar gyfer cyfanswm y rhyddhad rhag dyledion sydd wedi'i gynnig eleni?

**Y Prif Weinidog:** Efallai y dylech chi a Peter Black ddod at eich gilydd, Jonathan. Mae Peter Black yn fy nghyhuddo nad wyf yn ddigon hael â rhyddhad rhag dyledion, ac yr ydych chi'n dweud ein bod yn rhy hael. Efallai petaech yn cael paned o de gydag ef y tu allan, y gallech roi trefn ar hyn a gofyn un cwestiwn cyfansawdd, oherwydd nid oes neb ar ei ennill yn y sefyllfa hon, yn lle bod pawb ar ei ennill. Mae'n fater anodd oherwydd, dros y blynyddoedd, mae'r Trysorlys wedi bod yn gosod rheolau aneglur ynghylch pryd y gall ddileu symiau o'n cyllideb er mwyn sicrhau nad oes yn rhaid inni dalu'r gost o'n cyllideb. Bydd hyn bob amser yn arwain at eiddigedd gan yr awdurdodau hynny lle y mae gan y cadeirydd neu'r cyfarwyddwr cyllid a'r prif weithredwr afael dynn iawn a hwythau wedi diwygio'r cyllid i gael gwared ar ddyled, am eu bod yn gweld nad yw'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd y drws nesaf wedi gwneud hynny, ond bod eu dyled yn cael ei dileu. Bydd y rhai sydd wedi diwygio yn gofyn pam yr aethant i'r drafferth.

Newid ymddygiad sydd dan sylw, ac mae hynny'n fater gwirioneddol anodd. Dyna pam yr oeddwn yn pwysleisio'r athroniaeth hon yr ydym yn ceisio'i hargymell, sef rhoi arian yn gyfnewid am rywbeth, boed hynny yng nghyswllt cyllid ar gyfer y sector addysg uwch neu beth bynnag y bo. Byddwn yn eich ariannu os newidiwch y diwylliant er mwyn gallu cynhyrchu mwy o swyddi o'r sector addysg uwch, er enghraifft. Mae'n wir yn achos yr ymddiriedolaeth ambiwlans, sydd wrthi'n gwella. Ceir cwestiynau ynghylch a yw'n ddigon dweud 'Iawn, yr ydych wedi ennill yr hawl', a ddylid dileu dyledion a

around the neck and they would never be repaid after reorganisation, or whether it was past factors that encouraged non-reform behaviour with people saying that it is just too difficult while another authority says 'It ain't too difficult and we are damned well going to do it' and then does it. Such authorities will feel rightly aggrieved if the one next door does not do that and then has its debt written off.

etifeddwyd am eu bod yn faen melin am wddf rhywun ac na fyddent byth yn cael eu had-dalu ar ôl ad-drefnu, neu ai ffactorau yn y gorffennol a oedd yn annog ymddygiad gwrth-ddiwygio, a phobl yn deud ei fod yn rhy anodd tra byddai awdurdod arall yn dweud 'Nid yw'n rhy anodd ac yr ydym yn gwbl benderfynol o'i wneud' ac yna'n ei wneud. Bydd awdurdodau o'r fath, yn ddigon teg, yn teimlo'n anhapus os na fydd yr awdurdod y drws nesaf yn gwneud hynny ac yna fod ei ddyled yn cael ei dileu.

### Heritage

**Q5 Eleanor Burnham:** Will the First Minister make a statement on the effect the draft budget will have on the heritage portfolio? OAQ(3)2323(FM)

**The First Minister:** I am grateful for your raising this issue. There is an increase in the heritage portfolio budget, but I draw your attention to the grant of £3 million for the Glynn Vivian Art Gallery and the interest of the heritage portfolio in the Da Vinci Centre for Innovation in Science and Arts in Bangor, which has received a grant of £15 million this morning.

**Eleanor Burnham:** I am very pleased to hear about that. I get quite concerned when I discuss this with small businesses in north Wales, particularly those involved in tourism. It is not only to do with tourism but economic regeneration. I worry that the Government does not have its finger on the pulse. In times of economic downturn, many people view heritage and tourism as not being so important. However, they are, because 98 per cent or more of businesses to do with heritage, tourism and so on are small and medium-sized enterprises. Is there enough scope in the draft budget to allow tourism, heritage and SMEs to flourish? This links to my question about the National Library of Wales, which, unfortunately, because of a lack of funding, had to close its doors on Saturdays. I would have thought that that was the worst possible day to close the doors to visitors. Are you taking all of this seriously enough to aid the economic recovery that we all so desperately seek across Wales?

### Treftadaeth

**C5 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y gyllideb ddrafft ar y portffolio treftadaeth? OAQ(3)2323(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am godi'r mater hwn. Ceir cynnydd yng nghyllideb y portffolio treftadaeth, ond yr wyf yn tynnu eich sylw at y grant gwerth £3 miliwn ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian a diddordeb y portffolio treftadaeth yng Nghanolfan Da Vinci ar gyfer Arloesi mewn Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau ym Mangor, sydd wedi cael grant gwerth £15 miliwn y bore yma.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn falch iawn o glywed am hynny. Byddaf yn pryderu cryn dipyn pan fyddaf yn trafod hyn â busnesau bach yn y gogledd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth. Nid yw hyn yn ymwneud â thwristiaeth yn unig, ond hefyd ag adfywio economaidd. Yr wyf yn poeni nad yw'r Llywodraeth yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf. Mewn cyfnod o ddirywiad economaidd, bydd llawer o bobl yn barnu nad yw treftadaeth a thwristiaeth yn bwysig iawn. Fodd bynnag, maent yn bwysig, oherwydd y mae 98 y cant neu fwy o fusnesau sy'n ymwneud â threftadaeth, twristiaeth ac yn y blaen yn fusnesau bach a chanolig. A oes digon o le yn y gyllideb ddrafft i roi cyfle i dwristiaeth, treftadaeth a busnesau bach a chanolig ffynnu? Mae hyn yn cysylltu â'm cwestiwn ynglŷn â Llyfrgell Genedlaethol Cymru lle y bu'n rhaid cau'r drysau ar ddydd Sadwrn, yn anffodus, oherwydd diffyg cyllid. Byddwn wedi meddwl mai hwnnw fyddai'r diwrnod gwaethaf posibl i gau'r drysau i ymwelwyr.

A ydych yn ddigon o ddifrif o ran eich agwedd at hyn oll i roi cymorth i'r adferiad economaidd y mae pawb ohonom mor awyddus i'w weld ledled Cymru?

**The First Minister:** I cannot respond to every point that you made, Eleanor. The increase in the budget for heritage is about 1.5 per cent, but, again, it is on a something-for-something basis. The heritage portfolio operates entirely through these statutory bodies, such as the library, the museum, the Welsh Books Council and so on. We have targeted the 1.5 per cent at an invest-to-save programme because, again, we want something for something. If you improve your efficiency, we will give you the money.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf ymateb i bob pwynt a wnaethoch, Eleanor. Tua 1.5 y cant yw'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer treftadaeth, ond, unwaith eto, mae hynny'n seiliedig ar roi arian yn gyfnewid am rywbeth. Mae'r portffolio treftadaeth yn gweithredu'n llwyr drwy'r cyrff statudol hyn, megis y llyfrgell, yr amgueddfa, Cyngor Llyfrau Cymru ac yn y blaen. Yr ydym wedi targedu'r 1.5 y cant mewn rhaglen buddsoddi i arbed oherwydd, unwaith eto, mae arnom eisiau rhywbeth yn gyfnewid am ein harian. Os byddwch yn gwella eich effeithlonrwydd, byddwn yn rhoi'r arian ichi.

**Val Lloyd:** First Minister, I am very pleased that you mentioned the capital investment funding of £3.5 million for the Glynn Vivian gallery. It will be very well received; it is good news, and it will give a boost to that excellent and popular art venue in Swansea. Funding criteria focus in particular on evidence of cross-cutting collaboration, a strong fit with the spatial plan, and an invest-to-save approach leading to efficiency savings over the life of the programme. Do you agree that more collaboration across portfolios should be encouraged, and can you give details of how the Welsh Assembly Government will be promoting this approach?

**Val Lloyd:** Brif Weinidog, yr wyf yn falch iawn ichi sôn am y £3.5 miliwn gan y gronfa buddsoddi cyfalaf ar gyfer oriel Glynn Vivian. Croesewir hynny'n fawr; mae'n newyddion da, a bydd yn rhoi hwb i'r ganolfan gelf wych a phoblogaidd honno yn Abertawe. Mae'r meini prawf ar gyfer cyllid yn canolbwyntio'n benodol ar dystiolaeth o gydweithredu trawsbynciol, rhaglen sy'n cyd-fynd yn dda â'r cynllun gofodol, a buddsoddi i arbed sy'n arwain at arbedion effeithlonrwydd dros oes y rhaglen. A ydych yn cytuno y dylid annog mwy o gydweithredu ar draws portffolios, ac a allwch roi manylion ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r dull hwn?

**The First Minister:** Yes. The strategic capital investment fund is providing a sum of around £3 million to £3.5 million to the Glynn Vivian Art Gallery, and I understand that the Arts Council of Wales will provide the remainder of the funding, namely some £6.5 million. We think that the Glynn Vivian provides a strong nucleus for arts-related activities, particularly the visual arts, across west Wales. It has always been an outstanding art gallery, but it has an inherited problem now in that it is beginning to get a little worse for wear. It is long overdue a modernisation to bring it up to twenty-first century standards and make it attractive and inspiring to young people. You are right to say that we do not want it to be seen as an

**Y Prif Weinidog:** Ydwyf. Mae'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn darparu swm sydd rhwng £3 miliwn a £3.5 miliwn i Oriol Gelf Glynn Vivian, a chaf ar ddeall y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gweddill yr arian, sef tua £6.5 miliwn. Credwn fod oriel Glynn Vivian yn ganolbwynt cadarn ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, yn enwedig y celfyddydau gweledol, ar draws y gorllewin. Bu'n oriel gelf ragorol erioed, ond mae'n dechrau dangos ei hoed. Mae'n hen bryd ei moderneiddio fel ei bod yn cyrraedd safonau'r ugeinfed ganrif ar hugain a sicrhau ei bod yn ddeniadol ac yn ysbrydoli pobl ifanc. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud nad ydym am i bobl ei

issue relating just to the arts council, the arts and the visual arts particularly; we want the Glynn Vivian to play its part in the revitalisation of the centre of Swansea.

**Alun Cairns:** The heritage portfolio budget shows that, for the next financial year, £12,934,000 will go to support tourism. When you were the Minister for economic development back in 1999, that figure was £15 million. Do you think that that is sufficient progress, bearing in mind that that is the core tourism budget? European funding might be separate, but European funding cannot go to large parts of Wales where tourism accounts for an important part of the local economy.

**The First Minister:** The question is how you use the tourism budget. Marketing strategies, for which I think we are quite widely admired in Wales, have become much more sophisticated. We are not the only source of expenditure on tourism marketing. It is all a part of the total package of the industry's own efforts, local authorities' local tourism fora, plus our money, plus structural funds. You cannot look only at Assembly Government funding every time, saying that we are not providing enough, or not providing enough core funding, or maybe if we add in structural funds, it will be enough. The issue is how well the marketing message is conveyed that Wales is open for business and it offers a really good tourism offer for six or more months of the year. That is the key.

### Digital Inclusion

**Q6 Janet Ryder:** Will the First Minister make a statement on digital inclusion? OAQ(3)2321(FM)

**The First Minister:** We believe that the effort to achieve digital inclusion in Wales will be significantly boosted by the United Kingdom Government's announcement of a £6 per annum telephone tax to fund widespread access to super-fast broadband. Given our topography, it should have a particularly beneficial impact in Wales.

ystyried yn fater nad yw ond yn berthnasol i gyngor y celfyddydau, y celfyddydau a'r celfyddydau gweledol yn benodol; mae arnom eisiau i oriel Glynn Vivian fod yn rhan o'r broses o adfywio canol Abertawe.

**Alun Cairns:** Dengys cyllideb y portffolio treftadaeth y bydd £12,934,000 yn mynd at gefnogi twristiaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf. Pan oeddech chi'n Weinidog dros ddatblygu economaidd yn 1999, yr oedd y ffigur hwnnw'n £15 miliwn. A ydych yn credu bod hynny'n gynnydd digonol, a chofio mai honno yw'r gyllideb graidd ar gyfer twristiaeth? Efallai fod arian Ewropeaidd ar wahân, ond ni all arian Ewropeaidd gyrraedd rhannau helaeth o Gymru lle y mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi leol.

**Y Prif Weinidog:** Y cwestiwn yw sut y defnyddir y gyllideb twristiaeth. Mae strategaethau marchnata yn fwy soffistigedig o lawer yn awr, a chredaf fod rhai Cymru yn destun cryn edmygedd. Nid ni yw'r unig ffynhonnell ar gyfer gwariant ar farchnata twristiaeth. Mae'r cyfan yn rhan o'r pecyn cyflawn, sef ymdrechion y diwydiant ei hun, fforymau twristiaeth lleol awdurdodau lleol, yn ogystal â'n harian ni, a'r cronfeydd strwythurol. Ni allwch droi at gyllid Llywodraeth y Cynulliad bob tro, gan ddweud nad ydym yn darparu digon, neu nad ydym yn darparu digon o gyllid craidd, neu petaem yn ychwanegu'r cronfeydd strwythurol, efallai y bydd hynny'n ddigon. Hanfod y mater yw pa mor dda y cyflëir y neges farchnata bod Cymru ar agor i fusnes, a bod yr hyn y mae'n ei gynnig o ran twristiaeth yn dda iawn am chwe mis neu ragor o'r flwyddyn. Dyna'r allwedd.

### Cynhwysiant Digidol

**C6 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynhwysiant digidol? OAQ(3)2321(FM)

**Y Prif Weinidog:** Credwn y caiff yr ymdrech i sicrhau cynhwysiant digidol yng Nghymru hwb sylweddol gan gyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd £6 o dreth ffôn y flwyddyn i sicrhau bod band eang cyflym ar gael yn rhwydd i bawb. O ystyried ein topograffeg, dylai gael effaith hynod fuddiol yng Nghymru.

**Janet Ryder:** I am glad that you raised that, First Minister, as it could provide a great deal of inclusion if done properly. Over the years in Wales, we have become used to a postcode lottery in the application of broadband. Some people have slow broadband, others have poor broadband, and some still have no broadband. That increases exclusion as more and more services are offered online. Age Concern points to the increasing isolation from services of older people, particularly in rural areas. We are now facing exclusion not just from the digital services offered via broadband but also from digital television services following the switchover. For people in some areas, that switchover is proving to exclude them. They still face that possibility, as they are being told that they have to pay to receive their favourite channels, which they currently receive free of charge. I seek your assurances, First Minister, that you are doing all that you can to make sure that people in small isolated areas are fully included, particularly following the digital television switchover, and that the Government will take full advantage of any extra money to move swiftly to a conclusion that means that everyone in Wales can receive good-quality broadband services.

**The First Minister:** The Ofcom report adopted by the Government to bring about super-fast broadband through the 50p a month per fixed telephone line will release £175 million a year. That will have the biggest impact on those areas where the market does not provide: in the main, the sparsely populated and mountainous rural areas of Wales, although some parts of England and the highlands of Scotland will also benefit. You do not need it in London, Manchester, or Birmingham and possibly not so much on the M4 or A55 belts, but you certainly need it to get coverage in rural areas, where the sparsity of population means that the private market investor simply will not see a profit. Nevertheless—as with the penny stamp when it came in 170 years or so ago—you need to make sure that everyone in

**Janet Ryder:** Yr wyf yn falch ichi sôn am hynny, Brif Weinidog, gan y gallai sicrhau cynhwysiant eang iawn os caiff ei wneud yn iawn. Dros y blynyddoedd yng Nghymru, yr ydym wedi arfer â loteri cod post yng nghydestun band eang. Mae gan rai pobl fand eang araf, mae gan eraill fand eang gwael, ac nid yw rhai byth wedi cael band eang. Mae hynny'n golygu bod mwy o bobl yn cael eu hallgáu wrth i fwy a mwy o wasanaethau gael eu cynnig ar-lein. Mae Age Concern yn pwysleisio bod mwy a mwy o bobl hŷn yn cael eu heithrio rhag gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yr ydym yn awr yn wynebu allgáu rhag y gwasanaethau digidol a gynigir drwy gyfrwng band eang a hefyd rhag gwasanaethau teledu digidol wedi'r newid i ddigidol. Mae'r newid hwnnw'n allgáu pobl mewn rhai ardaloedd. Maent yn dal i wynebu'r posibilrwydd hwnnw, gan y dywedir wrthynt fod yn rhaid iddynt dalu i gael eu hoff sianeli, y rhai y maent yn eu cael am ddim ar hyn o bryd. Yr wyf yn gofyn am sicrwydd gennych, Brif Weinidog, eich bod yn gwneud popeth a allwch i wneud yn siŵr bod pobl mewn ardaloedd ynysig bach yn cael eu cynnwys yn llawn, yn enwedig wedi'r newid i deledu digidol, ac y bydd y Llywodraeth yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw arian ychwanegol er mwyn symud yn ddi-oed at ganlyniad sy'n golygu y gall pawb yng Nghymru gael gwasanaethau band eang o safon.

**Y Prif Weinidog:** Bydd adroddiad Ofcom a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth i gyflwyno band eang cyflym drwy'r llinell ffôn sefydlog sy'n costio 50c y mis, yn rhyddhau £175 miliwn y flwyddyn. Caiff effaith yr arian hwnnw ei themlo fwyaf yn yr ardaloedd hynny lle nad yw'r farchnad yn darparu band eang: yn bennaf, ardaloedd gwledig a mynyddig Cymru sy'n brin eu poblogaeth, er y bydd rhai rhannau o Loegr ac ucheldiroedd yr Alban hefyd yn elwa o hyn. Nid oes arnoch ei angen yn Llundain, Manceinion na Birmingham, nac yn ardal yr M4 a'r A55 o bosibl, ond yn bendant mae ei angen arnoch er mwyn cael band eang mewn ardaloedd gwledig, lle y mae'r boblogaeth brin yn golygu na fydd buddsoddwyr y farchnad breifat yn gwneud elw. Er hynny mae angen gwneud yn siŵr—yn yr un modd â'r stamp

the UK, regardless of whether the market sees that there is a profit, can benefit.

2.10 p.m.

In advance of that, we have had the FibreSpeed network linked up, to bring super-fast broadband to specific business parks in north Wales. That has been successful, but it does not go beyond the A55 and the big business parks on the A55.

**Darren Millar:** First Minister, I recently met with members of Llanelidan community council in my constituency, who told me that part of that community does not have access to broadband. Members of the council there feel strongly that this is an equalities issue, that they should be entitled to access essential services such as broadband to operate their businesses, and that young people should not be disadvantaged by not having access to the educational or social opportunities that can be afforded by a high-speed internet connection. What would you say in answer to the point that this is an equalities issue? If it is, what action is the Assembly Government, rather than the UK Government, taking to overcome it?

**The First Minister:** I entirely accept what that community council was saying; there is an element of inequality about it. If you live in a rural area and cannot access super-fast broadband, even though it is available in the big conurbations, it is not easy to develop a business that requires e-tendering and e-commerce. I ask you to take this matter up with the Conservative spokesman on culture and media, Jeremy Hunt, who said just two days ago that a future Conservative Government, if elected, would reverse the telephone tax policy. That would make it very difficult to remedy the inequality issue that you are talking about, on which I agree with you. The problem is what will your party do about it if elected? At the moment, it says that it would reverse the decision to help to get super-fast broadband for rural Wales. That is a warning.

ceiniog pan gyflwynwyd hynny tua 170 o flynyddoedd yn ôl—y gall pawb yn y DU elwa o hyn, pa un a yw'r farchnad yn gweld bod elw ai peidio.

Cyn hynny, yr ydym wedi cysylltu'r rhwydwaith FibreSpeed, er mwyn cyflwyno band eang cyflym i barciau busnes penodol yn y gogledd. Bu hynny'n llwyddiant, ond mae wedi'i gyfyngu i'r A55 a'r parciau busnes mawr ar yr A55.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, cyfarfûm yn ddiweddar ag aelodau o gyngor cymuned Llanelidan yn fy etholaeth, a dywedasant wrthyf nad yw rhan o'r gymuned honno yn gallu cael band eang. Mae aelodau'r cyngor yno yn teimlo'n gryf mai mater yn ymwneud â chydraddoldeb yw hyn, ac y dylai fod ganddynt hawl i gael gwasanaethau hanfodol megis band eang er mwyn cynnal eu busnesau, ac na ddylai pobl ifanc fod dan anfantais oherwydd na allant fanteisio ar y cyfleoedd addysgol neu gymdeithasol y gall cysylltiad rhyngwyd cyflym ei gynnig. Sut y byddech yn ateb y pwynt mai mater yn ymwneud â chydraddoldeb yw hyn? Os yw hynny'n wir, pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad, yn hytrach na Llywodraeth y DU, yn eu cymryd i ddatrys y mater?

**Y Prif Weinidog:** Derbyniaf yn llwyr yr hyn yr oedd y cyngor cymuned hwnnw yn ei ddweud; mae'r mater yn cynnwys elfen o anghydraddoldeb. Os ydych yn byw mewn ardal wledig ac nad oes band eang cyflym ar gael ichi, er ei fod ar gael yn y cytreff mawr, nid yw'n hawdd datblygu busnes sy'n gofyn am e-fasnach ac e-dendro. Yr wyf yn gofyn ichi godi'r mater hwn gyda Jeremy Hunt, llefarydd y Ceidwadwyr ar ddiwylliant a'r cyfryngau, a ddywedodd ddau ddiwrnod yn ôl y byddai Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol, pe câi ei hethol, yn gwyrddroi'r polisi treth ffôn. Byddai hynny'n ei gwneud yn anodd iawn datrys y broblem yn ymwneud ag anghydraddoldeb yr ydych yn sôn amdani, ac yr wyf yn cytuno â chi yn ei chylch. Y broblem yw, beth wnaiff eich plaid ynghylch y peth os caiff ei hethol? Ar hyn o bryd, mae'n dweud y byddai'n gwyrddroi'r penderfyniad i helpu i gael band eang cyflym ar gyfer cefn gwlad Cymru. Mae hynny'n

rhybudd.

**Michael German:** First Minister, it is not always the rural and sparsely populated areas that suffer from digital exclusion. You will be familiar with St Brides, between Cardiff and Newport, which is hardly mountainous since it is almost below sea level, and which is not a sparsely populated area, because it is between Cardiff and Newport. You would therefore expect to find broadband there.

**Michael German:** Brif Weinidog, nid yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd prin eu poblogaeth sydd wedi'u hallgáu rhag technoleg ddigidol bob tro. Mae'n siŵr eich bod yn gyfarwydd â Saint-y-brid, rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Prin y gellid galw honno'n ardal fynyddig gan ei bod bron yn is na lefel y môr, ac nid yw'n ardal brin ei phoblogaeth oherwydd y mae rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Byddech felly'n disgwyl cael band eang yn y fan honno.

However, I want you to address the issue of people who cannot get Freeview. If you cannot get Freeview, you are forced to pay for Freesat, and that is quite expensive compared with the cost of the small box that you can get to access digital television when the digital switchover occurs. Has the Government undertaken a survey of the number of people who will be forced to pay £150 to receive any television services as compared with those who have to pay only £10 to £15 to access them?

Fodd bynnag, yr wyf am ichi roi sylw i'r mater yn ymwneud â phobl na allant gael Freeview. Os na allwch gael Freeview, mae'n rhaid ichi dalu am Freesat, ac mae hwnnw'n eithaf drud o'i gymharu â chost y bocs bach y gallwch ei gael i gael teledu digidol pan ddigwydd y newid i ddigidol. A yw'r Llywodraeth wedi cynnal arolwg o nifer y bobl y bydd yn rhaid iddynt dalu £150 er mwyn cael unrhyw wasanaethau teledu o'i gymharu â'r rhai na fyddant ond yn gorfod talu £10 neu £15 i gael y gwasanaethau hynny?

**The First Minister:** I do not discount the fact that there will be some flat areas or valleys in urbanised areas of Wales that will also have problems. You will always have dots and spots, places that are in some sort of shadow area, which are not reached. On St Brides Wentloog, I will have to get Alun Ffred Jones to write to you on what happens in such areas, based on any information that we can get either directly or via Ofcom.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn diystyru'r ffaith y bydd rhai ardaloedd neu ddyffrynnoedd gwastad mewn ardaloedd trefol yng Nghymru hefyd yn cael problemau. Ceir wastad leoedd yma ac acw sydd mewn rhyw fath o ardal gysgodol na fydd modd eu cyrraedd. O ran Saint-y-brid, Gwynllŵg, bydd yn rhaid imi ofyn i Alun Ffred Jones ysgrifennu atoch ynghylch beth sy'n digwydd mewn ardaloedd o'r fath. Bydd hynny'n seiliedig ar unrhyw wybodaeth y gallwn ei chael, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Ofcom.

On the wider principle of such areas needing Freesat to achieve digital conversion, which is more expensive than a Freeview box, it is regrettable if that happens, but the telephone tax idea will assist in overcoming that. Two thirds of Britain will be reached by market forces, but the question is what happens to the other third. Although people do not like the idea of any kind of additional taxation, the telephone tax would mean that those areas that are simple to serve, such as London, Manchester and, to some extent, Cardiff, will help to subsidise the cost of

O ran yr egwyddor ehangach ynghylch ardaloedd o'r fath y mae angen Freesat arnynt er mwyn newid i ddigidol, sy'n ddrutach na bocs Freeview, mae'n anffodus os bydd hynny'n digwydd, ond bydd syniad y dreth ffôn yn gymorth i oresgyn hynny. Bydd grym y farchnad yn cyrraedd dwy ran o dair o Brydain, ond y cwestiwn yw, beth sy'n digwydd i'r traean arall? Er nad yw pobl yn hoff o'r syniad o unrhyw fath o dreth ychwanegol, byddai'r dreth ffôn yn golygu y byddai'r ardaloedd hynny y mae'n hawdd eu gwasanaethu, megis Llundain, Manceinion, a

reaching those areas that are not reached by the wish of private investors to make money out of this.

**Y Llywydd:** Cafodd cwestiwn 7 ei grwpio gyda chwestiwn 3.

### Carbon Emissions

**Q8 Mick Bates:** Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for the reduction of carbon emissions across Wales? OAQ(3)2308(FM)

**The First Minister:** You will be aware of the implementation, which is now ongoing, of the £26 million-worth low-carbon buildings programme for Wales and the £12 million Heads of the Valleys low-carbon zone, both of which will support energy efficiency and microgeneration for small businesses and households, and the potential arising from the transfer of building regulations to the Assembly.

**Mick Bates:** Thank you, First Minister, for that list of commendable actions and priorities. However, I am sure that you would agree that large-scale renewable energy projects will also play a vital role in reducing carbon emissions in Wales. The Welsh Liberal Democrats have long argued that Wales should have the power over energy projects over 50 MW. In fact, your Ministers have also argued the case. There were discussions between the former Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform, the Welsh Assembly Government and the Wales Office to devolve these powers to the Welsh Assembly Government. However, yesterday, your Labour colleagues in Westminster announced to my colleague Mark Williams MP, that the discussions had been abandoned and that they were retaining the power in Westminster, under the Infrastructure Planning Commission. First Minister, does this not suggest to you that your Labour colleagues do not trust Wales with the power over large energy projects, which opens the door for Westminster to place every large energy project it wishes here, including nuclear power?

Chaerdydd i ryw raddau, yn cynorthwyo i dalu'r gost o gyrraedd yr ardaloedd hynny nad yw buddsoddwyr preifat, sy'n dymuno gwneud arian yn sgîl hyn, am eu cyrraedd.

**The Presiding Officer:** Question 7 was grouped with question 3.

### Allyriadau Carbon

**C8 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau allyriadau carbon ledled Cymru? OAQ(3)2308(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n siŵr y gwyddoch fod rhaglen adeiladau carbon isel Cymru, sy'n werth £26 miliwn, a'r rhaglen gwerth £12 miliwn ar gyfer parth carbon isel Blaenau'r Cymoedd, yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Bydd y ddwy raglen yn cefnogi effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu ar gyfer busnesau bach ac aelwydydd, a'r potensial a gyfyd yn sgîl trosglwyddo rheoliadau adeiladu i'r Cynulliad.

**Mick Bates:** Diolch, Brif Weinidog, am y rhestr honno o gamau gweithredu a blaenoriaethau clodwiw. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno y bydd gan y prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr hefyd ran bwysig i'w chwarae i leihau allyriadau carbon yng Nghymru. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dadlau ers tro byd mai Cymru ddylai gael y pŵer dros brosiectau ynni dros 50 MW. Yn wir, mae eich Gweinidogion wedi dadlau o blaid hynny hefyd. Cafwyd trafodaethau rhwng Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio gynt, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Cymru ynghylch datganoli'r pwerau hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, dywedodd eich cyd-Aelodau Llafur yn San Steffan ddoe wrth fy nghyd-Aelod Mark Williams, AS, fod y trafodaethau wedi dod i ben a'u bod yn cadw'r pŵer yn San Steffan, dan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Brif Weinidog, onid yw hyn yn awgrymu ichi nad oes gan eich cyd-Aelodau Llafur ddigon o ffydd yng Nghymru i roi'r pŵer inni dros brosiectau ynni mawr, sy'n agor y drws i San Steffan leoli pob prosiect ynni mawr y mae'n ei ddymuno yma, gan gynnwys pŵer niwclear?



**The First Minister:** The last two words in your answer just about sum it up. The Westminster Government has devolved the powers to determine large infrastructure projects over 50 MW, as well as for ports and airports, from Government, but not to us. In other words, it has devolved it to the IPC, for which I understand the legislation has now passed and will come into effect in around April next year.

It held off on responding to our request, which was a response to its original offer to transfer the powers to Wales. When we sought to implement the offer that had been made and tried to negotiate it to get the powers transferred to Wales, in the background, there was a change of mind at the Westminster Government level as to the future of nuclear power in Britain—from being anti to being pro—in the middle of the last decade. Likewise, once you decide that you want a significant nuclear power programme and then combine that with the fact that they wanted to devolve everything to an Infrastructure Planning Commission, then it is no longer seen as being attractive to devolve as it originally did when I first discussed it with the then energy Minister, Brian Wilson, back in 1999 or 2000.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnewch fanteisio ar y cyfle hwn i ddatgan mai safbwynt Llywodraeth Cymru'n Un yw gwrthwynebiad sylfaenol i ynni niwclear yng Nghymru, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan fwyafrif Aelodau'r Cynulliad ac, yn wir, fwyafrif poblogaeth Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi dweud nad ydym yn gallu gweld yr angen am ynni niwclear newydd yng Nghymru. Mae diddordeb mawr yma mewn buddsoddi mewn ffyrdd eraill o gynhyrchu ynni, yn enwedig dulliau cynaliadwy o gynhyrchu trydan, felly nid oes angen ynni niwclear arnom. Dyna oedd y sefyllfa pan benderfynwyd ar y strategaeth, ac mae'r sefyllfa honno yn parhau. Fel y dywedais wrth Mick Bates, y comisiwn cynllunio newydd fydd â'r hawl i benderfynu ar unrhyw gais a wneir gan unrhyw gynhyrchydd sydd â diddordeb

**Y Prif Weinidog:** Mae dau air olaf eich ateb yn crynhoi'r cyfan bron. Mae Llywodraeth San Steffan wedi datganoli'r pwerau i benderfynu ynghylch prosiectau seilwaith mawr dros 50 MW, yn ogystal ag ar gyfer porthladdoedd a meysydd awyr, ond nid i ni y datganolwyd y pŵer. Mewn geiriau eraill, mae wedi datganoli'r pŵer i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, a chaf ar ddeall bod y ddeddfwriaeth wedi cael ei chymeradwyo erbyn hyn ac y daw i rym tua mis Ebrill y flwyddyn nesaf.

Cafwyd oedi gan y Llywodraeth cyn ymateb i'n cais, a oedd yn ymateb i'w chynnig gwreiddiol i drosglwyddo'r pwerau i Gymru. Pan aethom ati i geisio gweithredu'r cynnig a wnaethpwyd a'i drafod er mwyn trosglwyddo'r pwerau i Gymru, yn y cefndir, newidiodd Llywodraeth San Steffan ei meddwl ynghylch dyfodol pŵer niwclear ym Mhrydain—newid o wrthwynebu pŵer niwclear i'w gefnogi—yng nghanol y degawd diwethaf. Yn yr un modd, ar ôl ichi benderfynu bod arnoch eisiau rhaglen pŵer niwclear sylweddol gan gyfuno hynny â'r ffaith eu bod am ddatganoli popeth i Gomisiwn Cynllunio Seilwaith, nid yw bellach yn fater deniadol ei ddatganoli fel yr oedd pan drafodais ef y tro cyntaf gyda'r Gweinidog dros ynni ar y pryd, Brian Wilson, yn 1999 neu 2000.

**Rhodri Glyn Thomas:** Will you take this opportunity to declare that the standpoint of the One Wales Government is one of fundamental opposition to nuclear energy in Wales, and that that is supported by the majority of Assembly Members and, indeed, the majority of the people of Wales?

**The First Minister:** We have said that we do not see the need for new nuclear energy in Wales. There is so much interest here in investing in other methods of energy production, in particular sustainable methods of producing electricity, that we do not need nuclear energy. That was the situation when the strategy was decided upon, and that remains the case. As I said in response to Mick Bates, the new planning commission will have the right to decide on any application made by any producer interested in building new nuclear plants. Therefore, it

mewn adeiladu gorsafoedd niwclear newydd. Felly, nid i ni ac nid i Weinidogion yn San Steffan y gwneir y cais ond i'r comisiwn newydd; y comisiwn hwnnw fyddai'n gwneud y penderfyniad.

**William Graham:** First Minister, I am sure that you will join me in welcoming the fact that the millionth passenger has travelled on the Cardiff to Ebbw Vale line. This is, in itself, a major help towards carbon emission reduction. I ask you, once again, to press for the link into Ebbw Vale, the station at Abertillery, and, particularly, the link to Newport.

**The First Minister:** I really am delighted that the level of passenger response to the reopening of the Ebbw valley railway after its closure in the Beecham era has been double the level in our estimated figures. We have reached the millionth passenger in two years rather than four. That is absolutely fantastic news and proves that that decision was right. It was done in response to the announcement by Corus that it was going to close the tin plate works in Ebbw Vale. We wanted to ensure that Ebbw Vale was given a lifeline. We gave it a lifeline. Instead of saying 'We would rather sit on our backsides in Ebbw Vale' or whatever, they are using the railway line for work and leisure purposes and so on and it is obviously of great benefit to the whole of the Ebbw valley.

2.20 p.m.

On the Newport link, we are waiting for further word from Network Rail on the Gaer junction and the vexed issue of the crossover there.

### The Economy

**Q9 Jenny Randerson:** What assessment has the First Minister made of when the Welsh economy will return to growth?  
OAQ(3)2324(FM)

**The First Minister:** We do not make official forecasts for economic growth. We never have; we do not have the ability to do so.

would not be a matter for us, or for Ministers in Westminster, but for the new commission; that commission would make the decision.

**William Graham:** Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i groesawu'r ffaith bod y miliynfed teithiwr wedi teithio ar hyd y rheilffordd rhwng Caerdydd a Glynabwy. Mae hyn ynddo'i hun yn help aruthrol i leihau allyriadau carbon. Yr wyf yn gofyn, unwaith eto, ichi bwyso am y cyswllt i Lynebw, yr orsaf yn Abertyleri ac, yn benodol, y cyswllt â Chasnewydd.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn hynod falch bod lefel ymateb teithwyr i ailagor rheilffordd Glyn Ebwy, ar ôl ei chau yng nghyfnod Beecham, wedi bod gymaint ddwywaith â'r ffigurau a amcangyfrifwyd. Yr ydym wedi cyrraedd y miliynfed teithiwr mewn dwy flynedd yn hytrach na phedair blynedd. Mae hynny'n newyddion gwirioneddol anhygoel ac yn profi bod y penderfyniad hwnnw'n gywir. Gwnaethpwyd hynny mewn ymateb i'r cyhoeddiad gan Corus y byddai'n cau'r gwaith tunplat yng Nglynabwy. Yr oeddem am wneud yn siŵr y darperid achubiaeth i Lynebw. Rhoesom achubiaeth i Lynebw. Yn hytrach na dweud, 'Byddai'n well gennym eistedd yn ôl a gwneud dim yng Nglynabwy,' neu rywbeth tebyg, maent yn defnyddio'r rheilffordd at ddibenion hamdden a gwaith ac yn y blaen, ac mae'n amlwg o fudd aruthrol i Lyn Ebwy i gyd.

O ran y cyswllt â Chasnewydd, yr ydym yn aros am fwy o wybodaeth gan Network Rail ynghylch cyffordd Gaer a'r mater dadleuol ynghylch y groesfan yn y fan honno.

### Yr Economi

**C9 Jenny Randerson:** Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o pryd y bydd economi Cymru yn ailddechrau tyfu?  
OAQ(3)2324(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym yn gwneud rhagolygon swyddogol ar gyfer twf economaidd. Nid ydym erioed wedi gwneud

Scotland seeks to do it, but I would not like to follow its example, because they get into so many difficulties over it. We rely on Bank of England and Treasury forecasts. We do not make any ourselves. If you were to ask me my personal view, the latest data appear to indicate that the economy is bumping along the bottom and is ready for the upturn, which might happen in the fourth quarter, which started a few weeks ago.

**Jenny Randerson:** Last week, we heard that unemployment in Wales had increased by 24,000 in the three months to August and that our unemployment rate was now 9.1 per cent. More than a quarter of the 88,000 increase in the number of those unemployed across the UK occurred in Wales. Back in August, when figures for the quarter up to June were released and showed a slight reduction in unemployment, you and the Deputy First Minister were queuing up to comment and to praise yourselves about it. The Deputy First Minister said that you had acted swiftly and decisively and that your response to date had been effective.

This month, when there was a rise in unemployment, mysteriously, only an anonymous Assembly spokesperson commented, by saying that the figures needed to be treated with caution. Could you explain more fully why this month's figures need to be treated with caution, what will be the likely picture on unemployment in the immediate forthcoming months and whether we have reached the bottom, as your answer suggested—I join you in hoping that that is true—or whether there might be even worse to come?

**The First Minister:** The treat-with-caution view was exactly that taken by our statisticians and economists; it is not a ministerial view. The reason for that is the volatile way in which that particular survey-based figure—in other words, an extrapolation from the survey provides the unemployment figure—has shown, over the past six months, two good figures, two

hynny; nid yw'r gallu gennym i wneud hynny. Mae'r Alban yn ceisio gwneud hynny, ond ni hoffwn ddilyn ei hesiampl gan ei bod yn wynebu cynifer o drafferthion ynghylch y peth. Yr ydym yn dibynnu ar ragolygon Banc Lloegr a'r Trysorlys. Nid ydym yn gwneud rhagolygon ein hunain. Petaech yn gofyn am fy marn bersonol, mae'r data diweddaraf fel petaent yn awgrymu bod yr economi wedi cyrraedd y gwaelod a'i bod yn barod am y gwelliant. Gallai hynny ddigwydd yn y pedwerydd chwarter, a ddechreuodd ychydig wythnosau'n ôl.

**Jenny Randerson:** Yr wythnos diwethaf, clywsom fod diweithdra yng Nghymru wedi cynyddu 24,000 yn y tri mis hyd at fis Awst, a bod ein cyfradd diweithdra bellach yn 9.1 y cant. Cymru sydd i gyfrif am dros chwarter y cynnydd o 88,000 yn nifer y rhai sy'n ddi-waith ledled y DU. Ym mis Awst, pan ryddhawyd y ffigurau ar gyfer y chwarter hyd at fis Mehefin a oedd yn dangos gostyngiad bach mewn diweithdra, yr oeddech chi a'r Dirprwy Brif Weinidog yn baglu dros eich gilydd i wneud sylwadau ac i ganu'ch clodydd eich hunain ynghylch y peth. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog eich bod wedi gweithredu'n bendant ac yn ddi-oed, a bod eich ymateb hyd hynny wedi bod yn effeithiol.

Y mis hwn, pan gafwyd cynnydd mewn diweithdra, yn rhyfedd iawn, dim ond llefarydd dienw ar ran y Cynulliad a gyflwynodd sylwadau, gan ddweud bod angen delio â'r ffigurau'n ofalus. A allech esbonio'n fanylach pam mae angen delio â ffigurau'r mis hwn yn ofalus, beth fydd y darlun tebygol o ran diweithdra yn y misoedd nesaf ac a ydym wedi cyrraedd y gwaelod fel yr oedd eich ateb yn awgrymu—yr wyf fi fel chithau yn gobeithio bod hynny'n wir—neu a oes gwaeth i ddod o bosibl?

**Y Prif Weinidog:** Y safbwynt hwnnw, sef delio'n ofalus â hyn, oedd safbwynt ein hystadegwyr a'n heconomyddion; nid safbwynt Gweinidog ydyw. Y rheswm dros hynny yw'r ffordd gyfnewidiol y mae'r ffigur hwnnw sy'n seiliedig ar arolwg—mewn geiriau eraill, rhagdybiaeth o'r arolwg sy'n darparu'r ffigur diweithdra—yn ystod y chwe mis diwethaf wedi dangos dau ffigur da, dau

flatline figures and two bad figures, for the last two months. The unemployment claimant count has been rock solid—that is not a survey, but a head count, so cannot go wrong. However, the wider count, which is what we are advised to use and is approved by the International Labour Organization, has been exceptionally volatile in the last six months. I do not agree that there was any difference in how we responded to those figures; we were cautiously optimistic when they were good and we are cautious in wondering why the figures are volatile now. I do not think that we made a big hoop-la about the figures back then, in terms of whether Ministers or official spokesmen—anonymous or otherwise—responded. That figure has been volatile.

If you consider other surveys, the purchasing managers' index surveys, for example, have been wonderful for the last two months. Have we made a big song and dance about those? No. They said that Wales was the best-performing part of the UK—better than any of the nine English regions or Scotland or Northern Ireland. Have you seen the Deputy First Minister or me jump for joy and try to take credit for that? No, you have not, and that is because we are cautious.

The one point that you can make about the claimant count index is that it is not a survey, but it is rock solid and shows Wales performing exactly in line with the UK economy. The number of people on the dole is rising by 1,000 a month. During the worst of the recession, six months ago, that figure was rising by 4,000 a month. That is why I say that that is compatible with the economy bumping along the bottom. It is probably ready for an upturn, but you cannot be sure until the upturn happens.

**Chris Franks:** We are saddened that Bosch has announced the start of a 90-day consultation process on two options: scaling down operations at the plant with 300 job losses or—the worst picture—the complete closure of the plant at Miskin. I am sure that I speak for everyone here when I say that we

ffigur gweddol, a dau ffigur gwael ar gyfer y ddau fis diwethaf. Mae'r ffigur ar gyfer nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi bod yn gwbl gadarn—nid arolwg yw hwnnw, mae'n cyfri'r niferoedd yn llythrennol, felly ni all fod yn anghywir. Fodd bynnag, mae'r cyfrifiad ehangach, sef yr hyn y cawn ein cynghori i'w ddefnyddio ac a gymeradwyir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, wedi bod yn gyfnewidiol tu hwnt yn y chwe mis diwethaf. Ni chytunaf fod gwahaniaeth o ran ein hymateb i'r ffigurau hynny; yr oeddem yn ochelgar o obeithiol pan oeddent yn dda, ac yr ydym yn ochelgar wrth ystyried pam mae'r ffigurau'n gyfnewidiol yn awr. Nid wyf yn credu inni wneud sioe fawr am y ffigurau bryd hynny, o ran ai Gweinidogion ynteu llefarwyr swyddogol—dienw ai peidio—a wnaeth ymateb. Mae'r ffigur hwnnw wedi bod yn gyfnewidiol.

Os ystyriwch arolygon eraill, mae arolygon mynegai rheolwyr prynu, er enghraifft, wedi bod yn wych yn ystod y ddau fis diwethaf. A ydym wedi gwneud môr a mynydd o'r rheini? Naddo. Dywedasant mai Cymru oedd yr ardal a oedd yn perfformio orau yn y DU—yn well na dim un o naw rhanbarth Lloegr neu'r Alban neu Ogledd Iwerddon. A ydych wedi fy ngweld i neu'r Dirprwy Brif Weinidog yn neidio o lawenydd ac yn ceisio hawlio'r clod am hynny? Naddo, nid ydych, a hynny oherwydd ein bod yn ochelgar.

Yr un pwynt y gallwch ei wneud ynghylch mynegai'r rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yw nad yw'n arolwg, ond mae'n gwbl gadarn ac yn dangos bod Cymru'n perfformio'n gwbl unol ag economi'r DU. Mae nifer y bobl ar y dôl yn cynyddu 1,000 bob mis. Yn ystod cyfnod gwaethaf y dirwasgiad, chwe mis yn ôl, yr oedd y ffigur hwnnw'n cynyddu 4,000 y mis. Dyna pam yr wyf yn dweud bod hynny'n gydnaws â bod yr economi yn y gwaelodion. Mae'n debyg ei bod yn barod am welliant, ond ni allwch fod yn siŵr nes daw'r gwelliant.

**Chris Franks:** Yr ydym wedi'n siomi ar ôl clywed bod Bosch wedi cyhoeddi ei fod yn dechrau proses ymgynghori 90 diwrnod ynghylch dau ddewis: lleihau gweithrediadau yn y ffatri gan golli 300 o swyddi neu—y sefyllfa waethaf—cau'r ffatri ym Meisgyn yn llwyr. Yr wyf yn siŵr fy mod yn siarad ar ran

all hope that Bosch will maintain its plant in Wales. It is an important, well-paying employer in an area that has been hit by severe job losses. I know that the Deputy First Minister will meet the company management shortly. Can you outline the steps that you and the Deputy First Minister and the Welsh Government as a whole are taking to protect these jobs?

**The First Minister:** You are right that Ieuan and I will meet the company management later. I met the trade union officials involved on Friday, and several ideas have been mooted, which we can put to the management, but we will have to see what it says. It is extremely sad news. Obviously, we hope that the management will agree on the better of the two options, but even that involves considerable shrinkage in the workforce on top of the very significant shrinkage that has already taken place in a factory that has had an outstanding record for good productivity and technical innovation.

**David Melding:** The simple truth is that most economists believe that we will only enjoy slow growth, and I am afraid that some economists fear that there will be a double-dip recession. It is clear that what money we do spend on economic development has to be used carefully—more so in the uncertain years that lie ahead. The Massey review demonstrated that the effectiveness and efficiency of International Business Wales was gravely poor. Do you believe that other economic programmes under the Welsh Assembly Government's control now need that type of evaluation and monitoring, so that we can ensure that we at least do what we can do effectively?

**The First Minister:** You are right that some economists think that there will be a double-dip recession, and that could certainly be characteristic of the next two quarters, or the present quarter that has just started, where there will be a draw-forward of expenditure because of the rise in VAT in January.

pawb yma pan ddywedaf ein bod oll yn gobeithio y bydd Bosch yn cadw ei ffatri yng Nghymru. Mae'n gyflogwr pwysig, sy'n talu'n dda mewn ardal sydd wedi colli nifer sylweddol o swyddi. Gwn y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cwrdd â rheolwyr y cwmni'n fuan. A allwch roi amlinelliad o'r camau yr ydych chi a'r Dirprwy Brif Weinidog a Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn eu cymryd er mwyn diogelu'r swyddi hyn?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn gywir wrth ddweud y bydd Ieuan a minnau'n cwrdd â rheolwyr y cwmni'n ddiweddarach. Cyfarfûm â swyddogion yr undeb llafur sydd ynglŷn â hyn ddydd Gwener, a chyflwynwyd amryw o syniadau, y gallwn eu cyfleu i'r rheolwyr, ond bydd yn rhaid inni aros i weld yr hyn a fydd ganddynt i'w ddweud. Mae'n newyddion hynod o drist. Yn amlwg, gobeithiwn y bydd y rheolwyr yn cytuno ar y dewis gorau o'r ddau, ond mae hyd yn oed hwnnw'n golygu crebachiad sylweddol yn y gweithlu yn ychwanegol at y crebachiad sylweddol iawn sydd eisoes wedi digwydd mewn ffatri a chanddo record ragorol o ran cynhyrchiant da ac arloesedd technegol.

**David Melding:** Y gwir amdani yw bod y rhan fwyaf o economegwyr yn credu mai dim ond twf araf y byddwn yn ei weld, ac yn anffodus mae rhai economegwyr yn ofni y bydd dirwasgiad gostyngiad dwbl. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid inni ddefnyddio'r arian y byddwn yn ei wario ar ddatblygu economaidd yn ofalus—yn fwy fyth felly yn ystod y blynyddoedd ansicr sydd i ddod. Dangosodd adolygiad Massey fod effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Busnes Rhyngwladol Cymru yn wael iawn. A ydych yn credu bod angen y math hwnnw o werthuso a monitro ar raglenni economaidd eraill sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn inni allu sicrhau ein bod o leiaf yn gwneud yr hyn y gallwn ei wneud yn effeithiol?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod rhai economegwyr yn credu y bydd dirwasgiad gostyngiad dwbl, a gallai hynny'n sicr fod yn nodweddiadol o'r ddau chwarter nesaf, neu'r chwarter presennol sydd newydd ddechrau, lle y caiff gwariant ei ddwyn ymlaen o ganlyniad i'r cynnydd

Therefore, you could have an uplift in gross domestic product, which would mean that the recession was technically over, but if it is due to a draw-forward from expenditure that would otherwise take place in January and February, it could go back to a minus figure during the first quarter of next year.

I commissioned the Massey report because I thought that we should look at IBW's value for money—the comparative expenditure versus the comparative return—compared with that of its peer group organisations in the English regions, Scotland and Northern Ireland. It did that but it also threw in, as a bonus, if you like, the direction-of-travel issue, namely, how you move the Welsh economy, given some of the lessons learned from some of the more successful English regions that have moved away from the idea of building an advanced factory and offering people a grant so that they can say, 'We are a cheap production-line location', to working with local universities and trying to move into high-end, specialist, niche marketing, copying the example of Singapore, Finland and so on. We have been doing that but we have not been doing it enough, and we want to ratchet that process up towards a Singaporean-type strategy.

**Irene James:** Many residents in my constituency of Islwyn will be delighted with the announcement of £35 million for the Ebbw Vale learning campus. That announcement will ensure that people from my constituency can attend the learning campus. Do you agree that such funding will stand communities such as mine in better stead when it comes to preparing for the future?

**The First Minister:** I agree. The Works Ebbw Vale learning campus project, on the site of the tinplate works, is a £100 million project—it may be worth more. The £35 million grant announced this morning means that it can go ahead. That will give a big boost to construction jobs during 2010-11, when they are desperately needed everywhere, but especially in the Heads of

mewn TAW ym mis Ionawr. Felly, gallech gael cynnydd mewn cynnyrch mewnwladol crynswth, a fyddai'n golygu bod y dirwasgiad ar ben yn dechnegol, ond os yw hynny oherwydd dwyn ymlaen o wariant a fyddai fel arall yn digwydd ym mis Ionawr a Chwefror, gallai fod yn ffigur negyddol drachefn yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf.

Comisiynais adroddiad Massey gan fy mod yn credu y dylem ystyried gwerth am arian Busnes Rhyngwladol Cymru—y gwariant cymharol yn erbyn yr enillion cymharol—o'i gymharu ag eiddo rhai o'r sefydliadau sy'n debyg iddo yn rhanbarthau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwnaeth hynny ond yn ychwanegol at hynny, fel bonws, os mynnwch, cafwyd ganddo fater cyfeiriad y daith, sef yn bennaf, sut yr ydych yn symud economi Cymru, o ystyried rhai o'r gwersi a ddysgwyd gan rai o'r rhanbarthau mwy llwyddiannus yn Lloegr sydd wedi symud oddi wrth y syniad o adeiladu ffatri fodern a chynnig grant i bobl er mwyn iddynt allu dweud, 'Yr ydym yn lleoliad llinell gynhyrchu rhad', i weithio gyda phrifysgolion lleol a cheisio symud at farchnata lefel uchel, arbenigol, gan gopïo esiampl Singapore, y Ffindir ac yn y blaen. Yr ydym wedi bod yn gwneud hynny ond nid ydym wedi bod yn gwneud digon ohono, ac yr ydym am beri i'r broses honno fod yn strategaeth debyg i un Singapore.

**Irene James:** Bydd llawer o drigolion fy etholaeth yn Islwyn wrth eu bodd gyda'r cyhoeddiad bod £35 miliwn yn cael ei roi ar gyfer campws dysgu Glynebwy. Bydd y cyhoeddiad hwnnw'n sicrhau y gall pobl o'm hetholaeth fynd i'r campws dysgu. A ydych yn cytuno y bydd arian o'r fath yn rhoi mwy o fudd i gymunedau megis fy un i o ran paratoi at y dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Ydwyf. Mae prosiect campws dysgu Gwaith Glynebwy, ar safle'r gwaith tunplat, yn brosiect gwerth £100 miliwn—efallai ei fod yn werth mwy na hynny. Mae'r grant o £35 miliwn a gyhoeddwyd y bore yma'n golygu y gellir bwrw ymlaen ag ef. Bydd hynny'n rhoi hwb mawr i swyddi adeiladu yn ystod 2010-11, pan fydd angen dirfawr amdanynt ym

the Valleys.

Secondly, in terms of preparing for the upturn, people will be able to access skills, because of the Ebbw Vale railway line and other means of transport from Islwyn up to Blaenau Gwent, which will mean that the skills levels in the Heads of the Valleys and in the rest of the Gwent Valleys will be capable of being compared with the best in the world, once we have that centre up and running.

### Green Paper

**Q10 Leanne Wood:** What discussions has the First Minister held on the implications for Wales of the UK Government Green Paper 'Shaping the Future of Care Together'? OAQ(3)2328(FM)

**The First Minister:** That is for England. We will publish next month a Green Paper on the same subject in Wales. Our proposals will be set in the context of our overall approach to policy for older people, described last week in the report by the Institute for Public Policy Research as the most coherent long-term commitment to improving the position of older people of any administration in the United Kingdom in the last decade. That was Wales.

2.30 p.m.

**Leanne Wood:** First Minister, as you know, I have raised concerns about the future of the attendance allowance and the disability living allowance with you and the Deputy Minister for Social Services. Despite claims that the disability living allowance is not under threat, Lord McKenzie of Luton, the Parliamentary Under-Secretary of State for Work and Pensions, said last week that no options were being ruled out and that all disability benefits were under consideration. Clearly, that has implications for people in Wales. In her letter to me, the Deputy Minister recognised that any plans to replace those benefits with a different system were likely to be met with considerable opposition from stakeholders in Wales. Can you confirm that the Welsh Government will listen closely to the

mhobman, ond yn enwedig ym Mlaenau'r Cymoedd.

Yn ail, o ran paratoi ar gyfer y gwelliant, bydd modd i bobl gael sgiliau, o ganlyniad i reilffordd Glynebwy a'r ffordd eraill o deithio o Islwyn i Flaenau Gwent, a fydd yn golygu y bydd modd cymharu lefelau sgiliau ym Mlaenau'r Cymoedd ac yng ngweddill Cymoedd Gwent â'r rhai gorau yn y byd, wedi i'r ganolfan honno agor.

### Papur Gwyrdd

**C10 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal am oblygiadau Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU, 'Shaping the Future of Care Together', i Gymru? OAQ(3)2328(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ar gyfer Lloegr y mae hynny. Byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyrdd ar yr un pwnc yng Nghymru y mis nesaf. Caiff ein cynigion eu gosod yng nghydestun ein dull cyffredinol o ymdrin â pholisïau ar gyfer pobl hŷn, a ddisgrifiwyd yr wythnos diwethaf yn yr adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus fel yr ymrwymiad hirdymor mwyaf cydlynol o ran gwella sefyllfa pobl hŷn mewn unrhyw weinyddiaeth yn y Deyrnas Unedig dros y degawd diwethaf. Cymru oedd hynny.

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, fel y gwyddoch, yr wyf wedi codi pryderon am ddyfodol y lwfans gweini a'r lwfans byw i'r anabl gyda chi a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Er gwaethaf honiadau nad yw'r lwfans byw i'r anabl dan fygythiad, dywedodd yr Arglwydd McKenzie o Luton, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Waith a Phensiynau, yr wythnos diwethaf nad oedd dim dewisiadau'n cael ei diystyru a bod yr holl fudd-daliadau anabledd yn cael eu hystyried. Yn amlwg, mae goblygiadau i hynny o ran pobl Cymru. Yn y llythyr a anfonodd y Dirprwy Weinidog ataf, yr oedd yn cydnabod y byddai unrhyw gynlluniau i ddisodli'r budd-daliadau hynny â system wahanol yn debyg o ennyn gwrthwynebiad sylweddol

concerns of organisations such as Age Concern, Help the Aged and the Royal National Institute of Blind People about these proposals? Will you confirm that the Welsh Government will oppose any plans from the UK Government that will reduce the incomes and the independence of disabled pensioners and other disabled adults in Wales?

**The First Minister:** The issue is that the attendance allowance, per se, on its own, is not a devolved matter. If the UK Government decides that it wants to change the attendance allowance, it will. The points that we have made already to the UK Government are that there is a greater degree of dependence on attendance allowance in Wales than in most areas and that how you integrate the attendance allowance with either NHS continuing care or local authority social care will be crucial to any proposals for modernisation. Therefore, when our Green Paper comes out in November—Gwenda Thomas will be the Minister who will publish it—it will provide an opportunity for a full consultation over a 12-week period, I guess, with all stakeholder organisations. To put it in context, there is an English Green Paper and our Green Paper and I am confident that ours will be far better because of the recent compliment from the IPPR on just this kind of issue—an integrated, coherent and holistic policy. However, it cannot be completely different from the English system. It will be a co-payment system. If that is what England is having, that is what we will have in Wales, but it will be far better integrated with what the NHS and local authorities do by way of continuing and social care.

**Mark Isherwood:** The Green Paper, which was published in July, does refer to, and state that we should consider, integrating some elements of disability benefit, including attendance allowance, for example, to create a new offer for individuals with care needs. Of course, a Green Paper is not necessarily a commitment to action by Government, but

gan randdeiliaid yng Nghymru. A allwch gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando'n astud ar bryderon mudiadau megis Age Concern, Help the Aged a'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol dros Bobl Ddall ynghylch y cynigion hyn? A wnewch gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU a fydd yn lleihau incwm ac annibyniaeth pensiynwyr anabl ac oedolion anabl eraill yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Y broblem yw nad yw'r lwfans gweini, fel y cyfryw, ar ei ben ei hun, yn fater datganoledig. Os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu ei fod am newid y lwfans gweini, bydd yn gwneud hynny. Y pwyntiau yr ydym eisoes wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU yw bod mwy o bobl yn dibynnu ar lwfans gweini yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac y bydd y ffordd y byddwch yn integreiddio'r lwfans gweini â gofal parhaus y GIG neu ofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn hollbwysig o ran unrhyw gynigion ar gyfer moderneiddio. Felly, pan gyhoeddir ein Papur Gwyrdd ym mis Tachwedd—Gwenda Thomas fydd y Gweinidog a fydd yn ei gyhoeddi—bydd yn rhoi cyfle i gynnal ymgynghoriad llawn dros gyfnod o 12 wythnos, yr wyf yn tybio, â'r holl fudiadau rhanddeiliaid. O'i roi yn ei gyd-destun, ceir Papur Gwyrdd Lloegr a'n Papur Gwyrdd ninnau ac yr wyf yn hyderus y bydd ein hun ni'n llawer gwell oherwydd y ganmoliaeth a gawsom yn ddiweddar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ar y math hwn o fater—polisi integredig, cydlynol a chyfannol. Fodd bynnag, ni all fod yn gwbl wahanol i'r system yn Lloegr. Bydd yn system taliad ar y cyd. Os mai dyna a fydd yn digwydd yn Lloegr, dyna a fydd yn digwydd yng Nghymru, ond bydd wedi'i integreiddio â'r hyn y mae'r GIG a'r awdurdodau lleol yn ei wneud yn llawer gwell drwy gyfrwng gofal parhaus a gofal cymdeithasol.

**Mark Isherwood:** Mae'r Papur Gwyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn cyfeirio, ac yn datgan y dylem ystyried integreiddio rhai elfennau o'r budd-dal anabledd, gan gynnwys y lwfans gweini, er enghraifft, i greu cynnig newydd ar gyfer unigolion a chanddynt anghenion gofal. Wrth gwrs, nid yw Papur Gwyrdd o reidrwydd yn



older people and disabled people are right to be worried about the UK Government's proposals because they appear to involve either a £20,000 tax or the abolition of a variety of disability benefits to pay for social care. Age Concern Cymru and Help the Aged Wales understand that one option, if the reform goes ahead, will be for the corresponding funding to be passed to the Welsh Government to distribute in Wales. Can you confirm whether that is the case and what discussions you will have with the UK Government accordingly? Has your Government developed plans on how attendance allowance will be replaced and how resources will be allocated in that event?

**The First Minister:** The publication of two Green Papers within three or four months of each other—one is in the public domain and the other will be out in the next four weeks—indicates that we are at an early stage in the process. We are at the Green Paper stage and not yet at a White Paper or legislation stage. There are a variety of options on capital limits, on what your protected income and protected capital will be before you have to make a contribution, and they are different in Wales and England. The capital limit before you have to sell your house in order to fund your continuing care needs is considerably more generous in Wales than in England. I do not imagine that the ability to continue to do that would be in any way threatened by the UK Government proposals. I think that we have to accept that it will be a co-payment system. It is not going to be a tax-borne system; it is not going to be like the national health service and I think that we all accept that. The issue, therefore, is about means testing, the integration of the system and the degree of the patient's right of control over designing the package of care, whether it comes from the Department for Work and Pensions, the national health service or the local authority social services.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog.

ymrwymiad i'r Llywodraeth weithredu arno, ond mae gan bobl hŷn a phobl anabl le i boeni am gynigion Llywodraeth y DU gan eu bod fel petaent yn cynnwys treth o £20,000 neu ddi-ddymu amrywiaeth o fudd-daliadau anabledd i dalu am ofal cymdeithasol. Cafodd Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru ar ddeall mai un dewis, os aiff y diwygio rhagddo, fydd trosglwyddo'r arian cyfatebol i Lywodraeth Cymru ei ddsbarthu yng Nghymru. A allwch gadarnhau a yw hyn yn wir a pha drafodaethau y byddwch yn eu cynnal â Llywodraeth y DU yn unol â hynny? A yw eich Llywodraeth wedi datblygu cynlluniau o ran sut y caiff y lwfans gweini ei ddisodli a sut y caiff adnoddau eu dyrannu pe digwyddai hynny?

**Y Prif Weinidog:** Mae cyhoeddi dau Bapur Gwyrdd o fewn tri neu bedwar mis i'w gilydd—mae un ohonynt ar gael i'r cyhoedd a bydd y llall ar gael yn ystod y pedair wythnos nesaf—yn dangos mai newydd ddechrau ar y broses yr ydym. Y Papur Gwyrdd sydd wedi'i gyhoeddi ac nid Papur Gwyn na deddfwriaeth. Ceir amrywiaeth o ddewisiadau o ran terfynau cyfalaf, o ran beth fydd eich incwm a'ch cyfalaf a ddiogelir cyn y bydd yn rhaid ichi wneud cyfraniad, ac maent yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r terfyn cyfalaf cyn y bydd yn rhaid ichi werthu eich tŷ er mwyn ariannu eich anghenion gofal parhaus yn llawer mwy hael yng Nghymru nag yn Lloegr. Nid wyf yn credu y byddai'r gallu i barhau i wneud hynny dan fygythiad yn sgîl cynigion Llywodraeth y DU o gwbl. Credaf fod yn rhaid inni dderbyn y bydd yn system taliad ar y cyd. Ni fydd treth yn gysylltiedig â'r system; ni fydd y un fath â'r gwasanaeth iechyd gwladol a chredaf ein bod oll yn derbyn hynny. Mae a wnelo'r mater, felly, â phroffion modd, integreiddio'r system ac i ba raddau y mae gan y claf hawl i gael rheolaeth dros gynllunio'r pecyn gofal, pa un ai a ddaw gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y gwasanaeth iechyd gwladol, neu gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

**The Presiding Officer:** I thank the First Minister.

## **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** There are three additional items of Government business this afternoon, all of which are statements. The first is on safeguarding children and vulnerable adults, which Gwenda Thomas will make. The second is a legislative statement on the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education) Order 2010, which Jane Hutt will make, and that will be followed by a legislative statement from Elin Jones on the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure.

Business for the next three weeks is as set out on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Jonathan Morgan:** I wish to return to a matter that I raised last week. The Leader of the House will recall that I raised the issue of the NHS's financial position last week, and this morning, it became apparent that the Wales Audit Office warned the Assembly Government that restructuring the NHS mid financial year would incur certain costs, and that those warnings were ignored.

I asked the First Minister earlier today about the practice of making cash payments to NHS bodies at the end of each financial year to help them to break even. As we are now entering into a period in which financial planning and the use of financial resources will become even more important in order to ensure that we get value for the money that we spend, ensuring that the financial position of the NHS is robust, and that processes are in place to ensure that money is spent properly, is even more important. I therefore again ask the Government to consider scheduling a statement at least, and perhaps a debate, so that we can examine the financial position of the NHS, how public money is spent, and what controls are in place to ensure that money is spent in the most appropriate fashion, because we are beyond

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Ceir tair eitem ychwanegol o fusnes gan y Llywodraeth y prynhawn yma, ac mae pob un ohonynt yn ddatganiadau. Mae'r cyntaf am ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, y bydd Gwenda Thomas yn ei gyflwyno. Mae'r ail yn ddatganiad deddfwriaethol am Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010, y bydd Jane Hutt yn ei gyflwyno, a dilynir hynny gan ddatganiad deddfwriaethol gan Elin Jones am Fesur Arfaethedig y Diwydiant Cig Coch (Cymru).

Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

**Jonathan Morgan:** Hoffwn ddychwelyd at bwynt a godwyd gennyf yr wythnos diwethaf. Bydd Arweinydd y Tŷ yn cofio imi godi mater sefyllfa ariannol y GIG yr wythnos diwethaf, a'r bore yma, mae wedi dod i'r amlwg i Swyddfa Archwilio Cymru rybuddio Llywodraeth y Cynulliad y byddai ailstrwythuro'r GIG yng nghanol blwyddyn ariannol yn arwain at rai costau, a bod y rhybuddion hynny wedi'u hanwybyddu.

Holais y Prif Weinidog yn gynharach heddiw ynghylch yr arfer o wneud taliadau arian parod i gyrff y GIG ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol er mwyn eu helpu i adennill eu costau. Gan ein bod bellach yn wynebu cyfnod lle y bydd cynllunio ariannol a defnyddio adnoddau ariannol yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth am yr arian yr ydym yn ei wario, mae sicrhau bod sefyllfa ariannol y GIG yn gadarn, a bod prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gywir, yn bwysicach byth. Felly gofynnaf eto i'r Llywodraeth ystyried trefnu datganiad o leiaf, a dadl efallai, fel y gallwn archwilio sefyllfa ariannol y GIG, sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario, a pha fesurau rheoli sydd ar waith er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei wario yn y modd mwyaf priodol, gan fod y

those years of huge increases in the level of resources allocated to the NHS. It will now be more difficult for the NHS to manage its budget.

Last week, I asked you whether we could have a statement from the Minister. You said that you would ask the Minister for Health and Social Services to write to me. I wonder whether you actually did so.

**Carwyn Jones:** I did ask the Minister to write to you, and she is in the process of writing to you on this matter.

**Leanne Wood:** Last week, workers in Llantrisant and the surrounding area were dealt another severe blow when Bosch announced two options for the future of the factory in Pendoylan. One option involves cutting the permanent workforce by 300, while the other involves closing the plant altogether by 2011.

Most people in the area regard Bosch as a good employer that pays decent wages to its workforce, but this announcement has, understandably, caused great anxiety and worry. I know that the Deputy First Minister is planning to meet the management of Bosch this week, and I am confident that whatever support can be offered to protect those jobs will be given. However, in view of the fact that the Llantrisant area has lost so many manufacturing jobs over the last year, could we have an opportunity to discuss these job losses in Plenary?

**Carwyn Jones:** You raise an important issue. It is clearly a worrying time for all who work at Bosch. Options are on the table, none of which are particularly palatable, and this will be a greatly troubling time for all those who work at the plant and their families.

The Deputy First Minister is responding to two minority party debates tomorrow, and he will be more than happy to deal with the issue of Bosch if it arises during those debates.

**Peter Black:** Would it be possible to have a

blynyddoedd hynny pan gafwyd cynnydd mawr yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r GIG wedi dod i ben. Bydd yn awr yn fwy anodd i'r GIG reoli ei gyllideb.

Yr wythnos diwethaf, gofynnais a fyddai'n bosibl inni gael datganiad gan y Gweinidog. Dywedasoeh y byddech yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu ataf. Tybed a wnaethoch hynny?

**Carwyn Jones:** Gofynnais i'r Gweinidog ysgrifennu atoch, ac mae hi wrthi'n ysgrifennu atoch ynghylch y mater hwn.

**Leanne Wood:** Yr wythnos diwethaf, cafodd gweithwyr yn Llantrisant a'r ardal gyfagos ergyd ddifrifol arall pan gyhoeddodd Bosch ddau ddewis ar gyfer dyfodol y ffatri ym Mhendeulwyn. Mae un dewis yn golygu colli 300 o weithwyr parhaol y gweithlu, ac mae'r llall yn golygu cau'r ffatri'n gyfan gwbl erbyn 2011.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yr ardal yn ystyried Bosch yn gyflogwr da sy'n talu cyflogau teg i'w weithlu, ond mae'n hawdd deall bod y cyhoeddiad hwn wedi creu llawer o boen meddwl a phryder. Gwn fod y Dirprwy Brif Weinidog yn bwriadu cwrdd â rheolwyr Bosch yr wythnos hon, ac yr wyf yn hyderus y rhoddir pa gefnogaeth bynnag y gellir ei gynnig i ddiogelu'r swyddi hyn. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith bod ardal Llantrisant wedi colli cynifer o swyddi gweithgynhyrchu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a allem gael cyfle i drafod colli'r swyddi hyn yn y Cyfarfod Llawn?

**Carwyn Jones:** Yr ydych yn codi pwynt pwysig. Mae'n amlwg yn amser pryderus i bawb sy'n gweithio yn Bosch. Mae dewisiadau wedi cael eu cyflwyno, er nad oes yr un ohonynt yn apelio'n arbennig, a bydd hwn yn gyfnod hynod o gythryblus i bawb sy'n gweithio yn y ffatri a'u teuluoedd.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymateb i ddwy ddaol plaid leiafrifol yfory, a bydd yn fwy na pharod i ddelio â mater Bosch os bydd yn codi yn ystod y dadleuon hynny.

**Peter Black:** A fyddai'n bosibl cael

statement from the Minister for health on last week's decision on neurosurgery in Swansea and Cardiff? There is a great deal of anxiety in Swansea about the implications of this decision for the services that are provided there. It would therefore be appreciated if the Minister could answer questions on that issue as part of a statement to outline the precise implications of her decision, thereby allowing us to question her on that.

**Carwyn Jones:** The Minister for health wrote to Members on Friday 16 October, outlining in some detail what the plans are for neurosciences, not just for Swansea and Cardiff, but for the whole of Wales. The letter was a detailed one, as I say, and there will be an opportunity for Members to question the Minister on that letter during questions in the Chamber.

2.40 p.m.

**Nick Bourne:** Will the Leader of the House ask the Deputy First Minister or the Minister for Social Justice and Local Government—I am not sure which—for a statement on the issue of business rate revaluation? This is causing massive concern to businesses up and down Wales, some of whom have had revaluations that have shown an increase of 40 per cent. The average increase is somewhere between 15 per cent and 20 per cent. I raised the issue with the First Minister during questions last week, and it was evident from what he said that it has not been discussed at Cabinet. Other parts of the United Kingdom know what will happen in relation to the revaluation, which kicks in on 1 April next year, but we do not know in Wales. Can we have a statement or a debate on this issue?

**Carwyn Jones:** I will ensure that the responsible Minister writes to you in order to outline the present position with regard to the rate revaluation.

**Nick Ramsay:** The Leader of the House may be aware that I am hosting a seminar at the Assembly on the problem of light pollution in

datganiad gan y Gweinidog iechyd am y penderfyniad a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf ynghylch niwrolawdriniaeth yn Abertawe a Chaerdydd? Mae llawer o bobl yn poeni yn Abertawe am oblygiadau'r penderfyniad hwn i'r gwasanaethau a ddarperir yno. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallai'r Gweinidog ateb cwestiynau ar y mater hwnnw fel rhan o ddatganiad i amlinellu oblygiadau llawn ei phenderfyniad, a thrwy hynny ein galluogi i'w holi yn glŷn â hynny.

**Carwyn Jones:** Ysgrifennodd y Gweinidog iechyd at yr Aelodau ddydd Gwener 16 Hydref, yn amlinellu'n eithaf manwl beth yw'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau niwrowyddorau, nid yn unig yn Abertawe a Chaerdydd, ond yng Nghymru gyfan. Yr oedd y llythyr yn un manwl, fel y dywedais, a bydd cyfle i Aelodau holi'r Gweinidog am y llythyr hwnnw yn ystod cwestiynau yn y Siambr.

**Nick Bourne:** A wnaiff Arweinydd y Tŷ ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog neu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol—nid wyf yn siŵr pa un ohonynt—am ddatganiad ynghylch ailbriso ardrethi busnes? Mae hyn yn peri cryn bryder i fusnesau ledled Cymru, ac mae'r ailbriso sydd wedi digwydd i rai ohonynt wedi golygu cynnydd o 40 y cant. Mae'r cynnydd cyfartalog rywle rhwng 15 y cant ac 20 y cant. Codais y mater â'r Prif Weinidog yn ystod cwestiynau yr wythnos diwethaf, ac yr oedd yn amlwg yn ôl yr hyn a ddywedasodd nad yw hyn wedi'i drafod yn y Cabinet. Mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn gwybod beth fydd yn digwydd yng nghyswllt yr ailbriso, a gaiff ei roi ar waith ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, ond nid ydym yn gwybod yng Nghymru. A allwn gael datganiad neu dadl am y mater hwn?

**Carwyn Jones:** Sicrhaf y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am hyn yn ysgrifennu atoch er mwyn amlinellu'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt ailbriso ardrethi busnes.

**Nick Ramsay:** Efallai fod Arweinydd y Tŷ yn gwybod fy mod yn cynnal seminar yn y Cynulliad ar lygredd golau yng Nghymru. A

Wales. Would it possible to have a statement from the Minister for Environment, Sustainability and Housing at some point on this issue? It is an issue that has not been widely discussed in the Chamber but is of concern to many astronomers across Wales and also to schools. The night sky and the benefit that we all gain from looking at the stars, when we get the chance, is important to all of us, and is also important for educational purposes. A statement on this issue, on which I have received a number of e-mails, would be helpful. It would be good for us try to do a little more than has already been done to solve the problem of street lighting in order to make Wales a truly dark skies nation.

**Carwyn Jones:** You raise an important issue. Many children are not aware of the wonder of the night sky. You have made a specific request, and I will ask the Minister to consider it and perhaps write a letter to you outlining the Assembly Government's policy on this issue. I remember going to County Donegal in the north-west of the Republic of Ireland some years ago, where the sky was very clear at night—so clear that if you went into woodland you would not see where you were going, because there was no light pollution at all. The difference between the night sky there, because of the lack of lighting due to the lack of large settlements, and that in south Wales, was quite striking. Children are missing out, because they do not know what the sky used to be like when light pollution was less acute than it is now. I will ask the Minister to answer your queries. Incidentally, I was aware that you were hosting the seminar.

**Eleanor Burnham:** Will the Government provide a statement from the appropriate Minister to clarify and justify the criteria for the distribution of the strategic capital investment fund moneys that have just been announced? I have had strong representations from north-east Wales regarding the fact that some parts of Wales have, effectively, been left out of this important extra funding. Can the Government provide clarification in a statement or a debate on the matter?

fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai rywbyrd ynghylch y mater hwn? Mae'n fater nad yw wedi'i drafod yn eang yn y Siambr ond mae'n peri pryder i lawer o seryddwyr ledled Cymru a hefyd i ysgolion. Mae'r awyr yn y nos a'r budd yr ydym oll yn ei gael wrth edrych ar y sêr, pan gawn y cyfle, yn bwysig i bob un ohonom, ac mae'n bwysig hefyd at ddibenion addysgol. Byddai cael datganiad am y mater hwn, yr wyf wedi cael nifer o negeseuon e-bost yn ei gylch, yn ddefnyddiol. Byddai'n syniad da inni geisio gwneud ychydig mwy na'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud i ddatrys problem goleuadau strydoedd er mwyn gwneud Cymru yn genedl awyr dywyll wirioneddol.

**Carwyn Jones:** Yr ydych yn codi pwynt pwysig. Nid oes llawer o blant yn ymwybodol o ryfeddod yr awyr yn y nos. Yr ydych wedi gwneud cais penodol, a gofynnaf i'r Gweinidog ei ystyried ac efallai ysgrifennu llythyr atoch yn amlinellu polisi Llywodraeth y Cynulliad ar hyn. Yr wyf yn cofio ymweld â swydd Donegal yng ngogledd-orllewin Gweriniaeth Iwerddon rai blynyddoedd yn ôl, lle'r oedd yr awyr yn glir iawn yn y nos—mor glir petaech yn mynd i goedwig, na fyddech yn gweld i ble'r oeddech yn mynd gan nad oedd dim llygredd golau o gwbl. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng yr awyr yn y nos yno, oherwydd y diffyg golau o ganlyniad i ddiffyg aneddiadau mawr, a'r awyr yn ne Cymru, yn syfrdanol. Mae plant ar eu colled oherwydd na wyddant sut oedd yr awyr yn arfer edrych pan nad oedd llygredd golau mor ddifrifol ag y mae bellach. Gofynnaf i'r Gweinidog ateb eich ymholiadau. Gyda llaw, yr oeddwn yn gwybod eich bod yn cynnal y seminar.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Llywodraeth ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog priodol i egluro ac i gyfiawnhau'r meini prawf ar gyfer dosbarthu arian y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol sydd newydd ei gyhoeddi? Yr wyf wedi cael sylwadau cryf o'r gogledd-ddwyrain yng nghyswllt y ffaith bod rhai rhannau o Gymru, i bob pwrpas, wedi'u heithrio o'r cyllid ychwanegol pwysig hwn. A all y Llywodraeth egluro hyn mewn datganiad neu ddatl am y mater?

**Carwyn Jones:** A statement has been issued on SCIF money. The money has been distributed to 10 projects, if I remember correctly, across Wales. Certainly, not all are concentrated in south Wales. I am sure that the Minister will be able to provide you with the criteria that were used in determining the successful bids, and I will ask him to write you to explain those criteria.

**Carwyn Jones:** Mae datganiad wedi'i gyhoeddi am arian y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Mae'r arian wedi'i ddosbarthu i 10 o brosiectau, os cofiaf yn iawn, ledled Cymru. Yn sicr, nid yw pob un ohonynt yn y de. Yr wyf yn siŵr y gall y Gweinidog roi'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth benderfynu pa geisiadau a oedd yn llwyddiannus ichi, a gofynnaf iddo ysgrifennu atoch i esbonio'r meini prawf hynny.

### **Datganiad am Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed Statement on Safeguarding Children and Vulnerable Adults**

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Yr wyf yn croesawu'r adroddiadau ar ddiogelu ac amddiffyn plant a gyhoeddwyd heddiw gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Hoffwn ddiolch i'w staff am ddarparu ystod mor gynhwysfawr o astudiaethau. Cafodd y rhain eu comisiynu yn sgîl y digwyddiadau trasig a arweiniodd at farwolaeth Peter Connelly. Gwneuthum ddatganiad ar y pryd i nodi'r camau y byddem yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod ein trefniadau diogelu yn rhai effeithiol.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I welcome the reports on safeguarding and protecting children published today by the Care Standards and Social Services Inspectorate Wales and Healthcare Inspectorate Wales. I thank their staff for providing such a comprehensive range of studies. These were commissioned following the tragic events that led to the death of Peter Connelly. I made a statement at the time setting out the course of action to satisfy ourselves that safeguarding arrangements were operating effectively.

Mae gennym oll gyfrifoldeb i ddiogelu plant fel dinasyddion. Mae hynny'n berthnasol i'r Llywodraeth ac i fudiadau statudol a gwirfoddol. Aethom ati i wneud hynny yn y lle cyntaf drwy ofyn i'r sawl sydd yn gyfrifol am reoli diogelwch plant am eu hasesiad o'r sefyllfa. Dyna'r ffordd orau i ni i gyd gael darlun clir o'r sefyllfa ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a fyddai'n dod i'r amlwg. Yr wyf yn falch o weld bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gyffredinol yn cadarnhau cywirdeb yr hunanarchwiliadau hyn.

We all have responsibilities to safeguard children as citizens. That is relevant to Government and to statutory and voluntary organisations. Our approach was to start by asking those responsible for managing safeguarding children for their assessment of the situation. That was the best way for us all to get an accurate picture of the situation and to tackle any issues that were identified. I am pleased to see that Care and Social Services Inspectorate Wales generally confirms the accuracy of these self-audits.

This is not the time to attempt a comprehensive response to these reviews; we all need to give them careful consideration, and I will give Assembly Members a full opportunity to discuss them in the Chamber on 17 November. However, I want to highlight a number of key issues. I am pleased to see that significant improvements have been made by local authorities in strengthening their arrangements to protect

Nid dyma'r amser i geisio rhoi ymateb cynhwysfawr i'r adolygiadau hyn; mae angen inni i gyd eu hystyried yn ofalus, a rhoddaf gyfle llawn i Aelodau'r Cynulliad eu trafod yn y Siambr ar 17 Tachwedd. Fodd bynnag, mae arnaf eisiau tynnu sylw at nifer o faterion allweddol. Yr wyf yn falch o weld bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud gan awdurdodau lleol o ran cryfhau eu trefniadau i amddiffyn plant a bod

children and that there is progress and improvement in relation to safeguarding arrangements across healthcare organisations. Joint working is at the heart of good safeguarding and I am pleased to see that the CSSIW report says that agencies work effectively together in responding to initial concerns. I want to put on record my thanks to all those professionals who do this difficult and very exposed work for the improvements that they have made.

The reports identify areas in which further work is needed to strengthen delivery. They highlight the crucial role of leadership in statutory bodies and all partnerships. We have already issued guidance on the roles and responsibilities of the directors of social services and set clear expectations for the chief executives of local health boards. We need to examine the level at which the chairing of local safeguarding children boards is pitched. I will write to chief executives of local authorities to ask them to review that and let me know the outcome.

The reports show that there is too much variation in national health service and local authority performance. I have expressed my concerns about that previously—it is not acceptable. Each statutory body in Wales must examine its own performance in a transparent way to satisfy itself that it is delivering as it should be. I know that the inspectorates will return to this. I will also ask the commission on social services to address this issue. The recent reorganisation of the NHS will assist consistency, and the Minister for Health and Social Services has already asked Professor Mansel Aylward to look at the arrangements that support safeguarding work within the NHS. There remain some basics that need attending to. It is not acceptable that, in some places, Criminal Records Bureau checks have not been made consistently. That cannot continue, and the new arrangements for vetting and barring will place this on a yet stronger footing. These reports also highlight areas in which we can strengthen the framework for safeguarding.

pethau'n symud yn eu blaenau ac yn gwella yng nghyswllt trefniadau diogelu ar draws sefydliadau gofal iechyd. Mae cydweithio'n elfen ganolog mewn diogelu da ac yr wyf yn falch o weld bod adroddiad AGGCC yn dweud bod asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol o ran ymateb i bryderon cychwynnol. Mae arnaf eisiau dweud ar goedd fy mod yn diolch i'r holl weithwyr proffesiynol hynny sy'n gwneud y gwaith anodd hwn sy'n cael cryn sylw am y gwelliannau y maent wedi'u gwneud.

Mae'r adroddiadau'n nodi meysydd lle y mae angen rhagor o waith i gyflawni'r gwaith yn well. Maent yn pwysleisio rôl hollbwysig arweinyddiaeth mewn cyrff statudol ac ym mhob partneriaeth. Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch rolau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac wedi pennu disgwyliadau clir ar gyfer prif weithredwyr byrddau iechyd lleol. Mae angen inni archwilio'r hyn a ddisgwylir gan y rhai sy'n cadeirio byrddau lleol diogelu plant. Ysgrifennaf at brif weithredwyr awdurdodau lleol i ofyn iddynt adolygu hynny a rhoi gwybod imi am y canlyniad.

Dengys yr adroddiadau fod perfformiad y gwasanaeth iechyd gwladol ac awdurdodau lleol yn rhy amrywiol. Yr wyf wedi mynegi fy mhryderon ynghylch hynny o'r blaen—nid yw'n dderbyniol. Rhaid i bob corff statudol yng Nghymru archwilio'i berfformiad ei hun mewn ffordd dryloyw er mwyn bod yn sicr ei fod yn cyflawni ei waith fel y dylai. Gwn y bydd yr arolygiaethau'n dychwelyd at hyn. Yn ogystal gofynnaf i'r comisiwn ar wasanaethau cymdeithasol roi sylw i'r mater hwn. Bydd yr ad-drefnu a fu ar y GIG yn ddiweddar yn helpu o ran cysondeb, ac mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi gofyn i'r Athro Mansel Aylward edrych ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith diogelu yn y GIG. Erys rhai materion sylfaenol y mae angen rhoi sylw iddynt. Nid yw'n dderbyniol nad yw archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi cael eu gwneud yn gyson mewn rhai lleoedd. Ni all hynny barhau, a bydd y trefniadau newydd ar gyfer fetio a gwahardd yn cryfhau hyn ymhellach fyth. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw hefyd at feysydd lle y gallwn gryfhau'r fframwaith

ar gyfer diogelu.

I am pleased to see that the energy that we have all injected into supporting the social care workforce has paid dividends. It is particularly pleasing to see the early impact of support in the first year of practice. Again, this is not yet universal and I am asking the chief inspector to follow that up. I made it clear at the annual social services conference in June that we must place more value and a greater emphasis on professional practice in social care and in social work. We know that confident and assertive practice makes a difference. That is central to the work that the task group on the workforce that I have set up will carry out.

Yr wyf yn falch o weld bod yr egni yr ydym i gyd wedi'i roi i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi dwyn ffrwyth. Mae'n braf iawn gweld effaith gynnwys cefnogaeth yn y flwyddyn gyntaf. Unwaith eto, nid yw hyn yn digwydd ym mhob sefyllfa hyd yma, ac yr wyf yn gofyn i'r prif arolygydd fynd ar drywydd hynny. Dywedais yn glir yn y gynhadledd gwasanaethau cymdeithasol flynyddol ym mis Mehefin fod yn rhaid inni roi mwy o werth a mwy o bwyslais ar ymarfer proffesiynol mewn gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Gwyddom fod arferion hyderus a phendant yn gwneud gwahaniaeth. Mae hynny'n ganolog o ran y gwaith y bydd y grŵp gorchwyl ar y gweithlu yr wyf wedi'i sefydlu yn ei gyflawni.

Joint working with children and families beyond referral and initial decisions is not embedded firmly enough. Too much currently falls to social services and this will require further attention. One contribution to this is using our powers by trailblazing the development of integrated family support teams.

Nid yw cydweithio â phlant a theuluoedd ar ôl atgyfeirio a'r penderfyniadau cychwynnol wedi bwrw ei wreiddiau'n ddigon cadarn eto. Ar hyn o bryd mae gormod yn dod i ran gwasanaethau cymdeithasol a bydd angen rhoi rhagor o sylw i hyn. Un cyfraniad at hyn yw defnyddio ein pwerau drwy arloesi datblygu timau integredig cymorth i deuluoedd.

2.50 p.m.

One of the main findings of the reports was the variable performance of local safeguarding children boards and a lack of clarity about their roles and responsibilities and those of children and young persons partnerships. The guidance on partnerships and plans is being reviewed and updated. More is needed to strengthen joint working on LSCBs if they are to fulfil their role in raising awareness, supporting training, and providing advice, guidance and a challenge. Too many are weak and insufficiently supported by the range of statutory partners. I question whether having 20 LSCBs is the most effective and efficient way of supporting front-line staff.

Un o brif ganfyddiadau'r adroddiadau oedd perfformiad amrywiol byrddau lleol diogelu plant a diffyg eglurder ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhai'r partneriaethau plant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau ynghylch partneriaethau a chynlluniau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae angen gwneud mwy i gryfhau cydweithio ar fyrddau lleol diogelu plant os ydynt am gyflawni eu rôl o ran codi ymwybyddiaeth, cefnogi hyfforddiant a darparu cyngor, canllawiau a her. Mae gormod yn wan, a'r gefnogaeth y maent yn ei chael gan yr amrywiaeth o bartneriaid statudol yn annigonol. Yr wyf yn cwestiynu ai cael 20 bwrdd lleol diogelu plant yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gefnogi staff ar y rheng flaen.

I am concerned that obstacles to the proper sharing of information remain, especially within the NHS. The statutory guidance is clear, and the recent Government amendment

Yr wyf yn poeni bod rhwystrau o hyd sy'n atal rhannu gwybodaeth yn iawn, yn enwedig yn y GIG. Mae'r canllawiau statudol yn glir, a bydd gwelliant y Llywodraeth yn



to the proposed children and families Measure will place a duty on the NHS to notify the local authority when it considers that the substance misuse or mental health problems of an adult pose a risk to a child. I intend to take a holistic approach to the issue of information sharing, so that the importance of doing so is embedded into health and social care processes and into the thinking of every health and social care worker.

I said at the outset that safeguarding can only be achieved by working together on a national, regional and local basis. I have therefore asked the director of social services Wales to lead a Welsh safeguarding forum at which the WLGA, SOLACE, LHB chief executives, the Association of Directors of Social Services, the Association of Directors of Education Wales, the police and the relevant inspectorates and senior officials will be present.

Finally, these reports are inevitably a snapshot in time. I have been assured by both the Care and Social Services Inspectorate Wales and the Healthcare Inspectorate Wales that they are following up where there are particular issues. I welcome the report and its recommendations on serious case reviews. I have now asked for specific proposals to implement the ideas in this report. Safeguarding must remain visibly high on all our agendas. I am pleased that progress has been made but, inevitably, there is more to do, and we can of course never be complacent.

**Mark Isherwood:** Thank you, Deputy Minister, for your statement. It is timely given that the number of children in care is sadly increasing in most counties, reflecting the consequences of family breakdown, substance misuse—which you referred to—and abuse, and, too often, educational underattainment is a resulting factor.

ddiweddar i'r Mesur arfaethedig ynghylch plant a theuluoedd yn ei gwneud yn ddyletswydd i'r GIG hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd o'r farn bod problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau oedolyn yn peri bod perygl ynghlwm wrth hynny i blentyn. Yr wyf yn bwriadu arddel agwedd gyfannol at rannu gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd gwneud hynny wedi'i wreiddio mewn prosesau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn y ffordd y mae pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddwl.

Dywedais ar y dechrau mai dim ond drwy gydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol y gellir sicrhau bod diogelu'n digwydd. Yr wyf felly wedi gofyn i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol Cymru arwain fforwm diogelu Cymru lle y bydd prif weithredwyr byrddau iechyd lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwchreolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, yr heddlu a'r arolygiaethau perthnasol ac uwch swyddogion yn bresennol.

I gloi, mae'n anochel mai rhoi ciplun inni ar gyfnod y mae'r adroddiadau hyn. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi fy sicrhau eu bod yn mynd ar drywydd materion penodol. Yr wyf yn croesawu'r adroddiad a'i argymhellion ar adolygiadau achosion difrifol. Yr wyf yn awr wedi gofyn am gynigion penodol i weithredu'r syniadau sydd yn yr adroddiad hwn. Rhaid i ddiogelu aros yn uchel ac yn amlwg ar agenda pawb ohonom. Yr wyf yn falch ein bod wedi symud ymlaen ond, yn anochel, nid da lle gellir gwell, ac wrth gwrs ni allwn byth laesu ein dwylo.

**Mark Isherwood:** Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Mae'n amserol gan fod nifer y plant mewn gofal yn codi yn y rhan fwyaf o siroedd yn anffodus, sy'n adlewyrchu canlyniadau teuluoedd yn chwalu, camddefnyddio sylweddau—y cyfeiriasoch ato—a cham-drin, ac, yn rhy aml, mae tangyflawni addysgol yn ganlyniad i hynny.

You state that the report shows too much variation in NHS and local authority performance, and that each statutory body in Wales must examine its own performance in a transparent way. How will you ensure that that happens, and that communication does not just happen at the executive or leadership level, but with the relevant scrutiny committees and chairs of scrutiny committees as well? As I know from first-hand experience, there are occasions when elected members sometimes do not hear everything that perhaps they should.

You state that we must place greater value and emphasis on professional practice in social care and social work. Concerns have been raised with us that there is a need for an enhanced career structure, with further career bands, so that staff have more rewarding careers and are able to progress in what is a valued profession. In that context, would you consider addressing this in the proposed children and families Measure, in which I know you have included a reference to the family social work standard officers? However, there are proposed amendments to strengthen the role of these officers to raise standards in social work practice.

You refer to joint working with children and families beyond referral and initial decisions as not being embedded firmly enough. We have debated many times in the Chamber the need for counselling and independent advocacy for children, but I hear too often of children who are not necessarily offered the advocacy until they are asked about it by concerned individuals, who are often grandparents or other relatives. How will you monitor that to ensure that best practice is the expected practice for all young children, and how will you ensure the independence of the integrated family support teams that you referred to? I know that there is a reference in the proposed children and families Measure to the need for those to have a degree of independence, but do you acknowledge the need for them to be truly able to act independently of the employing organisation?

Dywedwch fod yr adroddiad yn dangos bod perfformiad y GIG ac awdurdodau lleol yn rhy amrywiol, a bod yn rhaid i bob corff statudol yng Nghymru archwilio ei berfformiad ei hun mewn ffordd dryloyw. Sut y byddwch yn sicrhau bod hynny'n digwydd, ac na fydd cyfathrebu ond yn digwydd ar lefel y weithrediaeth neu'r arweinwyr, ond gyda'r pwyllgorau craffu perthnasol a chadeiryddion pwyllgorau craffu hefyd? Fel y gwn o'm profiad fy hun, weithiau ni fydd aelodau etholedig bob amser yn clywed popeth y dylent ei glywed efallai.

Dywedwch fod yn rhaid inni roi mwy o werth a phwyslais ar ymarfer proffesiynol mewn gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Mae pryderon wedi cael eu codi â ni fod angen strwythur gyrfa gwell, gyda rhagor o fandiau gyrfa, er mwyn i'r staff gael gyrfaedd sy'n eu gwobrwyo'n well a'u bod yn gallu symud ymlaen mewn proffesiwn sy'n cael ei werthfawrogi. Yn y cyd-destun hwnnw, a fydddech yn ystyried rhoi sylw i hyn yn y Mesur arfaethedig ynghylch plant a theuluoedd? Gwn eich bod wedi cynnwys cyfeiriad at y swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol ynddo. Fodd bynnag, ceir gwelliannau arfaethedig i gryfhau rôl y swyddogion hyn i godi'r safonau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Yr ydych yn dweud nad yw cydweithio â phlant a theuluoedd ar ôl atgyfeirio a'r penderfyniadau cychwynnol wedi bwrw ei wreiddiau'n ddigon cadarn. Yr ydym wedi trafod yr angen am gwnsela ac eiriolaeth annibynnol i blant droeon yn y Siambr, ond byddaf yn clywed yn rhy aml am blant nad ydynt o reidrwydd yn cael cynnig eiriolaeth nes bod unigolion sy'n pryderu yn gofyn iddynt amdano, sy'n aml yn neiniau ac yn deidiau neu'n berthnasau eraill. Sut y byddwch yn monitro hynny i sicrhau mai'r arfer gorau yw'r arfer a ddisgwylir ar gyfer pob plentyn ifanc, a sut y byddwch yn sicrhau annibyniaeth y timau integredig cymorth i deuluoedd y cyfeiriasoch atynt? Gwn fod y Mesur arfaethedig ynghylch plant a theuluoedd yn cyfeirio at yr angen i'r rheini gael rhywfaint o annibyniaeth, ond a ydych yn cydnabod bod angen iddynt allu gweithio'n gwbl annibynnol ar y sefydliad sy'n cyflogi?

You state that more needs to be done to strengthen joint working on local safeguarding children boards. You also question whether having 20 local safeguarding children boards is the most effective and efficient way of supporting front-line staff. That is a very intriguing statement, Minister, and I would be grateful if you could help us to understand what we are to read into that a statement.

I referred earlier to relatives, particularly grandparents. Would you consider adopting in Wales what Scotland already has, which is a mandatory charter for grandchildren, so that grandchildren who may be in the care system or who are being threatened with being taken into the care system have access to their grandparents? The grandparents would then be directly involved and consulted at that stage, unless there is a good reason for not doing that. Presently, grandparents have few, if any, rights in law. Fortunately, I, as a grandparent, am not in that position and I hope that other grandparents in this Assembly Chamber are not either, although I am sure that we all have constituents who have been in this position.

On vulnerable adults, how will you respond to research by Help the Aged and Age Concern that 93 per cent of adults in Wales say that they need new legislation to protect them from elder abuse?

My final point is partially a plug. We today launched the fuel poverty charter, with cross-party support, and with the Minister, in Cardiff bay. Will you ensure that issues around child wellbeing and child poverty, including fuel poverty in their homes, which can often trigger a child going into care, are taken into account?

**Gwenda Thomas:** You started by asking how we intend to take things forward and what the next steps will be. I have already met a number of other Ministers this week to ensure that we are all committed to action

Yr ydych yn dweud bod angen gwneud mwy i gryfhau cydweithio ar fyrdau lleol diogelu plant. Yr ydych hefyd yn cwestiynu ai cael 20 bwrdd lleol diogelu plant yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gefnogi staff ar y rheng flaen. Mae hwnnw'n ddatganiad gogleisiol dros ben, Weinidog, a byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi ein helpu i ddeall sut y dylem ddehongli'r datganiad hwnnw.

Cyfeiriais yn gynharach at berthnasau, yn enwedig neiniau a theidiau. A fydddech yn ystyried mabwysiadu yng Nghymru yr hyn sydd eisoes wedi cael ei fabwysiadu yn yr Alban, sef siarter orfodol ar gyfer wyrion, er mwyn i wyrion a all fod yn y system gofal, neu y mae bygythiad iddynt gael eu rhoi yn y system gofal, allu cael weld eu neiniau a'u teidiau? Byddai'r neiniau a'r teidiau wedyn yn cymryd rhan uniongyrchol ac ymgynghorid â hwy y pryd hwnnw, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r hawliau sydd gan neiniau a theidiau o dan y gyfraith. Yn ffodus, nid wyf fi, fel taid, yn y sefyllfa honno a gobeithio nad yw'r neiniau a'r teidiau eraill yn Siambr y Cynulliad hwn yn y sefyllfa honno ychwaith, er fy mod yn siŵr bod gennym i gyd etholwyr sydd wedi bod yn y sefyllfa hon.

Yng nghyswllt oedolion agored i niwed, sut yr ymatebwch i ymchwil gan Help the Aged ac Age Concern sy'n dangos bod 93 y cant o oedolion yng Nghymru yn dweud bod angen deddfwriaeth newydd arnynt i'w hamddiffyn rhag cam-drin pobl hŷn?

Hysbyseb yn rhannol yw fy mhwynt olaf. Heddiw, bu inni lansio'r siarter tlodi tanwydd, gyda chefnogaeth drawsbleidiol, a chyda'r Gweinidog, ym mae Caerdydd. A wnewch sicrhau bod sylw'n cael ei roi i faterion sy'n ymwneud â lles plant a thlodi plant, gan gynnwys tlodi tanwydd yn eu cartrefi, sy'n aml yn gallu bod yn sbardun i fynd â phlentyn i ofal?

**Gwenda Thomas:** Dechreuasoch drwy ofyn sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â phethau a beth fydd y camau nesaf. Yr wyf eisoes wedi cwrdd â nifer o Weinidogion eraill yr wythnos hon i sicrhau ein bod i gyd

and to ensure that the arrangements in Wales are second to none. I will work to ensure that that is the case. I have mentioned that a senior group of officials—the internal group—has been set up and has met twice, and it will now be looking to bring in other senior officials, as I said, from the police, the Association of Directors for Social Services Cymru, the Association of Directors of Education in Wales, and the Society of Local Authority Chief Executives. I believe that this will be the way forward, along with the work that Professor Mansel Aylward will be carrying out within the NHS.

On scrutiny, I can only say that I will be prepared to answer, at all times, any questions, or to respond to any concerns that a scrutiny committee may raise, and I think that I have a good track record on that.

On the workforce, I have set up a taskforce to take forward workforce issues, and I believe that the taskforce will meet in November. We are well on the way to setting up the terms of reference. You asked about the way in which we bring together various professionals in this field. I can only refer you to what I have already said in the Chamber about setting up the integrated family support teams. I wonder whether you confused these when you talked about independence and whether you actually meant the independent reviewing officers. Might that be the case?

3.00 p.m.

**Mark Isherwood:** Yes.

**Gwenda Thomas:** The IFSTs are not meant to work independently. They work in a different way, using existing resources, bringing expertise together and looking at joint working and placing that on a statutory basis between health and social services. I am sure that you agree that that is a positive way forward. I share your concerns about matters beyond referral and initial decisions. I have said that I do not feel that that is sufficiently embedded in processes, and we will be looking at that. Perhaps we can look at that

wedi ymrwymo i weithredu ac i sicrhau bod y trefniadau yng Nghymru gyda'r gorau. Byddaf yn gweithio i sicrhau bod hyn yn wir. Yr wyf wedi sôn bod uwch grŵp o swyddogion—y grŵp mewnol—wedi cael ei sefydlu ac wedi cwrdd ddwywaith, a bydd yn awr yn mynd ati i wahodd uwch swyddogion eraill, fel y dywedais, o'r heddlu, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol. Yr wyf o'r farn mai dyma fydd y ffordd orau ymlaen, ochr yn ochr â'r gwaith y bydd yr Athro Mansel Aylward yn ei wneud yn y GIG.

Yng nghyswllt craffu, y cyfan y gallaf ei ddweud yw y byddaf bob amser yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau, neu ymateb i unrhyw bryderon y gall pwyllgor craffu eu codi, ac yr wyf yn meddwl bod gennyf enw da yn hynny o beth.

Yng nghyswllt y gweithlu, yr wyf wedi sefydlu tasglu i fwrw ymlaen â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, a chredaf y bydd y tasglu'n cwrdd fis Tachwedd. Yr ydym ar y trywydd iawn i sefydlu'r cylch gorchwyl. Gofynasoch am y ffordd yr ydym yn dod ag amrywiol weithwyr proffesiynol ynghyd yn y maes hwn. Y cyfan y gallaf ei wneud yw eich cyfeirio at yr hyn yr wyf eisoes wedi'i ddweud yn y Siambr am sefydlu'r timau integredig cymorth i deuluoedd. Tybed a oeddech yn drysu'r ynglŷn â'r rhain wrthi ichi siarad am annibyniaeth ac a oeddech mewn gwirionedd yn golygu'r swyddogion adolygu annibynnol. Ai dyna'r oeddech yn ei olygu?

**Mark Isherwood:** Ie.

**Gwenda Thomas:** Nid yw'r timau integredig cymorth i deuluoedd i fod i weithio'n annibynnol. Maent yn gweithio mewn ffordd wahanol, drwy ddefnyddio adnoddau sydd eisoes ar gael, drwy ddod ag arbenigedd ynghyd a thrwy edrych ar gydweithio a rhoi hynny ar sail statudol rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod honno'n ffordd gadarnhaol ymlaen. Yr wyf finnau'n pryderu yr un fath â chithau ynghylch materion ar ôl atgyfeirio a'r penderfyniadau cychwynnol.

again in the debate on 17 November. I have concerns about whether the best way of setting up a framework is by having 20 local safeguarding children boards. We can talk about this and consider whether that is the best way forward. I share what you say in part about the role of grandparents. The principle underlying the new integrated family support teams means that they will look at the wider extended family and the role of grandparents. I am looking forward to seeing the pioneers kick off in April next year so that we can get feedback and an evidence base on which to go forward on this issue.

You mentioned vulnerable adults. That would be a separate process. I will be coming forward with proposals on the protection of adults, which will address the issue of elder abuse, which is something that I spoke about at the national policy forum this morning. That will be a separate issue. I know that the Minister who will look at the strategy on fuel poverty will have due regard to child poverty within that.

**Helen Mary Jones:** Croesawaf y datganiad gan y Dirprwy Weinidog ar y gwaith da iawn sydd wedi cael ei wneud yn y ddau adolygiad hyn. Hefyd, diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am y sesiwn wybodaeth. Nid oeddwn yn gallu bod yno, ond yr oedd yn ddefnyddiol iawn cael aelod o'r staff yno. Edrychaf ymlaen at ystyried yr adroddiadau yn fanylach yn nes ymlaen, ac felly croesawaf y ddadl y mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei haddo inni.

The Deputy Minister will be aware that concern has been expressed, particularly by local authorities, about the effects of the health reorganisation on the effectiveness of the local safeguarding children boards. I welcome what the Deputy Minister has told us today about Professor Mansel Aylward's involvement. Can you reassure us today that one of the issues that Professor Aylward will look at is the ways in which we can ensure that sufficiently senior representatives of local health boards attend and participate in

Yr wyf wedi dweud nad wyf yn meddwl bod hyn wedi bwrw ei wreiddiau'n ddigonol mewn prosesau, a byddwn yn edrych ar hynny. Efallai y gallwn edrych ar hynny eto yn y ddadl ar 17 Tachwedd. Mae gennyf bryderon ynghylch ai cael 20 bwrdd lleol diogelu plant yw'r ffordd orau o sefydlu fframwaith. Gallwn siarad am hyn ac ystyried ai dyma'r ffordd orau ymlaen. Yr wyf yn cydfynd yn rhannol â'r hyn a ddywedwch ynghylch rôl neiniau a theidiau. Mae'r egwyddor sy'n sail i'r timau newydd, y timau integredig cymorth i deuluoedd, yn golygu y byddant yn edrych ar y teulu estynedig ehangach a rôl neiniau a theidiau. Yr wyf yn edrych ymlaen at weld yr arloeswyr yn dechrau arni fis Ebrill nesaf er mwyn inni allu cael adborth a sylfaen dystiolaeth er mwyn symud ymlaen ar y mater hwn.

Soniasoch am oedolion agored i niwed. Byddai hynny'n broses ar wahân. Byddaf yn cyflwyno cynigion ar amddiffyn oedolion, a fydd yn rhoi sylw i gam-drin pobl hŷn, sy'n rhywbeth y siaredais amdano yn y fforwm polisi cenedlaethol y bore yma. Bydd hwnnw'n fater ar wahân. Gwn y bydd y Gweinidog a fydd yn edrych ar y strategaeth ar dlodi tanwydd yn ystyried tlodi plant yn hynny.

**Helen Mary Jones:** I welcome the Deputy Minister's statement on the excellent work that has been done in these two reviews. Also, I thank the Deputy Minister for the briefing. I was not able to attend, but it was very useful having a member of staff there. I look forward to considering the reports in greater detail later on, and therefore I welcome the debate that the Deputy Minister has promised us.

Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod bod pryder wedi cael ei fynegi, yn enwedig gan awdurdodau lleol, am effeithiau ad-drefnu iechyd ar effeithiolrwydd y byrddau lleol diogelu plant. Yr wyf yn croesawu'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud wrthym heddiw am gyfraniad yr Athro Mansel Aylward. A allwch ein sicrhau heddiw mai un o'r materion y bydd yr Athro Aylward yn edrych arnynt fydd y ffyrdd y gallwn sicrhau bod cynrychiolwyr â statws digon uchel yn y byrddau iechyd lleol yn

the local safeguarding children boards? I know that this has been a concern for some social services directors for example. I do not know whether you can say anything about this today, Deputy Minister, but it seems quite astonishing that there are some places where Criminal Records Bureau checks are still not being effectively done. Do the reports you are publishing today give us any idea about why that is and why that is done better in some places than others? What steps do you propose to take to ensure that, where there is a weakness in that area, that weakness is addressed?

I am very glad that the guidance on children and young people's partnerships and the local safeguarding children boards is to be reviewed and updated, and I am struck by what you say about the number of those boards. It may be useful to look at how their systems can be streamlined. Perhaps this would be a matter for the debate in a couple of weeks time, but are you able to give us an idea today about the timescales for that review and when you expect to be able to bring forward any proposals for change?

I particularly welcome your point about information sharing and a holistic approach. I know that you are aware that the Children and Young People Committee is undertaking a piece of work looking at the way in which children are placed in care.

The sharing of information seems to be emerging as a real issue in the evidence that we are taking. Will you ensure that the holistic approach that you will take, which I welcome, includes the sharing of information with potential foster carers, with foster carers, and also—very importantly—with potential and current adult placement carers? We know that there have been specific failures with regard to this in the past and I hope that we can ensure that, from now on, these carers are treated as professional members of the workforce and not as 'amateurs' as described to me by a foster carer recently.

mynychu ac yn cymryd rhan yn y byrddau lleol diogelu plant? Gwn fod hyn wedi bod yn peri pryder i rai cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft. Ni wn a allwch ddweud unrhyw beth am hyn heddiw, Ddirprwy Weinidog, ond mae'n ymddangos yn eithaf syfrdanol bod rhai lleoedd lle nad yw archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu gwneud yn effeithiol o hyd. A yw'r adroddiadau yr ydych yn eu cyhoeddi heddiw yn rhoi unrhyw syniad inni am y rheswm dros hynny a pham mae rhai lleoedd yn gwneud hyn yn well na'i gilydd? Pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau, lle bynnag y bydd gwendid yn y maes hwnnw, y rhoddir sylw i'r gwendid hwnnw?

Yr wyf yn falch iawn y bydd y canllawiau ar bartneriaethau plant a phobl ifanc a'r byrddau lleol diogelu plant yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, ac mae'r hyn yr ydych yn ei ddweud am nifer y byrddau hynny'n gwneud argraff arnaf. Efallai y bydd yn ddefnyddiol edrych at sut y gellir symleiddio'u systemau. Efallai y byddai hwn yn fater i'r ddadl ymhen ychydig o wythnosau, ond a allwch roi syniad inni heddiw am yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad hwnnw a phryd yr ydych yn disgwyl gallu cyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer newid?

Yr wyf yn croesawu'n benodol eich pwynt am rannu gwybodaeth ac agwedd gyfannol. Gwn eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gwneud darn o waith sy'n edrych ar y ffordd y mae plant yn cael eu rhoi mewn gofal.

Ymddengys fod rhannu gwybodaeth yn dod i'r amlwg fel problem go iawn yn y dystiolaeth yr ydym yn ei chael. A wnewch sicrhau bod yr agwedd gyfannol y byddwch yn ei harddel, ac yr wyf yn croesawu hynny, yn cynnwys rhannu gwybodaeth â darpar ofalwyr maeth, â gofalwyr maeth, a hefyd—yn bwysig dros ben—â darpar ofalwyr lleoli oedolion a gofalwyr lleoli oedolion? Gwyddom fod methiannau penodol wedi bod yn y maes hwn yn y gorffennol a gobeithio y gallwn sicrhau, o hyn ymlaen, y caiff y gofalwyr hyn eu trin fel aelodau proffesiynol o'r gweithlu ac nid fel 'amaturiaid' fel y disgrifiodd un gofalwr maeth wrthyf yn ddiweddar.

I strongly agree with the Deputy Minister that these issues must remain high on our agenda and I welcome your commitment to ensuring that our Government is never complacent. Even when we have the best systems in the world, there will always be things that we can do better.

**Gwenda Thomas:** Diolch yn fawr am eich sylwadau agoriadol ac am eich sylwadau ar y ddadl sydd i ddod yn y Siambr.

You ask for assurances about sufficiently senior officials within the national health service being involved. As I have already said, I believe that changes in the NHS will assist in ensuring consistency. However, the Minister for Health and Social Services has asked Professor Mansel Aylward to look into the new structures. I know that Professor Aylward will be speaking with senior officials, and the Minister will be writing to the chairs of the new local health boards on the issue of safeguarding children and asking them whether they have structures in place. I believe that a response to that has been requested within the next month. We will look at that response.

It is important to say that the UK already has one of the most advanced systems in the world for carrying out CRB checks on all of those who work in positions of trust with children and vulnerable adults. However, it is unacceptable that Health Inspectorate Wales has, again, raised concerns about the lack of consistency in ensuring that the Criminal Records Bureau's checks have been undertaken. We know that, from 12 October, the vetting and barring scheme was created for the single, yet vital, purpose of preventing those who pose a risk of harm from gaining access to children and vulnerable adults. This scheme will also strengthen the process. We know, as a matter of urgency, that we are looking at a lack of consistency in carrying out CRB checks.

To respond to the comments on LSCBs, I am not clear on the timetable at present, but I

Yr wyf yn cytuno i'r carn â'r Dirprwy Weinidog fod yn rhaid i'r materion hyn aros yn uchel ar ein hagenda ac yr wyf yn croesawu eich ymrwymiad i sicrhau na fydd ein Llywodraeth byth yn llaesu ei dwylo. Hyd yn oed gyda'r systemau gorau yn y byd, ceir bob amser bethau y gallwn eu gwneud yn well.

**Gwenda Thomas:** Thank you for your opening comments and for your comments on the forthcoming debate in the Chamber.

Yr ydych yn gofyn am sicrwydd ynghylch cyfranogiad swyddogion â statws digon uchel yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, yr wyf yn credu y bydd newidiadau yn y GIG yn helpu i sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i'r Athro Mansel Aylward ymchwilio i'r strwythurau newydd. Gwn y bydd yr Athro Aylward yn siarad ag uwch swyddogion, ac y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at gadeiryddion y byrddau iechyd lleol newydd ynghylch diogelu plant ac yn gofyn iddynt a oes ganddynt strwythurau ar waith. Yr wyf yn credu bod cais wedi'i wneud am ymateb i hynny cyn pen y mis nesaf. Edrychwn ar yr ymateb hwnnw.

Mae'n bwysig dweud bod gan y DU un o'r systemau mwyaf datblygedig yn y byd yn barod ar gyfer cynnal archwiliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n annerbyniol bod Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi codi pryderon, unwaith eto, ynghylch y diffyg cysondeb o ran sicrhau bod archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi cael eu cynnal. Gwyddom fod y cynllun fetio a gwahardd wedi cael ei greu ar 12 Hydref gyda'r un diben hollbwysig o rwystro'r rhai y mae perygl iddynt beri niwed rhag gallu cyrraedd plant ac oedolion agored i niwed. Bydd y cynllun hwn hefyd yn cryfhau'r broses. Gwyddom, fel mater o frys, ein bod yn edrych ar ddiffyg cysondeb o ran cyflawni archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Ac ymateb i'r sylwadau am y byrddau lleol diogelu plant, nid wyf yn glir ynghylch yr

will come back to you on that. The role of the Children and Young People Committee is important, as is the sharing of information. I also take your point about foster carers. The implications of the sharing of information cannot be a barrier to safeguarding children and I would want to work to that principle.

**Peter Black:** Thank you for the statement, Deputy Minister, and also for the briefing that you offered this morning, which my researcher was able to attend on my behalf. I have not yet had a chance to read the reports that have been published today. In fact, I have not been able to get hold of all of them yet, therefore it is difficult to be able to comment in detail on them. However, I will look forward to the debate on 17 November, once we have had a chance to digest them.

However, I have some initial thoughts from the statement that you have given today, and some questions, in particular in relation to the issues that the report raised in relation to the sharing of information. It seems that one of the issues that has emerged time and time again in cases around Wales is the sharing of information, not just between the national health service and local government, but also between police forces, local government and the health service. It is important that all three agencies are on board in terms of how this agenda is being taken forward and ensuring that there are no barriers to sharing information at the earliest possible moment in order to protect children.

3.10 p.m.

I am also concerned—this is a point that Helen Mary Jones raised—about how the new local health boards will interact with local government. I notice that you state that 20 LSCBs may well be too many. There are only seven local health boards, and it will become more and more problematic to get effective partnerships as there are a number of local authorities within the area covered by each local health board. Clearly, a reform of the LSCBs and how they operate will be needed to ensure that we get effective partnerships. I would be interested in any

amserlen ar hyn o bryd, ond dof yn ôl atoch ynghylch hynny. Mae rôl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn bwysig, yn yr un modd â rhannu gwybodaeth. Yr wyf hefyd yn derbyn eich pwynt ynghylch gofalwyr maeth. Ni all goblygiadau rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr rhag diogelu plant a byddai arnaf eisiau gweithio yn ôl yr egwyddor honno.

**Peter Black:** Diolch ichi am y datganiad, Ddirprwy Weinidog, a hefyd am y sesiwn wybodaeth y bore yma, yr oedd fy ymchwilydd yn gallu bod yno ar fy rhan. Nid wyf wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiadau a gyhoeddwyd heddiw eto. A dweud y gwir, nid wyf wedi gallu cael gafael ar bob un ohonynt eto, felly mae'n anodd gallu cyflwyno sylwadau manwl arnynt. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at y ddatl ar 17 Tachwedd, ar ôl inni gael cyfle i'w pwysu a mesur.

Fodd bynnag, mae gennyf rai sylwadau cychwynnol a rhai cwestiynau sy'n deillio o'ch datganiad heddiw, yn enwedig yng nghyswllt y materion yr oedd yr adroddiad yn eu codi am rannu gwybodaeth. I bob golwg, un o'r materion sydd wedi dod i'r amlwg dro ar ôl tro mewn achosion ledled Cymru yw rhannu gwybodaeth, nid yn unig rhwng y gwasanaeth iechyd gwladol a llywodraeth leol, ond hefyd rhwng heddluoedd, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Mae'n bwysig bod y tair asiantaeth yn ymrwymo i'r un nod o ran sut y mae'r agenda hon yn cael ei rhoi ar waith a sicrhau nad oes dim rhwystrau sy'n atal rhannu gwybodaeth pan ddaw'r cyfle cyntaf un i wneud hynny er mwyn amddiffyn plant.

Yr wyf hefyd yn pryderu—mae hwn yn bwynt a gododd Helen Mary Jones—am sut y bydd y byrddau iechyd lleol newydd yn rhyngweithio â llywodraeth leol. Sylwaf ichi ddatgan ei bod yn eithaf posibl bod 10 bwrdd lleol diogelu plant yn ormod. Dim ond saith bwrdd iechyd lleol sydd, a bydd yn anos byth cael partneriaethau effeithiol gan fod nifer o awdurdodau lleol yn yr ardal y mae pob bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol amdani. Yn amlwg, bydd angen diwygio'r byrddau lleol diogelu plant a'r ffordd y maent yn gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn cael



further thoughts that you have on the detail of how you propose to take that forward.

The other issue that is of concern—again, I do not know whether the report has raised it, although it was not referred to in your statement—is that of the staffing of child protection agencies, such as social services. As you will know, the recruitment of social workers to work in child protection is a particular issue. Local authorities all over Wales are offering premium rates to try to attract staff to fill the many vacancies that exist. I know that local councils are relying on agency staff to fill vacancies, and that many councils around Wales have a large number of vacancies for child protection and social service professionals. I would be grateful to hear any thoughts you have as to how we might address this issue. Is this an issue for workforce planning, and if so, will you be addressing it as part of your response to these reports? Is it, conversely, a wider issue that needs to be addressed in conjunction with other Governments, and the UK Government in particular, with regard to how we start to deal with the shortage of social workers, which is having an impact on the effectiveness of local councils in dealing with child protection issues?

**Gwenda Thomas:** I, like you, look forward to the debate on 17 November. The issue of the sharing of information and when that information is shared brings Soham back vividly to our minds. I agree that this is an issue, and we must overcome any concerns that staff in the NHS might have with regard to patient confidentiality. The rules are quite clear. As I have already said, fear in relation to patient confidentiality, or any other issue, cannot be a barrier to the effective sharing of information and the protection of children. It is a matter that we will be taking forward.

On the numbers of LSCBs, they are new organisations, and we need to take time to look at the best way forward. I would be happy to consider and to listen to any views on what you see as the most effective

partneriaethau effeithiol. Hoffwn glywed unrhyw syniadau eraill sydd gennych ynghylch y manylion o ran sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hynny.

Y mater arall sy'n destun pryder—unwaith eto, ni wn a yw'r adroddiad wedi codi hyn, er nad oedd eich datganiad yn cyfeirio ato—yw staffio asiantaethau amddiffyn plant, megis gwasanaethau cymdeithasol. Fel y gwyddoch, mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol i weithio ym maes amddiffyn plant yn broblem benodol. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn cynnig cyfraddau premiwm i geisio denu staff i lenwi'r nifer o swyddi gwag a geir. Gwn fod cynghorau lleol yn dibynnu ar staff asiantaethau i lenwi swyddi gwag, a bod gan lawer o gynghorau ledled Cymru nifer fawr o swyddi gwag ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol ac amddiffyn plant. Byddwn yn falch o glywed unrhyw syniadau sydd gennych ynghylch sut y gallem fynd i'r afael â'r mater hwn. A yw hyn yn fater ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac os ydyw, a fyddwch yn rhoi sylw iddo fel rhan o'ch ymateb i'r adroddiadau hyn? A yw hyn, i'r gwrthwyneb, yn fater ehangach y mae angen rhoi sylw iddo ar y cyd â Llywodraethau eraill, a Llywodraeth y DU yn benodol, o ran sut yr ydym yn dechrau delio â'r prinder gweithwyr cymdeithasol, sy'n effeithio ar effeithiolrwydd cynghorau lleol o ran delio â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant?

**Gwenda Thomas:** Fel chithau, yr wyf yn edrych ymlaen at y ddadl ar 17 Tachwedd. Mae rhannu gwybodaeth a phryd y caiff yr wybodaeth honno ei rhannu'n dwyn Soham yn ôl i'r cof. Yr wyf yn cytuno bod hon yn broblem, a rhaid inni oresgyn unrhyw bryderon a allai fod gan staff yn y GIG ynghylch cyfrinachedd cleifion. Mae'r rheolau'n eithaf clir. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, ni all ofn yng nghyswllt cyfrinachedd cleifion, neu unrhyw fater arall, fod yn rhwystr sy'n atal rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac amddiffyn plant. Mae'n fater y byddwn yn mynd ynglŷn ag ef.

Yng nghyswllt nifer y byrddau lleol diogelu plant, maent yn gyrff newydd, ac mae angen inni dreulio amser yn edrych ar y ffordd orau ymlaen. Byddwn yn fodlon ystyried a gwrando ar unrhyw sylwadau ynghylch y

structure with which to move ahead.

On staffing, in the Care Council for Wales's annual report—I believe that it has been circulated to all—we are told that we have turned a corner on recruitment and retention in Wales. That is not to say that there is room for complacency, but the workforce task group that I have set up and that I have mentioned will take the workforce issues forward, which will be in line with the requirements of the British Association of Social Workers, which held a reception here, and which is committed to working with us in Wales. I take your views on staffing; it is a very important issue.

**Lorraine Barrett:** Thank you for your statement, Deputy Minister. I am sorry to repeat something that has already been raised with you, but I feel quite strongly and am concerned about the sharing of information. I remember when legislation came in quite a few years ago in relation to nuisance neighbours and anti-social behaviour. The legislation was there to allow the police and the housing authorities to share information in order to be able to work more effectively, but the officers at the local authority, and sometimes some police officers, were reluctant to share that information. Would you please ensure that this is one of your priorities? You have already covered it in some of your responses. However, while there may be legislation, it needs to feed down to all levels of staff to ensure that they know that it is safe and in the best interests of the child to share that information.

**Gwenda Thomas:** Thank you, Lorraine. I hope that you have been assured, to a degree, by what I have said this afternoon. The group of senior officials that I have already mentioned, which is a multi-agency group, will look at that issue of the sharing of information. There are clear rules, but there are instances in which there is some reluctance or fear of sharing information, which might become a barrier at times. We have to ensure that there are no barriers to the protection of our most vulnerable children.

strwythur mwyaf effeithiol ar gyfer symud ymlaen yn eich barn chi.

Yng nghyswllt staffio, yn adroddiad blynyddol Cyngor Gofal Cymru—credaf iddo gael ei ddosbarthu i bawb—dywedir wrthym ein bod wedi newid er gwell o ran recriwtio a chadw yng Nghymru. Nid yw hynny'n golygu y gallwn laesu ein dwylo, ond bydd y grŵp gorchwyl ynghylch y gweithlu yr wyf wedi'i sefydlu ac y soniais amdano, yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, a fydd yn cyd-fynd â gofynion Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, a gynhaliodd dderbyniad yma, ac sydd wedi ymrwymo i weithio gyda ni yng Nghymru. Yr wyf yn derbyn eich sylwadau am staffio; mae'n fater pwysig dros ben.

**Lorraine Barrett:** Diolch ichi am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Mae'n ddrwg gennyf ailadrodd rhywbeth sydd eisoes wedi cael ei godi gyda chi, ond yr wyf yn teimlo'n eithaf cryf ac yr wyf yn poeni am rannu gwybodaeth. Yr wyf yn cofio pan gyflwynwyd deddfwriaeth rai blynyddoedd yn ôl yng nghyswllt cymdogion sy'n niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Diben y ddeddfwriaeth oedd caniatáu i'r heddlu ac i'r cymdeithasau tai rannu gwybodaeth er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithiol, ond yr oedd y swyddogion yn yr awdurdodau lleol, ac ambell waith rhai swyddogion heddlu, yn amharod i rannu'r wybodaeth honno. A fydech yn sicrhau bod hyn yn un o'ch blaenoriaethau? Yr ydych eisoes wedi sôn amdano yn rhai o'ch ymatebion. Fodd bynnag, er y bydd deddfwriaeth efallai, mae angen i hynny dreiddio hyd at y staff ar bob lefel i sicrhau eu bod yn gwybod ei bod yn ddiogel ac er budd y plentyn i'r wybodaeth honno gael ei rhannu.

**Gwenda Thomas:** Diolch, Lorraine. Yr wyf yn gobeithio ichi gael eich sicrhau, i ryw raddau, gan yr hyn yr wyf wedi'i ddweud y prynhawn yma. Bydd y grŵp o uwch swyddogion yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato, sy'n grŵp aml-asiantaeth, yn edrych ar y mater hwnnw, sef rhannu gwybodaeth. Mae rheolau clir yn bodoli, ond ceir rhai enghreifftiau lle y mae rhai'n gyndyn o rannu gwybodaeth neu fod arnynt ofn gwneud hynny, sy'n rhywbeth a allai fod yn rhwystr ar adegau. Rhaid inni sicrhau nad oes dim

byd yn ein rhwystro rhag amddiffyn ein plant mwyaf agored i niwed

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad.

**The Presiding Officer:** I thank the Deputy Minister for her statement.

**Datganiad Deddfwriaethol am Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010**  
**Legislative Statement on the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education) Order 2010**

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):**

It is a pleasure to lay before the National Assembly the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education) Order on school governance. Today is the first opportunity for Assembly Members to discuss and scrutinise our proposed Order, which will add a further matter to field 5 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 in relation to the governance of maintained schools. The current law, mainly set out in the Education Act 2002, requires every maintained school in Wales to have its own governing body that is responsible for the local management of that school.

The debate in Plenary on 30 September 2009 gave Members an opportunity to discuss the Enterprise and Learning Committee's report, 'The Role of School Governors', which was published in July this year. That report, while highlighting the excellent work already undertaken by governing bodies, highlighted some areas in which improvements are possible. These included support and advice for governors, governor training, the role of the clerk, communications and knowledge of the policy context within which governors work, and the relationship between governors' effectiveness and school performance.

As Members will have gathered from my written response to the report, the Welsh Assembly Government recognises that the governance of maintained schools underpins, supports and is intrinsically linked to how schools operate in Wales. The Assembly Government welcomes the hard work that has

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu**

**Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae'n bleser gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) ynghylch llywodraethu ysgolion. Heddiw yw'r cyfle cyntaf i Aelodau'r Cynulliad drafod a chraffu ar ein Gorchymyn arfaethedig, a fydd yn ychwanegu mater pellach at faes 5 Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yng nghyswllt llywodraethu ysgolion a gynhelir. Mae'r gyfraith bresennol, a geir yn bennaf yn Neddf Addysg 2002, yn mynnu bod gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ei chorff llywodraethu ei hun sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol honno'n lleol.

Rhoddodd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi 2009 gyfle i Aelodau drafod adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, 'Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni. Tynnodd yr adroddiad hwnnw, er ei fod yn pwysleisio'r gwaith ardderchog sydd eisoes yn cael ei wneud gan gyrff llywodraethu, sylw at rai meysydd y gellir eu gwella. Yr oedd y rhain yn cynnwys cefnogaeth a chynghor i lywodraethwyr, hyfforddiant i lywodraethwyr, rôl y cler, cyfathrebu a gwybodaeth am y cyd-destun polisi y mae llywodraethwyr yn gweithio oddi mewn iddo, a'r berthynas rhwng effeithiolrwydd llywodraethwyr a pherfformiad ysgol.

Fel y bydd Aelodau wedi casglu o'm hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod llywodraethu ysgolion a gynhelir yn sylfaen i sut y mae ysgolion yn gweithredu yng Nghymru, yn cefnogi hynny ac â chyswllt annatod â hynny. Mae Llywodraeth

been undertaken by the more than 23,000 governors of schools in Wales and, because we recognise that good governance is important to our schools, it is right that the National Assembly for Wales should be able to pass Measures that will support and improve governance arrangements as a part of our commitment to ensuring the highest possible standards in our schools.

This proposed LCO will provide the National Assembly for Wales with the competence to do just that. It will take the Welsh Assembly Government a step further to ensure that school governors and school governing bodies are equipped to provide an even higher quality of service, together with greater support to the schools and pupils of Wales. Parallel work is being undertaken in relation to governance in the further education institution setting. There are already devolved powers in relation to further education, and it is important that we have comparable competence in relation to schools.

Our policy priorities in education, such as the 14-19 learning pathways, the school effectiveness framework, and the transformation agenda all rely on maximising the opportunities for schools and further education institutions to work together more collaboratively for the benefits of learners. We already have examples of schools working collaboratively by way of agreement. For example, there is clear commitment in Ynys Môn and Gwynedd for schools and colleges to collaborate and work together. This has resulted in the development and expansion of general and vocational course options at pre- and post-16 level to deliver greater choice and flexibility for learners.

By way of illustration, Coleg Menai and all secondary schools in Môn are working together collaboratively to deliver a BTEC first certificate in engineering at level 2. There are also examples of best practice from our primary schools. Dewi Sant, Croesatti, Llanfairpwll, Penybryn and Cae Top are a cluster of primary schools working in a collaborative way through the medium of

y Cynulliad yn croesawu'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud gan dros 23,000 o lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ac, oherwydd ein bod yn cydnabod bod llywodraethu da'n bwysig i'n hysgolion, mae'n iawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru allu pasio Mesurau a fydd yn cefnogi ac yn gwella trefniadau llywodraethu fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau'r safonau uchaf posibl yn ein hysgolion.

Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn yn rhoi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud hynny. Bydd yn mynd â Llywodraeth Cynulliad Cymru gam yn nes at sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion a chyrrff llywodraethu ysgolion wedi'u harfogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd gwell byth, ynghyd â mwy o gefnogaeth i ysgolion ac i ddisgyblion Cymru. Mae gwaith cyfochrog yn cael ei wneud yng nghyswllt llywodraethu mewn sefydliadau addysg bellach. Ceir eisoes bwerau wedi'u datganoli yng nghyswllt addysg bellach, ac mae'n bwysig bod gennym gymhwysedd tebyg yng nghyswllt ysgolion.

Mae ein blaenoriaethau polisi mewn addysg, megis y llwybrau dysgu 14-19, y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, a'r agenda weddnewid, i gyd yn dibynnu ar fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ysgolion ac i sefydliadau addysg bellach gydweithio'n fwy cydweithredol er budd dysgwyr. Mae gennym eisoes enghreifftiau o ysgolion yn gweithio'n gydweithredol drwy gytundeb. Er enghraifft, ceir ymrwymiad clir yn Ynys Môn a Gwynedd i ysgolion ac cholegau gydweithredu a chydweithio. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ac ehangu'r dewisiadau o ran cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sydd ar gael cyn ac ar ôl 16 i roi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr.

Er mwyn dangos hyn, mae Coleg Menai a holl ysgolion uwchradd Môn yn cydweithio'n gydweithredol i ddarparu tystysgrif gyntaf BTEC mewn peirianeg ar lefel 2. Ceir hefyd enghreifftiau o'r arferion gorau yn ein hysgolion cynradd. Mae Dewi Sant, Croesatti, Llanfairpwll, Penybryn a Cae Top yn glwstwr o ysgolion cynradd sy'n gweithio'n gydweithredol drwy gyfrwng y

Welsh, with a particular focus on the development of the pupil voice.

Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu llais y disgybl.

3.20 p.m.

We have these excellent examples, but we want to do more for the children of Wales and for the future of education in Wales. This proposed Order, if approved, would provide the competence to legislate on the conduct and governance of schools maintained by local education authorities. The acquisition of this competence would provide the opportunities to legislate on the constitution and membership of governing bodies, their ability to collaborate, and their training. Our purpose in introducing any future Measure would be to improve the structures and quality of decision making with the underlying principle of improving overall educational effectiveness.

Mae'r enghreifftiau gwych hyn gennym, ond mae arnom eisiau gwneud mwy i blant Cymru ac i ddyfodol addysg yng Nghymru. Petai'r Gorchymyn arfaethedig hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n rhoi'r cymhwysedd i ddeddfu ar reoli ac ar lywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol. Byddai cael y cymhwysedd hwn yn rhoi'r cyfleoedd i ddeddfu ar gyfansoddiad ac ar aelodaeth cyrff llywodraethu, eu gallu i gydweithredu, a'u hyfforddiant. Ein diben wrth gyflwyno unrhyw Fesur yn y dyfodol fyddai gwella'r strwythurau ac ansawdd y penderfyniadau gyda'r egwyddor sylfaenol o wella effeithiolrwydd addysgol yn gyffredinol.

To outline the technical aspects, the proposed Order proposes that three new matters be inserted to field 5, education and training, of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. First, matter 5.2A would provide the Assembly with the competence to legislate on the conduct and governance of schools maintained by local education authorities. It would also allow us to legislate on the constitution and membership of governing bodies, on the training of governors, and on the creation or abolition of, and allocation of functions among, bodies responsible for school governance.

Ac amlinellu'r agweddau technegol, mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnig mewnosod tri mater newydd ym maes 5, addysg a hyfforddiant, yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn gyntaf, byddai mater 5.2A yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar reoli ac ar lywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol. Byddai hefyd yn caniatáu inni ddeddfu ar gyfansoddiad ac ar aelodaeth cyrff llywodraethu, ar hyfforddi llywodraethwyr, ac ar greu neu ddiddymu cyrff sy'n gyfrifol am lywodraethu ysgolion, a dyrannu swyddogaethau ymysg y cyrff hynny.

Secondly, matter 5.2B would provide the Assembly with the competence to legislate on securing collaboration between persons or bodies with functions in relation to schools maintained by a local education authority. The Assembly already has the competence to secure collaboration between a further education institution and a school, under matter 5.13.

Yn ail, byddai mater 5.2B yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar sicrhau cydweithrediad rhwng unigolion neu gyrff sydd â swyddogaethau yng nghyswllt ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd yn barod i sicrhau cydweithrediad rhwng sefydliad addysg bellach ac ysgol, o dan fater 5.13.

Thirdly, matter 5.2C would provide competence for the Assembly to legislate on conferring authority to establish an education body to carry out activities relating to education and training, for example, to provide services to schools and further education institutions. The matter would also allow a body so established to exercise

Yn drydydd, byddai mater 5.2C yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar roi awdurdod i sefydlu corff addysg i gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, er enghraifft, i ddarparu gwasanaethau i ysgolion ac i sefydliadau addysg bellach. Byddai'r mater hwn hefyd yn caniatáu i gorff a sefydlid felly arfer

functions on behalf of local education authorities.

I look forward to working with you to transfer the power to propose legislation on school governance from the UK Government to the Welsh Assembly Government. I emphasise that the proposed LCO will add significantly to the Assembly Government's existing competence in the field of education and training. It plugs an important gap in competence and will allow us to work on a coherent and consistent basis across education providers in Wales in a way that mirrors the level of reform that we have placed at the heart of our school improvement agenda. The proposed legislative competence Order is an important step on a wider constitutional journey for education and for the Assembly. I hope that it will be welcomed by all parties here.

**Paul Davies:** Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad hwn. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar iddi am roi'r cyfle imi drafod hyn mewn cyfarfod briffio gyda'i swyddogion y bore yma. Yr wyf yn edrych ymlaen at graffu ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn yn y ffordd briodol.

Ar y cyfan, croesawaf bwrpas y Gorchymyn arfaethedig oherwydd mater o synnwyr cyffredin yw bod y Cynulliad yn cael yr hawl i ddeddfu'n llawn yn y maes hwn o ystyried fod ganddo'r cymhwysedd eisoes i ddeddfu ar sawl agwedd ar addysg a hyfforddiant.

Cyn symud at y cwestiynau mwy manwl, gofynnaf i'r Gweinidog gadarnhau y bydd y pwerau newydd hyn yn ddigonol i gyrraedd y nod o lenwi'r bwlch ym maes llywodraethu ysgolion. Deallaf mai pwrpas y Gorchymyn arfaethedig bydd llenwi'r bwlch drwy ychwanegu tri mater newydd ynghylch llywodraethu ysgolion. A yw'r Gweinidog yn rhagweld defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn at unrhyw ddiben arall? Hynny yw, a yw'n rhagweld y bydd y Mesur arfaethedig sydd i ddilyn yn cynnwys rhywbeth arall, pan fydd y Llywodraeth yn penderfynu ei gyflwyno? A all y Gweinidog ddweud wrthym pryd y caiff y Mesur arfaethedig ei gyflwyno unwaith y trosglwyddir y pwerau?

swyddogaethau ar ran awdurdodau addysg lleol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i drosglwyddo'r pŵer i gynnig deddfwriaeth ar lywodraethu ysgolion o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr wyf yn pwysleisio y bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ychwanegu'n sylweddol at gymhwysedd presennol Llywodraeth y Cynulliad ym maes addysg a hyfforddiant. Mae'n llenwi bwlch pwysig mewn cymhwysedd a bydd yn caniatáu inni weithio ar sail gydlynol a chyson ar draws darparwyr addysg yng Nghymru mewn ffordd sy'n adlewyrchu lefel y diwygio yr ydym wedi'i wneud yn elfen ganolog yn ein hagenda gwella ysgolion. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn gam pwysig ar siwrnai gyfansoddiadol ehangach ar gyfer addysg ac i'r Cynulliad. Gobeithio y caiff ei groesawu gan bob plaid yma.

**Paul Davies:** I thank the Minister for this statement. I am also grateful to her for giving me the opportunity to discuss this in a briefing with her officials this morning. I look forward to scrutinising the proposed legislative competence Order in the appropriate manner.

On the whole, I welcome the aim of the proposed Order, because it is simply common sense that the Assembly should have the right to legislate fully in this field given that it already has competence to legislate on many aspects of education and training.

Before I move to the more in-depth questions, I ask the Minister to confirm whether these powers will be sufficient to achieve the aim of plugging the gap in the field of school governance. I understand that the aim of the proposed Order is to bridge that gap by adding three new matters on school governance. Does the Minister anticipate using these additional powers for any other purpose? That is, does she foresee that the proposed Measure that is to follow will include something else, when the Government decides to introduce it? Can the Minister tell us how soon that proposed Measure will be introduced after the powers have been transferred?

Deallaf o ddarllen y memorandwm a gyhoeddwyd ddoe mai un rheswm dros gynnig y Gorchymyn arfaethedig hwn yw galluogi'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar rôl llywodraethwyr ysgol. Os yw hynny'n wir, mae'n dangos pwysigrwydd rôl pwyllgorau'r Cynulliad a sut y gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar y Llywodraeth i weithredu, a dylanwadu ar ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn dangos yn glir fod y broses ddemocrataidd yn gweithio yn y Cynulliad.

Croesawaf y ffaith y bydd y pwerau hyn yn help i ddatblygu fframwaith effeithiolrwydd ysgolion i ysgogi, hybu a hwyluso cydweithio gwell. Bydd angen i'r fframwaith roi sylw cynyddol i gyrff llywodraethu ysgolion gan fod llywodraethu yn darparu'r mecanwaith atebolrwydd y mae ysgolion yn gweithredu y tu mewn iddo.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cefnogi llawer o gyrff llywodraethol yn fawr iawn. A all y Gweinidog gadarnhau a yw'n rhagweld y bydd y pwerau newydd hyn ac unrhyw Fesur a fydd yn eu dilyn yn cael effaith ar y berthynas honno? Gobeithio na fydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar hyblygrwydd cyrff llywodraethol i weithredu, ond derbynaf fod achos i gydweithio'n agosach rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau fwriad Llywodraeth y Cynulliad i ddiwygio trefniadau llywodraethu ar gyfer sefydliadau addysg bellach. A all y Gweinidog ddweud wrthym a fydd symud y broses honno yn ei blaen yn ddibynnol ar y pwerau newydd hyn?

Yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu, ac mae'n glir o'r adroddiad ar rôl llywodraethwyr fod effeithiolrwydd cyrff llywodraethu yn amrywio a bod yr hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr yn anwastad, gyda gwendidau o ran dull cyflwyno, argaeledd a chyfranogaeth llywodraethwyr. Yn sgîl y Gorchymyn arfaethedig hwn, a all y Gweinidog gadarnhau sut y bydd y pwerau hyn yn mynd i'r afael â'r anghysondebau penodol hynny?

I understand from reading the explanatory memorandum yesterday that one reason for introducing this proposed Order is to enable the Government to get to grips with the issues raised in the Enterprise and Learning Committee's report on the role of school governors. If that is the case, it demonstrates the importance of the role of Assembly committees and how they can influence the Government directly, and influence legislation. It also shows clearly that the democratic process in the Assembly is working.

I welcome the fact that these powers will help to develop the school effectiveness framework, to stimulate, promote and facilitate better collaboration. The framework will need to pay increasing attention to schools' governing bodies given that such governance provides the accountability mechanism within which schools operate.

At the moment, local authorities give a great deal of support to many governing bodies. Can the Minister confirm whether she anticipates that these new powers and any Measure that will follow them will have any impact on that relationship? I hope that any changes will not affect the flexibility of governing bodies to act, but I accept that there is a case for closer collaboration between schools, and between schools and further education institutions.

In April, the Deputy Minister for Skills announced the Assembly Government's intention to reform the governance arrangements of further education institutions. Can the Minister tell us whether progressing that process is dependent on these new powers?

I am a member of the Enterprise and Learning Committee, and it is clear from the report on the role of governors that the effectiveness of governing bodies varies and that the training that is available for governors is patchy, with deficiencies in the method of presentation, the availability and the participation of governors. As a result of this proposed Order, can the Minister confirm how these powers will tackle those specific inconsistencies?

Ar y cyfan, yr wyf yn croesawu'r datganiad, a gobeithiaf y bydd y pwerau newydd yn cael eu defnyddio fel y mae'r Gweinidog wedi disgrifio, hynny yw i godi safonau cyrhaeddiad ymhob ysgol, i ddarparu cydraddoldeb rhwng dysgu galwedigaethol a dysgu academaidd, ac i sicrhau cydweithio gwell y tu fewn i ysgolion a rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Os bydd y Cynulliad yn llwyddiannus ac yn cael y pwerau hyn, gobeithiaf y bydd y Mesur a fydd yn dilyn yn sicrhau yr hyn yr ydym oll am ei weld yn y pen draw, sef addysg well i blant Cymru.

**Jane Hutt:** Thank you for your positive response to the case presented for this transfer of power from Westminster to Wales. You recognise that governance is an important area of legislation on which our locally managed schools model now stands. The proposed LCO will enable the National Assembly for Wales to legislate on matters relating to the strengthening or amending of school governance arrangements to support and improve learner attainment in all maintained schools in Wales. I welcome your recognition that this is bridging a gap that exists, and it extends the Assembly's competence so that we can work to ensure that governance arrangements are improved to deliver better results.

Education is a policy arena that has long been devolved. We have pursued distinctive education policies and we need to acquire that legislative competence to ensure that we can deliver those developments. I am grateful that you have referred to them, particularly the opportunities that emerge from the valuable report that the Enterprise and Learning Committee undertook. I referred to that in my written statement and in my opening statement today. It is clear that there is inconsistency and variation in the performance and delivery and in the governance arrangements of our governing bodies in Wales. As a result of having this competence, we could look at the membership of governing bodies and at training issues, which you mentioned. We could also work with local authorities to

On the whole, I welcome the statement, and I hope that these new powers will be used as the Minister has described, that is, to raise standards of achievement in every school, to provide parity of esteem between vocational and academic learning, and to ensure improved collaboration within schools and between schools and further education institutions.

If the Assembly is successful in its bid to secure these powers, I hope that the Measure that follows will ensure what we all want to see at the end of the day, namely a better education for the children of Wales.

**Jane Hutt:** Diolch ichi am eich ymateb cadarnhaol i'r achos a gyflwynwyd dros drosglwyddo'r pŵer hwn o San Steffan i Gymru. Yr ydych yn cydnabod bod llywodraethu'n faes deddfwriaethol pwysig sydd bellach yn sail i'n model ysgolion a reolir yn lleol. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â chryfhau neu ddiwygio trefniadau llywodraethu ysgolion i gefnogi ac i wella cyrhaeddiad dysgwyr ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Yr wyf yn croesawu'r ffaith ichi gydnabod bod hyn yn llenwi blwch sy'n bodoli, a'i fod yn ehangu cymhwysedd y Cynulliad er mwyn inni allu gweithio i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n cael eu gwella i gyflawni canlyniadau gwell.

Mae addysg yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli ers tro byd. Yr ydym wedi mynd ar drywydd polisiau addysg gwahanol ac mae angen y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw arnom i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r datblygiadau hynny. Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi cyfeirio atynt, yn enwedig y cyfleoedd sy'n deillio o'r adroddiad gwerthfawr a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Menter a Dysgu. Cyfeiriaais at hwnnw yn fy natganiad ysgrifenedig ac yn fy natganiad agoriadol heddiw. Mae'n glir bod perfformiad ein cyrff llywodraethu yng Nghymru a'r hyn y maent yn ei gyflawni a'u trefniadau llywodraethu yn anghyson ac yn amrywio. O ganlyniad i gael y cymhwysedd hwn, gallem edrych ar aelodaeth cyrff llywodraethu ac ar faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant, a grybwyllasoch. Gallem hefyd



encourage them to collaborate more effectively, to provide a more comprehensive and quality governor training programme that would support governors' skills as well as address the Enterprise and Learning Committee's concerns.

I agree that this demonstrates the important role of committees and their influence in enabling us to move forward in considering the possible Measures that may emanate from this transfer of power. The important point for us to note today is that the proposed legislative competence Order will provide the necessary competence for the National Assembly for Wales to make Measures in pursuit of policy objectives. The proposed LCO does not fulfil the policy objectives but offers opportunities for that, for example, our policy developments, such as the 14-19 learning pathways, the school effectiveness framework, and the transformation agenda.

3.30 p.m.

Those policy initiatives require maintained schools and further education institutions to work together more collaboratively for the benefit of their learners. These developments would require school governors to be better trained and focused in order to respond to and meet these challenges. Of course, they will also enable school governors to underpin and support and to be intrinsically linked to raising standards and improving school effectiveness. Today is about the transfer of power, but the policy objectives, which I have laid out in my statement and have driven through as Minister, as the evidence from the Enterprise and Learning Committee demonstrates, will enable us to move forward in terms of Measure-making opportunities.

**Nerys Evans:** Yr wyf yn falch o weld Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ym maes addysg. Croesewir trosglwyddo unrhyw rym o Lundain i Gaerdydd ar y meinciau hyn. Yr wyf yn falch iawn y bydd mwy o rymoedd ym maes addysg yn dod i Lywodraeth Cymru. Hoffwn wneud tri phwynt a gofyn tri chwestiwn sylfaenol i chi y prynhawn yma.

weithio gydag awdurdodau lleol i'w hannog i gydweithredu'n fwy effeithiol, i ddarparu rhaglen hyfforddi o ansawdd da ac sy'n fwy cynhwysfawr ar gyfer llywodraethwyr a fyddai'n cefnogi sgiliau llywodraethwyr yn ogystal â rhoi sylw i bryderon y Pwyllgor Menter a Dysgu.

Yr wyf yn cytuno bod hyn yn dangos rôl bwysig pwyllgorau a'u dylanwad o ran ein galluogi i symud ymlaen i ystyried y Mesurau posibl a all ddeillio o drosglwyddo'r pŵer hwn. Y pwynt pwysig inni heddiw yw y bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn rhoi'r cymhwysedd angenrheidiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau i ddilyn amcanion polisi. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cyflawni'r amcanion polisi ond mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer hynny, er enghraifft, y llwybrau dysgu 14-19, y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'r agenda weddnewid.

Mae'r mentrau polisi hynny'n peri ei bod yn ofynnol i ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach gydweithio'n fwy cydweithredol er budd eu dysgwyr. Byddai'r datblygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion gael eu hyfforddi'n well a chanolbwyntio'n gliriach er mwyn ymateb i'r heriau hyn a'u hwynebu. Wrth gwrs, byddant hefyd yn galluogi llywodraethwyr ysgolion i fod yn sylfaen i godi safonau a gwella effeithiolrwydd ysgolion ac i gefnogi hynny ac i fod yn hanfodol gysylltiedig â hynny. Mae heddiw'n ymwneud â throsglwyddo pŵer, ond bydd yr amcanion polisi, yr wyf wedi'u hamlinellu yn fy natganiad ac wedi'u hyrwyddo fel Gweinidog, fel y dengys y dystiolaeth gan y Pwyllgor Menter a Dysgu, yn ein galluogi i symud ymlaen o ran cyfleoedd i lunio Mesurau.

**Nerys Evans:** I am pleased to see a legislative competence Order in the field of education. These benches welcome the transfer of any powers from London to Cardiff. I am very pleased that the Government of Wales will get more powers over education. I would like to make three points and ask three basic questions this

afternoon.

Yr ydych wedi amlinellu bod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn ffordd o drosglwyddo pwerau ym maes llywodraethu ysgolion a fydd yn llenwi'r gwagle sy'n bodoli ym mhwerau Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd. Yr wyf yn falch iawn fod polisïau Llywodraeth Cymru yn wahanol iawn i bolisïau Llywodraeth Llundain ym maes addysg, er enghraifft cyflwyno bagloriaeth Cymru, cael gwared ar y profion a chyflwyno'r cyfnod sylfaen—y cyfnod sylfaen a wrthodwyd gan Lywodraeth Llundain yr wythnos hon. Un o'r elfennau pwysig yw'r gwrthwynebiad a welwyd hyd yn hyn i ysgolion sylfaen yng Nghymru. Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn erbyn yr egwyddor am sawl rheswm. Gwyddom fod y Ceidwadwyr, wrth gwrs, yn gefnogol iawn i ysgolion sylfaen a'u bod yn eu hyrwyddo ar lefel uchel iawn. Y perygl yw y bydd y Ceidwadwyr mewn grym yn Llundain y flwyddyn nesaf, yn anffodus, ac mae Michael Gove wedi datgan ei fwriad i gael y nifer uchaf posibl o ysgolion sylfaen. Cymeraf mai dyna bolisi'r Ceidwadwyr ar gyfer Cymru hefyd. Gan fod y Gorchymyn hwn yn datganoli grym dros elfennau pwysig o lywodraethu ysgolion, os caiff y Gorchymyn ei gymeradwyo, a fydd modd i ni yng Nghymru warchod ein hunain rhag polisïau asgell dde y Ceidwadwyr yn y maes hwn a sicrhau mai dyheadau polisi Llywodraeth Cymru ym maes addysg a fydd yn cael eu gwireddu yng Nghymru, nid dyheadau Llywodraeth San Steffan?

Yr ail bwynt yw bod y Gorchymyn yn ychwanegu tri mater at Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae mater 5.2A yn sôn am drosglwyddo grymoedd dros lywodraethu ysgolion. Yn eich datganiad, yr ydych yn sôn am bwysigrwydd hynny ac yr ydym yn cytuno â hynny 100 y cant. Yr ydych yn sôn hefyd fod gwaith tebyg yn cael ei wneud ym maes llywodraethu addysg bellach, ond mae'r gwaith hwn yn wahanol. Mae'r pwerau perthnasol sydd gan Lywodraeth Cymru ym maes addysg bellach yn ymwneud â nid llywodraethu yn unig, ond â chyllido a staffio. Mae hynny'n mynd ymhellach na'r Gorchymyn hwn ar lywodraethu ysgolion. Pam, felly, yr ydych wedi cyfyngu'r Gorchymyn hwn tra bo

You have outlined that this legislative competence Order is a means of transferring power over school governance that will fill the gap that currently exists in the Assembly Government's powers. I am very pleased that the Welsh Government's policies in education are very different to those of the London Government, for example on the introduction of the Welsh baccalaureate, bringing tests to an end and introducing the foundation phase—the same phase that was refused this week by the London Government. One of the important elements is the opposition that there has been in Wales so far to foundation schools. We in Plaid Cymru are opposed in principle, for a number of reasons. We know that the Conservatives, of course, are very supportive of foundation schools and that they promote them at a very high level. The danger is that there will, unfortunately, be a Conservative Government in London next year, and Michael Gove has declared his intention to create the highest number possible of foundation schools. I take it that that is also the Conservative policy for Wales. Given that this Order devolves powers over important elements of school governance, if passed, will it allow us in Wales to guard against the right-wing policies of the Conservatives in this field, ensuring that what we see in Wales is the realisation of the Welsh Government's policy aspirations for education, rather than the Westminster Government's aspirations?

The second point is that the Order adds three matters to Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. Matter 5.2A talks of transferring powers over school governance. In your statement, you talk of the importance of that step, with which we agree 100 per cent. You also talk of the similar work being done in the governance of further education, but this work is different. The relevant powers of the Welsh Government in further education deal with not only governance but also with finance and staffing. That goes further than this Order on school governance. Why, therefore, have you limited the scope of this Order as compared with the much broader scope of the relevant powers in further education? We in Plaid Cymru want

pwerau perthnasol o ran addysg bellach yn llawer ehangach? Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru am weld grymoedd dros faterion cyllid a chyflogaeth athrawon ysgol yn cael eu datganoli. Ai penderfyniad polisi penodol gan Lywodraeth Cymru yw hwn? Yr ydym am weld y penderfyniadau ar dâl, cyflogaeth ac amodau athrawon yn cael eu datganoli. Bydd hyn yn bwysicach byth o ystyried, unwaith eto, y posibilrwydd real, peryglus y bydd Llywodraeth Geidwadol yn Llundain. Mae'r Ceidwadwyr wedi datgan yn glir y bydd cwtogi mawr ar gyllid gwasanaethau cyhoeddus ac felly yng nghyllid addysg a thâl athrawon. A wnewch amlinellu, felly, pam fod yr LCO hwn yn gyfyng a pham nad yw'n cynnwys elfennau cyllido a staffio addysg?

Yn olaf, ar yr amserlen, yr ydym yn gwybod bod 18 mis ar ôl tan ddiwedd y Cynulliad hwn. A ydych yn ffyddiog yr aiff y Gorchymyn hwn drwy'r broses deddfwriaethol yn yr amser hwnnw? Beth am unrhyw Fesurau a fydd yn deillio o'r Gorchymyn? Ar bwynt cyfansoddiadol pwysig iawn, yr wyf yn falch nad oes sôn am fanylion unrhyw Fesurau yn eich datganiad ac mai trafodaeth ar y Gorchymyn yn unig sydd gennym heddiw. Dylai'r drafodaeth a'r broses deddfwriaethol ganolbwyntio ar yr egwyddor o drosglwyddo pwerau ym maes llywodraethu ysgolion i'r Cynulliad, a dim arall. Yr wyf yn gwybod fod trafodaethau diweddar ar Orchymynion cymhwysedd deddfwriaethol yn San Steffan wedi galw am fwy o fanylion ynglŷn ag unrhyw Fesurau posibl a ddaw yn sgîl unrhyw Orchymyn, ond nid felly y dylai fod. Mae'n gwbl synhwyrol i'r pwerau hyn fod yma yn y Cynulliad.

Gan nad oes sôn am Fesurau—yn wahanol iawn i Paul Davies, yr ydym yn croesawu'r ffaith nad oes manylion am Fesurau yn eich datganiad—a ydych yn ffyddiog na fydd Aelodau Seneddol yn rhwystro'r cais am drosglwyddo pŵer drwy fynnu gwybod beth yr ydych yn bwriadu ei wneud gyda'r pwerau? A ydych yn ffyddiog y bydd y trafodaethau'n parhau? A ydych yn cytuno y dylid parhau â'r trafodaethau ar egwyddorion sylfaenol y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a dim byd arall?

**Jane Hutt:** This, too, goes back to the issue of Welsh policies for Welsh needs and

to see the devolution of powers over school funding and teachers' employment. Is this a specific policy decision made by the Welsh Government? We want to see powers over teachers' pay and conditions devolved here. This will become even more important given the real and dangerous possibility that there will be a Conservative Government in London. The Conservatives have stated clearly that funding for public services will be cut dramatically—that will mean a cut in funding for education and teachers' pay. Will you outline, therefore, why this LCO is so limited in its scope and why it does not include powers over education funding and staffing?

Finally, on the timetable, we know that there are 18 months left until the end of this Assembly. Are you confident that this Order will make its way through the legislative process in that time? What about any Measures arising from it? On a very important constitutional point, I am pleased that your statement does not mention any details about potential Measures, and that we are concentrating today on the Order alone. The discussion and the legislative process should focus on the principle of transferring powers over school governance to the Assembly, and nothing else. I know that recent discussions in Westminster about legislative competence Orders have asked for more details on potential Measures that may arise from those Orders, but that is not how things should be. It makes sense that the powers lie here in the Assembly.

Given that there is no mention of any Measures—unlike Paul Davies, we welcome the fact that your statement includes no details about Measures—are you confident that Members of Parliament will not prevent the transfer of these powers by insisting on knowing what you intend to do with them? Are you confident that the discussions will continue? Do you agree that discussions should focus on the legislative competence Order's underlying principles and nothing else?

**Jane Hutt:** Mae hyn hefyd yn mynd yn ôl at bolisiau Cymru ar gyfer anghenion ac

circumstances. The acquisition of competence will allow, as I have said, the National Assembly to legislate for changes that will support and strengthen our policy initiatives for securing a better education and future for our children and young people. We need to see that competence transferred in order to support and strengthen school governance arrangements. You are absolutely right to recognise that, as regards competence, we have transferred a lot in the form of the executive powers that rest here as a result of the Government of Wales Act 2006, but this was not part of the competence transferred, and it is vital that we secure it to enable us to deliver Welsh Assembly Government policies and initiatives for education.

With regard to the transfer of powers, you know that, where further education governance is concerned, the Deputy Minister for Skills is undertaking a review. We must ensure parity by means of competence for school governance as well as further education governance.

I must also comment on the fact that a transfer of this power at this stage—and the transfer itself, in terms of competence—will not have an impact on whether a school can seek foundation status, for example, but I would say that all and any applications for foundation status would have to be in the form of a statutory proposal for consultation. All such applications will come to the Minister for determination, whether there are objections or not.

On the issue of what this competence will enable us to do, you know that we have executive powers in some aspects of school governance, but they are limited and rigid, as they are set out in Part 3 of the Education Act 2002. It is all about the local managed school model, and that does not provide us with sufficient flexibility to put school governance arrangements in place that will support, and help to ensure the success of, our policy intentions and initiatives. The competence being sought through the proposed legislative competence Order would enable us to meet the changing circumstances in relation to collaboration between schools and further

amgylchiadau Cymru. Bydd cael y cymhwysedd, fel yr wyf wedi dweud, yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer newidiadau a fydd yn cefnogi ac yn cryfhau ein mentrau polisi ar gyfer sicrhau addysg a dyfodol gwell i'n plant a'n pobl ifanc. Mae angen inni weld y cymhwysedd hwnnw'n cael ei drosglwyddo er mwyn cefnogi a chryfhau trefniadau llywodraethu ysgolion. Yr ydych yn llygad eich lle wrth gydnabod, yng nghyswllt cymhwysedd, ein bod wedi trosglwyddo llawer ar ffurf y pwerau gweithredol sydd gennym yma o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond nid oedd hyn yn rhan o'r cymhwysedd a drosglwyddwyd, ac mae'n hanfodol inni ei sicrhau er mwyn ein galluogi i gyflawni polisiâu a mentrau addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

O ran trosglwyddo pwerau, gwyddoch fod y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau wrthi'n cynnal adolygiad ynglŷn â llywodraethu addysg bellach. Rhaid inni sicrhau cydraddoldeb drwy gymhwysedd ar gyfer llywodraethu ysgolion yn ogystal â llywodraethu addysg bellach.

Rhaid imi sôn hefyd am y ffaith na fydd trosglwyddo'r pŵer hwn ar hyn o bryd—a'r trosglwyddo ei hun, o ran cymhwysedd—yn effeithio ar y cwestiwn a all ysgol geisio statws sylfaen ai peidio, er enghraifft, ond byddwn yn dweud y byddai'n rhaid i bob cais, ac unrhyw gais, am statws sylfaen fod ar ffurf cynnig statudol ar gyfer ymgynghoriad. Daw pob cais o'r fath gerbron y Gweinidog i'w benderfynu, boed gwrthwynebiadau ai peidio.

Yng nghyswllt yr hyn y bydd y cymhwysedd yn ein galluogi i'w wneud, gwyddoch fod gennym bwerau gweithredol mewn rhai agweddau ar lywodraethu ysgolion, ond maent yn gyfyngedig ac yn anhyblyg, fel y maent i'w gweld yn Rhan 3 Deddf Addysg 2002. Mae a wnelo'r cyfan â'r model ysgolion a reolir yn lleol, ac nid yw hynny'n rhoi digon o hyblygrwydd inni allu rhoi ar waith drefniadau llywodraethu ysgol a fydd yn cefnogi, ac yn helpu i sicrhau llwyddiant, ein mentrau a'n bwriadau polisi. Byddai'r cymhwysedd a geisir drwy'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn ein galluogi i ymateb i'r newidiadau mewn amgylchiadau

education institutions.

Among the issues that the proposed legislative competence Order will not cover are school finance and school staffing issues. Staffing functions that governing bodies are already responsible for, such as the appointment and dismissal of staff, can be included in any future provisions of a Measure, but not in terms of substantive changes. Staffing issues for schools, such as the teacher workload agreement and issues relating to teachers' pay and conditions, are non-devolved matters, and they would be outside the scope of the proposed LCO. The key point is that non-governance issues are not captured in this proposed legislative competence Order, and they are, therefore, outside its scope.

3.40 p.m.

With regard to the process, your point about ensuring that we get the transfer of power and that we are not pinned down by the Measure-making process at this stage is important. I was pleased to be the first Minister to be engaged in the legislative competence Order process with the first transfer of power; I appeared before the Welsh Affairs Committee and I was also scrutinised in the Assembly effectively and robustly. We have to ensure that the proposed LCO proceeds through scrutiny and, in terms of timing, receives Assembly assent in time to be laid in Parliament before a UK general election is called. On that point, the Secretary of State for Wales, Peter Hain, stated on 12 October that legislative competence Orders would be treated in the same way as any other form of legislation passing through Westminster following the dissolution of Parliament. However, this issue is about transfer of competence to ensure that we have the tools for the job, in terms of school governance, to enhance the provisions that already exist in Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 under field 5, education and training. That is the purpose of this proposed legislative competence Order.

yng nghyswllt cydweithrediad rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Ymysg y materion na fydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn ymdrin â hwy mae cyllido ysgolion a staffio ysgolion. Gellir cynnwys swyddogaethau staffio y mae cyrff llywodraethu eisoes yn gyfrifol amdanynt, megis penodi a diswyddo staff, mewn unrhyw ddarpariaethau mewn Mesur yn y dyfodol, ond nid o ran newidiadau o sylwedd. Mae materion staffio i ysgolion, megis y cytundeb baich gwaith athro a'r materion sy'n ymwneud â thâl ac amodau athrawon yn faterion nas datganolwyd, a byddent y tu allan i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Y pwynt allweddol yw nad yw materion nad ydynt yn ymwneud â llywodraethu'n rhan o'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn, ac felly, maent y tu allan i'w gwmpas.

O ran y broses, mae eich pwynt ynghylch sicrhau bod y pŵer yn cael ei drosglwyddo ac nad ydym yn ymwneud â'r broses o lunio Mesur ar hyn o bryd yn bwysig. Yr oeddwn yn falch mai fi oedd y Gweinidog cyntaf i ymwneud â phroses y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol gyda throsglwyddo'r pŵer cyntaf; ymddangosais gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig a chraffwyd arnaf yn y Cynulliad yn effeithiol ac yn drwyadl. Rhaid inni sicrhau bod y Gorchymyn arfaethedig yn mynd yn ei flaen drwy'r craffu ac, o ran amseru, ei fod yn cael cydsyniad y Cynulliad mewn da bryd i'w gyflwyno gerbron y Senedd cyn galw etholiad cyffredinol yn y DU. O ran y pwynt hwnnw, dywedodd Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar 12 Hydref y byddai Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw fath arall o ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy San Steffan ar ôl diddymu'r Senedd. Fodd bynnag, mae a wnelo'r mater hwn â throsglwyddo cymhwysedd i sicrhau bod yr arfau gennym ar gyfer y dasg, o ran llywodraethu ysgolion, er mwyn gwella'r darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o dan faes 5, addysg a hyfforddiant. Dyna ddiben y Gorchymyn cymhwysedd

deddfwriaethol hwn.

**Jenny Randerson:** In as far as it goes, I welcome this proposed LCO. As usual, the Welsh Liberal Democrats support proposed LCOs, because we support, as a matter of principle, the concept of having more powers for the Assembly.

**Jenny Randerson:** Cyn belled ag y mae'n mynd, yr wyf yn croesawu'r Gorchymyn arfaethedig hwn. Fel arfer, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi Gorchymynion arfaethedig, oherwydd ein bod yn cefnogi, fel mater o egwyddor, y cysyniad o gael rhagor o bwerau i'r Cynulliad.

My reservations about the proposed LCO are in the same mould as those that Nerys referred to earlier. I am deeply disappointed that you have not included school finance and staffing in the proposed LCO. I am grateful to you for arranging a briefing earlier today, at which I clarified that, in principle, there was no legal reason why we could not ask for control over school finance and school staffing; it is just that you chose not to do so. I am deeply disappointed at that. In light of the increasingly divergent model of education between England and Wales, the time will come when we will want to do things differently in Wales, and when it will be fundamental that we do things differently in Wales in terms of the structure of staffing. That does not mean that the Welsh Liberal Democrats want to change fundamental terms and conditions at this stage, but if you look at the importance of teaching assistants within the foundation phase, it is possible that, during a further reform of the educational system, you may wish to create a different system for promoting staff within the structure. I strongly believe that we should be asking for powers to be ready in the future for the need for changes, rather than only responding to the need for change at this particular time.

Mae fy amheuan ynghylch y Gorchymyn arfaethedig yn debyg iawn i'r rhai y cyfeiriodd Nerys atynt yn gynharach. Yr wyf yn siomedig iawn nad ydych wedi cynnwys staffio a chyllido ysgolion yn y Gorchymyn arfaethedig. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am drefnu sesiwn wybodaeth yn gynharach heddiw, lle yr eglurais nad oedd dim rheswm cyfreithiol, o ran egwyddor, pam na allem ofyn am reolaeth dros gyllido ysgolion a staffio ysgolion; dim ond eich bod wedi dewis peidio â gwneud hynny. Yr wyf yn siomedig iawn ynghylch hynny. Yng ngoleuni mwy a mwy o wahaniaethau rhwng model addysg Lloegr a model addysg Cymru, daw adeg pan fydd arnom eisiau gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru, a phan fydd yn hanfodol inni wneud pethau'n wahanol yng Nghymru o ran strwythur staffio. Nid yw hynny'n golygu bod ar Democratiaid Rhyddfrydol Cymru eisiau newid telerau ac amodau sylfaenol ar hyn o bryd, ond os edrychych ar bwysigrwydd cynorthwywyr addysgu yn y cyfnod sylfaen, mae'n bosibl, wrth ddiwygio'r system addysgol ymhellach, y byddwch efallai'n dymuno creu system wahanol ar gyfer dyrchafu staff o fewn y strwythur. Yr wyf yn credu'n gryf y dylem fod yn gofyn am bwerau i fod yn barod yn y dyfodol am yr angen am newidiadau, yn hytrach na dim ond ymateb i'r angen am newid ar hyn o bryd.

My second problem is on how complex this is getting. My mind is taken over, time and again, with the complexity of the legislation that we are creating. If I, as someone inside this institution, find the whole thing complex, what about the people outside? I am not talking about lawyers—I am talking about teachers and parents. We expect governing bodies to understand the law, in many circumstances, so why do we appear to be trying to make things as complex as possible? Transparency is an important issue in this

Mae fy ail broblem yn ymwneud â pha mor gymhleth y mae hyn yn mynd. Dro ar ôl tro mae cymhlethdod y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chreu yn mynd â'm sylw. Os yw'r holl beth yn ddryslyd i mi, rhywun y tu mewn i'r sefydliad hwn, beth am y bobl y tu allan? Nid sôn yr wyf am gyfreithwyr—am athrawon a rhieni yr wyf yn sôn. Yr ydym yn disgwyl i gyrff llywodraethu ddeall y gyfraith, mewn llawer o amgylchiadau, felly pam yr ydym fel petaem yn ceisio gwneud pethau mor gymhleth ag sy'n bosibl? Mae tryloywder yn

regard, so I urge you to think again and spread this a little more widely.

In the early years of the Assembly, changes were made to teachers' terms and conditions and there was a strong mood here not to have those changes introduced in Wales, but we did not have the power to do it. At some point in the future, we may want that power over staffing and I ask you to think twice about that.

Moving on to the other issue, I very much support schools being able to exercise functions on behalf of local education authorities, for example, being able to create companies for procurement and so on. That provides essential flexibility in the model. I have to warn you, Minister, that when we get to the Measure stage, we may well disagree with what you plan to do as a result of this LCO. At the moment, we support you strongly, but, in the future, we may not—in particular over the issue of possibly centralising responsibility for staff discipline. However, it is important that, at this stage, we concentrate on the purposes of the LCO.

My final comment is that it seems to me that your timescale for getting this LCO through Parliament is amazingly optimistic. We have had LCOs that have hung around for a couple of years.

**Jonathan Morgan:** I know that only too well.

**Jenny Randerson:** Exactly. You seem to think that that you will get through the whole process by spring next year, Minister. I wish you well—godspeed, as they say—with the LCO, but I seriously question whether you will get it through in time. What assurances have you been given that the Westminster Government will sweep a path for the LCO, so that it has a smooth passage through Parliament?

**Jane Hutt:** I am an optimist. I am not sure

fater pwysig yn hyn o beth, felly yr wyf eich annog i ailfeddwl ac ehangu ychydig ar hyn.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynulliad, cafodd newidiadau eu gwneud yn nheleau ac amodau athrawon ac yr oedd awydd cryf yma i beidio â chyflwyno'r newidiadau hynny yng Nghymru, ond nid oedd y pŵer gennym i wneud hynny. Rywbryd yn y dyfodol, efallai y bydd arnom eisiau'r pŵer hwnnw dros staffio ac yr wyf yn gofyn ichi ailfeddwl ynghylch hynny.

Gan symud ymlaen at y mater arall, yr wyf yn cefnogi bod ysgolion yn gallu arfer swyddogaethau ar ran awdurdodau addysg lleol, er enghraifft, gallu creu cwmnïau at ddibenion caffael ac yn y blaen. Mae hynny'n rhoi hyblygrwydd hanfodol yn y model. Rhaid imi eich rhybuddio, Weinidog, pan ddown at y Mesur, y byddwn efallai'n anghytuno â'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn. Ar hyn o bryd, yr ydym yn eich cefnogi i'r carn, ond yn y dyfodol, efallai na fyddwn yn gwneud hynny—yn arbennig ynghylch y posibilrwydd y bydd cyfrifoldeb dros ddisgyblaeth staff yn cael ei ganoli. Fodd bynnag, mae'n bwysig, ar hyn o bryd, inni ganolbwyntio ar ddibenion y Gorchymyn.

Fy sylw olaf yw ei bod yn ymddangos i mi fod eich amserlen ar gyfer mynd â'r Gorchymyn hwn drwy'r Senedd yn hynod optimistaidd. Yr ydym wedi cael Gorchymynion sydd wedi bod yn ddisymud am flwyddyn neu ddwy.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn gwybod hynny'n iawn.

**Jenny Randerson:** Yn union. Ymddengys eich bod yn meddwl y byddwch wedi mynd drwy'r holl broses erbyn y gwanwyn nesaf, Weinidog. Dymunaf y gorau ichi—rhwydd hynt, fel y dywedant—gyda'r Gorchymyn, ond yr wyf yn amau'n gryf a fyddwch yn llwyddo i gael ganddo gwblhau ei daith mewn da bryd. Pa sicrwydd yr ydych wedi'i gael y bydd Llywodraeth San Steffan yn cadw llwybr agored ar gyfer y Gorchymyn, er mwyn sicrhau ei fod yn mynd drwy'r Senedd yn ddidrafferth?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn optimist. Nid wyf yn

whether your brand of politics is always on the optimistic side, Jenny, in terms of not just spirit and intention, but your response to me today, as I present this legislative competence Order, was encouraging. To put it simply and to go back to all the expressions that we used when we were first progressing with securing further powers and opportunities to transfer further powers, this is about getting the tools for the job and powers for a purpose. Let us simplify what this will mean. What will an LCO achieve? What opportunities will it offer for schools in Wales?

Legislative competence will enable the National Assembly to legislate in the future to introduce different and more flexible school governance arrangements. If we look at the opportunities, we see that there is an important message here, namely what it means for schools, for governors, who serve by voluntarily giving of their time, and, most importantly, for our learners and the teaching profession. It will provide us with the means to look at how the law can drive and facilitate collaborative working between schools and between them and other educational providers. It will respond to issues that emerged from the further education governance review, which I have already mentioned—the Webb review—and that could mean changes to school governors. It will respond to issues emerging from the Enterprise and Learning Committee's 2009 report into school governors and it will respond to issues that might emerge in the ongoing review of education for eight to 14-year-olds. It will strengthen governor training. Those are the straightforward intentions and purposes behind our seeking the transfer of legislative competence in relation to school governance.

To address the points that you made about the areas that will not be included in the scope of the LCO, it is important that we recognise that this is about competence in relation to school governance. Staffing and finance issues were raised this morning in our technical briefing, and Nerys has raised them

siŵr a yw eich math chi o wleidyddiaeth bob amser ar yr ochr optimistaidd, Jenny, mewn mwy na dim ond ysbryd a bwriad, ond yr oedd eich ymateb i mi heddiw, wrth imi gyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn, yn galonogol. O'i fynegi'n syml a dychwelyd at yr holl ymadroddion a ddefnyddiwyd gennym pan oeddem yn bwrw ati i sicrhau rhagor o bwerau a chyfleoedd i drosglwyddo rhagor o bwerau, mae hyn yn ymwneud â chael yr arfau ar gyfer y gwaith a phwerau at ddiben. Gadewch inni symleiddio'r hyn y bydd hyn ei olygu. Beth fydd Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn ei gyflawni? Pa gyfleoedd y bydd yn eu cynnig i ysgolion yng Nghymru?

Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yn y dyfodol i gyflwyno trefniadau llywodraethu ysgolion gwahanol ac sy'n fwy hyblyg. Os edrychwn ar y cyfleoedd, byddwn yn gweld bod neges bwysig yma, sef yr hyn y mae'n ei olygu i ysgolion, i lywodraethwyr, sy'n gwasanaethu drwy roi o'i hamser o'u gwirfodd, ac, yn anad dim arall, i'n dysgwyr ac i'r proffesiwn dysgu. Bydd yn rhoi inni'r modd i edrych ar sut y gall y gyfraith hyrwyddo a hwyluso cydweithio rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a darparwyr addysgol eraill. Bydd yn ymateb i faterion a ddaeth i'r amlwg yn sgîl yr adolygiad o lywodraethu addysg bellach, yr wyf eisoes wedi'i grybwyll—adolygiad Webb—a gallai hynny olygu newidiadau i lywodraethwyr ysgolion. Bydd yn ymateb i'r materion sy'n deillio o adroddiad 2009 y Pwyllgor Menter a Dysgu ar lywodraethwyr ysgolion a bydd yn ymateb i'r materion a allai ddeillio o'r adolygiad sy'n mynd rhagddo o addysg ar gyfer y rhai sydd rhwng wyth a 14 oed. Bydd yn cryfhau hyfforddiant llywodraethwyr. Y rheini yw'r bwriadau a'r dibenion syml sydd wedi peri inni geisio trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt llywodraethu ysgolion.

Er mwyn rhoi sylw i'r pwyntiau a wnaethoch ynghylch y meysydd na chânt eu cynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn, mae'n bwysig inni gydnabod bod a wnelo hyn â chymhwysedd yng nghyswllt llywodraethu ysgolion. Cafodd materion sy'n ymwneud â staffio a chyllido eu codi y bore yma yn ein



this afternoon, but the staffing functions that governing bodies are already responsible for, for example, staff dismissal and appointment, could be included in any future Measure. Any such Measure would exclude those staffing points that are not devolved to Welsh Ministers, such as teachers' pay and conditions. Also, if you look at finance—for example, the systems and processes for funding local authorities via the revenue support grant, and for them to delegate funding to school governing bodies—they will not be affected by the LCO and any subsequent Measure.

3.50 p.m.

Let us recognise that the acquisition of this competence is an incremental step in ensuring that Wales has the power to legislate for future arrangements that will continue to support schools and meet existing and future policy developments. However, importantly, this Order does not preclude us from seeking additional powers in respect of these areas in the future. I believe that I responded fully to Nerys's points about the timescale and purpose of the Order, ensuring that we complete the process of the transfer of competence, and the robust scrutiny that I know that the Assembly will engage in. It is quite clear from the presentation that I have made today that this is about a transfer of competence of a scope that I believe will be fully understandable and acceptable at all levels—both at Westminster and at the Assembly.

**Jonathan Morgan:** I want to touch upon one particular point in the Order itself. Under matter 5.29A as set out by the Government, the Assembly could make legislation on the creation, abolition or allocation of functions of school governing bodies. The law as it stands is very clear on this: section 20 of the School Standards and Framework Act 1998, as amended by the Education Act 2002, sets out in some detail the responsibility of school governing bodies, which depends largely on the legal status of that school. Section 20 of the 1998 Act can provide for a school to apply for foundation status, and Nerys Evans rightly—although I disagree with the point

briffio technegol, ac mae Nerys wedi'u codi y prynhawn yma, ond gellid cynnwys y swyddogaethau staffio y mae cyrff llywodraethu eisoes yn gyfrifol amdanynt, er enghraifft, diswyddo a phenodi staff, mewn unrhyw Fesur yn y dyfodol. Byddai unrhyw Fesur o'r fath yn eithrio'r pwyntiau staffio hynny nad ydynt wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, megis tâl ac amodau athrawon. Hefyd, os edrychwch ar gyllid—er enghraifft, y systemau a'r prosesau ar gyfer cyllido awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw, ac ar gyfer dirprwyo cyllid ganddynt i gyrff llywodraethu ysgolion—ni fydd y Gorchymyn nac unrhyw Fesur a fydd yn ei ddilyn yn effeithio arnynt.

Gadewch inni gydnabod bod cael y cymhwysedd hwn yn gam arall yn y broses o sicrhau bod gan Gymru'r pŵer i ddeddfu ar gyfer trefniadau yn y dyfodol a fydd yn parhau i gefnogi ysgolion ac ymateb i ddatblygiadau polisi yn awr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r Gorchymyn hwn yn ein rhwystro rhag ceisio pwerau ychwanegol yng nghyswllt y meysydd hyn yn y dyfodol, Credaf imi ymateb i bwyntiau Nerys yn llawn ynghylch amserlen a diben y Gorchymyn, gan sicrhau ein bod yn cwblhau'r broses o drosglwyddo cymhwysedd, a'r craffu cadarn y gwn y bydd y Cynulliad yn ymwneud ag ef. Mae'n eithaf clir yn sgîl y cyflwyniad yr wyf wedi'i wneud heddiw fod hyn yn ymwneud â throsglwyddo cymhwysedd yr wyf yn credu y bydd pawb yn ei ddeall ac yn ei dderbyn ar bob lefel—yn San Steffan ac yn y Cynulliad.

**Jonathan Morgan:** Mae arnaf eisiau sôn am un pwynt penodol yn y Gorchymyn ei hun. O dan fater 5.29A gan y Llywodraeth, gallai'r Llywodraeth lunio deddfwriaeth ar greu, dileu neu ddyrannu swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion. Mae'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn glir iawn ar hyn: mae adran 20 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002, yn cyfleu'n fanwl gyfrifoldeb cyrff llywodraethu ysgolion, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar statws cyfreithiol yr ysgol honno. O dan adran 20 Deddf 1998 gall ysgol wneud cais am statws sylfaen, ac yr oedd Nerys yn gywir wrth godi hyn fel

that she made—raised this as a matter of interest.

Having read the Order and explanatory memorandum, can you confirm whether you are seeking to devolve a competence that would allow the Assembly Government, in effect, to repeal the provisions of section 20 of the 1998 Act as amended? It is an important point. This issue is not explicitly mentioned in the Order, nor in the memorandum, but it is important because, if you are to alter the roles, responsibilities and functions of a school governing body, then that will be directly determined by how that school is legally constituted. These roles and responsibilities differ; we know that they are different in a church school from in an ordinary maintained school. Can you confirm that you intend to devolve powers that would allow you to repeal the legislation that currently allows schools to apply for foundation status? I raise that as a matter of concern. It is not something that you have been specific about this afternoon, but I think that you need to play with a straight bat and be clear as to your intention. Do you intend to devolve powers in that regard, and, if so, will you be seeking, as a Welsh Assembly Government, to prevent schools from applying for foundation status in the future?

**Jane Hutt:** I will clarify this again—I sought to do so in reply to Nerys. This legislative competence Order on school governance does not affect categories of schools, and, as I said earlier, it would not mean that a school could not apply, or put forward a statutory proposal after consultation, to seek foundation status. The transfer of this competence would not prevent schools from making those statutory proposals after consultation. It would not affect categories of schools, which is the key point in terms of foundation status in the law. It would only impact on school governance; it would not have an impact in relation to the law that enables foundation status to be sought by a governing body.

I am sure that when we come to the scrutiny of the transfer of power that we are seeking

mater o ddiddordeb, er fy mod yn anghytuno â'i phwynt.

Wedi darllen y Gorchymyn a'r memorandwm esboniadol, a allwch gadarnhau a ydych yn ceisio datganoli cymhwysedd a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad, yn ei hanfod, ddirymu darpariaethau adran 20 Deddf 1998 fel y'i diwygiwyd? Mae'n bwyt pwysig. Nid yw'r Gorchymyn, na'r memorandwm, yn cyfeirio'n benodol at y mater hwn, ond mae'n bwysig oherwydd os byddwch yn newid rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau corff llywodraethu ysgol, bydd hynny'n cael ei bennu'n uniongyrchol gan gyfansoddiad cyfreithiol yr ysgol honno. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn yn wahanol; yr ydym yn gwybod eu bod yn wahanol mewn ysgol eglwys i ysgol arferol a gynhelir. A allwch gadarnhau eich bod yn bwriadu datganoli pwerau a fyddai'n caniatáu i chi ddirymu'r ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i ysgolion wneud cais am statws sylfaen? Yr wyf yn codi hwnnw fel mater sy'n destun pryder. Nid yw'n rhywbeth yr ydych wedi bod yn benodol yn ei gylch y prynhawn yma, ond yr wyf yn meddwl bod angen ichi fod yn glir ynghylch eich bwriad. A ydych yn bwriadu datganoli pwerau i'r perwyl hwnnw, ac, os ydych, a fyddwch, fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ceisio atal ysgolion rhag gwneud cais am statws sylfaen yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** Egluraf hyn unwaith eto—ceisiais wneud hynny wrth ateb Nerys. Nid yw'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn ynghylch llywodraethu ysgolion yn effeithio ar gategoriâu ysgolion, ac, fel y dywedais yn gynharach, ni fyddai'n golygu na châi ysgol wneud cais, na chyflwyno cynnig statudol ar ôl ymgynghori, i geisio statws sylfaen. Ni fyddai trosglwyddo'r cymhwysedd hwn yn rhwystro ysgolion rhag gwneud y cynigion statudol hynny ar ôl ymgynghori. Ni fyddai'n effeithio ar gategoriâu ysgolion, sef y pwynt allweddol o ran statws sylfaen yn y gyfraith. Y cyfan y byddai'n ei wneud fyddai effeithio ar lywodraethu ysgol; ni fyddai'n effeithio yng nghyswllt y gyfraith sy'n galluogi corff llywodraethu i geisio statws sylfaen.

Yr wyf yn siŵr pan fydd y craffu'n digwydd ar y pŵer yr ydym yn ceisio'i drosglwyddo y

we will be able to clarify the opportunities that may emerge at the Measure-making stage. You talked about voluntary aided schools, for example, and I think that that would be usefully considered in scrutiny. However, I can categorically state that this would not affect the ability of a school to seek foundation status. Whatever we think about it in terms of Government policy, the LCO would not affect schools' ability to pursue foundation school status.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr, Weinidog, am y datganiad.

byddwn yn gallu egluro'r cyfleoedd a all godi pan fydd Mesur yn cael ei lunio. Soniasoch am ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, er enghraifft, ac yr wyf yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol ystyried hynny wrth graffu. Fodd bynnag, gallaf ddweud yn gwbl glir na fyddai hyn yn effeithio ar allu ysgol i geisio statws sylfaen. Beth bynnag yw ein barn am hynny o ran polisi'r Llywodraeth, ni fyddai'r Gorchymyn yn effeithio ar allu ysgolion i fynd ar drywydd statws ysgol sylfaen.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for the statement.

### **Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)**

#### **Legislative Statement on the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure**

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae'n bleser gennyf osod Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) ger eich bron heddiw. Yn ei hanfod, cyfrwng galluogi yw'r Mesur arfaethedig hwn, a thrwyddo bydd Gweinidogion Cymru, trwy is-ddeddfwriaeth a thrwy gyfarwyddyd, yn gallu pennu fframwaith ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau manwl mewn rheoliadau i wneud y diwydiant yn fwy effeithiol a chynhyrchiol, i'w farchnata'n well, i wella a datblygu'r gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu, neu y gallai eu darparu, i'r gymuned, ac i wella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r diwydiant cig coch, yn ôl y diffiniad yn y Mesur arfaethedig, yn cynnwys y rheini sy'n bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch, boed fyw neu farw. Mae'n cynnwys hefyd bawb sy'n cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny, ar wahân i laeth a chynhyrchion llaeth, gwlan a chrwyn.

Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod fframwaith ar gyfer codi ardoll ar bobl sy'n cynnal gweithgareddau cynradd, fel bridio a magu, ac ar y rheini sy'n cynnal

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I am pleased to lay the proposed Red Meat Industry (Wales) Measure before you today. It is primarily enabling in scope and will allow Welsh Ministers to set out, in subordinate legislation and in guidance, the framework within which the red meat industry in Wales can be developed and promoted.

The proposed Measure will provide Welsh Ministers with the power to make detailed provision in regulations on increasing efficiency and productivity in the industry, improving marketing, improving and developing services that the industry provides, or could provide, to the community, and improving the ways in which the industry contributes to sustainable development.

The red meat industry is defined in the proposed Measure as all of the activities comprised in breeding, keeping, processing, marketing and distributing cattle, sheep and pigs, both alive and dead. It also includes producing, processing, marketing, manufacturing and distributing products derived from those animals, apart from milk and milk products, wool and hides.

The proposed Measure sets out a framework within which people involved in primary activities, such as breeding and rearing, and those involved in secondary activities, such

gweithgareddau eilaidd, fel cigydda, allforio neu hyrwyddo. Mae hynny'n parhau â'r drefn sydd wedi bod yn ei lle ers sefydlu'r Comisiwn Cig a Da Byw o dan Ddeddf Amaeth 1967. Ers hynny, mae'r rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r diwydiant cig coch wedi bod yn talu ardoll orfodol. Mae'r ardoll honno'n golygu bod gweithgareddau, fel hyrwyddo a marchnata allanol ac ymchwil a datblygu—gweithgareddau na fyddai ffermwyr a phroseswyr bychain ar eu pennau eu hunain wedi gallu eu fforddio—yn gallu cael eu darparu i gynulleidfa ehangach.

Ers 1967 mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau hyn. Ar 1 Ebrill 2007, cafodd Bwrdd Ardollau Cymru ei sefydlu i ddarparu mecanwaith ar gyfer darparu'r ardoll cig coch a'r trefniadau cymorth cysylltiedig yng Nghymru. Yr oedd rhaid ei sefydlu o ganlyniad i'r ad-drefnu ar lefel y Deyrnas Unedig. Yn sgîl adroddiad Radcliffe ar fecanweithiau'r cymorth i'r sector amaeth, dyna oedd yr unig ddewis ymarferol i Gymru. Fodd bynnag, ni wnaeth neb erioed feddwl y byddai'n ateb tymor hir. Cyflwynaf y Mesur arfaethedig hwn heddiw, felly, i roi'r pwerau i Weinidogion Cymru allu mynd i'r afael â'r mater hwn eu hunain.

Ers 2003, a ffurfio Hybu Cig Cymru, mae'r Comisiwn Cig a Da Byw wedi rhoi'r ardoll y mae'n ei chasglu ar ran Cymru i Hybu Cig Cymru o dan gytundeb dirprwyo, er mwyn iddo allu cynnal ei weithgareddau hyrwyddo a datblygu pwysig. Chwaraeodd Hybu Cig Cymru ran bwysig iawn wrth sicrhau cydnabyddiaeth Ewropeaidd i gig oen a chig eidion Cymru, drwy ennill statws dynodiad daearyddol gwarchoddedig i'r ddau gynnyrch pwysig hyn. Dyma enghraifft dda o'r math o fanteision a ddaw o drefnu gweithgareddau'n ganolog gan ddefnyddio nawdd ariannol yr ardoll.

Nid yw'n fwriad gennyf newid y trefniadau dirprwyo presennol, a rhagwelir darparu trefniant dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru a fydd yn caniatáu i Hybu Cig Cymru barhau i hyrwyddo a datblygu diwydiant cig coch Cymru fel ag o'r blaen.

as slaughtering, exporting or promotion, may be subject to a levy fee. That continues arrangements that have been in place since the establishment of the Meat and Livestock Commission under the Agriculture Act 1967. Since then, those engaged in the red meat industry have paid a compulsory levy so that activities that small farmers and processors could not afford individually, such as external promotion and marketing and research and development, can be provided for wider general benefit.

Since 1967 there have been a number of changes to these arrangements. On 1 April 2007, the Welsh Levy Board was established and took on the role of providing a mechanism by which the red meat levy and the associated support arrangements could be delivered in Wales. This was necessary because of restructuring arrangements at a UK level. Following the Radcliffe report into the mechanisms for agricultural sectoral support, this was the only practical option for Wales. However, it was never considered to be a long-term solution. I am therefore introducing this proposed Measure today to give Welsh Ministers the powers needed to be able to undertake this directly.

Since 2003, and the formation of Hybu Cig Cymru, the levy collected on behalf of Wales by the Meat and Livestock Commission was given to Hybu Cig Cymru under a delegation agreement so that these important promotion and development activities could take place. Hybu Cig Cymru has been instrumental in securing European recognition for the two key products of Welsh lamb and Welsh beef with protected geographic indicator status. This is a significant example of the kind of benefits that can be gained from a centralised co-ordinated approach that is financially supported through the levy fee.

I do not propose to make changes to the current delegation arrangements and it is envisaged that a new delegation arrangement will be put in place between the Welsh Ministers and Hybu Cig Cymru that will allow Hybu Cig Cymru to continue to promote and develop the red meat industry in Wales as before.

4.00 p.m.

**Brynle Williams:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. I ddechrau, hoffwn ddweud ein bod yn cefnogi hyn; credwn mai dyma'r ffordd ymlaen o ran y diwydiant cig coch. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o bryderon.

The first is the issue of accountability. The Government has presented bringing Hybu Cig Cymru in-house as a move to make it more democratically accountable. However, HCC is already accountable through its board to the businesses that pay the levy. As you are aware Minister, it is not the Government's money that HCC spends, but that of farmers and processors. It already has clear lines of accountability through the board so that the money delivers the best results. HCC's independence has been a key part of this operational success, and I would appreciate your assurance, Minister, that HCC's day-to-day work will not be subject to the interference of your successors in future—I am not talking about you, Minister.

I am also concerned about the future slaughter capacity in Wales and the impact that this may have on the red meat industry. Because the levy is collected at the place of slaughter and not where the breeding flocks and herds are kept, the amount of levy collected in Wales is, regrettably, dependent on the location of the abattoirs. I would say that Wales already loses £1 million, possibly more, due to cattle being processed over the border. If a major Welsh abattoir were to close its operations—as we know, the abattoirs are very vulnerable at the moment—I believe that Wales would stand to lose another £750,000 to £1 million in levy. As I see it, Welsh levy payers are in a particularly vulnerable position because of the fragility of the processing industry. Minister, will you commit to working with your ministerial counterparts in England and Scotland to reach a fair agreement on the collection of the levy, so that it reflects where the breeding flocks and herds have been kept, and not just the location of the abattoirs? Wales is already losing a considerable sum of money, which should be spent on promoting Welsh

**Brynle Williams:** Thank you, Minister for your statement this afternoon. First, I wish to say that we are supportive of this; we believe that it is the way forward for the red meat industry. However, I have a few concerns.

Mae'r cyntaf yn ymwneud ag atebolrwydd. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno dod â Hybu Cig Cymru dan adain y Llywodraeth fel cam i'w wneud yn fwy atebol yn ddemocrataidd. Fodd bynnag, mae HCC eisoes yn atebol drwy ei fwrdd i'r busnesau sy'n talu'r ardoll. Fel y gwyddoch Weinidog, nid arian y Llywodraeth y mae HCC yn ei wario, ond arian ffermwyr a phroseswyr. Mae ganddo eisoes linellau atebolrwydd clir drwy'r bwrdd i sicrhau bod yr arian yn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae annibyniaeth HCC wedi bod yn rhan allweddol o'i lwyddiant gweithredol, a byddwn yn gwerthfawrogi cael sicrwydd gennyf, Weinidog, na fydd gwaith beunyddiol HCC yn destun ymyrraeth gan eich olynwyr yn y dyfodol—nid wyf yn siarad amdanoch chi, Weinidog.

Yr wyf hefyd yn pryderu am y capasiti lladd yn y dyfodol yng Nghymru ac effaith bosibl hyn ar y diwydiant cig coch. Oherwydd bod yr ardoll yn cael ei chasglu yn y man lle y mae'r anifeiliaid yn cael eu lladd ac nid lle y cedwir y diadelloedd a'r gyrroedd bridio, yn anffodus, mae faint o ardoll a gesglir yng Nghymru'n dibynnu ar leoliad y lladd-dai. Byddwn yn dweud bod Cymru eisoes yn colli £1 miliwn, mwy efallai, oherwydd bod gwartheg yn cael eu prosesu dros y ffin. Petai un o ladd-dai mawr Cymru yn cau—fel y gwyddom, mae'r lladd-dai yn agored iawn i niwed ar hyn o bryd—yr wyf yn credu y gallai Cymru golli rhwng £750,000 a £1 miliwn arall mewn ardoll. Yn fy marn i, mae'r rhai sy'n talu'r ardoll yng Nghymru mewn sefyllfa agored iawn i niwed oherwydd bod y diwydiant prosesu mor fregus. Weinidog, a wnewch ymrwymo i weithio gyda'ch cyd-Weinidogion yn Lloegr a'r Alban i ddod i gytundeb teg ar gasglu'r ardoll, er mwyn iddo adlewyrchu lle y mae'r diadelloedd a'r gyrroedd bridio'n cael eu cadw, ac nid dim ond lleoliad y lladd-dai? Mae Cymru eisoes yn colli llawer iawn o

produce. This situation has the potential to get considerably worse if ignored. I would appreciate it, Minister, if you could give this your full attention.

**Elin Jones:** Diolch, Brynle, am gefnogi mewn egwyddor y Mesur arfaethedig yr wyf yn ei gyflwyno. I ddechrau, credaf fod angen imi wneud rhywbeth yn glir ichi, gan fy mod yn credu bod rhywfaint o gamddealltwriaeth. Ni fydd y system yr wyf yn ei chynnig yn golygu newid statws Hybu Cig Cymru. O dan y drefn newydd, os caiff y Mesur arfaethedig hwn ei basio, bydd Hybu Cig Cymru yn cael arian yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru. Yr hyn a fyddai'n newid o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig hwn yw y bydd Bwrdd Ardollau Cymru, sydd ar hyn o bryd yn casglu'r ardollau, yn dod i ben. Bydd Gweinidogion Cymru yn codi'r ardoll yn uniongyrchol. Byddai hynny'n gwaredu'r angen am y bwrdd, a ddaeth i fodolaeth yn 2007 ac nad yw'n cyflawni swyddogaeth gwbl allweddol. Mae'n swyddogaeth y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn uniongyrchol, a dyna'r bwriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn codi'r ardoll yn uniongyrchol ac yna'n dirprwyo'r ardoll i Hybu Cig Cymru dan drefniant digon tebyg i'r trefniant presennol. Ni welaf y trefniant hwnnw na'r gwaith mae Hybu Cig Cymru yn ei wneud yn newid yn y tymor byr. Fel y dywedasoch Brynle, mae ei waith a'i strategaeth ac ymwneud y diwydiant—y ffermwyr sy'n talu'r ardoll—yn ei holl ehangder â datblygu gwaith Hybu Cig Cymru yn werthfawr iawn, yn hytrach na'i fod yn gorff sy'n cael ei redeg yn gyfan gwbl gan y Llywodraeth. Felly, dylai gwaith Hybu Cig Cymru, fel y caiff ei gyflawni ar hyn o bryd, barhau yn y dyfodol.

Yr oedd eich ail bwynt yn un digon sylweddol yn y drafodaeth ynglŷn â'r diwydiant cig coch, er nad yn ymwneud yn uniongyrchol efallai â'r hyn yr hoffwn ei gyflawni drwy gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn yn y tymor byr. Serch hynny, mae'r ffaith bod yr ardoll yn cael ei chasglu yn unol â lleoliad y lladd-dy yn golygu bod Hybu Cig Cymru'n derbyn llai o ardollau na'r hyn y gellid bod wedi'i godi petai'r arian yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y cynhyrchwyr gan fod cymaint o'n hanifeiliaid yn mynd dros y

arian, y dylid ei wario ar hybu cynnyrch Cymru. Gallai'r sefyllfa fynd yn waeth o lawer os caiff ei hanwybyddu. Weinidog, byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn gallu rhoi eich sylw llawn i hyn.

**Elin Jones:** Thank you, Brynle, for your support in principle for the proposed Measure that I am introducing. First, I think that I need to make something clear to you, because I think that there might be a misunderstanding. The system that I am proposing involves no change of status for Hybu Cig Cymru. Under the new regime, if this proposed Measure is passed, Hybu Cig Cymru will receive funding directly from Welsh Ministers. What would change as a result of this proposed Measure is that the Welsh Levy Board, which currently collects the levy, would be wound up. Welsh Ministers would then raise the levy directly. That would eliminate the need for the board, which came into existence in 2007 and which does not carry out an essential function. It is a function that Welsh Ministers could carry out directly, and that is the intention. Welsh Ministers will raise the levy directly and then delegate the levy to Hybu Cig Cymru under an arrangement very similar to the one currently in place. I do not see that arrangement or the work that Hybu Cig Cymru carries out changing in the short term. As you mentioned, Brynle, its work and its strategy and the industry's involvement—the farmers who pay the levy—in the broadest sense with regard to the development of the work of Hybu Cig Cymru are very valuable. That is the case, rather than it being run entirely by Government. Therefore, the work of Hybu Cig Cymru, as currently undertaken, should quite rightly be taken into the future.

Your second point is quite significant to the debate on the red meat industry, although it is not directly related to what I hope to achieve in bringing the proposed Measure forward in the short term. Despite this, the fact that the levy is collected in relation to the location of the abattoir means that Hybu Cig Cymru receives less levies than could have been the case had the levy been charged directly to the producers since so many of our animals go over the border to England to be slaughtered. If there are further changes to the situation

ffin i Lloegr i gael eu lladd. Os bydd newid pellach yn y sefyllfa lle mae un neu ragor o'n prif ladd-dai yn rhoi'r gorau i'w gwaith, bydd hynny'n effeithio ar y cyllid sydd ar gael. Gwn fod trafodaeth wedi dechrau rhwng Hybu Cig Cymru a'r cyrff cyfatebol yn yr Alban ac yn Lloegr ynglŷn â'r sefyllfa, a breuder y sefyllfa yn sgîl y newidiadau go sylweddol yn statws y busnesau sy'n gweithredu fel lladd-dai. Mae'n drafodaeth yr wyf yn awyddus i'w chael ar lefel weinidogol hefyd. Fel y nodir gennych, mae ansicrwydd yn y sefyllfa bresennol gan fod codi'r ardoll yn seiliedig ar leoliad y lladd-dy. Os bydd hynny'n newid yn sylweddol, bydd yn newid yr arian sydd ar gael i hyrwyddo a marchnata cig o Gymru, a byddai'n golled i Gymru pe baem yn lleihau ein gallu i wario ar hynny. Gallaf wneud ymrwymiad ichi, Brynle, fy mod yn ystyried hwn fel mater o bwys o ran dyfodol y diwydiant, ac yn un y byddaf yn barod iawn i'w drafod ymhellach gyda Hybu Cig Cymru a chyda'm cyd-Weinidogion yn Lloegr ac yn yr Alban.

**Joyce Watson:** I thank the Minister for her statement today. As others have said, the proposed Measure is a sound response to the Radcliffe report that sought to reorganise the levy boards across the UK, and particularly the red meat sector in Wales. I know that this is not necessarily an issue for the proposed Measure itself, but the size of the levy is a question that will occupy minds in the industry.

In order to raise the levy to promote the industry, we will have to continue to support abattoirs, including smaller rural abattoir industries. Therefore, could the Minister update Members, which you have already done to some extent, on discussions that you have had with your officials and with the Meat Hygiene Service and the Food Standards Agency on the capability of the abattoir industry in Wales in light of the proposed Measure receiving Royal Approval?

**Elin Jones:** I am keen to preserve, develop and enhance the capacity that we have in Wales to slaughter our own red meat product, particularly our lamb and beef. I want to work with the companies already operating in

whereby one or more of our main abattoirs ceases operation, it will affect the available funding. I know that discussions have commenced between Hybu Cig Cymru and the corresponding bodies in Scotland and England regarding the situation and the fragility of the position as a result of substantial changes in the status of the businesses that operate as abattoirs. It is a discussion that I am eager to have on a ministerial level too. As you noted, there is uncertainty regarding the current situation because the charging of the levy is based on the location of the abattoir. If that changes substantially, it will change the funding that is available for the promotion and marketing of Welsh meat. It would be a loss to Wales if we were to reduce our ability to spend in that area. I can make a commitment to you, Brynle, that I consider this to be important to the industry's future, and I will be more than willing to hold further discussions on this issue with Hybu Cig Cymru and my fellow Ministers in England and Scotland.

**Joyce Watson:** Yr wyf yn diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Fel y mae eraill wedi dweud, mae'r Mesur arfaethedig yn ymateb cadarn i adroddiad Radcliffe a oedd yn ceisio ad-drefnu'r byrddau ardollau ledled y DU, ac yn enwedig y sector cig coch yng Nghymru. Gwn nad yw hwn o reidrwydd yn fater i'r Mesur arfaethedig ei hun, ond mae maint yr ardoll yn gwestiwn a fydd yn flaenllaw ym meddwl pobl yn y diwydiant.

Er mwyn codi'r ardoll i hybu'r diwydiant, bydd yn rhaid inni barhau i gefnogi lladd-dai, gan gynnwys diwydiannau lladd-dai gwledig llai. Felly, a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau, yr ydych eisoes wedi gwneud hynny i ryw raddau, am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael â'ch swyddogion ac â'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch gallu'r diwydiant lladd-dai yng Nghymru yng ngolau'r Mesur arfaethedig yn cael Cymeradwyaeth Frenhinol?

**Elin Jones:** Yr wyf yn awyddus i gadw, i ddatblygu ac i wella'r capasiti sydd gennym yng Nghymru i ladd ein cynnyrch cig coch ein hunain, yn enwedig ein cig oen a'n cig eidion. Mae arnaf eisiau gweithio gyda'r

this area to strengthen their position in the marketplace because it means that animals from Wales can be killed in Wales for the meat supply chain, which is of benefit to the industry, and reduces the amount of live transport of animals, which is also good. I am keen to work with the slaughterhouse capacity that we have in Wales, to ensure that we maintain and, hopefully, enhance it so that we can then protect, as Brynle suggested, our ability to charge the levy on the numbers of animals killed in Wales. That levy is then directly collected by Welsh Ministers if this proposed Measure is successful and is there for the purposes of Hybu Cig Cymru to promote good-quality Welsh lamb and Welsh beef. I am keen that we use the process of this debate on the legislation to work further with the industry along the red meat supply chain to strengthen its role and its quality and performance in Wales.

4.10 p.m.

**Mick Bates:** Minister, I thank you for your statement. The process in respect of the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Agriculture and Rural Development) Order 2009 has been smooth, and I hope that the process in respect of the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure will also be smooth. You will recall that there was unanimous agreement among the parties about the LCO, and I am certain that we all welcome the statement that you have made today.

Two things were memorable about the proceedings in respect of the LCO. One was the fact that, as Chair of the committee that considered the red meat industry LCO, I was able to do something innovative, which was to have a video link with the Welsh Affairs Committee in order to have an informal discussion about how we should proceed together with the legislation. The second was when you said the immortal words about how you define a sheep—you said quite clearly that there is no need for such a definition, because “sheep” means sheep. I am certain that that will be recorded as one of the great

cwmnïau sydd eisoes yn gweithio yn y maes hwn i gryfhau eu sefyllfa yn y farchnad oherwydd y mae'n golygu y gellir lladd anifeiliaid Cymru yng Nghymru ar gyfer y gadwyn cyflenwi cig, sydd o fudd i'r diwydiant, ac sy'n lleihau cludo anifeiliaid byw, sydd hefyd yn beth da. Yr wyf yn awyddus i weithio gyda'r capasiti o ran lladd-dai sydd gennym yng Nghymru i sicrhau ein bod yn ei gynnal a, gobeithio, yn ei wella er mwyn inni allu amddiffyn, fel yr awgrymodd Brynle, ein gallu i godi'r ardoll ar nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru. Caiff yr ardoll honno wedyn ei chasglu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, os bydd y Mesur arfaethedig hwn yn llwyddo a'i fod yno at ddibenion Hybu Cig Cymru i hybu cig oen Cymru a chig eidion Cymru o ansawdd da. Yr wyf yn awyddus inni ddefnyddio proses y ddadl hon ar y ddeddfwriaeth i weithio ymhellach gyda'r diwydiant ynghyd â'r gadwyn cyflenwi cig coch i gryfhau ei rôl a'i ansawdd a'i berfformiad yng Nghymru.

**Mick Bates:** Weinidog, yr wyf yn diolch ichi am eich datganiad. Mae'r broses yng nghyswllt Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2009 wedi bod yn llyfn, a gobeithiaf y bydd y broses yng nghyswllt y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) yn ddidrafferth hefyd. Byddwch yn cofio bod y pleidiau wedi cytuno ar y Gorchymyn yn unfrydol, ac yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn croesawu'r datganiad yr ydych wedi'i wneud heddiw.

Yr oedd dau beth cofiadwy ynghylch y trafodion yng nghyswllt y Gorchymyn. Un o'r rheini oedd y ffaith fy mod, fel Cadeirydd y pwyllgor a oedd yn ystyried y Gorchymyn ynghylch y diwydiant cig coch, yn gallu gwneud rhywbeth arloesol, sef cael cyswllt fideo â'r Pwyllgor Materion Cymreig er mwyn cael trafodaeth anffurfiol am sut y dylem symud ymlaen â'r ddeddfwriaeth gyda'n gilydd. Yr ail oedd pan ddywedasoeh y geiriau anfarwol am sut yr ydych yn diffinio dafad—dywedasoeh yn hollol ddiflwyn ar dafod nad oedd angen diffiniad o'r fath oherwydd bod “dafad” yn golygu



statements of the Assembly.

I agree with you entirely that HCC should be kept as an arm's-length body. While your intention is to do so, I share the concerns of others about that because we all hope that, in future, HCC does indeed remain an arm's-length body, so that there is an element of independence that enables it to carry out its functions, which are those clearly defined in the Natural Environment and Rural Communities Act 2006. We all welcome those functions in respect of promoting red meat in Wales.

While I was clear on your intent, at some stage we need to perhaps strengthen the governance of HCC, so that there is a clear statement of independence that keeps it from ever being absorbed into the Government. As a Welsh Liberal Democrat, I am not a fan of centralising too many functions.

Another issue is that, in the future, under functions in section 3, it would be possible to look at the issues raised by my colleague Brynle Williams, who rightly pointed out issues to do with the equitable distribution of levies collected in the abattoirs, and particularly the situation with regard to beef, where, it appears, we rear many more animals in Wales than are slaughtered here. Therefore, many go to other places to be slaughtered, and the levy is lost to us in Wales. The situation for sheep is neutral, as what is exported is balanced by the imports to our very good sheep abattoirs. Equitable distribution—I am sure, Minister, that you will refer to this in your response—is a UK-wide issue, which needs to be debated by all parts of the UK before any changes are made to the wording of the proposed Measure under section 3. If we were, as you said earlier, to lose a major abattoir in Wales, it would weaken our ability to fund and to promote the red meat industry in Wales.

If changes are to be made to the proposed Measure, they are to be made through the negative procedure, except under function 3.

dafad'. Yr wyf yn siŵr y caiff hynny ei gofnodi fel un o ddatganiadau mawr y Cynulliad.

Yr wyf yn cytuno â chi i'r carn y dylid cadw HCC fel corff hyd braich. Er eich bod yn bwriadu gwneud hynny, yr wyf yn pryderu fel y mae pobl eraill ynghylch hynny oherwydd yr ydym i gyd yn gobeithio, yn y dyfodol, y bydd HCC yn aros yn gorff hyd braich, er mwyn cael elfen o annibyniaeth sy'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau, sef y rhai a ddiffinnir yn glir yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Yr ydym i gyd yn croesawu'r swyddogaethau hynny yng nghyswllt hybu cig coch yng Nghymru.

Er fy mod yn glir ynghylch eich bwriad, ryw dro efallai y bydd angen inni gryfhau llywodraethu HCC, er mwyn cael datganiad clir o annibyniaeth sy'n ei gadw rhag cael ei lyncu byth gan y Llywodraeth. Fel un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, nid wyf yn hoff o ganoli gormod o swyddogaethau.

Mater arall yw, yn y dyfodol, o dan swyddogaethau yn adran 3, y byddai'n bosibl edrych ar y materion a godwyd gan Brynle Williams, fy nghyd-Aelod, a oedd yn llygad ei le wrth sôn am faterion sy'n ymwneud â dosbarthu'r ardollau a gesglir yn y lladd-dai'n deg, ac yn benodol y sefyllfa gyda chig eidion, lle yr ydym yn magu llawer iawn mwy o anifeiliaid yng Nghymru nag a leddir yma, yn ôl pob golwg. Felly, bydd llawer yn mynd i fannau eraill i'w lladd, ac yr ydym ni yng Nghymru'n colli'r ardoll. Mae'r sefyllfa ar gyfer defaid yn niwtral, oherwydd y mae'r hyn sy'n cael ei allforio'n cael ei gydbwysu gan yr hyn sy'n cael ei fewnforio i'n lladd-dai defaid da iawn. Mae dosbarthu'n deg—yr wyf yn siŵr, Weinidog, y byddwch yn cyfeirio at hyn yn eich ymateb—yn fater ar gyfer y DU i gyd, y mae angen i bob rhan o'r DU ei drafod cyn gwneud unrhyw newidiadau yng ngeiriad y Mesur arfaethedig o dan adran 3. Petaem, fel y dywedasochn yn gynharach, yn colli un o ladd-dai mawr Cymru, byddai'n gwario ein gallu i gyllido a hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud yn y Mesur arfaethedig, byddant yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol, ac

It would be much better if we were to take a much more positive view, and if all proposed changes were made through a positive procedure, which would avoid any concerns that you were trying to rush things through, because transparency is the best thing that we can offer.

We, as Welsh Liberal Democrats, welcome the transfer of these powers, and hope that it is the beginning of a long process that enables us, eventually, to take on the whole process ourselves.

**Elin Jones:** Thank you for your comments and your questions. When scrutinising the proposed Measure, I am sure that you will have noticed that there is no definition of 'sheep' in the proposed Measure. I am nothing if not consistent on that issue, whereas there has to be a definition of 'cattle' and of 'pigs'. For any of you who might be interested in why that is the case, you can read in the proposed Measure what is the definition of 'cattle' and 'pigs' for the purposes of the proposed Measure.

Hybu Cig Cymru is a partnership of the levy payers—the industry. That gives it its strength and its independent voice. I have no desire to absorb Hybu Cig Cymru into the mainstream of Welsh Government, although we share our red meat strategy. It is my red meat strategy and it is the strategy for Wales; Hybu Cig Cymru has developed that strategy in consultation with the wider industry for the purposes of this Government. Therefore, we share the strategy and its aspiration, but I am clear that Hybu Cig Cymru, in its working and its views, is independent of Government.

You have raised the issue of the equitable distribution of levy between England, Scotland and Wales, and it is at its most pronounced and inequitable in the beef sector, as you have said. If there was to be a redistribution of levy from English abattoirs back to Wales, or Scotland for that matter, then that would have to be agreed by all partners involved, by the three promotion agencies and by the three Governments.

eithrio o dan swyddogaeth 3. Byddai'n well o lawer petai modd inni arddel agwedd sy'n fwy cadarnhaol o lawer, a phetai'r holl newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol, a fyddai'n osgoi unrhyw bryderon eich bod yn ceisio prysuro pethau, oherwydd tryloywder yw'r peth gorau y gallwn ei gynnig.

Yr ydym ni, fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn croesawu trosglwyddo'r pwerau hyn, ac yn gobeithio mai dyma fydd dechrau proses hir a fydd yn ein galluogi, yn y pen draw, i ymgymryd â'r broses gyfan ein hunain.

**Elin Jones:** Diolch ichi am eich sylwadau a'ch cwestiynau. Wrth graffu ar y Mesur arfaethedig, yr wyf yn siŵr ichi sylw na cheir diffiniad o 'ddafad' yn y Mesur arfaethedig. Yr wyf yn gyson iawn ynghylch y mater hwnnw, ond mae'n rhaid cael diffiniad o 'wartheg' a 'moch'. Ar gyfer unrhyw un ohonoch a allai fod â diddordeb yn y rheswm dros hynny, gallwch ddarllen yn y Mesur arfaethedig beth yw'r diffiniad o 'wartheg' a 'moch' at ddibenion y Mesur arfaethedig.

Mae Hybu Cig Cymru yn bartneriaeth o'r rhai sy'n talu'r ardoll—y diwydiant. Hynny sy'n rhoi iddo ei gryfder a'i lais annibynnol. Nid wyf yn dymuno dod â Hybu Cig Cymru dan adain Llywodraeth Cymru, er ein bod yn rhannu ein strategaeth cig coch. Fy strategaeth cig coch i ydyw ac mae'n strategaeth i Gymru; mae Hybu Cig Cymru wedi datblygu'r strategaeth honno drwy ymgynghori â'r diwydiant ehangach at ddibenion y Llywodraeth hon. Felly, yr ydym yn rhannu'r strategaeth a'i dyheadau, ond yr wyf yn glir bod Hybu Cig Cymru, o ran ei waith a'i safbwyntiau, yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Yr ydych wedi sôn am ddsbarthu'r ardoll yn deg rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg ac annheg yn y sector cig eidion, fel yr ydych wedi dweud. Petai ardollau o ladd-dai Lloegr yn cael eu hailddosbarthu yn ôl i Gymru, neu i'r Alban hyd yn oed, byddai'n rhaid i'r holl bartneriaid dan sylw gytuno ar hynny, y tair asiantaeth hybu a'r tair Llywodraeth.

You mentioned at the end the prospect of my rushing things; this LCO has already been subject to two years of discussion and the proposed Measure is starting its process today. I doubt very much that you could call that rushing things.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn yn tybio bod rhyw elfen o eironi yng ngeiriau Mick Bates pan soniodd am ruthro proses y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gweld seithugrwydd llwyr y broses arbennig honno.

Pan welais y datganiad, bu imi ei ddarllen ddwywaith. Wrth ei ddarllen, ni chefais fy argyhoeddi ynglŷn â'ch dymuniadau ynglŷn â rôl Hybu Cig Cymru. Mae eich geiriau yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, er fy mod yn nodi eich bod wedi defnyddio'r term 'yn y tymor byr' yn eich ymateb cyntaf i Brynle, ond yr oeddech ychydig yn fwy cadarnhaol ynglŷn â rôl Hybu Cig Cymru yn eich ymateb i Mick Bates. Credaf mai dymuniad y rhan fwyaf o bobl yn y diwydiant yw gweld y rôl honno yn parhau ac, yn wir, yn cael ei hehangu.

Mae'r gwaith wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithiol iawn. Nid wyf yn poeni'n ormodol ynglŷn â Hybu Cig Cymru yn cael ei dynnu i mewn i'r Llywodraeth ai peidio, ond y cwestiwn mawr yw: a fydd y strategaethau y mae Hybu Cig Cymru wedi bod yn eu dilyn yn cael ei sicrhau ar gyfer y dyfodol? Derbyniaf, Weinidog, na fedrwch chi sicrhau unrhyw beth y tu hwnt i 2011, ac mae hynny ar y gorwel erbyn hyn.

O wrando ar eich ymateb i'r hyn a godwyd gan Aelodau o bob plaid, yr oedd yn dda clywed bod croeso cyffredinol i drosglwyddiad y pwerau hyn. Mae consŷrn mawr ynglŷn â'r ardoll a maint yr ardoll yn y dyfodol, a'r perygl posibl os nad ydym yn sicrhau bod cynnyrch o Gymru yn cael ei baratoi ar gyfer y farchnad yng Nghymru. Yr wyf wedi gwrandao ar yr hyn yr ydych wedi ei ddweud a deallaf eich bod yn bwriadu edrych yn ofalus iawn ar y sefyllfa hon. Yr wyf yn falch iawn eich bod wedi ein sicrhau eich bod yn gweld yr angen i weithredu ar hyn.

Soniasoch ar y diwedd am y posibilrwydd fy mod yn prysuro pethau; mae'r Gorchymyn hwn eisoes wedi cael ei drafod ers dwy flynedd ac mae'r Mesur arfaethedig yn dechrau ei broses heddiw. Yr wyf yn amau'n gryf a allech ddweud bod hynny'n golygu bod pethau'n cael eu prysuro.

**Rhodri Glyn Thomas:** I assumed that there was some element of irony in Mick Bates's contribution when he talked about rushing the legislative competence Order process. Most of us feel complete frustration with this particular process.

When I saw the statement, I read it twice, but I was not convinced as to your exact aspirations as regards the role of Hybu Cig Cymru. Your words offered some assurance, although I noted that you used the phrase 'in the short term' in your first response to Brynle, but you were slightly more positive about the role of Hybu Cig Cymru in your response to Mick Bates. I believe that most people in the industry want to see that role continuing and, in fact, being expanded.

The work has been done in a very effective manner. I am not overly concerned about Hybu Cig Cymru being brought into Government or not, but the major question is: will the strategies followed by Hybu Cig Cymru be secure for the future? I accept, Minister, that you cannot guarantee anything beyond 2011, and that is now within our sights.

In listening to your response to the points raised by Members from all parties, it was good to hear the transfer of these powers being welcomed across the board. There is major concern about the levy and the size of the levy in future, and about the dangers that could arise if we do not ensure that Welsh produce is prepared for the market in Wales. I have listened to what you have said and I understand that it is your intention to look at the situation in detail. I am pleased that you have given us the assurance that you do see the need to take action in this area.

**Elin Jones:** Diolch ichi am eich sylwadau, Rhodri Glyn. Dywedaf, unwaith eto, nad yw'n fwriad gennyf, yn fy nghyfnod i fel Gweinidog—os caf i ddiffinio hynny fel cyfnod yn y tymor byr—newid statws Hybu Cig Cymru. Fel y dywedais yn fy natganiad, bydd y trefniant dirprwyo sy'n bodoli ar hyn o bryd, sef i ddirprwyo'r swyddogaethau a'r cyllid o'r ardoll i Hybu Cig Cymru er mwyn hyrwyddo a datblygu'r sector, yn parhau. Yn wir, mae Hybu Cig Cymru yn ymhel â'r gwaith hyrwyddo drwy ddefnyddio'r arian ychwanegol a gafodd gan y Llywodraeth drwy'r cynllun datblygu gwledig.

**Elin Jones:** Thank you for your comments, Rhodri Glyn. I will say, once again, that it is not my intention, in my time as Minister—if I may define that as the short term—to change the status of Hybu Cig Cymru. As I said in my statement, the current delegation arrangements, namely the delegation of functions and funding from the levy to Hybu Cig Cymru for the work of promoting and developing the sector, will continue. Indeed, Hybu Cig Cymru is undertaking that promotion work by using the additional funding provided by the Government via the rural development plan.

4.20 p.m.

Fel y soniais eisoes, mae'r ffaith fod yr ardoll yn cael ei chodi yn lleoliad y lladd-dy yn gosod y diwydiant yng Nghymru a'n gallu i godi'r arian yr ydym yn ei deilyngu o dan rywffaint o anfantais—ac y mae'r un yn wir am yr Alban—gan fod y capasiti lladd yn fwy yn Lloegr nag ydyw yng Nghymru. Mae hynny'n arbennig o wir am y sector cig eidion. Fel y dywedais wrth Brynle, dyna paham y bydd yn rhaid i'r pwnc hwnnw ddatblygu yn drafodaeth rhyngof i a Gweinidogion Lloegr a'r Alban.

As I have already mentioned, the very fact that the levy is charged at the abattoir location puts the industry in Wales, and our ability to raise the funding that is deserving to us, at something of a disadvantage—the same is true of Scotland—because the slaughter capacity is greater in England than in Wales. This is particularly true in the beef sector. As I said in response to Brynle, this is why the subject will have to develop into a discussion between myself and the Ministers in England and Scotland.

### **Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009**

#### **Motion to Approve the Pre-release Access to Official Statistics (Wales) Order 2009**

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** I move that

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Cynigiad fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 24.4:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.4:*

*1. considers the report of the Subordinate Legislation Committee laid in the Table Office on 5 October 2009 in relation to the draft Pre-release Access to Official Statistics (Wales) Order 2009;*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2009 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009; a*

*2. approves that the draft Pre-release Access to Official Statistics (Wales) Order 2009 is made in accordance with:*

*2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009, yn cael ei wneud yn unol ag:*

*a) the draft laid in the Table Office on 17 September 2009; and*

*b) the explanatory memorandum laid in the Table Office on 17 September 2009. (NDM4300)*

The code of practice for official statistics, published in January 2009, and compliance with the code in the pre-release access Order are both needed to ensure that the official statistics that we produce are trustworthy and trusted. The Statistics and Registration Service Act 2007 stipulates that the code may not deal with any matter relating to the granting of pre-release access due to statistics.

In terms of the legal basis, the power for Welsh Ministers to make the Order, providing for rules and principles relating to the granting of pre-release access to statistics, is contained in section 11(2) of the Act. Section 65(7) of the Act states that the Welsh Ministers may not make the Order unless it has been approved by this Assembly.

If we compare proposals in Wales with those in other parts of the UK, the Orders for the UK and Scotland came into force on 1 December 2008. The Northern Ireland Order came into force on 1 April 2009. The UK has decided on a pre-release period of 24 hours for all statistics for which they are responsible. Northern Ireland has followed that, but Scotland has decided to keep to a pre-release access period of five days.

The view in Wales is based on a no-change proposal, maintaining the current pre-release periods. We have taken the view that now is not the time to make changes to our current arrangements for a number of reasons. First, we have not encountered significant media, or indeed other challenges, to the integrity of our statistics. Secondly, there is not currently a consistent view across the UK administrations and the consultations undertaken by the UK and Scotland did not show strength of feeling about any set of proposals.

*a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Medi 2009; a*

*b) y memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Medi 2009. (NDM4300)*

Mae'r cod ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2009, a chydymffurfio â'r cod yn y Gorchymyn ynghylch gweld cyn rhyddhau, ill dau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr ystadegau swyddogol a gynhyrchwn yn rhai cymeradwy ac yn rhai y gellir ymddiried ynddynt. Mae Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 yn mynnu na chaiff y cod ddelio ag unrhyw fater sy'n ymwneud â chaniatáu gweld ystadegau cyn eu rhyddhau.

Yng nghyswllt y sail gyfreithiol, mae'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud y Gorchymyn, sy'n darparu ar gyfer y rheolau a'r egwyddorion sy'n ymwneud â chaniatáu gweld ystadegau cyn eu rhyddhau, yn adran 11(2) y Ddeddf. Dywed adran 65(7) y Ddeddf na chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai ei fod wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad hwn.

Os cymharwn gynigion yng Nghymru â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU, daeth y Gorchymynion ar gyfer y DU a'r Alban i rym ar 1 Rhagfyr 2008. Daeth Gorchymyn Gogledd Iwerddon i rym ar 1 Ebrill 2009. Mae'r DU wedi penderfynu ar gyfnod cyn rhyddhau o 24 awr ar gyfer yr holl ystadegau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae Gogledd Iwerddon wedi dilyn hynny, ond mae'r Alban wedi penderfynu cadw cyfnod gweld cyn rhyddhau o bum niwrnod.

Mae'r farn yng Nghymru'n seiliedig ar gynnig dim newid, gan gadw'r cyfnodau cyn rhyddhau a geir ar hyn o bryd. Yr ydym o'r farn nad yw'r briodol newid ein trefniadau presennol ar hyn o bryd am nifer o resymau. Yn gyntaf, nid oes llawer iawn o herio wedi bod ar ddilysrwydd ein hystadegau gan y cyfryngau, na neb arall yn wir. Yn ail, ar hyn o bryd nid oes barn gyson ar draws gweinyddiaethau'r DU ac nid oedd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y DU a'r Alban yn dangos cryfder barn ynghylch unrhyw set o gynigion.

On consultation, Welsh Ministers have a statutory duty to consult the Minister for the Cabinet Office, the Scottish Ministers, the Department of Finance, Northern Ireland personnel, and the UK Statistics Board. Officials considered the shorter consultation period of six weeks, which we used, to be appropriate as the consultation was limited to statutory consultees who considered the draft Order in a professional capacity and were familiar with its background and purpose. No request for changes was received through our consultation.

On reviewing the process, each Order will be reviewed by the responsible legislative body after a period of 12 months. It will review its impact and how it has been complied with. When the year 1 reviews are complete, there is likely to be a push on all of the administrations to take a consistent UK position.

**Nick Ramsay:** I thank the Minister for his comments on this matter. We will support the new Order made under section 11 of the Statistics and Registration Service Act 2007. I am also glad to see that Jeff Cuthbert will be doing so. I note that the Assembly Government is following the Scottish example and is, to all intents and purposes, retaining the existing situation, although the 24-hour limit has now been put in place in England. While we support the Order—and I am grateful to the Minister for putting some meat on the bones and for giving his reasoning behind this—I am interested to know why the English consultation has not yielded the same results as the consultation process here.

In the Order, you mention the public interest. The 24-hour and five-day limitations can be exceeded if the public-interest test is passed. I would be interested to know a little more about what that public-interest test will be and the type of conditions under which you feel the Order that we will have here will benefit people in Wales more than the new regime to be operated in England.

O ran ymgynghori, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ymgynghori â Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, Gweinidogion yr Alban, yr Adran Gyllid, personél Gogledd Iwerddon a Bwrdd Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Yr oedd swyddogion o'r farn bod y cyfnod ymgynghori byrrach o chwe wythnos, a ddefnyddiasom, yn briodol gan fod yr ymgynghoriad wedi'i gyfyngu i ymgynghoreion statudol a ystyriodd y Gorchymyn drafft yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol ac a oedd yn gyfarwydd â'i gefndir a'i ddiben. Ni chafwyd dim cais am newidiadau drwy ein hymgynghoriad.

Wrth adolygu'r broses, caiff pob Gorchymyn ei adolygu gan y corff deddfwriaethol sy'n gyfrifol ar ôl cyfnod o 12 mis. Bydd yn adolygu ei effaith a sut y cydymffurfwyd ag ef. Ar ôl gorffen adolygiadau'r flwyddyn gyntaf, mae'n debyg y bydd pwysau ar yr holl weinyddiaethau i fabwysiadu dull cyson ar draws y DU.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn diolch i'r Gweinidog am ei sylwadau ynghylch hyn. Byddwn yn cefnogi'r Gorchymyn newydd a wneir o dan adran 11 Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Yr wyf hefyd yn falch o weld y bydd Jeff Cuthbert yn gwneud hynny. Sylwaf fod Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn enghraifft yr Alban a'i bod, yn ei hanfod, yn glynu wrth y sefyllfa bresennol, er bod y cyfyngiad 24 awr bellach wedi cael ei roi ar waith yn Lloegr. Er ein bod yn cefnogi'r Gorchymyn—ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am roi cig ar yr asgwrn a rhoi'r rhesymwaith sydd wrth wraidd hyn—hoffwn wybod pam nad yw'r ymgynghoriad yn Lloegr wedi esgor ar yr un canlyniadau â'r broses ymgynghori yma.

Yn y Gorchymyn, yr ydych yn sôn am les y cyhoedd. Gellir mynd dros y cyfyngiadau 24 awr a phum niwrnod os caiff y prawf yn ymwneud â lles y cyhoedd ei basio. Hoffwn wybod ychydig yn rhagor ynghylch beth fydd y prawf hwnnw a'r math o amodau lle y bydd y Gorchymyn a fydd gennym yma, yn eich barn chi, o les i bobl yng Nghymru yn fwy na'r drefn newydd a roddir ar waith yn Lloegr.

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** As I said in my opening remarks, in terms of comparison with other parts of the UK, we felt that, at this time, there is no need to change, and that is why we followed the case of Northern Ireland. We will review it after one year, as I said. Hopefully we will be able to negotiate a common UK position.

I will write to you on the 24-hour limitation and the public-interest test. Thank you for your support for the Order.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Y Gyllideb Atodol The Supplementary Budget**

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 27.21, approves the supplementary budget for the financial year 2009-10, laid in the Table Office by the Minister for Finance and Public Service Delivery on Tuesday, 14 July 2009. (NDM4272)*

I apologise, Presiding Officer; I am having problems, as you know, with my earpiece.

**The Presiding Officer:** Order. That has been noted.

**Andrew Davies:** That is my way of putting it on the record. [*Laughter.*]

The supplementary budget was e-mailed to Assembly Members on 14 July 2009. The first supplementary budget tabled in July for 2009-10 proposes several changes to the final

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, o ran cymharu â rhannau eraill o'r DU, yr oeddem o'r farn, ar hyn o bryd, nad oedd dim angen newid, a dyna pam y bu inni ddilyn yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Byddwn yn ei adolygu ar ôl blwyddyn, fel y dywedais. Gobeithio y byddwn yn gallu cytuno ar sefyllfa gyffredin ar gyfer y DU.

Ysgrifennaf atoch ynghylch y cyfyngiad 24 awr a'r prawf yn ymwneud â lles y cyhoedd. Diolch ichi am gefnogi'r Gorchymyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Does any Member object? I see that they do not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 27.21, yn cymeradwyo'r gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ddydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2009. (NDM4272)*

Yr wyf yn ymddiheuro Lywydd; yr wyf yn cael anawsterau gyda'r teclyn yn fy nghlust, fel y gwyddoch.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hynny wedi cael ei nodi.

**Andrew Davies:** Dyna fy ffordd o roi hynny ar glawr. [*Chwerthin.*]

Cafodd y gyllideb atodol ei hanfon at Aelodau'r Cynulliad drwy e-bost ar 14 Gorffennaf 2009. Mae'r gyllideb atodol gyntaf a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf ar

budget for 2009-10, as approved by the Assembly in December last year. Taken together, these changes reflect the Assembly Government's continuing commitment to deliver our 'One Wales' agenda of helping to protect and improve the public services that make a real difference to people's lives.

We have tabled an early supplementary budget this year to avoid leaving all the changes to the year-end supplementary budgets. I hope that that represents a strengthening of the Assembly's ability to scrutinise our budget process and to give it added rigour. Our increased emphasis on transparency, openness and clarity is continued, with an explanatory note and tables accompanying the formal supplementary budget motion.

The supplementary budget reflects several recent announcements on strategic releases from the reserves, our plans to accelerate capital projects to provide an economic stimulus, and changes to the Welsh block arising from the UK Government budget. The main changes are an allocation of £41 million capital consequentials arising from the UK budget, allocations of £61 million from reserves for strategic priorities, and the Assembly Government has also accelerated capital projects of nearly £100 million to provide an economic stimulus, as referenced in the draft budget for 2010-11. These capital projects will be funded from the drawing down of end-year flexibility stocks and the bringing forward of resources that would otherwise be deployed in 2010-11.

I thank the Finance Committee and its Chair for its scrutiny of the supplementary budget motion for 2009-10, and also for the acknowledgement in its report of our efforts to table the supplementary budget earlier than in recent years, and of our continuing work to improve transparency, a commitment to which I remain wedded as Minister for finance.

gyfer 2009-10 yn cynnig nifer o newidiadau yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2009-10, fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr y llynedd. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ein agenda yn 'Cymru'n Un', sef helpu i amddiffyn a gwella'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Yr ydym wedi cyflwyno cyllideb atodol yn gynnar eleni er mwyn osgoi gadael yr holl newidiadau tan y cyllidebau atodol ar ddiwedd blwyddyn. Hyderaf fod hynny'n cryfhau gallu'r Cynulliad i graffu ar ein proses gyllidebol ac yn ei gwneud yn fwy trylwyr. Mae ein pwyslais cynyddol ar fod yn dryloyw, yn agored ac yn eglur yn parhau, gyda nodyn esboniadol a thablau'n cyd-fynd â'r cynnig ffurfiol ynghylch y gyllideb atodol.

Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu amryw o gyhoeddiadau'n ddiweddar ynghylch rhyddhau'n strategol o'r cronfeydd wrth gefn, ein cynlluniau i gyflymu prosiectau cyfalaf i ddarparu ysgogiad economaidd, a newidiadau ym mloc Cymru sy'n deillio o gyllideb Llywodraeth y DU. Y prif newidiadau yw dyrannu £41 miliwn o arian canlyniadol cyfalaf sy'n deillio o gyllideb y DU, dyraniadau gwerth £61 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer blaenoriaethau strategol, ac mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflymu prosiectau cyfalaf gwerth bron £100 miliwn i ddarparu ysgogiad economaidd, fel y cyfeirir atynt yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11. Cyllidir y prosiectau cyfalaf hyn drwy ddefnyddio stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn i lawr a dod ag adnoddau ymlaen a fyddai fel arall yn cael eu defnyddio yn 2010-11.

Yr wyf yn diolch i'r Pwyllgor Cyllid a'i Gadeirydd am graffu ar y cynnig ynghylch y gyllideb atodol ar gyfer 2009-10, a hefyd am gydnabod yn ei adroddiad ein hymdrechion i gyflwyno'r gyllideb atodol yn gynharach nag yn y blynyddoedd diweddar, a'n gwaith parhaus i wella tryloywder, ymrwymiad yr wyf fel Gweinidog yn dal i lynu'n gaeth wrtho.



**Nick Ramsay:** I speak in reference to the work of the Finance Committee on the supplementary budget and to give the feelings of the committee.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn siarad gan gyfeirio at waith y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb atodol ac er mwyn cyflwyno teimladau'r pwyllgor.

4.30 p.m.

The Finance Committee has considered the Government's proposed supplementary budget in detail and has noted that it involves additional allocations of some £204 million to Assembly Government departments and £1.9 million for the Assembly Commission in respect of its information technology change programme. These additional requirements are to be funded partly from revenue reserves, but also from the increase to the Welsh block of £154 million, due mainly to Barnett consequentials, as the Minister has said, and drawing on end-year flexibility and capital brought forward. The Finance Committee has noted the changes proposed in the supplementary budget and has welcomed the fact that this has been tabled earlier than in recent years because that means that the Assembly receives an early indication of the need for budgetary changes.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ystyried cyllideb atodol arfaethedig y Llywodraeth yn fanwl ac wedi nodi ei bod yn golygu dyraniadau ychwanegol gwerth tua £204 miliwn i adrannau Llywodraeth y Cynulliad a £1.9 miliwn ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yng nghyswllt ei raglen newid technoleg gwybodaeth. Caiff y gofynion ychwanegol hyn eu cyllido'n rhannol o gronfeydd refeniw wrth gefn, ond hefyd oherwydd y cynnydd ym mloc Cymru o £154 miliwn, yn bennaf oherwydd arian canlyniadol Barnett, fel y dywedodd y Gweinidog, a thrwy ddefnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn a chyfalaf sydd wedi cael ei ddwyn ymlaen. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb atodol ac wedi croesawu'r ffaith bod hon wedi cael ei chyflwyno'n gynharach nag yn y blynyddoedd diweddar oherwydd y mae hynny'n golygu bod y Cynulliad yn cael gwybod yn gynnar am yr angen am newidiadau cyllidebol.

The Finance Committee has welcomed the Government's continuing efforts to improve transparency while acknowledging that further progress has still to be made. However, one consequence of the earlier supplementary budget is that the Government is not yet able to provide finalised figures for the 2009-10 end-year flexibility requirements and final figures for the 2010-11 capital brought forward. We believe that these will need to be shown in a later supplementary budget. The Finance Committee has accepted the Government's observation that this is an inevitable consequence of efforts to provide greater transparency in the budget, and we welcome the pragmatic approach that has been followed in that regard.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu ymdrechion parhaus y Llywodraeth i wella tryloywder ar yr un pryd â chydabod bod rhagor eto i'w wneud. Fodd bynnag, un o ganlyniadau'r gyllideb atodol gynharach yw na all y Llywodraeth eto ddarparu ffigurau terfynol ar gyfer y gofynion o ran hyblygrwydd diwedd blwyddyn 2009-10 na'r ffigurau terfynol ar gyfer cyfalaf 2010-11 a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen. Yr ydym o'r farn y bydd angen dangos y rhain mewn cyllideb atodol ddiweddarach. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi derbyn sylw'r Llywodraeth bod hyn yn un o ganlyniadau anochel ymdrechion i ddarparu mwy o dryloywder yn y gyllideb, ac yr ydym yn croesawu'r agwedd bragmataidd a ddilynwyd yn hynny o beth.

The committee also noted that the supplementary budget motion included an increase of £1.9 million for the Assembly Commission, which was foreshadowed last autumn in the iChange programme. The

Nododd y pwyllgor hefyd fod cynnig y gyllideb atodol yn cynnwys cynnydd o £1.9 miliwn ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, a ragfynegydd yr hydref diwethaf yn y rhaglen iChange. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi derbyn

Finance Committee has accepted the need for this work and welcomed the long-term view that the commission has taken on that investment. However, as the Minister will know, the committee has asked to see the outcome of the Wales Audit Office's tests of the reasonableness of the underlying assumptions. The Finance Committee has acknowledged the commission's openness in flagging up last autumn that there was a possibility that there would be a supplementary budget, and it has accepted the need for that.

On a point of procedure, while the Finance Committee considers the Assembly Commission's draft budget each year separately from the Government's draft budget, the approval of the commission's supplementary budget forms a part of the Government's budget motion. We feel, therefore, that it is supported by less detailed information than if it came with the draft budget at the start of the year. We have noted, as a committee, that this is correct according to the existing Standing Orders and that the Assembly Commission had previously been entirely open about the iChange programme and its intention to seek a supplementary budget for it. Nonetheless, we recommend that, in future, the Assembly Commission should submit a paper for consideration by the Finance Committee when the Assembly is considering a supplementary budget for the commission. I am grateful that the Assembly Commission has agreed to that.

Finally, I am pleased to be able to say that the Finance Committee has noted the changes proposed in the supplementary budget motion and the Government's explanations of the reasons for them. It does not recommend any changes to the amounts proposed in the supplementary budget motion.

**Chris Franks:** This supplementary budget will help to invest in communities across Wales. In view of the hammer blows being endured by the construction industry, I especially welcome the £100 million that is to go to additional capital budgets. While the London parties are fighting over who can cut the most, it is refreshing to see the Welsh Government investing in our communities.

yr angen am y gwaith hwn ac wedi croesawu'r agwedd hirdymor y mae'r comisiwn wedi'i chymryd at y buddsoddiad hwnnw. Fodd bynnag, fel y gwyr y Gweinidog, mae'r pwyllgor wedi gofyn am gael gweld canlyniad profion Swyddfa Archwilio Cymru ar resymoldeb y tybiaethau sy'n sail i hynny. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod i'r comisiwn fod yn agored wrth dynnu sylw yr hydref diwethaf at y posibilrwydd y byddai cyllideb atodol, ac mae wedi derbyn yr angen am hynny.

Ar bwynt o weithdrefn, er bod y Pwyllgor Cyllid yn ystyried cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad bob blwyddyn ar wahân i gyllideb ddrafft y Llywodraeth, mae cymeradwyo cyllideb atodol y comisiwn yn rhan o gynnig cyllidebol y Llywodraeth. Yr ydym felly'n teimlo ei bod yn cael ei chefnogi gan lai o wybodaeth fanwl na phetai'n dod gyda'r gyllideb ddrafft ar ddechrau'r flwyddyn. Fel pwyllgor, yr ydym wedi nodi bod hyn yn gywir yn ôl y Rheolau Sefydlog presennol a bod Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn gwbl agored yn y gorffennol am y rhaglen iChange a'i fwrriad i geisio cyllideb atodol ar ei chyfer. Serch hynny, yr ydym yn argymhell, yn y dyfodol, y dylai Comisiwn y Cynulliad gyflwyno papur i'r Pwyllgor Cyllid ei ystyried pan fydd y Cynulliad yn ystyried cyllideb atodol ar gyfer y comisiwn. Yr wyf yn ddiolchgar bod Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno ar hynny.

Yn olaf, yr wyf yn falch o allu dweud bod y Pwyllgor Cyllid wedi nodi'r newidiadau a gynigir yng nghynnig y gyllideb atodol ac esboniadau'r Llywodraeth am y rhesymau drostynt. Nid yw'n argymhell dim newidiadau yn y symiau a gynigir yng nghynnig y gyllideb atodol.

**Chris Franks:** Bydd y gyllideb atodol hon yn helpu i fuddsoddi mewn cymunedau o Fôn i Fynwy. O ystyried yr ergydion trwm y mae'r diwydiant adeiladu yn eu hwynebu, yr wyf yn croesawu'n arbennig y £100 miliwn a fydd yn mynd i gyllidebau cyfalaf ychwanegol. Wrth i'r pleidiau yn Llundain ffraeo ynghylch pwy sy'n gallu torri'r mwyaf, mae'n braf gweld Llywodraeth

Cymru yn buddsoddi yn ein cymunedau.

I also welcome the £7.5 million to improve the quality and speed of rail services and for road safety measures. Last week, I visited the site of the Church Village bypass with the Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones. The progress is remarkable and the contractors assured us that they would be completing the road on target. With the terrible recent news from Bosch, it is important that we continue to support education and training further with an extra £27 million.

Yr wyf hefyd yn croesawu'r £7.5 miliwn i wella ansawdd a chyflymder gwasanaethau rheilffyrdd a mesurau diogelwch ar y ffordd. Yr wythnos diwethaf, ymwelais â safle ffordd osgoi Pentre'r Eglwys gydag Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog. Mae'r cynnydd yn eithriadol a chawsom ein sicrhau gan y contractwyr y byddent yn gorffen y ffordd yn unol â'r amserlen. Gyda'r newyddion ofnadwy'n ddiweddar gan Bosch, mae'n bwysig inni barhau i gefnogi addysg a hyfforddiant ymhellach gyda £27 miliwn ychwanegol.

The Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, visited a hostel in Pontypridd with me last week, where we discussed Rhondda Cynon Taf's strategy to tackle homelessness. I sincerely hope that some of the £12 million available to deliver affordable housing and to cut energy bills will be spent in my region.

Bu Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, yn ymweld â hostel ym Mhontypridd gyda mi'r wythnos diwethaf, lle buom yn trafod strategaeth Rhondda Cynon Taf i fynd i'r afael â digartrefedd. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd rhywfaint o'r £12 miliwn sydd ar gael i ddarparu tai fforddiadwy a thorri biliau ynni'n cael ei wario yn fy rhanbarth.

It is worth highlighting that if the recommendations of the Holtham commission were in place, we would have significantly more resources to invest in our communities. The failure of the Conservatives in London to back all the recommendations fully if they win the next election could cost Wales dear. While we listen to the people of Wales, they listen to the people of London.

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith, petai argymhellion comisiwn Holtham yn cael eu gweithredu, y byddai gennym lawer mwy o adnoddau i'w buddsoddi yn ein cymunedau. Byddai methiant y Ceidwadwyr yn Llundain i gefnogi'r holl argymhellion yn llawn, os byddant yn ennill yr etholiad nesaf, yn gallu bod yn ddrud iawn i Gymru. Wrth i ni wrando ar bobl Cymru, maent hwy'n gwrando ar bobl Llundain.

**Kirsty Williams:** I especially look forward to the Minister's response to that brass-neck contribution to the supplementary budget debate made by his coalition colleague, Chris Franks. It is as though he had his own money press in his garage in the Vale of Glamorgan and he alone is responsible for the decisions taken and the money being made available.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ymateb y Gweinidog i'r cyfraniad digywilydd hwnnw at y ddadl ar y gyllideb atodol a wnaethpwyd gan ei gyd-Aelod yn y glymblaid, Chris Franks. Byddech yn tybio bod ganddo ei wasg arian ei hun yn ei garej ym Mro Morgannwg ac mai ef ac ef yn unig sy'n gyfrifol am y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud a'r arian sy'n cael ei ddarparu.

I thank the Minister for finance for his statement and for the continued attempts by him and his department to make scrutinising the budget as transparent as possible. We have come a considerable way on this particular journey, with the Minister and his officials making every attempt to provide

Yr wyf yn diolch i'r Gweinidog dros Gyllid am ei ddatganiad ac am yr ymdrechion parhaus ganddo ef a'i adran i wneud craffu ar y gyllideb mor dryloyw ag sy'n bosibl. Yr ydym wedi dod yn ein blaenau gryn dipyn ar hyd y daith benodol hon, gyda'r Gweinidog a'i swyddogion yn gwneud eu gorau glas i

additional material and supporting documents to enable the Finance Committee and Assembly Members generally to have a wider understanding of the decisions being taken.

Despite his ability to publish the supplementary budget earlier than usual, I am sure that the Minister will agree with me that the timing of the budget process in general continues to be problematic for the Government. Given the delays in the decisions taken at Westminster about the comprehensive spending review and pre-budget statements, it can be difficult for the Welsh Assembly Government to present the figures as fully as it would like.

Turning to end-year flexibility and capital brought forward, I support Nick Ramsay's comments and the observations of the Finance Committee that there are still concerns about our not being able to have the final details of those. In addition, while I personally understand the Minister's need to bring capital moneys forward to provide an additional Government response to the recession that we are in, the Finance Committee questioned how much of that money it was possible to commit and how much was beginning to make a difference on the ground.

I now turn to a particular aspect of the supplementary budget, namely money allocated for the reduction of waiting times. Quite rightly, that subject continues to be a key focus for the Welsh Assembly Government, and you will notice that, in this and last year's supplementary budget, it was necessary to bring money forward for that programme. Can the Minister explain why the initial sums set against the delivery of that target were insufficient, necessitating more money to be brought into that budget? Is he convinced that the additional money that he is making available to his colleague, the Minister for Health and Social Services, will enable the Welsh Assembly Government to meet its clear target for waiting times by December?

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** I thank

ddarparu deunyddiau ychwanegol a dogfennau ategol i alluogi'r Pwyllgor Cyllid ac Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol i allu deall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn well.

Er gwaethaf ei allu i gyhoeddi'r gyllideb atodol yn gynharach na'r arfer, yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi fod amseru proses y gyllideb yn gyffredinol yn dal yn broblemus i'r Llywodraeth. O ystyried yr oedi gyda phenderfyniadau yn San Steffan ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a datganiadau rhag-gyllidebol, gall fod yn anodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno'r ffigurau mor llawn ag y byddai'n dymuno.

A throi at hyblygrwydd diwedd blwyddyn a dwyn cyfalaf ymlaen, yr wyf yn cefnogi sylwadau Nick Ramsay a sylwadau'r Pwyllgor Cyllid bod pryderon o hyd oherwydd nad oes modd inni gael manylion terfynol y rheini. Ar ben hynny, er fy mod yn bersonol yn deall angen y Gweinidog i ddod ag arian cyfalaf ymlaen i ddarparu ymateb ychwanegol gan y Llywodraeth i'r dirwasgiad, yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn cwestiynu faint o'r arian hwnnw yr oedd yn bosibl ei neilltuo a faint oedd yn dechrau gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad.

Yr wyf yn awr am droi at agwedd benodol ar y gyllideb atodol, sef arian a ddyrannwyd ar gyfer lleihau amseroedd aros. Yn ddigon teg, mae'r pwnc hwnnw'n dal i gael sylw allweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a byddwch yn sylwi, yn y gyllideb atodol eleni a'r llynedd, ei bod yn ofynnol dod ag arian ymlaen ar gyfer y rhaglen honno. A all y Gweinidog esbonio pam nad oedd y symiau gwreiddiol a bennwyd ar gyfer cyflawni'r targed hwnnw'n ddigonol, a oedd yn golygu bod angen dod â rhagor o arian i'r gyllideb honno? A yw'n hollol sicr y bydd yr arian ychwanegol y mae'n ei roi i'w gyd-Weinidog, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd ei tharged clir ar amseroedd aros erbyn mis Rhagfyr?

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew**

the three speakers for their contributions and for the welcome given to the process that my officials and I have initiated to make information as accessible and transparent as possible.

Nick Ramsay and Kirsty referred to the use of end-year flexibility. By using EYF and our reserves, the Assembly Government is using its resources prudently to meet in-year priorities, such as on waiting times or any of our other key priorities. That is what EYF is used for. The reason we are not able to give finality or a final sign-off for the EYF figures is because it is used in-year, and so it will not be until the next supplementary budget that we will have the final figures.

Kirsty made a point about timing, but many of the issues surrounding the supplementary budget or the main budget are about timing. As we found with the current spending review, we are dependent on the timing of the announcements by the UK Government and the Treasury. At this stage, we still do not know when the pre-budget report will be published by the Chancellor of the Exchequer. We believe that it will be some time in November, but we will not know for a while when exactly it will be made.

4.40 p.m.

The issues about the Assembly Commission's budget will be taken up by the commission, and it will respond. If it is necessary for me to meet with the commission to resolve the programme—and, hopefully, there is a synergy and closeness between the two processes—I would be more than happy to do so.

As a representative of a UK party and not a London party, we are investing in better services in Wales. Reference was made to the Church Village bypass by Chris Franks, and I was delighted to make the original announcement on that a few years ago when I was Minister for transport. Jocelyn Davies

**Davies):** Yr wyf yn diolch i'r tri siaradwr am eu cyfraniadau ac am y croeso a roddwyd i'r broses yr wyf fi a'm swyddogion wedi'i chychwyn i wneud gwybodaeth mor hwylus a thryloyw ag sy'n bosibl.

Cyfeiriodd Nick Ramsay a Kirsty at ddefnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Drwy ddefnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn a'n cronfeydd wrth gefn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'i hadnoddau'n ddarbodus i gyflawni blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn, megis o ran amseroedd aros neu unrhyw un o'n blaenoriaethau allweddol eraill. Ar gyfer hynny y mae hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn cael ei ddefnyddio. Y rheswm pam na allwn roi'r ffigurau diwedd blwyddyn terfynol yw oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn, ac felly ni fydd y ffigurau terfynol gennym tan y gyllideb atodol nesaf.

Gwnaeth Kirsty bwynt am amseru, ond mae llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r gyllideb atodol neu'r brif gyllideb yn ymwneud ag amseru. Fel y gwelsom gyda'r adolygiad presennol o wariant, yr ydym yn dibynnu ar amseru cyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU a'r Trysorlys. Ar hyn o bryd, ni wyddom pryd y caiff yr adroddiad rhag-gyllidebol ei gyhoeddi gan Ganghellor y Trysorlys. Yr ydym yn meddwl y caiff ei gyhoeddi rywbryd ym mis Tachwedd, ond ni fyddwn yn gwybod am beth amser pryd yn union.

Bydd y comisiwn yn mynd ar drywydd y materion sy'n ymwneud â chyllideb Comisiwn y Cynulliad, a bydd yn ymateb. Os bydd angen imi gwrdd â'r comisiwn i ddatrys y rhaglen—ac mae'r naill broses a'r llall yn agos iawn at ei gilydd, gobeithio—byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny.

Fel cynrychiolydd un o bleidiau'r DU yn hytrach nag un o bleidiau Llundain, yr ydym yn buddsoddi mewn gwasanaethau gwell ar gyfer Cymru. Cyfeiriodd Chris Franks at ffordd osgoi Pentre'r Eglwys, ac yr oeddwn wrth fy modd fy mod wedi gallu gwneud y cyhoeddiad gwreiddiol ar hynny ychydig

announced the second tranche of the strategic capital investment funding on affordable housing in Radyr this morning, which goes to show that we are bringing diversity to all parts of Wales.

I am grateful for the comments that have been made about the process. As a Government, we remain committed to transparency, openness and rigorous scrutiny by the Assembly.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod cytuno ar y cynnig cyllidebol. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi'i gyttuno.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn Weinidog dros drafnidiaeth. Yn Radyr y bore yma, cyhoeddodd Jocelyn Davies yr ail gyfran o'r cyllid buddsoddi cyfalaf strategol ar dai fforddiadwy, sy'n dangos ein bod yn dod ag amrywiaeth i bob rhan o Gymru.

Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau sydd wedi cael eu gwneud am y broses. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi ymrwymo o hyd i dryloywder, bod yn agored a chraffu trylwyr gan y Cynulliad.

**The Presiding Officer:** The question is that the budgetary motion be agreed. Are there any objections? I see that there are not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

### **Cartrefi mewn Parciau Park Homes**

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Alun Cairns, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Peter Black.

**The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies):** I move that

*the National Assembly for Wales:*

*1. recognises that park homes provide a valuable contribution to meeting housing need in Wales; and*

*2. agrees the importance of effective management and licensing for both residents and site operators. (NDM4302)*

I am pleased to open this debate on park homes. I have become aware of the issues facing park home owners, and I am aware that Assembly Members are also interested in them. Several of you have raised concerns with me on behalf of your constituents, and I have had the opportunity to visit residents in their homes.

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Alun Cairns, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Peter Black.

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn cydnabod bod cartrefi mewn parciau yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddiwallu'r angen am dai yng Nghymru; a*

*2. yn cytuno bod rheoli a thrwyddedu safleoedd yn effeithiol yn bwysig i breswylwyr a gweithredwyr y safleoedd hynny. (NDM4302)*

Yr wyf yn falch o agor y ddatl hon ar gartrefi mewn parciau. Yr wyf wedi dod yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu perchnogion cartrefi mewn parciau, ac yr wyf yn gwybod bod gan Aelodau'r Cynulliad ddiddordeb yn y maes hwn hefyd. Mae amryw ohonoch wedi codi pryderon â mi ar ran eich etholwyr, ac yr wyf wedi cael cyfle i ymweld â phreswylwyr yn eu cartrefi.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 4.41 p.m.  
William Graham took the Chair at 4.41 p.m.*

This debate puts the subject of park homes in the spotlight, and it provides a valuable opportunity to discuss the issues on what more we might do to address them. I will put these issues into context by explaining the extent and nature of park homes in Wales. Currently, there are around 100 residential park home sites in Wales, containing some 5,500 homes. About 10,000 people in Wales live in mobile or park homes as their main place of residence. Therefore, park homes are an important housing resource for us, and they provide a valuable alternative to traditional bricks and mortar housing.

It is essential that people choosing this housing option enjoy the benefits of adequate protection and good management of the sites on which they live. Site owners also need encouragement and incentives to ensure that their sites are well managed and are of a good standard.

The licensing of park home sites is governed by the Caravan Sites and Control of Development Act 1960. Local authorities are responsible for licensing issues and have significant powers to ensure that the site owners comply with the regulations so that sites are well managed. As Members will know, we have recently consulted on a number of proposed measures that would improve matters for park home sites, and I am keen to hear your views and ideas on how the current arrangements can be improved.

However, before considering further changes, I emphasise the need for local authorities to ensure that the powers and opportunities that they already have are used effectively. Many local authorities with park home sites and, for that matter, holiday home sites, are aware of their obligations and take them seriously. I will be asking the Welsh Local Government Association to remind authorities of the importance of considering these duties and

Mae'r ddadl hon yn rhoi pwnc cartrefi mewn parciau dan y chwyddwydr, ac mae'n rhoi cyfle gwerthfawr i drafod y materion ynghylch beth yn rhagor y gallwn ei wneud i roi sylw iddynt. Yr wyf am roi'r materion hyn mewn cyd-destun drwy esbonio faint o gartrefi mewn parciau sydd yng Nghymru a natur y cartrefi hynny. Ar hyn o bryd, ceir tua 100 o safleoedd cartrefi preswyl mewn parciau yng Nghymru, sy'n cynnwys tua 5,500 o gartrefi. Mae tua 10,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartref symudol neu gartref mewn parc fel eu prif breswylfan. Felly, mae cartrefi mewn parciau yn adnodd tai pwysig inni, ac maent yn rhoi dewis amgen gwerthfawr i dai brics a mortar traddodiadol.

Mae'n hanfodol i bobl sy'n dewis y math hwn o dai fwynhau manteision safleoedd sy'n cael eu hamddiffyn yn ddigonol a'u rheoli'n dda. Yn ogystal mae angen annog a chymell perchnogion safleoedd i sicrhau bod eu safleoedd yn cael eu rheoli'n dda a'u bod o safon dda.

Mae trwyddedu safleoedd cartrefi mewn parciau'n cael ei reoli gan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am faterion trwyddedu ac mae ganddynt bwerau sylweddol i sicrhau bod perchnogion safleoedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau er mwyn i safleoedd gael eu rheoli'n dda. Fel y gŵyr Aelodau, yn ddiweddar yr ydym wedi ymgynghori ar nifer o fesurau arfaethedig a fyddai'n gwella pethau i safleoedd cartrefi mewn parciau, ac yr wyf yn awyddus i glywed eich sylwadau a'ch syniadau ynghylch sut y gellir gwella'r trefniadau presennol.

Fodd bynnag, cyn ystyried rhagor o newidiadau, yr wyf yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn defnyddio'r pwerau a'r cyfleoedd sydd eisoes ganddynt yn effeithiol. Mae llawer o awdurdodau lleol sydd â safleoedd cartrefi mewn parciau ac, o ran hynny, safleoedd cartrefi gwyliau, yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac maent yn eu cymryd o ddifrif. Byddaf yn gofyn i Gymdeithas

responsibilities. However, we are concerned that the present licensing arrangements are inadequate and do not address the suitability of an owner to hold a licence, and nor do they address management standards or the revocation of licences.

I acknowledge that the majority of site owners are competent and professional. Unfortunately, there is a minority who behave in an unsuitable manner. While I believe that it is vital that all prospective park home residents exercise due care when entering into legally binding contracts with site owners, there is still a need for greater protection. It was for that reason that I launched a major consultation in May. The responses support our proposals for stricter licensing and tougher powers to determine fit and proper persons to run a park home site. The responses also supported our proposal to change the way in which disputes are resolved by transferring the responsibility from the county courts to the residential property tribunal. That will simplify arrangements and generally be cheaper and less formal than using the courts.

I know that some of you will be aware that some sites generate many disputes. However, it is essential that the new arrangements are fair and equitable both to park home residents and to site owners. Therefore, safeguards will be in place to ensure that the parties are treated on an equal footing and are supported when presenting their cases.

I know that some Members, particularly Kirsty, are concerned about the commission rate that applies when a resident sells their park home and assigns the agreement with the park owner. Site owners have maintained that keeping the commission rate means that pitch fees can be kept low. However, it has been suggested that the existence of this rate encourages unscrupulous site owners to pursue a regular turnover of residents as a means of generating income by employing a range of tactics to encourage—I use that word quite flexibly—vulnerable residents to

Llywodraeth Leol Cymru atgoffa awdurdodau o bwysigrwydd ystyried y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn. Fodd bynnag, yr ydym yn pryderu bod y trefniadau trwyddedu presennol yn annigonol ac nad ydynt yn rhoi sylw i addasrwydd perchennog i ddal trwydded. Nid ydynt ychwaith yn rhoi sylw i safonau rheoli na dirymu trwyddedau.

Yr wyf yn cydnabod bod y rhan fwyaf o berchnogion safleoedd yn gymwys ac yn broffesiynol. Yn anffodus, ceir lleiafrif sy'n ymddwyn mewn modd anaddas. Er fy mod yn credu ei bod yn hanfodol i holl ddarpar breswylwyr cartrefi mewn parciau fod yn ofalus wrth gytuno ar gontractau â pherchnogion safle sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol, mae angen rhagor o amddiffyniad arnynt o hyd. Oherwydd hynny y lansiais ymgynghoriad o bwys fis Mai. Mae'r ymatebion yn cefnogi ein cynigion ar gyfer trwyddedu llymach a phwerau cryfach i bennu pwy sy'n unigolion addas a phriodol i redeg safleoedd cartrefi mewn parciau. Yr oedd yr ymatebion hefyd yn cefnogi ein cynnig i newid y ffordd y caiff anghydfodau eu datrys drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r llysoedd sirol i'r tribiwnlys eiddo preswyl. Bydd hynny'n symleiddio'r trefniadau ac, at ei gilydd, bydd yn rhatach ac yn llai ffurfiol na defnyddio'r llysoedd.

Gwn y bydd rhai ohonoch yn gwybod rhai safleoedd yn esgor ar lawer o anghydfodau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i'r trefniadau newydd fod yn deg ac yn gyfiawn i drigolion cartrefi mewn parciau ac i berchnogion safleoedd. Felly, bydd mesurau diogelu ar waith i sicrhau bod y ddwy ochr yn cael eu trin yn deg a'u bod yn cael eu cefnogi wrth gyflwyno'u hachosion.

Gwn fod rhai Aelodau, yn enwedig Kirsty, yn pryderu ynghylch cyfradd y comisiwn sy'n berthnasol pan fydd preswlydd yn gwerthu ei gartref mewn parc ac yn aseinio'r cytundeb â pherchennog y parc. Mae perchnogion safleoedd wedi dweud bod cadw cyfradd y comisiwn yn golygu bod modd cadw ffioedd lleiniau yn isel. Fodd bynnag, awgrymwyd bod bodolaeth y gyfradd hon yn annog perchnogion safleoedd diegwyddor i geisio newid preswylwyr yn rheolaidd fel dull o gynhyrchu incwm drwy ddefnyddio tactegau amrywiol i annog—yr wyf yn defnyddio'r



leave. It is important that we carefully consider the implications of making any change to the commission rate and I would welcome Members' views on that.

We are already able to specify model standards covering the layout and the provisions of facilities, services and equipment for sites and the conditions attached to a site licence. However, a pragmatic approach is needed in the application of those standards to long-established sites. I would expect the new model standards that we introduced in July 2008 to be interpreted sensitively and pragmatically in order to safeguard the rights and enjoyment of tenants and site owners respectively. The standards were never intended as a mechanism by which unscrupulous site owners could cause undue hardship, upheaval and cost to established residents. We are, after all, dealing with homes that people have lived in for many years. I take a dim view of those who seek to use these model standards as an excuse to turf out residents, without demonstrating serious consideration of reasonable alternatives and taking local circumstances into account. That is why we gave flexibilities to local authorities.

In conclusion, we have a real opportunity to address the issues that are clearly of concern to the residents of mobile homes and site owners alike. The planned legislation, governing the licensing and dispute resolution process, is a good start. I welcome your comments and ideas and hope that this motion receives cross-party support.

**Mark Isherwood:** I move the following amendments in the name of Alun Cairns. Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

*calls upon the Welsh Assembly Government to consider bringing forward proposals, including legislation where appropriate, to secure improvements in the effective management and licensing of caravan parks.*

gair hwnnw'n eithaf hyblyg—preswylwyr agored i niwed i adael. Mae'n bwysig inni ystyried yn ofalus y goblygiadau o wneud unrhyw newid yng nghyfradd y comisiwn a byddwn yn croesawu barn yr Aelodau ynghylch hynny.

Yr ydym eisoes yn gallu pennu safonau enghreifftiol ynghylch y cynllun a darparu cyfleusterau, gwasanaethau ac offer ar gyfer safleoedd a'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded safle. Fodd bynnag, mae angen agwedd bragmatig wrth roi'r safonau hynny ar waith mewn safleoedd sydd wedi'u sefydlu ers tro byd. Byddwn yn disgwyl i'r safonau enghreifftiol newydd a gyflwynasom ym mis Gorffennaf 2008 gael eu dehongli yn sensitif ac yn bragmataidd er mwyn diogelu hawliau a mwynhad tenantiaid a pherchnogion safleoedd fel ei gilydd. Ni fwriadwyd erioed i'r safonau fod yn fecanwaith a fyddai'n fodd i berchnogion safleoedd diegwyddor achosi caledi, cythrwfl a chostau gormodol i breswylwyr a fu yno ers tro byd. Wedi'r cyfan, yr ydym yn delio â chartrefi y mae pobl wedi byw ynddynt ers blynnyddoedd lawer. Nid wyf yn cymeradwyo'r rhai sy'n ceisio defnyddio'r safonau enghreifftiol hyn fel esgus i droi preswylwyr allan, heb ddangos eu bod wedi ystyried dewisiadau rhesymol eraill o ddifrif nac wedi ystyried yr amgylchiadau lleol. Dyna pam y bu inni roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol.

I gloi, mae gennym gyfle go iawn i roi sylw i'r materion hyn sydd yn amlwg yn destun pryder i breswylwyr cartrefi symudol a pherchnogion safleoedd fel ei gilydd. Mae'r ddeddfwriaeth a gynigir, sydd yn glŷn â'r broses o drwyddedu a datrys anghydfodau, yn ddechrau da. Yr wyf yn croesawu eich sylwadau a'ch syniadau ac yr wyf yn gobeithio y caiff y cynnig hwn gefnogaeth drawsbleidiol.

**Mark Isherwood:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Alun Cairns. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried cyflwyno cynigion, gan gynnwys deddfwriaeth pan fo'n briodol, i sicrhau gwelliannau o ran trwyddedu a rheoli parciau carafannau yn effeithiol.*

Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

*recognises that some similarities exist between park home accommodation and that provided by caravan holiday home parks.*

The Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1) (Wales) Order 2007 applied to agreements under which a person occupies a mobile home as their only or main residence, whereas residents of caravan holiday home parks are subject to the limited protection available under the 'Guidance on Unfair Terms in Holiday Caravan Agreements' published in September 2005 and applying to the Unfair Terms in Consumer Contracts Regulations 1999. However, as the Deputy Minister has highlighted, the legislation and guidance, as they currently stand, fail to provide adequate protection for all park residents.

The vast majority of park owners are reputable businesspeople. However, a minority exploits current legislation and guidance in order to make a quick profit. There is, therefore, a need for legislation to rid the industry of unscrupulous park owners. Correspondence received from the National Association of Park Home Residents states that it is 'standard practice' for park owners to encourage park home buyers to buy a park home from the site owner. That also usually means that residents have to sell their park home to the site owner at a reduced rate, who then sells it at market price.

Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales has stated that a large number of park home residents are older people, as the nature of the homes, which are often in rural or coastal settings, attracts people who move in retirement. Park home residents also often live far from family and other support networks. Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales is concerned that a lack of regulation, compared with the rest of the housing market, is allowing unscrupulous

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cydnabod bod rhai nodweddion tebyg rhwng llety cartrefi mewn parciau a'r hyn a ddarperir gan barciau i garafannau sy'n gartrefi gwyliau.*

Yr oedd Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2007 yn berthnasol i gytundebau a ddefnyddir pan fydd unigolyn yn meddiannu cartref symudol fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa, ond dim ond amddiffyniad cyfyngedig sydd i breswylwyr parciau i garafannau sy'n gartrefi gwyliau, sef yr hyn a geir o dan y 'Guidance on Unfair Terms in Holiday Caravan Agreements' a gyhoeddwyd ym mis Medi 2005 ac sy'n berthnasol i'r Rheoliadau ynghylch Telerau Annheg yng Nghontractau Defnyddwyr 1999. Fodd bynnag, fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi pwysleisio, nid yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau, fel y maent ar hyn o bryd, yn rhoi digon o amddiffyniad i holl drigolion parciau.

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion parciau yn bobl fusnes barchus. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn ymelwa ar y ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol er mwyn gwneud elw cyflym. Felly, mae angen i'r ddeddfwriaeth waredu'r diwydiant o berchnogion parciau diegwyddor. Dywed gohebiaeth a gafwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Preswylwyr Cartrefi mewn Parciau ei bod yn 'arferol' i berchnogion parciau annog prynwyr cartrefi mewn parciau i brynu cartref mewn parc gan berchennog y safle. Mae hynny hefyd fel rheol yn golygu bod yn rhaid i'r preswylwyr werth eu cartref mewn parc i berchennog y safle am bris rhatach, a hwnnw wedyn yn ei werthu am bris y farchnad.

Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru wedi dweud bod nifer fawr o breswylwyr cartrefi mewn parciau yn bobl hŷn, gan fod natur y cartrefi, sy'n aml mewn lleoliadau gwledig neu arfordirol, yn denu pobl sy'n symud wrth ymddeol. Mae preswylwyr cartrefi mewn parciau hefyd yn aml yn byw yn bell oddi wrth eu teulu a rhwydweithiau cefnogi eraill. Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru yn poeni bod y diffyg rheoleiddio,

and intimidating practice across Wales. It also highlights inquiries from older people living in park homes who are being denied housing benefit, because the site owner stipulates that, for a certain period each year, the occupants have to leave. That is housing benefit to which someone in the same financial position, but living in a house, would be entitled. Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales believes that increased regulation of park home sites is, therefore, needed in order to protect the needs of residents. Owners must be prevented from operating intimidating business practices, and the benefits system, both locally and nationally, must give equal rights to people living in park homes.

4.50 p.m.

Therefore, amendment 1:

‘Calls upon the Welsh Assembly Government to consider bringing forward proposals, including legislation where appropriate, to secure improvements in the effective management and licensing of caravan parks’.

Park homes that are occupied for less than 12 months for the reasons I stipulated earlier have an impact on local services—especially health and local government. Individuals living in such homes are not included in population statistics, which determine the level of government grants to the area, and local residents can be penalised if park home residents use local facilities without contributing towards them. Legislation is, therefore, needed to ensure that local authorities that have a large number of park home visitors receive resources to combat the consequences of hidden population.

**Rhodri Glyn Thomas:** On a point of clarification, Mark, are you mixing up park home residents and people who live on caravan parks? Park home residents are allowed to stay for 12 months a year—it is their permanent home. That is different to the

o’i gymharu â gweddill y farchnad dai, yn caniatáu arferion diegwyddor a brawychus ledled Cymru. Mae hefyd yn tynnu sylw at ymholiadau gan bobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi mewn parciau nad ydynt yn cael budd-dal tai, oherwydd bod perchennog y safle yn mynnu bod yn rhaid i’r preswylwyr adael am gyfnod penodol bob blwyddyn. Mae hwnnw’n fudd-dal tai y byddai gan rywun sydd yn yr un sefyllfa ariannol, ond yn byw mewn tŷ, hawl iddo. Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru yn credu bod angen mwy o reoleiddio ar safleoedd cartrefi mewn parciau felly er mwyn amddiffyn anghenion preswylwyr. Rhaid atal perchnogion rhag gweithredu arferion busnes sy’n brawychu, a rhaid i’r system budd-daliadau, yn lleol ac yn genedlaethol, roi hawliau cyfartal i bobl sy’n byw mewn cartrefi mewn parciau.

Felly mae gwelliant 1:

‘yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried cyflwyno cynigion, gan gynnwys deddfwriaeth pan fo’n briodol, i sicrhau gwelliannau o ran trwyddedu a rheoli parciau carafannau yn effeithiol.’

Mae cartrefi mewn parciau sy’n cael eu meddiannu am lai na 12 mis y flwyddyn am y rhesymau a roddais yn gynharach yn effeithio ar wasanaethau lleol—yn enwedig iechyd a llywodraeth leol. Nid yw unigolion sy’n byw mewn cartrefi o’r fath yn cael eu cynnwys yn ystadegau’r boblogaeth, sy’n pennu lefel grantiau’r llywodraeth i’r ardal, a gall preswylwyr lleol gael eu cosbi os bydd preswylwyr cartrefi mewn parciau’n defnyddio cyfleusterau lleol heb gyfrannu atynt. Felly, mae angen deddfwriaeth i sicrhau bod awdurdodau lleol sydd â nifer fawr o ymwelwyr cartrefi mewn parciau yn cael adnoddau i frwydro yn erbyn canlyniadau poblogaeth gudd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Er mwyn bod yn glir, Mark, a ydych yn drysu rhwng preswylwyr cartrefi mewn parciau a phobl sy’n byw ar barciau carafannau? Caiff preswylwyr cartrefi mewn parciau aros am 12 mis y flwyddyn—dyma eu cartref parhaol. Mae

caravan sites that you are describing, where people are only allowed to stay for 11 months a year.

**Mark Isherwood:** You make a valid point. The definition, as I said at the beginning, is for ‘only or main residents’, and that is what the Mobile Homes Act 1983 applies to; it is that to which I am referring. Clearly, it is their main residence. However, you are right: the legislation applying to holiday parks and permanent resident parks is different.

Amendment 2 recognises the similarities between many of the problems highlighted and those applying to caravan holiday home parks—to which you referred, Rhodri Glyn. They can be occupied for many months of each year and represent a huge investment for the resident. Notwithstanding this, unscrupulous park owners, such as the owner of Pant Gwyn Farm Caravan Park in Abersoch, have been able to evict residents on false allegations, and then profit from re-letting sites to new residents with new mobile homes.

The 2005 document ‘Guidance on Unfair Terms in Holiday Caravan Agreements’ properly recognises that a term in a licence is open to challenge if it is drafted so widely that it could be relied on in a way that harms consumers. Section 3.5 rightly states that:

‘Caravan owners have complained that park owners use terms and conditions that allow park owners to treat them arbitrarily. Caravan owners who are in dispute with park owners may be reluctant to take action on their own account in case of reprisals. Caravans are of little benefit to Caravan Owners without the right to station them on pitches, and they fear losing their licenses and being unable to find another pitch.’

However, this still leaves residents exposed if they cannot afford costly legal fees. The holiday caravan arbitration scheme provided by the British Holiday and Home Parks

hynny’n wahanol i’r safleoedd carafannau yr ydych yn eu disgrifio, lle na chaiff pobl aros am fwy nag 11 mis y flwyddyn.

**Mark Isherwood:** Yr ydych yn gwneud pwynt dilys. Mae’r diffiniad, fel y dywedais ar y cychwyn, ar gyfer ‘unig neu brif breswylwyr’, a dyna y mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn berthnasol iddo; hynny yr wyf yn cyfeirio ato. Yn amlwg, dyma yw eu prif breswylfa. Fodd bynnag, yr ydych yn iawn: mae’r ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i barciau gwyliau a’r parciau preswylwyr parhaol yn wahanol.

Mae gwelliant 2 yn cydnabod y nodweddion tebyg rhwng llawer o’r problemau a amlygwyd a’r rhai sy’n berthnasol i barciau i garafannau sy’n gartrefi gwyliau—y cyfeiriasoch atynt, Rhodri Glyn. Gellir eu meddiannu am lawer o fisoedd bob blwyddyn ac maent yn fuddsoddiad enfawr i’r preswyllydd. Er gwaethaf hyn, mae perchnogion parciau diegwyddor, megis perchnogion Parc Carafannau Fferm Pant Gwyn yn Abersoch, wedi gallu troi preswylwyr allan ar sail honiadau ffug, ac wedyn elwa o ailosod safleoedd i breswylwyr newydd gyda chartrefi symudol newydd.

Mae’r ddogfen ‘Guidance on Unfair Terms in Holiday Caravan Agreements’ 2005 yn cydnabod yn briodol y gellir herio un o’r telerau mewn trwydded os yw wedi’i dddrafftio mor eang fel y gellid dibynnu arno mewn ffordd sy’n niweidio defnyddwyr. Dywed adran 3.5 yn hollol gywir:

Mae perchnogion carafannau wedi cwyno bod perchnogion parciau’n defnyddio telerau ac amodau sy’n caniatáu i berchnogion parciau eu trin yn ôl eu mympwy. Gall perchnogion carafannau sydd mewn anghydfod â pherchnogion parciau fod yn amharod i weithredu ar eu pen eu hunain rhag ofn y bydd dial arnynt. Nid yw carafannau o fawr o fudd i Berchnogion Carafannau heb yr hawl i’w gosod ar leiniau, ac mae arnynt ofn colli eu trwyddedau a methu dod o hyd i lain arall.

Fodd bynnag, mae hyn yn dal i adael preswylwyr yn agored i niwed os na allant fforddio’r ffioedd cyfreithiol drud. Nid yw’r cynllun cymrodeddu ar gyfer carafannau

Association Ltd does not apply when licensees are threatened with eviction, relating, as it does, to financial recompense only. This is not acceptable.

**Kirsty Williams:** I move the following amendments in the name of Peter Black. Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

*calls for the Welsh Assembly Government to find ways of ensuring that site owners meet 'fit and proper person' criteria.*

Amendment 4: add as a new point at the end of the motion:

*recognises the important role that tenants' associations can play in representing home owners' and tenants' views to site owners.*

Amendment 5: add as a new point at the end of the motion:

*calls for the establishment of a tribunals mechanism for dealing with disputes between home owners and site owners which does not require the use of the courts.*

The Deputy Minister will know that this is an area of policy that has been of great interest to me for many years, given the relatively large number of park homes that I have in my constituency of Brecon and Radnorshire. She has been good enough to visit a number of those parks with me on a number of occasions to meet local residents and to hear directly their concerns, as well as meeting residents here at the Assembly. Therefore, I am grateful that this debate has been brought to the Chamber today, and that we are beginning to see movement on some of those particular issues.

I will begin by reading some correspondence that I have received from a constituent:

'Since the park changed ownership, our lives have been made a misery—so much so that we were forced to take legal advice, which

gwyliu a ddarperir gan y British Holiday and Home Parks Association Ltd yn berthnasol pan fydd y rhai sy'n dal trwydded yn wynebu cael eu troi allan, gan nad yw ond yn ymwneud ag iawndal ariannol. Nid yw hyn yn dderbyniol.

**Kirsty Williams:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Peter Black. Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod perchnogion safleoedd yn diwallu meini prawf 'unigolion addas a phriodol'.*

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cydnabod y rhan bwysig y gall cymdeithasau tenantiaid ei chwarae o ran cynrychioli safbwyntiau perchnogion a thenantiaid cartrefi i berchnogion safleoedd.*

Gwelliant 5: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw am sefydlu mecanwaith tribiwnlysoedd ar gyfer delio ag anghydfodau rhwng perchnogion safleoedd a pherchnogion cartrefi nad yw'n golygu ei bod yn rhaid defnyddio'r llysoedd.*

Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod bod hwn yn faes polisi sydd wedi bod o gryn ddiddordeb imi ers blynnyddoedd lawer, o gofio'r nifer cymharol fawr o gartrefi mewn parciau sydd gennyf yn fy etholaeth, Brycheiniog a Sir Faesyfed. Bu'n ddigon caredig i ymweld â nifer o'r parciau hynny gyda mi droeon i gwrdd â'r preswylwyr lleol ac i glywed eu pryderon yn uniongyrchol, yn ogystal â chwrdd â thrigolion yma yn y Cynulliad. Felly, yr wyf yn ddiolchgar bod y ddadl hon wedi dod gerbron y Siambr heddiw, a'n bod yn dechrau gweld pethau'n symud ar rai o'r materion penodol hynny.

Yr wyf am ddechrau drwy ddarllen gohebiaeth a gefais gan etholwr:

Ers i'r perchnogion newydd ddod i'r parc, mae ein bywydau wedi bod yn ddigalon—i'r fath raddau nes inni gael ein gorfodi i holi am

cost us dearly both financially and emotionally. My main concern is that few people are willing to speak out, even when they have been treated appallingly, due to intimidation and the risk of being unable to sell their home, because the sale will be blocked by some excuse or other by the park owner. Often, particularly when an elderly person dies, or becomes too infirm to care for themselves, and therefore moves into care, a sale will be blocked until, having worn down the distressed relatives, the home is finally acquired by the park owner at a ridiculous price, far below the market value. I could go on forever, Miss Williams, but hope that you will understand the dilemma that we face. We moved here to enjoy the autumn of our years in an area that we love, wanting nothing more than to savour the peace and tranquillity of the beautiful Powys countryside. We now find ourselves in a situation where we have lost our dream and now have the fear that we may not be able to sell our home in order to remedy the situation. We desperately need your help to improve the legislation and help us live our lives happily.'

Unfortunately, that sentiment could be expressed by very many people in my constituency who find themselves falling foul of the legislation and unscrupulous park owners.

To own a football team in England and Wales, the manager and the owner must demonstrate that they have passed a fit and proper criteria test. It is, therefore, unbelievable that park owners of this kind do not face a similar test within English law, although other property owners must do so if they are renting out their properties.

I very much welcome the Deputy Minister's commitment today to the establishment of a tribunal system, which will hopefully move disputes out of the courts, which, as we have heard, are often too financially prohibitive or too difficult for many residents to deal with. I suspect that one of the first complaints that

gyngor cyfreithiol, a fydd yn ddrud inni'n ariannol ac yn emosïynol. Fy mhrif bryder yw mai prin iawn yw'r bobl sy'n fodlon codi eu llais, hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu trin yn warthus, oherwydd eu bod yn cael eu dychryn ac oherwydd y perygl na fyddant yn gallu gwerthu eu cartref, oherwydd bydd y gwerthiant yn cael ei rwystro gan ryw esgus neu'i gilydd gan berchennog y parc. Yn aml, yn enwedig pan fydd rhywun mewn oed yn marw, neu'n rhy eiddil i ofalu amdanynt eu hunain, ac felly'n mynd i ofal, bydd y gwerthiant yn cael ei rwystro nes bydd y cartref, ar ôl gyrru'r perthnasau trallodus i'r pen, yn cael ei brynu gan berchennog y parc yn y pen draw am bris gwarthus, sy'n is o lawer na gwerth y farchnad. Gallwn fynd ymlaen am byth, Miss Williams, ond gobeithio y byddwch yn deall y cyfyng gyngor yr ydym yn ei wynebu. Symudasom yma i fwynhau hydref ein dyddiau mewn ardal yr ydym yn ei charu, heb fod arnom eisïau dim mwy na chael mwynhau heddwch a llonyddwch cefn gwlad hyfryd Powys. Yr ydym yn awr mewn sefyllfa lle yr ydym wedi colli ein breuddwyd a bellach mae arnom ofn na fyddwn yn gallu gwerthu ein cartref er mwyn datrys y sefyllfa. Mae taer angen eich cymorth arnom i wella'r ddeddfwriaeth a'n helpu i fyw'n ddedwydd.

Yn anffodus, byddai nifer fawr o bobl yn fy etholaeth yn gallu mynegi'r un teimlad gan eu bod yn dioddef yn sgîl y ddeddfwriaeth a pherchnogion parciau diegwyddor.

Er mwyn bod yn berchen ar dîm pêl-droed yng Nghymru ac yn Lloegr, rhaid i'r rheolwr a'r perchennog ddangos eu bod wedi gallu bodloni meini prawf ynglŷn â bod yn addas ac yn briodol. Felly, mae'n anghredadwy nad yw perchnogion parciau o'r math hwn yn wynebu prawf tebyg o dan gyfraith Lloegr, er ei bod yn rhaid i berchnogion eiddo eraill wneud hynny os ydynt yn gosod eu heiddo ar rent.

Yr wyf yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog heddiw i sefydlu system tribiwnlys, a fydd, gobeithio, yn symud anghydfodau allan o'r llys, sydd, fel yr ydym wedi clywed, yn aml yn rhy ddrud neu'n rhy anodd i lawer o breswylwyr ddelio â hwy. Yr wyf yn tybio mai un o'r cwynion cyntaf y

that tribunal will consider will be on the issue of the blocking of selling homes. Before one is able to sell a home, one must have the permission of the park owner, who then vets potential purchasers prior to the sale going through. I have, on more than one occasion, been made aware of cases where the park owner blocks those purchases in an attempt to drive down prices so that he can purchase the home himself. As we have heard, in desperation, residents often sell their home to the park owner, in a desperate attempt to move. One remedy for that situation would be to introduce an element of independence in that process. My colleague Annette Brooke in Westminster currently has a private Member's Bill before Parliament looking at having an independent witness to the interviews between park owners and potential buyers, to ensure that everything is above board and that there is no issue of park owners trying to dissuade people from buying a particular property because it is in their financial interest to do so.

Another issue that constantly raises its head is that of utility bills, particularly when the park owner is responsible for their payment and subsequently charges individual home owners part of those utility bills. The rules state that the individual owner should have sight of those utility bills, but, time and again, that simply does not happen and there is a distinct fear that—

**Jane Hutt:** I want to say how much I support the amendments from the Welsh Liberal Democrats. I would also like to thank the Deputy Minister for bringing this debate forward and for visiting Cambrian Residential Park in my constituency, which has suffered at the hands of very unscrupulous site owners. Your point about having fit and proper persons as park owners is key to this, Kirsty. Will the Deputy Minister consider, in terms of strengthening the guidance on the Welsh model of the standards, and for the benefit of local authorities, as well as for site owners, looking at the particular issues around enforcement? That would build on the point that Kirsty made, because, when it comes down to it, there must be recognition about sensitivity. Does Kirsty agree that this is about people's

bydd y tribiwnlys yn eu hystyried fydd ynghylch rhwystro gwerthu cartrefi. Cyn i rywun allu gwerthu cartref, rhaid cael caniatâd perchennog y parc, a fydd wedyn yn fetio darpar brynwyr cyn gwerthu. Yr wyf wedi cael gwybod, fwy nag unwaith, am achosion pan fydd perchennog y parc yn rhwystro'r prynu mewn ymgais i wthio prisiau i lawr er mwyn iddo allu prynu'r cartref ei hun. Fel yr ydym wedi clywed, mewn anobaith llwyr, bydd y preswylwyr yn aml yn gwerthu eu cartref i berchennog y parc, mewn ymgais enbyd i symud. Un ateb i'r sefyllfa honno fyddai cyflwyno elfen o annibyniaeth yn y broses honno. Ar hyn o bryd mae gan Annette Brooke, fy nghyd-Aelod yn San Steffan, Fesur Aelod preifat gerbron y Senedd sy'n edrych ar gael tyst annibynnol i'r cyfweiliadau rhwng perchnogion parciau a darpar brynwyr, i sicrhau bod popeth yn deg ac nad yw perchnogion parciau yn ceisio dwyn perswâd ar bobl i beidio â phrynu eiddo penodol oherwydd bod hynny o fudd ariannol iddynt hwy.

Mater arall sy'n dod i'r amlwg yn gyson yw biliau cyfleustodau, yn enwedig pan fydd perchennog y parc yn gyfrifol am eu talu ac wedyn yn codi ar berchnogion cartrefi unigol am ran o'r biliau hynny. Dywed y rheolau y dylai'r perchennog unigol gael gweld y biliau cyfleustodau hynny, ond, dro ar ôl tro, nid yw hynny'n digwydd a cheir gwir ofn bod—

**Jane Hutt:** Mae arnaf eisiau dweud faint yr wyf yn cefnogi'r gwelliannau gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r ddadl hon ac am ymweld â Pharc Preswyl Cambrian yn fy etholaeth, sydd wedi dioddef yn sgîl perchnogion safle diegwyddor iawn. Mae eich pwynt ynghylch cael pobl addas a phriodol yn berchnogion parciau yn allweddol i hyn, Kirsty. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried, o ran cryfhau'r canllawiau ar fodel y safonau yng Nghymru, ac er budd awdurdodau lleol, yn ogystal â pherchnogion safleoedd, edrych ar y materion penodol sy'n ymwneud â gorfodaeth? Byddai hynny'n datblygu'r pwynt a wnaeth Kirsty, oherwydd, yn y pen draw, rhaid cael cydnabyddiaeth ynghylch sensitifrwydd. A yw Kirsty yn cytuno bod hyn yn ymwneud â

homes—

**William Graham:** Order. Jane, is this an intervention or a speech?

**Jane Hutt:** May I just finish my question?

**William Graham:** No, you may not.

**Kirsty Williams:** I could not agree more with the Minister. This is about people's homes, and, therefore, the person living within it deserves the same protection under the law as other home owners, and that is not currently the situation.

One of our amendments refers to the importance of tenants' associations within parks. They are vitally important in providing co-operation and collaboration across the park, so that individuals feel that they are not alone. However, again, in unscrupulous cases, the park owner simply ignores the rights of tenants to join an association and singles them out if they have the temerity to join such an association.

I would also like to draw the Deputy Minister's attention to the voting rights of people who are members of a tenants' association. The voting rights are, at present, one vote per home, and, usually, that vote goes to the person who is registered as the home owner. That person is usually a man—the male of the household—and I am sure that we would all agree that we should be moving to a situation of one vote per park resident, rather than one vote per home.

5.00 p.m.

Moving on to the issue of council tax and the council tax banding of park properties, they are currently liable to council tax, but the recent revaluation exercise has been hugely unfair because it includes the value of the land. The homeowner does not own the land—only the home that sits upon it—and it is therefore unfair that that is included in the valuation for council tax purposes. Unlike bricks and mortar, these homes depreciate in value, but no account is taken of that in setting council tax bands.

chartrefi pobl—

**William Graham:** Trefn. Jane, ai ymyriad ynteu araith yw hyn?

**Jane Hutt:** A gaf orffen fy nghwestiwn?

**William Graham:** Na chewch.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn cytuno â'r Gweinidog i'r carn. Mae hyn yn ymwneud â chartrefi pobl, ac felly mae'r sawl sy'n byw ynddo'n haeddu'r un amddiffyniad o dan y gyfraith â pherchnogion cartrefi eraill, ac nid hynny yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Mae un o'n gwelliannau'n cyfeirio at bwysigrwydd cymdeithasau tenantiaid mewn parciau. Maent yn hollbwysig ar gyfer darparu cydweithio a chydweithredu ar draws y parc, er mwyn i unigolion deimlo nad ydynt ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, unwaith eto, mewn achosion diegwyddor, mae perchennog y parc yn anwybyddu hawliau tenantiaid i ymuno â chymdeithas ac yn eu trin yn wahanol os ydynt yn ddigon eofn i ymuno â chymdeithas o'r fath.

Hoffwn hefyd dynnu sylw'r Dirprwy Weinidog at hawliau pleidleisio pobl sy'n aelodau o gymdeithas tenantiaid. Ar hyn o bryd, un bleidlais ar gyfer pob cartref yw'r hawliau pleidleisio ac fel rheol bydd y bleidlais honno'n cael ei rhoi i'r sawl sydd wedi cofrestru fel perchennog y cartref. Dyn yw'r unigolyn hwnnw fel rheol—dyn yr aelwyd—ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno y dylem fod yn symud at sefyllfa o un bleidlais i bob preswlydd yn y parc, yn hytrach nag un bleidlais i bob cartref.

A symud ymlaen at y dreth gyngor a bandiau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo mewn parciau, ar hyn o bryd rhaid iddynt dalu'r dreth gyngor, ond mae'r ailbrisio a fu'n ddiweddar wedi bod yn annheg iawn oherwydd ei fod yn cynnwys gwerth y tir. Nid yw perchennog y cartref yn berchen ar y tir—dim ond y cartref sydd ar y tir hwnnw—ac felly mae'n annheg bod hwnnw'n cael ei gynnwys yn y prisiad at ddibenion y dreth gyngor. Yn wahanol i frics a mortar, mae gwerth y cartrefi hyn yn gostwng, ond ni



chaiff hynny ei ystyried wrth bennu bandiau'r dreth gyngor.

Local authorities have to get a grip. Often, the licensing of these parks is very low down on councils' lists of priorities; they do not take these matters seriously. I hope that holding this debate today and demonstrating your commitment, Deputy Minister, to tackling this agenda will send a clear message to local authorities that they need to look very carefully at these homes. I make an appeal to you: if you do not have the legislative clout you need, please consider a legislative competence Order so that you can legislate in this area and so that we can provide these citizens of Wales with the protection that they deserve.

**Joyce Watson:** There are many park home sites in my area, as park homes are attractive to people looking to retire to the coast and the countryside. Therefore, I welcome today's debate and I am pleased to be able to contribute.

This market has traditionally suffered from a lack of regulation, certainly compared to the rest of the housing market. Therefore, I welcome the Government motion today, which proposes that the Assembly agrees the importance of effective management and licensing of park homes, and I hope that it opens the way to a fairer regulatory system. Despite moves to improve the rights of park home residents—most recently through the Mobile Homes Act 1983—there is still a stream of anecdotal evidence that suggests an imbalance of power between site owners and residents, as Kirsty made clear in her speech. We must be careful not to tar all site owners with the same brush. However, I think that it is fair to say that many park home residents feel that this imbalance of power adversely affects them and that that is not fair or right. For example, when it comes to selling a park home, as we have already heard, the site owner has the authority to refuse buyers. Although that should be done only for legitimate reasons, such as a poor credit rating, it appears that there have been instances when site owners have used their veto unfairly.

Rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Yn aml, mae trwyddedu'r parciau hyn yn isel iawn ar restr blaenoriaethau cynghorau; nid ydynt yn cymryd y materion hyn o ddifrif. Yr wyf yn gobeithio y bydd cynnal y ddadl hon heddiw a dangos eich ymrwymiad, Ddirprwy Weinidog, i fynd i'r afael â'r agenda hon yn anfon neges glir at awdurdodau lleol fod angen iddynt edrych yn ofalus iawn ar y cartrefi hyn. Yr wyf yn erfyn arnoch: os nad yw'r grym deddfwriaethol angenrheidiol gennych, ystyriwch Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn ichi allu deddfu yn y maes hwn ac er mwyn inni allu rhoi'r amddiffyniad y maent yn ei haeddu i'r dinasyddion hyn yng Nghymru.

**Joyce Watson:** Ceir nifer o safleoedd cartrefi mewn parciau yn fy ardal, gan fod cartrefi mewn parciau'n ddeniadol i bobl sy'n bwriadu ymddeol ar yr arfordir ac yng nghefn gwlad. Felly, yr wyf yn croesawu'r ddadl heddiw ac yr wyf yn falch fy mod yn gallu cyfrannu.

Yn draddodiadol mae'r farchnad hon wedi dioddef oherwydd diffyg rheoleiddio, yn sicr o'i chymharu â gweddill y farchnad dai. Felly, yr wyf yn croesawu cynnig y Llywodraeth heddiw, sy'n cynnig bod y Cynulliad yn cytuno â phwysigrwydd rheoli a thrwyddedu cartrefi mewn parciau yn effeithiol, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn braenaru'r tir ar gyfer system reoliadol decach. Er gwaethaf ymdrechion i wella hawliau preswylwyr cartrefi mewn parciau—yn fwyaf diweddar drwy Ddeddf Cartrefi Symudol 1983—ceir llif o dystiolaeth anecdotaidd o hyd sy'n awgrymu anghydbwysedd pŵer rhwng perchnogion safleoedd a phreswylwyr, fel yr eglurodd Kirsty yn ei haraith. Rhaid inni ochel rhag dweud mai adar o'r un lliw yw pob perchennog safle. Fodd bynnag, credaf ei bod yn deg dweud bod llawer o breswylwyr cartrefi mewn parciau'n teimlo bod yr anghydbwysedd pŵer hwn yn effeithio'n andwyol arnynt ac nad yw hyn yn deg nac yn iawn. Er enghraifft, wrth werthu cartref mewn parc, fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae gan berchennog y safle hawl i wrthod prynwyr. Er mai dim ond am resymau dilys y

dylid gwneud hynny, megis statws credyd isel, ymddengys fod perchnogion safleoedd ambell dro wedi defnyddio'u feton annheg.

The only action available to residents in such circumstances, unless both sides agree to an arbiter, is to go through the courts. However, the high costs involved put many off, and we must remember that we are talking mostly about elderly people—people living far away from their families, who, in some cases, have invested their life savings in the home. They are therefore often financially vulnerable, and it is easy to imagine how intimidating such a situation could be. I therefore urge the Government to improve the current system by removing the over-reliance on the courts to settle disagreements, possibly to look at creating an ombudsman, and to look at making it easier for park home owners to challenge what they perceive as unfair treatment.

**Darren Millar:** I am grateful for the opportunity to contribute to this important debate because it gives me the opportunity to address some concerns about matters that are dear to my heart. In opening, I wish to take the opportunity to thank the Deputy Minister and her officials for meeting me to discuss these concerns previously, before this debate. As Members are aware, my constituency, like many in north Wales, depends heavily on tourism. The coastal strip of Conwy and Denbighshire is known for its caravan parks, which provide accommodation for tens of thousands of holidaymakers who use caravans as a base from which to explore every part of north Wales.

In my constituency, the resorts of Towyn and Kinnel Bay provide around 50,000 bed spaces for tourists—more than the hotel accommodation in Llandudno, Rhyl and Prestatyn combined. This accommodation is crucial to tourism in the region. I speak as someone who is a keen supporter of caravan parks and who wants them to be able to provide quality holiday accommodation for visitors for generations to come. You may ask why I am mentioning these in a debate on mobile homes. I will tell you why: there is a growing trend, which causes me great concern and which must be tackled, of people

Mynd drwy'r llysoedd yw'r unig ddewis sydd ar gael i breswylwyr mewn sefyllfaoedd o'r fath, oni bai fod y naill ochr a'r llall yn cytuno ar gymrodeddwr. Fodd bynnag, mae costau uchel hynny'n atal nifer rhag dilyn y trywydd hwn, a rhaid inni gofio ein bod yn siarad am bobl hŷn yn bennaf—pobl sy'n byw'n bell oddi wrth eu teuluoedd, sydd, mewn rhai achosion, wedi buddsoddi eu cynilion i gyd yn y cartref. Maent felly yn aml yn agored i niwed yn ariannol, ac mae'n hawdd dychmygu mor frawychus y gallai sefyllfa o'r fath fod. Yr wyf felly'n annog y Llywodraeth i wella'r system bresennol drwy gael gwared ar yr orddibyniaeth ar y llysoedd i setlo anghydfodau, ac o bosibl ystyried creu ombwdsmon, ac ystyried ei gwneud yn haws i berchnogion cartrefi mewn parciau herio'r hyn a welant fel triniaeth annheg.

**Darren Millar:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl bwysig hon oherwydd y mae'n rhoi'r cyfle imi roi sylw i rai pryderon ynghylch materion sy'n agos at fy nghalon. Wrth agor, carwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion am gwrdd â mi i drafod y pryderon hyn yn flaenorol, cyn y ddatl hon. Fel y gwyr Aelodau, mae fy etholaeth, fel llawer o rai eraill yng ngogledd Cymru, yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth. Mae sribed arfordirol Conwy a sir Ddinbych yn enwog am ei barciau carafannau sy'n rhoi llety i ddegau o filoedd o ymwelwyr sy'n defnyddio carafannau fel canolfan ar gyfer crwydro i bob rhan o ogledd Cymru.

Yn fy etholaeth, mae cyrchfannau Tywyn a Bae Cinnel yn darparu tua 50,000 o welyau ar gyfer twristiaid—sy'n fwy na'r llety sydd ar gael mewn gwestai yn Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn gyda'i gilydd. Mae'r llety hwn yn hanfodol i dwristiaeth yn y rhanbarth. Yr wyf yn siarad fel rhywun sydd wedi bod yn gefnogwr brwd i barciau carafannau ac sydd am eu gweld yn gallu darparu llety gwyliau o ansawdd i ymwelwyr am genedlaethau i ddod. Efallai eich bod yn pendroni pam yr wyf yn sôn am y rhain mewn datl ar gartrefi symudol. Dywedaf wrthyhch: ceir patrwm cynyddol, sy'n achosi cryn bryder imi ac y

using holiday parks and static caravans, in particular, as their main residence.

While the numbers involved are small, it is a trend that continues to gather pace. You can understand why, because low-cost permanent accommodation along the beautiful north Wales coast is a very attractive proposition. However, year-round accommodation in caravan parks is wrong on many fronts. Holiday park licences do not allow caravans to be the main residence of their owners, however, it can be extraordinarily difficult for park owners and the local authorities, under the licensing regime, to police this. Anyone determined enough can have a few bills sent to an address elsewhere to suggest that that alternative address is the main home. There is also nothing in most licences to prevent caravan owners from renting out their holiday home to others. Surely, if someone lives at an address for more than six months of the year that address is their main home. However, there is no way, under the current licensing regime, that that test can be applied to ensure compliance with holiday park licences. Local authorities must raise their game in enforcing licences.

Caravans in holiday parks are not liable to council tax, as my colleague, Mark Isherwood, said. That poses a significant challenge to local authorities that incur costs as a result of year-round unlawful occupation by this hidden population. Work undertaken by Conwy County Borough Council and Denbighshire County Council identified over 700 such people, for example, in receipt of free bus passes. It found children attending local schools, individuals in receipt of housing benefit and social services, and even registered with local GPs, all using holiday parks as their main addresses. Local authorities are incurring costs, local taxpayers are picking up the bills, and yet there is no direct contribution via the council tax, or via the revenue support grant from the Welsh Assembly Government. It is scandalous. Many have said that this is a small and insignificant problem, yet a waste survey conducted on a holiday park in Denbighshire

mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef, sef bod pobl yn defnyddio parciau gwyliau a charafannau sefydlog, yn benodol, fel prif breswylfa.

Er bod y niferoedd dan sylw'n fach, mae'n batrwm sy'n cyflymu. Gallwch ddeall pam, oherwydd y mae llety parhaol rhad ar hyd arfordir prydferth gogledd Cymru yn gynnig deniadol dros ben. Fodd bynnag, mae llety drwy gydol y flwyddyn mewn parciau carafannau'n anghywir am lawer o resymau. Nid yw trwyddedau parciau gwyliau'n caniatáu i garafannau fod yn brif breswylfa eu perchnogion, fodd bynnag, gall fod yn anodd iawn i berchnogion parciau ac i'r awdurdodau lleol, o dan y drefn drwyddedu, blismona hyn. Gall unrhyw un sy'n ddigon penderfynol sicrhau bod ambell fil yn cael ei anfon i gyfeiriad yn rhywle arall i awgrymu mai'r cyfeiriad arall hwnnw yw'r prif gartref. Nid oes dim byd yn y rhan fwyaf o drwyddedau i atal perchnogion carafannau rhag gosod eu cartref gwyliau ar rent i bobl eraill. Os yw rhywun yn byw mewn cyfeiriad am fwy na chwe mis o'r flwyddyn, siawns nad y cyfeiriad hwnnw yw eu prif gartref. Fodd bynnag, o dan y drefn drwyddedu bresennol, nid oes dim modd rhoi'r prawf hwnnw ar waith i sicrhau cydymffurfio â thrwyddedau parciau gwyliau. Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn well o ran gorfodi trwyddedau.

Nid oes yn rhaid talu'r dreth gyngor ar garafannau mewn parciau gwyliau, fel y dywedodd Mark Isherwood, fy nghyd-Aelod. Mae hynny'n peri her sylweddol i awdurdodau lleol sy'n ysgwyddo costau o ganlyniad i feddiannu anghyfreithlon gydol y flwyddyn gan y boblogaeth gudd hon. Daeth gwaith a wnaethpwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych o hyd i dros 700 o bobl o'r fath, er enghraifft, a oedd yn derbyn tocynnau bws am ddim. Canfu fod plant yn mynychu ysgolion lleol, unigolion yn cael budd-daliadau tai a gwasanaethau cymdeithasol, a hyd yn oed wedi cofrestru â meddygon teulu lleol, i gyd yn defnyddio parciau gwyliau fel prif gyfeiriad. Mae awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau, trethdalwyr lleol yn talu'r biliau, ond nid oes dim cyfraniad uniongyrchol drwy'r dreth gyngor, na thrwy'r grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n warthus. Mae

found that it was producing just as much waste outside of the holiday season as it was during it.

Another issue is that of the quality of caravan accommodation. The Assembly Government is committed to the delivery of the Welsh housing quality standard, is it not? Yet it is not addressing the issue of year-round occupancy of caravans, most of which would not meet the standard.

I also fear that the advent of 12-month licences in my constituency, in Towyn and Kinnel Bay, will accelerate the trend. It is totally unwelcome. Astonishingly, although there is currently a moratorium on new development in Towyn and Kinnel Bay due to flood risk, extending the season of caravan parks, allowing them to open and be occupied during the highest tides of the year, is, apparently, perfectly acceptable under current licensing regimes. There is no requirement or obligation whatsoever to consult with the Environment Agency prior to making a decision. Anyone who saw the devastation of the 1990 floods in Towyn and Kinnel Bay, as I did, will tell you that that is absolutely barmy.

Caravan parks do not offer the best solution to meet the demand for low-cost housing and their use to tackle this problem could devastate our tourism industry. People who come to enjoy a holiday along the north Wales coast spend cash differently from permanent residents who live in caravans year-round. Our economy would certainly suffer if their revenue was lost. In addition, I agree with the members of the owners' association of the Golden Sands Holiday Park in my constituency that holidaymakers do not want to stay in accommodation alongside people who live in holiday parks year-round. Many people are threatening to give up their holiday homes if the trend continues.

We need proper licensing, properly enforced by local authorities, and we also need to

llawer wedi dweud mai problem fach a phitw yw hon, er hynny canfu arolwg gwastraff a gynhaliwyd ar barc gwyliau yn sir Ddinbych ei fod yn cynhyrchu cymaint o wastraff y tu allan i'r tymor gwyliau ag yn ystod y tymor hwnnw.

Problem arall yw ansawdd llety carafannau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i gyflawni safon ansawdd tai Cymru, onid ydyw? Er hynny, nid yw'n rhoi sylw i fater meddiannu carafannau drwy gydol y flwyddyn, na fyddai'r rhan fwyaf ohonynt yn bodloni'r safon.

Mae arnaf ofn hefyd y bydd dyfodiad trwyddedau 12 mis yn fy etholaeth, yn Nhywyn ac ym Mae Cinnel, yn cyflymu'r duedd. Nid oes dim croeso iddo. Yn syfrdanol, er bod moratoriwm ar hyn o bryd ar ddatblygiad newydd yn Nhywyn a Bae Cinnel oherwydd perygl llifogydd, mae'n debyg bod ymestyn tymor parciau carafannau, gan ganiatáu iddynt agor a chael eu defnyddio pan fydd y llanw ar ei uchaf yn ystod y flwyddyn, yn gwbl dderbyniol o dan y trefniadau trwyddedu presennol. Nid oes dim gofyniad na dyletswydd o gwbl i ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn penderfynu. Bydd unrhyw un a welodd ddifrod y llifogydd yn 1990 yn Nhywyn ac ym Mae Cinnel yn dweud wrthy ch fod hynny'n hollol hurt.

Nid yw parciau carafannau'n cynnig yr ateb gorau i ddiwallu'r galw am dai rhad a gallai eu defnyddio i fynd i'r afael â'r broblem hon ddinistrio ein diwydiant twristiaeth. Mae pobl sy'n dod i fwynhau gwyliau ar hyd arfordir gogledd Cymru yn gwario arian yn wahanol i breswylwyr parhaol sy'n byw mewn carafannau drwy gydol y flwyddyn. Byddai ein heconomi'n sicr yn dioddef petai eu refferniw'n cael ei gollu. Ar ben hynny, yr wyf yn cytuno ag aelodau cymdeithas perchnogion Parc Gwyliau Golden Sands yn fy etholaeth nad oes ar bobl sydd ar eu gwyliau eisiau aros mewn llety ochr yn ochr â phobl sy'n byw mewn parciau gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae llawer o bobl yn bygwth rhoi'r gorau i'w cartrefi gwyliau os bydd y duedd yn parhau.

Mae arnom angen trwyddedu priodol, sy'n cael ei orfodi'n briodol gan awdurdodau

ensure that information is available to caravan owners and prospective owners regarding the rules that govern sites, particularly in terms of year-round occupancy. I am very heartened by the comments of the Deputy Minister in the meetings that I have had with her previously, because I believe that this is an issue that she wants to address.

I do not think that any of us would want to see the development of US-style trailer parks in Wales, as that would damage our tourism industry. I certainly do not want to see them in north Wales and I urge Members to support our amendment.

5.10 p.m.

**Lorraine Barrett:** I would like the Deputy Minister to give us some clarification when she responds, because I understand that ‘park home’ is the preferred name for a residential mobile home, and we have had contributions—interesting and legitimate as they are—about caravan parks where people are allowed to live for some 10 or 11 months. I have an issue relating to that in my constituency, where people use such caravans as their main home. They should not do so, but, for me, that is a separate issue. I want to say something about Cambrian Residential Park, which Jane Hutt mentioned earlier. While it is not in my constituency, it does impact on it, and I will explain why. I know that Jane has been very involved with some of the residents there, who are under an awful lot of pressure to give up their homes. As she said in an intervention on Kirsty’s contribution, these are their homes. We are not talking about holiday homes.

**Mark Isherwood:** I have a point in relation to your earlier comment. Would you agree that the motion refers to park homes, and does not differentiate between caravan holiday park homes and residential park homes? The terminology applies in both cases.

lleol, ac yn ogystal mae angen inni sicrhau bod gwybodaeth ar gael i berchnogion carafannau a darpar berchnogion ynghylch y rheolau sydd ynghlŷn â safleoedd, yn enwedig o ran meddiannaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae’n galonogol clywed sylwadau’r Dirprwy Weinidog yn y cyfarfodydd yr wyf wedi’u cael â hi yn y gorffennol, oherwydd yr wyf yn credu bod hwn yn fater y mae arni eisiau rhoi sylw iddo.

Nid wyf yn meddwl y byddai ar yr un ohonom eisiau gweld datblygu parciau carafannau yng Nghymru ar batrwm yr hyn a welir yn UDA, gan y byddai hynny’n difrodi ein diwydiant twristiaeth. Yn sicr nid oes arnaf eisiau eu gweld yng ngogledd Cymru ac yr wyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliant.

**Lorraine Barrett:** Hoffwn i’r Dirprwy Weinidog roi rhywfaint o eglurhad inni pan fydd yn ymateb, oherwydd caf ar ddeall mai ‘cartref mewn parc’ yw’r term sy’n cael ei ffafrio ar gyfer cartref symudol preswyl, ac yr ydym wedi cael cyfraniadau—er mor diddorol a dilys oeddent—ynghylch parciau carafannau lle y caiff pobl fyw am ryw 10 neu 11 mis. Mae gennyf broblem sy’n ymwneud â hynny yn fy etholaeth, lle y mae pobl yn defnyddio carafannau o’r fath fel prif gartref. Ni ddylent wneud hynny, ond, i mi, mae hwnnw’n fater ar wahân. Mae arnaf eisiau dweud rhywbeth am Barc Preswyl Cambrian, a grybwyllwyd gan Jane Hutt yn gynharach. Er nad yw yn fy etholaeth, mae’n effeithio arni, ac esboniaf pam. Gwn fod Jane wedi ymwneud llawer â rhai o’r preswylwyr yno, sydd dan gryn bwysau i roi’r gorau i’w cartrefi. Fel y dywedodd mewn ymyriad yn ystod cyfraniad Kirsty, y rhain yw eu cartrefi. Nid ydym yn sôn am gartrefi gwyliau.

**Mark Isherwood:** Mae gennyf bwynt ynghylch eich sylw cynharach. A fyddech yn cytuno bod y cynnig yn cyfeirio at gartrefi mewn parciau, ac nad yw’n gwahaniaethu rhwng cartrefi mewn parciau carafannau gwyliau a chartrefi mewn parciau preswyl? Yr un yw’r derminoleg yn y naill achos a’r llall.

**Lorraine Barrett:** On the agenda, ‘park home’ is described as ‘the preferred name for a residential mobile home’. In some ways, you have widened the debate; there are issues there that affect many of our constituencies, but those may be for debate on another day.

I want to concentrate on a permanent residential site, namely Cambrian Residential Park in Cardiff. As I said, Jane Hutt, in her intervention on Kirsty Williams’s contribution, made the point that we are talking about people’s homes. I know that Jane is to meet the site owners and the Vale of Glamorgan Council about this. Some of the issues that have arisen at this site relate to the lack of sensitivity shown by the local authority when dealing with people who are being forced, or encouraged, to leave their homes because of how local authorities are interpreting the Welsh model standards for park homes. Would the Deputy Minister take into account some of the points made with regard to that enforcement? Some people are being encouraged or persuaded—I am not sure about the word ‘forced’—to leave and give up their park home and to take a council property. The nearest area available is Penarth, and I know of some properties that have been offered to the former residents of park homes. Some of my constituents are in desperate need of those homes, and I feel that the park home residents could have been enabled to stay in their homes. They were perfectly happy there, and wanted to stay there, but they have been put into a difficult situation by the local authority and by the site owner.

I have a few questions. If people are moved out, which should be done as a last resort, in order to comply with the Welsh model standards, who will pay for any remedial work? Is it the responsibility of the park owners? What are the results of any consultation with other interested parties? I want some reassurance that park home owners will be given all the help that they need to stay in their homes, and will not be coerced by the site owners and the local authority. Who is there to help them? Who is there to arbitrate for them to enable them to

**Lorraine Barrett:** Ar yr agenda, disgrifir ‘cartref mewn parc’ fel ‘yr enw sy’n cael ei ffafrio am gartref symudol preswyl’. Mewn rhai ffyrdd, yr ydych wedi ehangu’r ddadl; ceir materion sy’n effeithio ar lawer o’n hetholwyr, ond efallai fod y rheini ar gyfer dadl rywbyrd eto.

Mae arnaf eisiau canolbwyntio ar safle preswyl parhaol, sef Parc Preswyl Cambrian yng Nghaerdydd. Fel y dywedais, yn ei hymyriad yn ystod cyfraniad Kirsty Williams, gwnaeth Jane Hutt y pwynt ein bod yn siarad am gartrefi pobl. Gwn fod Jane ar fin cwrrd â pherchnogion y safle a Chyngor Bro Morgannwg ynghylch hyn. Mae rhai o’r materion sydd wedi codi yn y safle hwn yn ymwneud â’r diffyg sensitifrwydd a ddangoswyd gan yr awdurdod lleol wrth ddelio â phobl sy’n cael eu gorfodi, neu eu hannog, i adael eu cartrefi oherwydd y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli safonau enghreifftiol Cymru ar gyfer cartrefi mewn parciau. A fyddai’r Dirprwy Weinidog yn ystyried rhai o’r pwyntiau a wnaethpwyd yng nghyswllt y gorfodi hwnnw? Mae rhai pobl yn cael eu hannog neu eu perswadio—ac nid wyf yn siŵr am y gair ‘gorfodi’—i adael eu cartref mewn parc a rhoi’r gorau iddo a chymryd eiddo cyngor. Penarth yw’r ardal agosaf sydd ar gael, a gwn am achosion o eiddo sydd wedi cael ei gynnig i gyn breswylwyr cartrefi mewn parciau. Mae taer angen y cartrefi hynny ar rai o’r hetholwyr, ac yr wyf yn teimlo y gellid bod wedi galluogi’r preswylwyr cartrefi mewn parciau i aros yn eu cartrefi. Yr oeddent yn ddigon bodlon yno, ac yr oedd arnynt eisiau aros yno, ond mae’r awdurdod lleol a pherchennog y safle wedi eu rhoi mewn sefyllfa anodd.

Mae gennyf ambell gwestiwn. Os symudir pobl allan, sef rhywbeth y dylid ei wneud dim ond pan fetho popeth arall, er mwyn cydymffurfio â safonau model Cymru, pwy fydd yn talu am unrhyw waith adferol? Ai perchnogion y parc sy’n gyfrifol? Beth yw canlyniadau unrhyw ymgynghoriad â rhai eraill sydd â diddordeb? Mae arnaf eisiau sicrwydd y bydd perchnogion cartrefi mewn parciau’n cael yr holl gymorth y mae ei angen arnynt i aros yn eu cartrefi, ac na chânt eu gorfodi gan berchnogion y safle a’r awdurdod lleol. Pwy sydd wrth law i’w

stay on the site if that is their preferred option?

**Ann Jones:** I will talk about the 12-month residential homes in my constituency. So that we are all clear, Darren, your constituency stops at the blue bridge in Rhyl and Prestatyn; your constituency is Clwyd West. Stay west of the blue bridge when you mention the north Wales coast. Rhyl and Prestatyn are not in your constituency; they are in mine.

**Darren Millar:** Some of these issues are Wales-wide issues, and affect the whole of the north Wales coast. It is perfectly legitimate for me to mention areas of common interest between our two constituencies. If you do not want to work constructively with other Assembly Members, that is entirely up to you.

**Ann Jones:** That response just goes to show, but I remind you that the blue bridge is the barrier.

helpu? Pwy sydd wrth law i gymrodeddu ar eu rhan er mwyn eu galluogi i aros ar y safle os ydynt yn dymuno gwneud hynny?

**Ann Jones:** Yr wyf am siarad am y cartrefi preswyl 12 mis yn fy etholaeth. Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn glir, Darren, daw eich etholaeth i ben wrth y bont las yn y Rhyl a Phrestatyn; Gorllewin Clwyd yw eich etholaeth. Arhoswch ar ochr orllewinol y bont las pan fyddwch yn sôn am arfordir y gogledd. Nid yw'r Rhyl a Phrestatyn yn eich etholaeth chi; yn fy etholaeth i y maent.

**Darren Millar:** Mae rhai o'r materion hyn yn faterion sy'n ymwneud â Chymru gyfan, ac sy'n effeithio ar arfordir gogledd Cymru benbaladr. Mae'n gwbl ddilys imi sôn am ardaloedd sydd o ddiddordeb cyffredin rhwng ein dwy etholaeth. Os nad oes arnoch eisiau gweithio'n adeiladol gydag Aelodau eraill o'r Cynulliad, mater i chi yw hynny.

**Ann Jones:** Mae'r ymateb hwnnw'n dangos yr hyn a oedd gennyf dan sylw, ond yr wyf yn eich atgoffa mai'r bont las yw'r terfyn.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.14 p.m.  
The Presiding Officer took the Chair at 5.14 p.m.*

I will focus on the 12-month residential park homes in my constituency, and the problems that the residents face. Kirsty has more experience than most of us of park homes, but many of the people who have come to live in the park homes in my constituency have used all their savings, have probably retired to the area, and have all their capital tied up in the mobile home. As Kirsty said, they then mostly find the home very difficult to sell on. We have to look at people's ability to sell on, like you or I would sell on our home when we want to downsize to a smaller property.

The way in which the park owners address these people does not reflect the fairness that we would expect to see with regard to the way that people live on those estates. It frightens me to see the level of depreciation of the mobile homes set by the park owners. A new home might depreciate by 50 per cent within two or three years. That is one factor that we ought to look at.

Yr wyf am ganolbwyntio ar y cartrefi mewn parciau preswyl 12 mis yn fy etholaeth, a'r problemau sy'n wynebu'r preswylwyr. Mae gan Kirsty fwy o brofiad na'r rhan fwyaf ohonom o gartrefi mewn parciau, ond mae llawer o'r bobl sydd wedi dod i fyw yn y cartrefi mewn parciau yn fy etholaeth wedi defnyddio'u holl gynilion, wedi ymddeol i'r ardal mae'n debyg, ac mae eu holl gyfalaf ynghlwm wrth y cartref symudol. Fel y dywedodd Kirsty, gan amlaf maent wedyn yn canfod ei bod yn anodd iawn gwerthu'r cartref. Rhaid inni edrych ar allu pobl i werthu, fel y byddech chi neu fi'n gwerthu ein cartref pan fyddwn am symud i eiddo llai.

Nid yw'r ffordd y mae'r perchnogion parciau'n ymdrin â'r bobl hyn yn adlewyrchu'r tegwch y byddem yn disgwyl ei weld yng nghyswllt y ffordd y mae pobl yn byw ar yr ystadau hynny. Mae'n fy nychryn gweld lefel dibrisiant cartrefi symudol a bennir gan berchnogion y parciau. Gall gwerth cartref newydd ddisgyn 50 y cant mewn dwy neu dair blynedd. Mae hynny'n

un ffactor y dylem edrych arno.

With regard to the way that families live on these estates, it is important that they feel that they are part of the community. Residents' associations and tenants' associations must be the way forward for them because they cannot join another residents' association, and they have to be able to raise issues.

Yng nghyswllt y ffordd y mae teuluoedd yn byw ar yr ystadau hyn, mae'n bwysig iddynt deimlo eu bod yn rhan o'r gymuned. Rhaid i gymdeithasau preswylwyr a chymdeithasau tenantiaid fod yn ffordd ymlaen iddynt oherwydd ni allant ymuno â chymdeithas preswylwyr arall, a rhaid iddynt allu codi materion.

The matter of families living in mobile homes needs to be addressed. There are many people living in those homes who have families and whose children go to school and find it difficult when they are taunted because they live in a caravan.

Mae angen rhoi sylw i fater teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi symudol. Mae gan lawer o bobl sy'n byw yn y cartrefi hynny deuluoedd ac mae eu plant yn mynd i'r ysgol ac maent yn ei chael yn anodd pan gânt eu gwawdio oherwydd eu bod yn byw mewn carafân.

Darren alluded to the caravan parks along the north Wales coast. Where there are 12-month residence homes, we need to see full licensing before the other park owners think that the 10-and-a-half-month licence can be easily upgraded to a 12-month licence without any real cost to them. We need to address that issue and legislate to ensure that people have the right to stay in these caravan parks, fully licensed, but with full services.

Soniodd Darren am y parciau carafannau ar hyd arfordir y gogledd. Lle y ceir cartrefi preswyl 12 mis, mae angen inni weld trwyddedu llawn cyn i berchnogion parciau eraill feddwl ei bod yn hawdd uwchraddio'r drwydded 10 mis a hanner i drwydded 12 mis heb ddim cost go iawn iddynt. Mae angen inni roi sylw i'r mater hwnnw a deddfu i sicrhau bod pobl yn cael yr hawl i aros yn y parciau carafannau hyn, wedi'u trwyddedu'n llawn, ond gyda gwasanaethau llawn.

We are also finding that local authorities do not know how many people are living in these caravan parks with a 12-month licence. We have to ask the local authorities to put forward their views. Denbighshire County Council has always said that its mobile-home owners cause it great concern. However, the former Minister for Finance, Local Government and Public Services, Sue Essex, set up a piece of work, which Brian Gibbons has carried on, to his credit, to look at what services Denbighshire provides to caravan owners who, as Darren said, do not pay council tax. Unfortunately, council authorities seem to over-egg the pudding and try to see if the Welsh Assembly Government will put more money into the revenue support grant. However, if we do not tackle these park homes effectively and if we do not legislate effectively now, we will see that problem grow along the north Wales coast.

Yr ydym hefyd yn gweld nad yw awdurdodau lleol yn gwybod faint o bobl sy'n byw yn y parciau carafannau hyn sydd â thrwydded 12 mis. Rhaid inni ofyn i'r awdurdodau lleol gyflwyno'u sylwadau. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud drwy'r amser fod ei berchnogion cartrefi symudol yn achosi cryn bryder. Fodd bynnag, sefydlodd y cyn Weinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Sue Essex, ddarn o waith, y mae Brian Gibbons wedi'i barhau, er clod iddo, i edrych ar y gwasanaethau y mae Sir Ddinbych yn eu darparu i berchnogion carafannau nad ydynt, fel y dywedodd Darren, yn talu'r dreth gyngor. Yn anffodus, ymddengys fod awdurdodau cynghorau yn gor-ddweud ac yn ceisio gweld a wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi rhagor o arian yn y grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, os na fyddwn yn mynd i'r afael â'r cartrefi hyn mewn parciau'n effeithiol ac os na fyddwn yn deddfu'n effeithiol yn awr, byddwn yn gweld y broblem honno'n tyfu ar hyd arfordir y



gogledd.

Deputy Minister, please do all you can to ensure that these people are treated fairly and equitably and that they are part of the community.

**David Lloyd:** Mae'n bleser cyfrannu at y ddadl hon ar gartrefi mewn parciau sy'n gartrefi go iawn i bobl ac nid cartrefi gwyliau.

Mae rhyw 10,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi o'r fath; y rhan fwyaf ohonynt yn bobl hŷn. Dros y blynyddoedd, fel cynghorydd sir yn gyntaf ac yna fel Aelod o'r Cynulliad, yr wyf wedi derbyn cwynion cyson am lecyn ar gyrion Abertawe sy'n safle i gartrefi mewn parc—cwynion fel y rhai yr ydym wedi eu clywed eisoes. Er enghraifft, perchennog y safle yn blocio gwerthiant cartrefi, problemau gyda gwaith cynnal a chadw'r llwybrau o gwmpas y safle, problemau gyda biliau a chyda'r dreth gyngor—fel yr ydym wedi clywed gan Kirsty—achosion yn ymwneud â diffygion honedig yn y gwaith cynnal a chadw o gwmpas y safle, a phroblemau yn cael gafael ar berchennog y safle i drin a thrafod amryw broblemau gan fod perchennog y safle yn byw yn bell i ffwrdd a phur anaml y mae'n ymweld â'r safle.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r bobl hyn yn berchen ar eu cartrefi mewn parc, ond cânt eu trin fel tenantiaid gan nad oes ganddynt yr un hawliau â pherchnogion tai arferol. Nid ydynt yn gallu gwerthu eu cartrefi i'r sawl sy'n cynnig mwy amdanynt, er enghraifft, ac weithiau ni allant gael caniatâd i werthu eu cartrefi o gwbl. Nid ydynt ychwaith yn gallu gosod eu cartrefi na'u gadael yn eu hewyllys i bwy bynnag y maent yn dymuno. Mae eu bywydau a'u lles, felly, yn gwbl ddibynnol ar ewyllys da a hygrdedd perchennog y safle.

5.20 p.m.

Fel y clywsom gan y Dirprwy Weinidog—ac yr wyf yn croesawu ei datganiad y prynhawn yma—mae mwyafrif y perchnogion safleoedd yn rhai da, ond mae digon o esiamplau, fel y clywsom, o berchnogion safleoedd cartrefi mewn parciau nad ydynt cystal. Mae'r rhai sy'n byw yn y cartrefi hyn

Ddirprwy Weinidog, gwnewch eich gorau glas i sicrhau bod y bobl hyn yn cael eu trin yn deg ac yn gyfiawn a'u bod yn rhan o'r gymuned.

**David Lloyd:** I am pleased to contribute to this debate on park homes that are real homes to people and not holiday homes.

Around 10,000 people in Wales live in such homes; the majority of them are older people. Over the years, as a county councillor in the first instance and then as an Assembly Member, I have received regular complaints about a park home site on the outskirts of Swansea—complaints such as those that we have already heard. For example, the site owner blocking the sale of homes, problems involving the maintenance of paths around the site, problems with bills and council tax—as we have heard from Kirsty—lack of site maintenance, and problems in contacting the site owner to discuss the various problems as the site owner lives some distance away and rarely visits the site.

As previously mentioned, these people own their park homes, but they are treated as tenants as they do not have the same rights as typical home owners. They are unable to sell their homes to those who offer more money for them, for example, and sometimes they are unable to get permission to sell their homes. Also, they cannot let their homes or leave them in their will to whoever they choose. Their lives and wellbeing, therefore, are totally dependent upon the site owner's good will and credibility.

As we heard from the Deputy Minister—I welcome her statement this afternoon—the majority of site owners are good owners, but there are many examples, as we heard, of park home site owners who are not as good. Those who live on those sites, therefore, suffer. Often, they must seek permission

felly yn dioddef. Mae'n rhaid iddynt ofyn am ganiatâd cyn gwerthu cartrefi yn aml, ac ar ôl iddynt gael caniatâd, mae'n rhaid iddynt roi 10 y cant o bris gwerthu'r cartref i berchennog y safle. Fel y clywsom, mae rhai pobl yn byw o dan fygythiad o golli eu cartrefi neu o golli arian mawr ar eu cartrefi.

Mae hefyd esiamplau o bobl hŷn yn colli budd-daliadau am eu bod yn byw mewn cartrefi mewn parciau. Mae hyn i gyd o ganlyniad i ddiffyg cydbwysedd. Mae byw mewn cartref symudol, preswyl yn sefyllfa unigryw, ond mae diffyg hawliau. Er bod y bobl hyn yn berchen ar eu cartrefi, mae'r rhan fwyaf o'r grym gyda pherchennog y safle. Mae angen unioni'r cam drwy ddatblygu deddfwriaeth sy'n cydnabod y sefyllfa unigryw hon. Mae landlordiaid preifat yn cael eu trwyddedu, felly mae angen system o drwyddedu tebyg ar gyfer perchnogion safle er tegwch i bawb sy'n byw mewn cartref symudol preswyl.

**Lesley Griffiths:** I am pleased to have the opportunity to take part in this debate today. I know that many who live in a particular park home in my constituency will join me in welcoming today's debate. I was pleased that the Welsh Assembly Government agreed to undertake further joint consultations with England on park homes late last year. Following that consultation, there are proposals to set up a residential tribunal to hear disputes so that residents do not have to go to the expense of hiring a lawyer and taking their case to court. That is important because often residents have chosen to live in a park home because they have only limited money available. While residents welcome the changes to the park home legislation that came into force in October 2006, particularly restrictions on when a site owner may enter a pitch and the chance to review fees, they believe that further safeguards and the tightening of specific aspects of the law are required to protect them and all of those individuals who reside in the many park homes that we have in Wales.

Unfortunately, I have received several

before they can sell their homes, and even having secured that permission, they must pay the site owner 10 per cent of the sale price of their home. As we heard, some people live with the threat of losing their home or of losing a great deal of money on that home.

There are also examples of older people losing out on benefits as a result of living in park homes, because of a lack of balance. Living in a residential mobile home creates a unique situation, but there is a lack of rights. Even though these people own their homes, most of the power lies with the site owner. We must be put that right by developing legislation that recognises the uniqueness of the situation. Private landlords are licensed, so site owners should similarly be licensed, to ensure fair play for all those who live in residential mobile homes.

**Lesley Griffiths:** Yr wyf yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddaidl hon heddiw. Gwn y bydd llawer sy'n byw mewn cartref mewn parc penodol yn fy etholaeth yn ymuno â mi i groesawu'r ddaidl heddiw. Yr oeddwn yn falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i gynnal rhagor o ymgynghoriadau ar y cyd â Lloegr ynghylch cartrefi mewn parciau ddiwedd y llynedd. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, ceir cynigion i sefydlu tribiwnlys preswyl i wrando anghydfodau fel nad oes yn rhaid i breswylwyr dalu am gyfreithiwr ac am fynd â'u hachos i lys. Mae hynny'n bwysig oherwydd yn aml mae preswylwyr wedi dewis byw mewn cartref mewn parc oherwydd mai dim ond hyn a hyn o arian sydd ganddynt. Er bod preswylwyr yn croesawu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth ynghylch cartrefi mewn parciau a ddaeth i rym ym mis Hydref 2006, yn enwedig cyfyngiadau ynghylch pryd y caiff perchennog safle ddod ar lain a'r cyfle i adolygu ffioedd, maent yn credu bod rhagor o fesurau diogelu a thynhau agweddau penodol ar y gyfraith yn angenrheidiol er mwyn eu hamddiffyn hwy a'r holl unigolion hynny sy'n byw yn y cartrefi lu mewn parciau sydd gennym yng Nghymru.

Yn anffodus, yr wyf wedi cael amryw o

complaints from constituents, some of whom are vulnerable and elderly, about the harassment that they have received from the manager and owner of the site. I have received distressing correspondence, similar to that which Kirsty read out, about their behaviour. In fact, the owner was named and shamed during a debate in the House of Commons earlier this year on another park home site that he owns in Suffolk. My constituents simply want peace and quiet, to which everyone is entitled in their own home. It is essential that we provide them with adequate protection of their rights and that unscrupulous and intimidating behaviour is stamped out.

What has become apparent to me in my discussions with residents is that there is an urgent need for the licensing regime to be tightened. There needs to be a substantial licence fee and the revenue from the licences should possibly be ring fenced. Local authorities should then have a statutory duty to carry out inspections at park homes, using that funding. If, following such an inspection, concerns become apparent, they should then have a duty to monitor the situation.

We must do all that we can to ensure that local authorities have the guidance and powers that they need to ensure that park homes are well run. As previously mentioned, of vital importance is that site owners, managers and wardens meet the 'fit and proper person' criteria. Residents should have the opportunity to voice their opinions on the suitability of these people, if need be.

The 10 per cent commission, referred to by several speakers, needs to be looked at in more detail. That was not changed in 2006 and I am pleased that you are seeking views on this point, Deputy Minister, among others. I know, from speaking to my constituents that this is a serious issue and I am pleased that the Welsh Assembly Government is acting to ensure that we have the correct regulations in place.

gwynion gan etholwyr, y mae rhai ohonynt yn agored i niwed ac yn hŷn, ynghylch yr aflonyddu sydd wedi bod arnynt gan reolwr a pherchennog y safle. Yr wyf wedi cael gohebiaeth sy'n peri trallod, yn debyg i'r hyn a ddarllenodd Kirsty, ynghylch eu hymddygiad. A dweud y gwir, cafodd y perchennog ei enwi er cywilydd mewn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin yn gynharach eleni ar safle parc cartrefi arall y mae'n berchen arno yn Suffolk. Y cyfan y mae fy etholwyr yn gofyn amdano yw llongydd a heddwch, rhywbeth y mae gan bawb hawl iddo yn eu cartref eu hunain. Mae'n hanfodol inni amddiffyn eu hawliau'n ddigonol a rhoi terfyn ar ymddygiad diegwyddor a brawychus.

Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg i mi drwy drafodaethau â phreswylwyr yw bod taer angen i'r drefn drwyddedu gael ei thynhau. Mae angen i ffi'r drwydded fod yn un sylweddol a dylid neilltuo'r refeniw a geir o'r trwyddedau o bosibl. Dylai awdurdodau lleol wedyn fod â dyletswydd statudol i gynnal archwiliadau mewn cartrefi mewn parciau, gan ddefnyddio'r cyllid hwnnw. Yn dilyn archwiliad o'r fath, os daw pryderon i'r amlwg, dylent wedyn fod â dyletswydd i fonitro'r sefyllfa.

Rhaid inni wneud popeth y gallwn ei wneud i sicrhau bod gan awdurdodau lleol y canllawiau a'r pwerau y mae eu hangen arnynt er mwyn sicrhau bod cartrefi mewn parciau'n cael eu rhedeg yn dda. Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae'n hynod bwysig i berchnogion, rheolwyr a wardeniaid safleoedd fodloni'r meini prawf ynghylch 'unigolion addas a phriodol'. Dylai preswylwyr gael y cyfle i leisio'u barn ynghylch addasrwydd y bobl hyn, os oes angen.

Mae angen edrych yn fanylach ar y comisiwn o 10 y cant, y mae nifer o siaradwyr wedi cyfeirio ato. Ni chafodd hwnnw ei newid yn 2006 ac yr wyf yn falch eich bod yn gofyn am sylwadau ar y pwynt hwn, Ddirprwy Weinidog, ymysg eraill. A minnau wedi siarad â'm hetholwyr, gwn fod hwn yn fater difrifol ac yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu i sicrhau bod y rheoliadau cywir ar waith gennym.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n bwysig nodi mai dadl ar gartrefi mewn parciau oedd hon yn wreiddiol. Ni chredaf y bydd rhai o'm hetholwyr i nac etholwyr Aelodau eraill sydd wedi dioddef yn y sefyllfa hon yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Ceidwadwyr wedi ceisio manteisio ar yr unig ddadl yr ydym wedi'i chael ar y mater hwn yn y Cynulliad Cenedlaethol yn y 10 mlynedd yr wyf wedi bod yma er mwyn dilyn ymgyrch wleidyddol y mae Darren Millar yn ymwneud â hi yn y gogledd. Nid wyf yn amau dilysrwydd yr ymgyrch honno, Darren—efallai fod gennych bwyntiau pwysig i'w codi—ond nid y ddadl hon yw'r lle i wneud hynny, pan fo pwyntiau hynod o bwysig am bobl sydd yn cael eu hunain mewn sefyllfa fregus mewn cartrefi ar barciau yn cael eu trafod.

I will take an intervention from you, Darren, even though you did not offer me that courtesy earlier on in the debate.

**Darren Millar:** That is because I wanted to cover the important points that I raised. This debate is about mobile home occupation and regulation. I know that we are talking about park homes and there are people living in park homes in my constituency. What I am concerned about here will affect the whole of Wales. The Deputy Minister had the courtesy to discuss this with me in some detail prior to this debate, and she indicated to me that it was appropriate to raise it. Perhaps you need to discuss things between yourselves on the Plaid Cymru benches.

**Rhodri Glyn Thomas:** I think that you will find that the Deputy Minister will come back to you on that point later on, and I do not envy your position. Residents in park homes in your constituency will not appreciate the fact that you have misused this debate.

**Kirsty Williams:** Do you agree that many people who live in park homes take a great deal of personal offence when people make the mistake of classifying their choice of accommodation as being on a non-residential caravan park? That is one of the reasons why their needs have never been addressed, as so few politicians understand the difference. The

**Rhodri Glyn Thomas:** It is important to note that this was originally a debate on park homes. I do not believe that many of my constituents or the constituents of other Members who have suffered in this situation will appreciate the fact that the Conservatives have tried to take advantage of the only debate that we have had on this matter in the National Assembly in the 10 years that I have been here to campaign on a political issue in which Darren Millar is engaged in north Wales. I do not doubt the validity of that campaign, Darren—you may have some important points to raise—but this debate is not the place to bring it up, when we are debating very important points about people who find themselves in vulnerable positions in park homes.

Yr wyf yn fodlon derbyn ymyriad gennych, Darren, er na ddangosoch yr un cwrteisi i mi yn gynharach yn y ddadl.

**Darren Millar:** Y rheswm am hynny oedd bod arnaf eisiau trafod y pwyntiau pwysig a godais. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â meddiannu cartrefi symudol a rheoleiddio. Gwn ein bod yn siarad am gartrefi mewn parciau ac mae pobl yn byw mewn cartrefi mewn parciau yn fy etholaeth. Bydd yr hyn yr wyf yn ymwneud ag ef yma yn effeithio ar Gymru gyfan. Yr oedd y Dirprwy Weinidog yn ddigon cwrtais i drafod hyn â mi'n fanwl cyn y ddadl hon, a dywedodd wrthyf ei bod yn briodol ei godi. Efallai fod angen ichi drafod pethau ymysg eich gilydd ar feinciau Plaid Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn meddwl y gwelwch y bydd y Dirprwy Weinidog yn dod yn ôl atoch ar y pwynt hwnnw yn nes ymlaen, ac ni hoffwn fod yn eich lle chi. Ni fydd preswylwyr cartrefi mewn parciau yn eich etholaeth yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi camddefnyddio'r ddadl hon.

**Kirsty Williams:** A ydych yn cytuno bod llawer o bobl sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau'n cael eu tramgwyddo'n fawr pan fydd pobl yn camgymryd bod y llety y maent wedi'i ddewis yn llety ar barc carafannau amhreswyl? Dyna un o'r rhesymau nad yw eu hanghenion erioed wedi cael sylw, oherwydd bod cyn lleied o wleidyddion yn

Conservatives have ably demonstrated that today.

**Rhodri Glyn Thomas:** I totally agree with what you have just said, Kirsty. I am well aware of the work that you have done and of the work that your colleague Roger Williams has done on this in Westminster. We have been working on this issue together. These people find themselves in an invidious position.

This is probably the first time that I have said this in 10 years here, but the Liberal Democrat amendments hit the nail on the head. I am not likely to say that again over the next 10 years. For once, Peter Black has managed to put together three amendments that add to this debate.

Dof yn ôl at graidd y ddadl hon gan ei fod yn bwysig. Mae'r bobl sydd yn berchen ar gartrefi mewn parciau yn cael eu hunain mewn sefyllfa hynod o fregus, ond mae'n bwysig dweud nad yw pob perchennog safle fel hwn yn manteisio ar y sefyllfa. Mae pobl sy'n rhedeg parciau fel hyn mewn ffordd effeithiol a theg.

Yr wyf yn croesawu'n fawr yr hyn yr ydych yn ei ddweud am driwlynys. Mae mawr angen hynny gan fod pobl wedi methu â mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n eu hwynebu oherwydd cost a baich biwrocratiaeth mynd drwy lys barn. Yr wyf hefyd yn croesawu'n fawr yr hyn yr ydych yn ei ddweud am raddfa comisiwn. Credaf fod hynny'n cael ei ddefnyddio ar brydiau gan berchnogion y safleoedd hyn.

Soniodd Kirsty am drethi. Yr wyf wedi ceisio cynrychioli fy etholwyr mewn dau driwlynys ar drethi. Yn yr un cyntaf, yr oeddwn yn ceisio dadlau na ddylai cartrefi fy etholwyr fod ym mand B ond ym mand A. Erbyn inni gael yr ail driwlynys, yr oeddent ym mandiau C, D ac E. Fel y dywedodd Kirsty, nid yw'r bobl hyn yn berchen ar y tir. Mae gwerth y cartrefi hyn yn diflannu wedi iddynt gael eu gosod. Nid oes gwerth parhaol ynddynt. Byddwn yn falch pe byddech yn trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i weld beth y gallwch ei wneud i sicrhau

deall y gwahaniaeth. Mae'r Ceidwadwyr wedi dangos hynny'n glir iawn heddiw.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn yr ydych newydd ei ddweud, Kirsty. Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r gwaith yr ydych wedi'i wneud a gwaith Roger Williams, eich cyd-Aelod, ar hyn yn San Steffan. Yr ydym wedi bod yn gweithio ar y mater hwn gyda'n gilydd. Mae'r bobl hyn mewn sefyllfa annymunol.

Mae'n debyg mai'r dyma'r tro cyntaf imi ddweud hyn mewn 10 mlynedd yma, ond mae gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud calon y gwir. Nid wyf yn debyg o ddweud hynny eto am 10 mlynedd arall. Am unwaith, mae Peter Black wedi llwyddo i roi tri gwelliant at ei gilydd sy'n ychwanegu at y ddadl hon.

To return to the core issue that we are debating, people who own park homes find themselves in a very vulnerable position, and it is important to state that not all site owners such as this one take advantage of the situation. There are people running such parks in an effective and fair manner.

I very much welcome what you said about a tribunal. This is very much needed as people have failed to get to grips with some of the problems facing them because of the cost and burden of bureaucracy in taking matters through the courts. I also welcome what you said about a commission rate. I believe that this is applied in some instances by site owners.

Kirsty raised the issue of taxation. I have attempted to represent my constituents in two tribunals on taxes. In the first, I tried to argue that the homes of my constituents should not be in band B but in band A. By the second tribunal, they were in bands C, D and E. As Kirsty said, these people do not own the land. The value of the homes disappears once they are let. There is no permanent value to them. I would be pleased if you would discuss the issue with the Minister for Social Justice and Local Government to see what you can do to ensure justice in this area.

cyfiawnder yno.

O ran y ffordd y mae ambell berchennog yn gweithredu ar y safle, tynnaf eich sylw at un peth sydd wedi digwydd mewn safle yn fy etholaeth i, lle mae perchennog wedi cyflogi cwmni preifat i reoleiddio nifer y ceir ar y safle. Dim ond dau safle parcio sydd gan bob perchennog cartref yn y parc. Pe bai rhywun yn dod i ymweld â rhywun sy'n berchen ar gartref ar y safle, byddai perygl i'w car gael ei glampio.

5.30 p.m.

Pa berchennog tŷ mewn unrhyw sefyllfa arall sy'n wynebu'r math hwnnw o sefyllfa lle mae pobl sy'n dod i ymweld â hwy o dan fygythiad o gael eu ceir wedi'u clampio a wynebu dirwy enfawr o ganlyniad? Nid oes neb yn gallu rheoli yr hyn sy'n digwydd oherwydd ei fod yn gwmni preifat. Mae nifer o bethau yn ymwneud â'r ffordd y mae'r perchennog yn gweithredu ar y safle sy'n gofyn am sylw. Yr wyf yn falch eich bod wedi cymryd y mater hwn o ddifrif, Ddirprwy Weinidog, ac yr wyf yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi i sicrhau bod y bobl hyn yn cael yr hawliau sylfaenol y mae pob perchennog cartref yn eu haeddu, fel y dywedodd Dai Lloyd.

**The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies):** We would all agree that this debate has given Members an opportunity to acknowledge that park homes provide a valuable contribution to meeting housing need. I think that we are united in wanting an effective management and licensing regime. This is a policy area that Members are keenly interested in. I am happy to accept the amendments tabled. You know that we are already doing the things that you mentioned in your amendments, Peter, so I do welcome the Liberal Democrats' support for the Government actions. I will accept the Tory amendments, but I would like to make it clear that although amendment 2 says that there are similarities between park homes and caravan sites, there is an important difference. Park homes are residential; caravan sites are recreational. It is easy to remember and I am sure that you will.

In terms of the way in which some owners operate their sites, I draw your attention to one example in my constituency where the site owner has employed a private firm to regulate the number of cars on the site. Park home owners are allowed only two parking spaces. Anyone visiting a home owner on this site is in danger of having their car clamped.

What home owner in any other situation faces the possibility of seeing visitors threatened with having their cars clamped and having to pay a huge fine as a result? No-one can regulate what is happening because this is a private firm. There are several issues relating to the way in which owners operate sites that need attention. I am pleased that you have taken this issue seriously, Deputy Minister, and I look forward to collaborating with you to ensure that these people are given the fundamental rights that all home owners deserve, as Dai Lloyd said.

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Byddem i gyd yn cytuno bod y ddadl hon wedi rhoi cyfle i Aelodau gydnabod bod cartrefi mewn parciau'n gyfraniad pwysig at ddiwallu anghenion tai. Yr wyf yn meddwl ein bod yn unfrydol bod arnom eisiau gweld trefn effeithiol o ran rheoli a thrwyddedu. Mae hwn yn faes polisi y mae gan Aelodau gryn ddiddordeb ynddo. Yr wyf yn fodlon derbyn y gwelliannau a gyflwynwyd. Gwyddoch ein bod eisoes yn gwneud y pethau yr ydych yn eu crybwyll yn eich gwelliannau, Peter, felly yr wyf yn croesawu cefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Derbyniaf welliannau'r Toriaid, ond hoffwn ddatgan yn glir er bod gwelliant 2 yn dweud bod nodweddion tebyg rhwng cartrefi mewn parciau a safleoedd carafannau, fod gwahaniaeth pwysig. Mae cartrefi mewn parciau'n rhai preswyl; mae safleoedd carafannau at ddibenion hamdden. Mae'n hawdd cofio hynny ac yr wyf yn sicr y

byddwch yn gwneud hynny.

**Mark Isherwood** *rose*—

**Rhodri Glyn Thomas:** Do not do that, Mark; you are in enough trouble already.

**The Presiding Officer:** Order.

**Mark Isherwood:** The motion on the agenda—

**The Presiding Officer:** Order. I was just reprimanding Rhodri Glyn Thomas before calling you.

**Mark Isherwood:** The motion refers to ‘park homes’. ‘Caravan holiday home parks’ is the generic term for holiday parks and home parks. Clearly, the Mobile Homes Act 1983 applies to residential home parks. Our amendments were laid in good faith. Amendment 1 supports everything that you are saying. Amendment 2 is to link that to the situation that people who live for much of the year in their holiday caravan parks experience and suffer. They also need support. I hope that you will recognise that the amendments are relevant.

**Jocelyn Davies:** I thought that you would take my point, but obviously not. For some weeks, we have made it clear that this debate was to be about park residential homes. As Kirsty said, people who live in park homes are incensed by the link with caravans. So, you have put your foot in it once, twice and thrice. Perhaps you will have an opportunity before I sit down to put your foot in it again, Mark.

At this point, I ought to say that I also have a caravan. Darren made some points about licensing and the enforcement of the conditions of the licence. There may be a small percentage of people who live permanently in caravans, but that would probably be in breach of the site licence. Any site owner who permits that is endangering their own living and is therefore acting

**Mark Isherwood** *a gododd*—

**Rhodri Glyn Thomas:** Peidiwch â gwneud hynny Mark; yr ydych mewn digon o helbul yn barod.

**Y Llywydd:** Trefn.

**Mark Isherwood:** Mae'r cynnig ar yr agenda—

**Y Llywydd:** Trefn. Dim ond ceryddu Rhodri Glyn Thomas yr oeddwn, cyn eich galw.

**Mark Isherwood:** Mae'r cynnig yn cyfeirio at ‘gartrefi mewn parciau’. ‘Parciau i garafannau sy'n gartrefi gwyliau’ yw'r term generig am barciau gwyliau a pharciau cartrefi. Yn amlwg, mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn berthnasol i barciau cartrefi preswyl. Cafodd ein gwelliannau eu gosod yn ddiwyll. Mae gwelliant 1 yn cefnogi popeth yr ydych yn ei ddweud. Mae gwelliant 2 yn cysylltu hynny â'r sefyllfa y mae pobl sy'n byw am gyfran fawr o'r flwyddyn yn eu parciau carafannau gwyliau yn ei hwynebu a'i dioddef. Mae angen cefnogaeth arnynt hwythau hefyd. Gobeithio y byddwch yn cydnabod bod y gwelliannau'n berthnasol.

**Jocelyn Davies:** Yr oeddwn yn meddwl y byddech yn derbyn fy mhwynt, ond mae'n amlwg nad yw hynny'n wir. Ers rhai wythnosau, yr ydym wedi gwneud yn glir fod y ddadl hon yn ymwneud â chartrefi preswyl mewn parciau. Fel y dywedodd Kirsty, mae pobl sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau yn flin oherwydd y cyswllt â charafannau. Felly, yr ydych wedi cael caff gwag unwaith, ddwywaith a theirgwaith. Efallai y cewch gyfle i gael caff gwag eto cyn imi eistedd, Mark.

Ar y pwynt hwn, dylwn ddweud bod gennyf finnau garafân hefyd. Gwnaeth Darren rai pwyntiau am drwyddedu a gorfodi amodau'r drwydded. Efallai fod canran fach o bobl sy'n byw mewn carafannau'n barhaol, ond mae'n debyg y byddai hynny'n torri amodau trwydded y safle. Mae unrhyw berchennog safle sy'n caniatáu hynny'n peryglu ei fywoliaeth ei hun ac felly'n gweithredu'n

against their own best interest. We know that the Welsh love their caravans, Darren, and any politician who wants to alienate all caravanners may also be acting against their own best interest. I think that you should bear that in mind.

It is for the local authority to license the site. You have said, 'There you are, there is your local authority licensing the site, and then you have the same local authority issuing bus passes, dealing with housing benefit and other services'. You are saying that the local authority, in effect, is undermining its own licensing regime. If you cannot deal with that on a local authority level, I do not think that I, as Deputy Minister, am going to go there to snoop on people to see if they are sending their children to school from their caravans. The Welsh housing quality standard does not apply to private housing; it only applies to social housing. I take your point on the Environment Agency and will look at that. I think that at least we agree on the need for a proper licensing regime. Mark, I am glad that you support our proposals, and you did agree that it is the minority of site owners who are in danger of giving the majority a bad name. I hope that our proposals will further protect vulnerable residents.

Kirsty, I know that this is an issue that is close to your heart and you did paint a vivid picture of what can happen if owners are not fit and proper and have vulnerable residents at their mercy. I am glad that you welcome the move to establish a tribunal. The case law will soon build up, and other cases will then follow precedents set.

On the issue of utility bills, you have written to me, as have some of the owners. Utility bills must be produced if any of the residents want to see them. I will take up the issue of evaluations with the Minister for local government, however.

Jane Hutt, I am happy to look again at the model standards, and I am happy to receive

groes i'w les ei hun. Gwyddom fod y Cymry'n caru eu carafannau, Darren, ac efallai fod unrhyw wleidydd sydd am elyniaethu pob carafaniwr yn gweithredu'n groes i'w les ei hun hefyd. Yr wyf yn meddwl y dylech gadw hynny mewn cof.

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drwyddedu'r safle. Yr ydych wedi dweud, 'Dyna chi, mae eich awdurdod lleol yn trwyddedu'r safle, ac wedyn mae'r un awdurdod lleol yn rhoi tocynnau bws, yn delio â budd-daliadau tai a gwasanaethau eraill'. Yn y bôn yr ydych yn dweud bod yr awdurdod lleol yn tanseilio'i drefn drwyddedu ei hun. Os na allwch ddelio â hynny ar lefel awdurdod lleol, nid wyf yn meddwl fy mod i, fel Dirprwy Weinidog, am fynd yno i fusnesu i weld a yw pobl yn anfon eu plant i'r ysgol o'u carafannau. Nid yw safon ansawdd tai Cymru yn berthnasol i dai preifat; dim ond i dai cymdeithasol y mae'n berthnasol. Yr wyf yn derbyn eich pwynt ynghylch Asiantaeth yr Amgylchedd ac ymchwiliad i hynny. Yr wyf yn meddwl ein bod, o leiaf, yn cytuno ar yr angen am drefn drwyddedu briodol. Mark, yr wyf yn falch eich bod yn cefnogi ein cynigion, ac yr oeddech yn cytuno bod perygl i enw da'r mwyafrif o berchnogion safleoedd gael ei bardduo gan y lleiafrif. Gobeithio y bydd ein cynigion yn amddiffyn preswylwyr sy'n agored i niwed yn well.

Kirsty, gwn fod hwn yn fater sy'n agos at eich calon a llwyddasoch i gyfleu darlun byw iawn o'r hyn sy'n gallu digwydd os nad yw perchnogion yn addas ac yn briodol a bod preswylwyr agored i niwed ar eu trugaredd. Yr wyf yn falch eich bod yn croesawu'r symudiad i sefydlu tribiwnlys. Bydd y gyfraith achosion yn datblygu'n fuan, a bydd achosion eraill wedyn yn dilyn y cynseiliau a osodir.

O ran biliau cyfleustodau, yr ydych wedi ysgrifennu ataf, fel y mae rhai o'r perchnogion wedi gwneud. Rhaid rhoi biliau cyfleustodau i breswylwyr os oes ar rai ohonynt eisiau eu gweld. Af ar drywydd mater prisiau gyda'r Gweinidog dros lywodraeth leol, fodd bynnag.

Jane Hutt, yr wyf yn fodlon ailedrych ar y safonau enghreifftiol, ac yr wyf yn fodlon



suggestions from you.

Joyce, you outlined the reasons why the court system is defective in dealing with these disputes. I know that you suggested having an ombudsman, but I hope that you will agree that the tribunal will serve us just as well.

Lorraine, you asked again for clarification. A park home is a mobile home, but it is a permanent residence, whereas a caravan is for recreation and holiday purposes. I think that I would feel a bit sorry for someone who had to live in a caravan. I know that some people may very well choose to do that, but, for most people, and those who are not mentioned, namely those with families, I should imagine that that could be pretty grim in winter.

I have visited Cambrian Residential Park, and no-one should be subject to pressure to move. I have made it clear that the flexibility that we have given to local authorities is so that they can be sensitive about existing sites. I hope that by next spring, the disputes can go to the tribunal.

Ann, you mentioned valuation, too. We certainly do not want residents to be subject to avoidable practices that further devalue their properties. You agreed that a proper licensing regime is important. I think that we would all agree that we do not want residents to be stigmatised and excluded.

Dai Lloyd, you were correct that residents can feel like tenants. I will arrange for all AMs to receive the information on the changes that we have already made in the form of the model standard and implied terms. I hope that this will have led to some improvement—I am happy to make more. You did mention the issue of wills. You can be left a park home in a will, but it is up to the site owner as to whether he or she vetoes your living in it. In that case, beware of who you contract with and take advice before you enter into one of these contracts.

cael awgrymiadau gennych.

Joyce, bu ichi amlinellu'r rhesymau pam mae system y llysoedd yn ddiffygiol ar gyfer delio â'r anghydfodau hyn. Gwn ichi awgrymu cael ombwdsmon, ond gobeithio y byddwch yn cytuno y bydd y tribiwnlys yn darparu gwasanaeth sydd llawn cystal.

Lorraine, gofynasoch unwaith eto am eglurhad. Mae cartref mewn parc yn gartref symudol, ond mae'n breswylfa barhaol, ond mae carafán at ddibenion hamdden a gwyliau. Yr wyf yn meddwl y byddwn yn cydymdeimlo â rhywun a oedd yn gorfod byw mewn carafán. Gwn fod rhai pobl efallai'n dewis gwneud hynny, ond, o ran y rhan fwyaf o bobl, a'r rhai nas crybwyllir, sef y rhai sydd â theuluoedd, byddwn yn dyfalu y gallai hynny fod yn eithaf enbyd ganol gaeaf.

Yr wyf wedi ymweld â Pharc Preswyl Cambrian, ac ni ddylai fod pwysau ar neb i symud. Yr wyf wedi egluro mai diben yr hyblygrwydd yr ydym wedi'i roi i awdurdodau lleol yw er mwyn iddynt allu bod yn sensitif ynghylch safleoedd sydd eisoes yn bodoli. Gobeithio y gall yr anghydfodau fynd gerbron y tribiwnlys erbyn y gwanwyn nesaf.

Ann, soniasoch chithau hefyd am brisio. Yn ddiau, nid oes arnom eisiau i breswylwyr wynebu arferion y mae modd eu hosgoi sy'n tynnu gwerth eu heiddo i lawr ymhellach. Yr oeddech yn cytuno bod trefn drwyddedu briodol yn bwysig. Yr wyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno nad ydym am weld preswylwyr yn cael eu stigmatiddio a'u diystyru.

Dai Lloyd, yr oeddech yn llygad eich lle y gall preswylwyr deimlo fel tenantiaid. Trefnaf i bob AC gael y wybodaeth am y newidiadau yr ydym eisoes wedi'u gwneud ar ffurf y safon enghreifftiol a'r telerau ymhlyg. Gobeithio y bydd hyn wedi arwain at wella pethau—yr wyf yn fodlon gwneud mwy. Soniasoch am ewyllysiau. Gallwch gael cartref mewn parc mewn ewyllys, ond gall perchennog y safle roi feto fel na chewch fyw yno. Yn yr achos hwnnw, byddwch yn ofalus â phwy yr ydych yn gwneud contract a chymerwch gyngor cyn i chi gyttuno ar un o'r contractau hyn.

Lesley, you mentioned harassment, and that is, of course, criminal activity. A fit and proper person test should, you are right, filter out such owners as you have to cope with in your constituency. I will take up the other ideas that you mentioned as part of our consultation.

On the commission rate of 10 per cent, I would guess that we would want to see the site owners recoup reasonable costs, but the flat rate of 10 per cent does need to be looked at, because some of these homes, especially the brand-new ones, are worth many thousands of pounds.

Rhodri Glyn, I am glad that you acknowledged the fact that the majority of site owners are competent and that you support the tribunal route. I will take up the rateable value issue with Brian Gibbons. I was going to offer to visit, but as the ministerial car is bound to be clamped if we go there, I am not sure that it is a good move. If you give me a lift in your car, however, I would be happy to come along. *[Laughter.]*

I thank Members for their contributions. We have had an interesting debate, and there have been some useful comments. I hope that everybody will be happy to support the motion.

**Y Llywydd** Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1 yn enw Alun Cairns. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

**Y Llywydd** Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 2 yn enw Alun Cairns. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 2 i NDM4302: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 5.  
Amendment 2 to NDM4302: For 25, Abstain 0, Against 5.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Lesley, soniasoch am aflonyddu, ac mae hynny, wrth gwrs, yn weithgarwch troseddol. Yr ydych yn iawn, dylai maen prawf ynghylch unigolion addas a phriodol gael gwared ar y math o berchnogion yr ydych yn gorfod delio â hwy yn eich etholaeth. Af ar drywydd y syniadau eraill a godasoch fel rhan o'n hymgyngoriad.

Yng nghyswllt 10 y cant o gyfradd comisiwn, byddwn yn tybio y byddai arnom eisiau gweld perchnogion safle'n adennill costau rhesymol, ond mae angen edrych ar y gyfradd safonol o 10 y cant, oherwydd y mae rhai o'r cartrefi hyn, yn enwedig y rhai newydd sbon, yn werth miloedd o bunnau.

Rhodri Glyn, yr wyf yn falch eich bod wedi cydnabod y ffaith bod y rhan fwyaf o berchnogion safleoedd yn gymwys a'ch bod yn cefnogi'r dull o ddefnyddio tribiwnlys. Trafodaf fater y gwerth ardrethol â Brian Gibbons. Yr oeddwn am gynnig ymweliad, ond gan fod y car gweinidogol yn siŵr o gael ei glampio os awn yno, nid wyf yn siŵr a yw hynny'n syniad da. Os caf lifft gennych yn eich car, fodd bynnag, byddwn yn fodlon dod. *[Chwerthin.]*

Yr wyf yn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Yr ydym wedi cael dadl ddi-ddorol, a chafwyd rhai sylwadau defnyddiol. Gobeithio y bydd pawb yn fodlon cefnogi'r cynnig.

**The Presiding Officer:** The proposal is that amendment 1 in the name of Alun Cairns be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 1 is therefore agreed.

**The Presiding Officer:** The proposal is that amendment 2 in the name of Alun Cairns be agreed. Do any Members object? I see that they do. Therefore, I call for a vote.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Paul  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 3 yn enw Peter Black. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that amendment 3 in the name of Peter Black be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 3 is therefore agreed.

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

5.40 p.m.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 4 yn enw Peter Black. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that amendment 4 in the name of Peter Black be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 4 is therefore agreed.

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 5 yn enw Peter Black. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that amendment 5 in the name of Peter Black be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 5 is therefore agreed.

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

Motion NDM4302 as amended: that

Cynnig NDM4302 fel y'i diwygiwyd: bod

*the National Assembly for Wales:*

1. recognises that park homes provide a valuable contribution to meeting housing need in Wales;

2. agrees the importance of effective management and licensing for both residents and site operators;

3. calls upon the Welsh Assembly Government to consider bringing forward proposals, including legislation where appropriate, to secure improvements in the effective management and licensing of caravan parks;

4. recognises that some similarities exist between park home accommodation and that provided by caravan holiday home parks;

5. calls for the Welsh Assembly Government to find ways of ensuring that site owners meet 'fit and proper person' criteria;

6. recognises the important role that tenants' associations can play in representing home owners' and tenants' views to site owners; and

7. calls for the establishment of a tribunals mechanism for dealing with disputes between home owners and site owners, which does not require the use of the courts.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig wedi ei ddiwygio yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig wedi ei ddiwygio ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM4302 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM4302 as amended agreed.*

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. yn cydnabod bod cartrefi mewn parciau yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddiwallu'r angen am dai yng Nghymru;

2. yn cytuno bod rheoli a thrwyddedu safleoedd yn effeithiol yn bwysig i breswylwyr a gweithredwyr y safleoedd hynny;

3. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried cyflwyno cynigion, gan gynnwys deddfwriaeth pan fo'n briodol, i sicrhau gwelliannau o ran trwyddedu a rheoli parciau carafannau yn effeithiol;

4. yn cydnabod bod rhai nodweddion tebyg rhwng llety cartrefi mewn parciau a'r hyn a ddarperir gan barciau i garafannau sy'n gartrefi gwyliau;

5. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod perchnogion safleoedd yn diwallu meini prawf 'unigolion addas a phriodol';

6. yn cydnabod y rhan bwysig y gall cymdeithasau tenantiaid ei chwarae o ran cynrychioli safbwyntiau perchnogion a thenantiaid cartrefi i berchnogion safleoedd;

7. yn galw am sefydlu mecanwaith tribiwnlysoedd ar gyfer delio ag anghydfodau rhwng perchnogion safleoedd a pherchnogion cartrefi nad yw'n golygu ei bod yn rhaid defnyddio'r llysoedd.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the amended motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the amended motion is therefore agreed.

That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.39 p.m.  
The meeting ended at 5.39 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**  
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)